

Celt
5128
35.30

WIDENER LIBRARY



HX DCFW -

Celt
5128
35.30

HARVARD COLLEGE
LIBRARY




FROM THE FUND OF
FREDERICK ATHEARN LANE

OF NEW YORK

Class of 1849





7/5

Cyflwynedig gan ymrawdwr
ir

Wir Amihydedus Arglwyddes Hannover

"Gwenynen Gwent"

O gywir barch idi, o herwyd ei haidgarwch
âi newid trws y Cynry, a llemysiaeth fyneig.

Phag. 20 1872.

Antiquities of Llandegai and Llanllechid.

HYNAFIAETHAU

LLANDEGAI A LLANLLECHID.

GAN

HUGH DERFEL HUGHES,


PENDINAS, LLANDEGAI.

BETHESDA:

ARGRAPHWYD DROS YR AWDWR GAN R. JONES, YN SWYDDFA "YR ARDD."

MDCCCLXVI.

Copy 1-27-33



TAWI GANIATAD,

IR GWIR ANRHYDEDDUS ARLWYDD PENRHYN.

CERNOGWR llafur a diwydrwydd, addysg a chrefydd yn ein gwlad, yn nghyda phob achos daionus, â'r hwn hefyd sydd yn caru ein cenedl ni, ac yn cael ei garu ganddynt y cyflwynir y llyfr hwn o hên gofion perthynol i'w dref-tadaeth ef a'i deulu gan mwyaf.

Gan ei ufuddaf was,

YR AWDWR.

BY PERMISSION

TO THE RIGHT HONORABLE LORD PENRHYN.

THE promoter of industry, education, religion, and every good work in our country, who also loves our nation, and is beloved by it, is dedicated this book of antiquarian research relating, for the most part, to his property and family.

By his most obedient servant

THE AUTHOR.

AT Y DARLLENYDD.

GYFALL CAREDIG,

GYDA llonder mawr yr wyf yn cyflwyno i'th sylw y Cronicl hwn o hengoſion, er mwyn galw i'th gof "y dyddiau gynt, blynyddoedd yr hen oesoedd," fel wedi i ti ddarllen, a chymharu yr hyn a aeth heibio, â'r presenol, y tueddir di i ddywedyd gyda y bardd Lladinaidd.—

Ei chyfrif r'wy'n rhagorfraint imi
Yn yr oes hon im gael fy ngeni.

Llinell amlwg yn nghymeriad plant Israel, oedd eu bod hwy yn ysgrifenu hanes ymddygiad Duw tuaf atynt hwy, â'u hymddygiadau hwythau tuag ato Ef, ac at eu gilydd, ac felly i fod yr gyfrwng addysg i ni, fel y dilynem hwy yn yr hyn sydd dda, ac y gochelom eu dilyn yn yr hyn sydd ddrwg: ac o'r tu arall, llinell lawn mor amlwg yn nghymeriad ein henafiaid. oedd eu diofalwch i ysgrifenu pethau o'r fath, er colled anrhaethol i ni, eu plant. Wel, diwygiwn yn hyn, a bydded gan bob teulu, a gwlad, lyfr, yn cynwys y prif bethau a'u cyfarfu yn eu hoes a'u hamser, rhag ein bod yn debyg i anifeiliaid a ddifethir.

Sieryd rhai hynafiaethwyr am ein cenedl fel yn tarddu o waed hynarddaear ac am ein hiaith, fel caes i ieithoedd hyn: y byd; ac er eindyrchafu, pwyntiant fys at yr amser y cymerem yr *ymosoadol*; er ein bod heddyw, tan ddyllanwad Cristionogaeth a gwareiddiad, gydag amryw penhedloedd eraill. yn sefyll ar y *goddefol*. Ond mae llwybr arall mwy sylweddol y gellir ein anrhydeddu, sef fel cenedl yn fastr Duw, i'r rhai yr anfonodd ei Air yn fore, ac y cymerodd o honom bobl lawer i'w Enw, ac sydd erbyn hyn, yn cyfansoddi blaen y gâd yn myddin Iesu, ac yn ei Enw yn cymeryd meddiant o'r "etifeddiaethau anghyfaneddol."

Yr achos o fodolaeth y llyfr hwn sydd fel hyn.—Digwyddodd fod "Hynafiaethau," &c., yn un o destynau Cyfarfod Llenyddol Llandegai, lle yr oedd yn wyddfoddol y Parchedigion W. Morgan, Offeiriad y Plwyf; E. Stephen, Tan y marian; ydyd O. Jones, (gynt y Fanchester); yr hwn a roddai anogaeth i gyhoeddi y llyfr, gan ddyfod ei hun yn danysgrifwr am 5 copi, a dangosodd y gynulleidia eu cefnogaeth trwy godi dwylaw. Diangodd rhai gwallau ynddo, ond a ganfyddir ar unwaith gan lygaidd yr hynafiaethydd, y rhai dymunir arno fyned heibio iddynt hyd oni cheir ail argraphiad, yr hyn rid yw beth amhosibl, gan mai ychydig gano. dd a argraphwyd. Ond beth bynag am hyny, yr wyf yn sicr y byddai yn hawdd gan y darlennydd gyd-ddwyn â'r awdwr, pe gwyddai y llafur blin y bu ynddo yn ngorph y pum mlynedd diwedda, i'w ddwyn at eu gilydd, hyd yn nod fel y mae.

Dylwn hefyd ddywedyd, ddarford i mi gael cryn drafferth yn rhoi heibio yr ysgrifenu, wedi dechre, oblegid cefais yn iuan, iod fy ngwladgarwch yn is na'r croen, a bod fy mysgaroedd wedi cynhesu at fy nghyd genedl.

Nid oes yn yr ardal odid hen ŵr, na hen wraig, na llenor, na bum ar eu gofyn, ac yn mysg eraill, dymunwn gydnabod y Parch. O. Wynne Jones, (*Glasynys*); a Meistri O. Davies, (*Eos Llechid*); W. Jones, Maesmor House, Llangollen; a'u cydymaith ffyddlawn Mr. Elias Owen, yr Achub, am y darluniau o Gochwillan. Heblaw y gwyr hyn, dymunwn dalu fy niolchgarwch gwresocaf i'r Parchedigion H. Longueville Jones, Golygydd *Archaeologia Cambrensis*, i'r hwn mae ein cenedl ni hefyd mewn dyled; ac hefyd i'm cymydog dysgedig a gostyngedig, yr anrhydeddus Archdeacon Evans; yr hwn am cynorthwyai yn ewyllysgar, pa bryd bynag yr awn ar ei ofyn; ac yn enwedig felly, fy mrawd galluog, a chrassus, y Parch. O. Jones, (gynt o Fanchester); gan yr hwn y cefais gymorth pwysig gyda'r "Achau," a'i gyd-olygiad ffyddlon gyda phroffeni y llyfr. Fy niolchgarwch penaf hefyd i'r oll o'm Tanysgrifwyr lluosog, a chan obeithio yr elwant ryw beth a fyddo yn lles iddynt wrth ei ddarllen am eu henafiaid gwrol, y gorphwys eu hewyllysiwr da.

YR AWDWR.

Pendinas, Llandegai, Tachwedd 6, 1866.

Y CYNWYSIAD.

Aber Ogwen	15	Cyfnewidiadau mewn ystyr enwau	41
Amdiffynfeydd...	15	Cytiau crynion	45
Achau Twm Sion Catti	19	Crymlun	45
Afonydd Llandegai a Llanllechid	40	Ciltwillan	45
Arddu y Bryniau	47	Cwt crwn tanddaearol	46
Arfogaeith y Cyfnodolion	48	Carneddau	49
Amgylchiadau yn addfedu i dderbyniad		Carnedd Drystan	50, 53
Cristionogaeth	55	Carnedd Rhitta Gawr	50, 53
Aber Braint	64	Carnedd Idris	50
Ail agor Eglwys Sant Ann	87	Cladda mewn pot-au	51
Agwedd foesol y wlad o'r fl. 1700 hyd		Crefydd y cyfnodolion	51
1807...	89	Cwervla yn nghylch crefydd	54
Anamllder Biblau yn y wlad	90	Cyfarfod ar Gefn yr Orsudd	56
Annibyniaeth	92	Culair Keridwen	57
Afonyddu pregethwr	100	Cororion	61, 72
Amethyddiaeth diweddar	110	Cueto-ddeiliadaeth	63
Arddu 80 mlynedd yn ol	112	Corau	68
Arglwydd Penrhyn	122	Capel Llechid	69, 71
Achau y Penrhyn	136	Capel Ogwen	72
Achau y Murl	147	Cwynion Esob Banger	73
A nryw Enwogion	152	Cof-fynar Archesgob Williams	80
Bodfeio neu Bodfaon	11	Capel Curig	85
Brwydr y Dalar Hir	11	Chwedl am Curig	86
Bera	20	Chwedl am oferwr	91
Bodesi	29	Chwareuyddiaeth ein tadau	89
Bryn Gwydion	33	Campau Ceryg llwydion	89
Bedd Gwydion ap Don	33	Cvnydd Annibyniaeth	94
Brwydr Gwaen Gynfi	34	Chwedl am y Parchn. R. Bonner a D.	
Breiniau Gwyr Arfon	42	Gravel	117
Breuniau	46	Cist cyffyllog	113
Brwydr a'r Rhufeiniaid	48	Cystalleuaeth yr amaethwyr	115
Baal-addoliad	52	Cloddfa Cae braich y cafu	120
Bedd-adail y Penrhyn	78	Cario a chewyll	112
Bedyddwyr	98	Cloddfa y Ddol goch	128
Cyffiniau y plwyfi	9	Cloddfa y coed	128
Chwedl am Helyg ap Glanog	10	Cloddfa Pautdreiniog	129
Caer Penbryn marian	15	Cloddfa Tan y bwlech	129
Caer nant gareg goch	15	Cloddfa Bryn hafod y wern	129
Caer Ciltoden	16	Cyfanswm cyfrifon y llech gloddfeydd	
Caer Pen craig	17	am 1865	130
Carnedd Llewelyn	21	Cloddfa Ceryg hogi	130
Carnedd Ddafydd	23	Cochwillan	133
Craig Braich Ty du	24	Coet.nor	148
Cwm Iwal	27	Diffynglawdd Aber Ogwen	15
Cwm clud	29	Dal y Tywysog Dafydd	20
Carnedd y Filiast	31	Dol Ddafydd	20
Cuwedl am drysorau cuddiedig	35	Dienyddio y Tywysog Dafydd	21

Dringo Carnedd Llewelyn	22	Gwelliant Amaethyddol ..	113
Diarhebiion yr hen bobl ..	62	Gwaith Yellow ochre ..	131
Dyfodiad Cristionogaeth ...	68	Gwaith gwenwyn ..	131
Degwm Blith a Mâg Llandegai	74	Gwaith Crisiant ..	131
Dechreuad Annibyniaeth	93	Gwaith y main Cellt ..	131
Dr. George Lewis ...	93	Gwaith Copr ..	132
Duwiolion llafurus ...	100	Gwehelyth William Coetmor	152
Dechreuad yr Ysgol Sabbothol	103	Gruffydd Williams D. D. Plas Ofa	152
Dull yr hen bobl o gyfrif llechi	122	Gruffydd Williams (Gutyn Peris)	156
Diwygiadau mewn llechi ...	123	Helyg ap Glanog ..	10
Dull bywyd yn Nghoetmor	149	Janes y ddau borthmon ...	30
Eogiaid Afon Ogwen ..	41	Hin-fynag yr hen bobl ...	41
Enwau lleoedd ...	60	Hen ffyrdd Cymreig a Rhuteinig	43
Enwau tai ...	60	Hen eglwys y diphwys Graeandref	51
Enwau rhai o'r cyndrigolion	61	Harri yr wythfed yn ffafrioy Cymry	67
Eglwys Nant Ffrancan ...	71	Hen Eglwys Llanllechid ...	77
Eglwysi Ciltwillan a Llanerchyn	71	Hen bobl yn ymryson rheiddeg	90
Eglwys Bryn y Byrddau	72	Hanes dechreuad y Bedyddwyr	98
Enwau rhai o Rectoriaid Llandegai a		"Hob y deri dan do" ..	111
Llanllechid ...	75	Hen ddull o Amaethyddiaeth	112
Enwau Curataid Llanllechid...	76	Hanes teula Cochwillan ...	134
Eglwys Llandegai ...	78	Idwal a Dunawd ..	30
Elusenau Llandegai ..	81	Idris y Seronydd ..	53
Elusenau Llanllechid ...	82	Ithel Hael ...	69
Eglwys Sant Ann ...	86	John Llwyd ..	14
Eglwys y Gelli ...	89	John Williams, Felin isaf	99
Eglwys Glan Ogwen ...	89	Jones, Bathafarn, ..	105
Erlid Crefyddwyr ...	100	J. William Thomas (Arfonwyson)	157
Effaith Rhyfel Ffrainc ar fasnach y		Llys Helyg ..	10
llechi ...	117	Llewelyn ap Iorwerth yn gorchymyn	
Enwau cymerwyr prydlesau ar lech-		casglu yr anifeiliaid i Eryri ..	23
gloddfeydd y Fronllwyd ...	121	Llesgi Bangor gan y brenin John	23
Foty Lowri Galed ...	18	Llysieuath ..	25
Foty'r Famaeth ...	18	Llysieuath Cegin y cythraul	27
Ffynon y Llyffaint ...	22	Llofruddio Tudur ap Grono ..	31
Ffynon Llwgwy ...	23	Llechen Cyttolar ..	31
Ffynon y Lloer ...	24	Llynau Llandegai a Llanllechid	39
Ffynon y gragen ...	38	Llanerchlyn ..	45
Ffordd haiarn ...	38	Llechid ferch Ithel Hael, yn addysgu	
Gŵylfaau (<i>Watch Places</i>)	18	y Brython ..	69
Gwaen Gwys Mai ...	18	Lloffion o fynwent Llanllechid	77
Gweddillion anifeiliaidd yn y creigiau	26	Llinellau ar agoriad Eglwys St Ann	88
Gwaen Gynfi ...	32	Milwyr yn yspellio ar ol brwydr y	
Gormes y Gwyddelod ...	32	Dalar Hir ...	13
Gwydion ap Don ...	33	Mynyddoedd ...	17
Gruffydd Llwyd ...	37	Moelwynion ...	17
Goredau Aber cegin ..	43	Marchlyn Mawr a'r Marchlyn Bach	31
Gwyn ap Nudd ..	53	Meirig Llwyd o Nannau ...	37
Gweithred o werthu dynion ..	65	Molawd Ffynon y Gragen	38
Gwerth degwm plwyfi Llandegai a		Mynyddoedd yr Eryri yn noddfa	
Llanllechid ..	74	Cristnogaeth ...	71
Gweinidogion yr Annibynwyr	95	Mynwent Llandegai ..	80
Gwledd Bedydd ..	99	March-redegfeydd ...	89

Methodistiâid Calfn-idd ..	99	Tanau rhybydd ..	15
Madam Puw o Goetmor ...	150	Twm Sion Catti ..	18
Nant Heilyn, Brwydr yn y lle	14	Trefn y creigiau ..	26
Natur enwau y mynyddoedd ...	17	Tŵll Du, neu Gegin y Cythraul	27
Nant Ffrancôn ...	31	Tri gwyn Seronyddion Prydain	53
Newid yr Amseroedd ...	90	Taliesin ...	56, 59
Oliver Cromwel ..	12	Tegai, fab Ithel Hael ..	70
Ogo Rys ...	24	Tyddyn Dicwm (neu Ddegwm)	70
Ogo Evan Goch ...	29	Trethi Llandegai a Llanllechid	74
Owen Ty'n Twr ...	38	Trefi Degwm Llandegai a Llanllechid	74
Olion Cytiau Crynion ...	45	Tanysgraffell ..	88
Owen Glyndwrynyaludd a'r Saeson	66	Taflen Eglwysig ..	103
Pendinas ...	16	Taflen yr Ysgolion Dyddiol ..	110
Penardd Gron ...	16	Tair blynedd o brinder ..	116
Priodas Twm Sion Catti ...	19	Teulu Cochwillan ..	141
Pysgod a Physgota ...	42	Wigfawr ..	14
Prynu dynion ...	65	"Wy y beirdd" ..	52
Poblogaeth Llandegai a Llanllechid,	74	William Gruffydd o'r Penrhyn	65
Pris Biblau dri'gain mlynedd yn ol	90	Walter Gruffydd, (Gwallter Bach)	97
Parch. Arthur Jones, D. D. ..	90	William Jones, Abercaseg ..	104
Penau crynion ...	91	William Williams, Llandegai	154
Parch. Ilewelyn Samuel ...	96	Y Felin Fawr ..	13
"Priodas Fawr" ...	99	Yr Achub ...	15
Prinder pregethu Efeangyl ...	99	Y Twr, nen Lys Enfys Afon ..	16
Parch. Daniel Jones, Llandegai	101	Y Freinlen Fawr ..	23
Parch. Morris Jones, Jerusalem	102	Yr Ysgolion Duon ..	24
Pais Arfau y Penrhyn ...	133	Y Gludlar Fawr a'r Gludlar Fach	25
Pais Arfau Cochwillan ...	135	Y Fronllwyd ..	25
Pais Arfau Coetmor ...	149	Y Benglog ..	25
Rhiw Goch ...	15	Y Gynffodion ..	44
Rhys Goch Eryri ...	24	Y Cyfnod Caregog ..	49
Rhedyn ...	28	Y Cyfnod Efyddol ..	50
Rhyddid i Bysgota ...	42	Y Cyfnod Haiarnaid ..	50
Rhitta Gawr ...	54	Ymwrthod a Phabyddiaeth	69
Rhydderch Molwynog ...	72	Y Corbre ..	71
Robin o Gochwillan ...	141	Yr Hen Eglwys ..	72
Sefyllfa Ddaearyddol Llandegai a		Y Bibl ...	90
Llanllechid ..	9	Yr Ymneillduwyr ..	92
Syr John Owen ..	12	Ysgol Sabbothol y Perthi	95
Serigi Wyddel ...	33	Ysgol nos Tai Duon ..	95
Suetonius yn difa y Derwyddon	56	Ysgol Sabbothol Cae gwigin	103
Sus yn llenwi swydd Gymreig	73	Yr Ysgol Sabbothol ..	103
Sant Curig, neu Gurig Lwyd ..	85	Y Wesleyaid ..	105
Suliau Chwarel Goch ..	89	Ysgolion Dyddiol ..	109
Syniadau hen wr am newydd-deb		Y Llechi ...	119
pethau ...	91	Yr hen Ysgolion dyddiol ..	109
Saint y Dyddiau diweddaf	107	Yr Ysgolion presenol ..	110
Sychder mawr ..	116	Y gwahanol faintioli o Lechi	124
Traeth Lafan ..	9	Y gwahanol Oruchwylwyr ..	126
Tyno Helyg ..	10	Y Felin Fawr ...	127
Traddodiadau am Frwydr y Dalar Hir	13	Y Gymdeithas (Club), a'r Meddygdy	127
Tal y bont ..	14	Y Penrhyn ..	132

HYNAFIAETHAU, &c.

PENNOD I.

Y TIR-OLYGFYDD, A'U HANESION PERTHYNOL.

GORWEDDA plwyfi Llandegai a Llanllechid yn gyfochrog, mewn rhandir a elwid yn yr hen oesoedd, Llechwedd Uchaf, yn Arglwyddiaeth Arllechwedd, ac yn y de-ddwyrain o Fangor; eu rhanau uchaf i'r De, a'u godreuon i'r Gogledd, ac felly yn y Menai. Y mae y cyntaf yn 12 milltir o hyd wrth oddeutu $2\frac{1}{2}$ o led; a'r olaf yn 11 milltir o hyd, wrth oddeutu 3 o led; ac y mae Ogwen, yr hon a red allan o lyn o'r enw, yn cyfryngu rhyngddynt ar ei thaith i'r Menai.

Cyffinir arnynt o du y dwyrain gan Aber, Llanbedr, Caerhun, Trefriw, a Llanrhychwyn; ac y mae tri phlwyf, sef Ll. llechid, Ll. rhychwyn, a Ll. bedr, yn ymgysfardod ar "Faen tri chwmwd," ar ben Bwlch Cawlwyd, yn ymyl yr "Hen Ffordd." I'r Dê mae Ll. rhychwyn, Tre Wydir, a Beddgelert; ac y mae y tri yma eto yn taro ar eu gilydd, mewn ynys o dan y Dyffryn, yn Nantgwyd, sef Tre Wydir, Ll. degai, a Ll. rhychwyn. O du y Gorllewin iddynt y mae Llanberis, Llanddeiniolen, Pentir, a Bangor; ac y mae y ddau olaf yn nglyn a'u gilydd, a therfyna y Menai rhyngddynt a'r Gogledd.

Bellach ni wyr yr ysgrifenydd am well trefn i fyned yn mlaen, na myned i ryw le manteisiol, lle y gellir cael golwg ar y prif fynyddoedd, dyffrynoedd, llynau, a ffyrdiau y ddeublwy, gan nodi ambell lanerch hynod, ac adrodd ambell chwedl berthynol iddynt.

Yn awr, tybiwn ein bod yn myned i wared i gyfarfod a dieithriad, a chwenychant gael ychydig o hanes ein hardal, a'n bod yn cyfarfod a hwy ar bont Llandegai, ac yn sefyll yno a'n hwynebau i'r De; o ganlyniad dyma blwyf Ll. llechid ar ein haswy, a Ll. degai ar ein De; a ninau ar dafu ein golygon o'r traeth i'r mynyddoedd, ac i lawr o honynt lwythau yn ol i'r traeth.

Dechrauwn yn ngodre plwyf Ll. llechid. Oddi tanom i'r Dwyrain Gogledd, dyna Draeth Lafan; neu *Oer lefain* medd rhai, *Cyflafan* medd eraill; ond hwyrach wedi y cwbl mai *lofan* ydyw, am mai yma y claddwyd Llofan Llaw Difo, llofrudd y Tywysog Urien Rheged oedd yn byw yn y fed ganrif. Cyfeirir yn yr hen linellau hyn at fedd y llawruddiog;—

"Bedd Llofan Llaw Difo

Yn ar ro Venai yn y gwna tôn tolo."

sef,—Bedd Llofan Llaw Difo, yn ngro Menai. Lle y mantola (dychwel) ton.

ac felly tan anmharch gwyr ei wlad, a dyrnodiau trystiog y tonau, y dodid ei gelain; a dyma un o'r ffyrdd y cospid bradychwyr ein gwlad, gynt.

Dywed traddodiad mai rhwng y Penmaen, a Seiriol, a rhwng godre y plwyfi hyn ag Ynys Tudno, y gorweddai Tyno Helyg, trefdadaeth Helyg ap Glanog; a bod olion ei lys, sef Llys Helyg, neu Elis, yn wledig hyd heddyw, ac y mae L. Moris yn ei fôrleni wedi eu nodi yn fanwl.

Y mae hen wr o hendref Ll. llechid yn fyw heddyw yn dyweyd iddo fod yn ymdrochi lawer gwaith rhwng ei furddyn. Dywedir fod yno olion twr crwn, tebyg i'r un y mae hen bobl yn ei gofio wrth Goetmor, neu Llys Dinorwig. Fodd bynag y mae yn bosibl y cawn wybodaeth gywir am y lle cyn hir, oblegid y mae boneddigion yn ymweled a'r fan bob blwyddyn, ac yn barod bellach fe allai i gyhoeddi eu barn arno.

Dywed traddodiad mai pendefig annuwiol iawn oedd Helyg ap Glanog; "Na fynai mo'r cam, ac na wnaï mo'r uniawn;" ei fod yn draws at y neb y gallai; y treisiai etifeddiaethau gweddwon ac ymddifaid, i ehangu ei etifeddiaeth halogedig ei hun. Dywed y chwedl;—

Rhyw noson fel yr oedd efe yn rhodio yn mrig yr hwyr trwy y Tyno Helyg, clywai lais dieithr yn uchelderau yr awyr, yn gwaeddi uwch ei ben dair gwaith, "Daw dial! daw dial! daw dial! yr hyn ar y cyntaf a'i dychrynodd yn fawr, a pharhaodd i glywed y llais am flynyddoedd; ond yn lle edifarhau am ei weithredoedd, caledu a wnaeth, ac aeth o'r diwedd un tro yn ddigon caled i ofyn "Pa bryd y daw?" pan yr atebwyd ef "Yn amser dy blant, dy wyrion, dy orwyrion, a'h esgynyddion," aeth yntau cyn hir gan hyny i dybied, fod iddo ef amser yn dda, ac y byddai efe wedi myned ymaith cyn hyny. Ond ryw noson fel yr oedd gwledd fawr yn cael ei chynnal yn y Tyno Helyg ar ddydd genedigaeth un o hiliogaeth y gorhendaidd penwyn, canfu y forwyn wrth gyrchu dŵd-lyn o'r seler, y môr yn dod i mewn, throdd yn ei hol ar frys, a mynegodd i'w chariad sef y telynwr; pryd y ffoisant ymaith am eu bywyd, a chymaint o'r teulu ag a allai eu dilyn am ystlysau y Penmaen; o'r lle er eu mawr ofid, y gwelent ar doriad y dydd dranoeth, y môr wedi gorchuddio Tyno Helyg, a'r gwr traws, a nifer o'i deulu yn y dyfrllyd fedd.

Nid oedd odid aelwyd yn Ngogledd Cymru 80 mlynedd yn ôl, yn amser y Pilnôs, a'r Rholnôs, na chlywsant adrodd arnynt y Chwedl am Helyg ap Glanog. Bu yr ysgrifenydd wrth ystyried amwysedd yr enw uchod (Helyg mab Glan) bron a choelio nad oedd yr oll ond chwedl a drosglwyddwyd i ni i waered oddiwrth y Derwyddon, er cofio am.

"Y Diluw mawr mawr diwaelod
A fu, â'r achos o'i fod."

Pan y boddwyd trigfanau trawsder, er rhybudd i'r rhai a fyddent anuw-
iol; ac nad oedd yr enwau Tŷ-no, Tŷd-no, ac yn wir Gŷydd-no, ond
coffad tywyll am No, sef Noa ail dad dynolryw. Ond wedi ail ymholi, a
chael fod llawer o Draeth Lafanyn fawndir, a hwnw oddentu 2 lath o ddyfn
mewn manau, ac ynddo lawer o goed mawrion, derw, bedw, a chyll; ac
mewn manau ddyrneidiau o gnau gyda eu gilydd, fel gwedi eu casglu gan
ddwfr, ac mewn cadwraeth dda; ac nad yw y tywod a'u gorchuddia ond
rhyw 6 neu 8 modfedd o drwch, fe'i tueddir yn awr i gredu y posibl i'r

hanes fod yn wir; ac y gallasai sigl-ergyd o ddaeargryn effeithio tan-ym-suddiad, ac mai y pryd hwn, ond odid, y rhwygwyd y Llefn oddiwrth Moel Faban, ac y ffurfiwyd yr âgendor a elwir Bwlch yn Ylchi (llanerchi) sydd yn nghwr uchaf etifeddiaeth y Tyno Helyg, yr hwn erbyn hyn, a gyd-nab-yddir gan bawb yn waith daeargryn.

Yr oedd y ddaeargryn a deimlwyd yn y plwyfi hyn gyda manau eraill Tach. 10, 1852, oddeutu 4 o'r gloch yn y bore, yn dyfod o'r dwyrain, ac yn teithio i'r gorllewin: crynai colofnau y ddaear, ac yr oedd y tai ar y graig, yn cyfranogi yn helaethach o'r ysgydwad, na'r tai oeddynt ar y rhydd falurion; yn awr pahan nad allai dirgryniad cyffelyb, ac yn dyfod ar hyd yr un ogof dan-ddae-arol, suddo y Tyno Helyg; rhwygo Môn oddiwrth Arfon; a llyncu Cantre'r Gwaelod; a'u rhoddi yn etifeddiaeth i'r môr, megis y credir gan lawer?

Hefyd traddodir fod i Helyg ap Glanog 12 o feibion, y rhai ar ol yr ymweliad brawychus hwn, a ymgyflwynasant i'r Arglwydd; ac y mae yr un nifer o lanau yn gysegredig iddynt. Eu henwau oedd Gwynyn, Celynyn, Rhychwyn, Aelgyfarch, Brothen, Boda, Gwyar, Euryr y Coed Helyg, Bodfan, Bedwas, Brenda, a Peris; ac y mae enw Bodfan ar rai o wŷr glanau y Menai hyd heddyw, a chyfansoddodd Brenda rai llyfrau;

“Gwir a ddywaid Sant Brenda
Nid llai cyrchir y drwg na'r dâ.”

a Pheris a sylfaenodd Lan Beris, a Llangian, ac a fu meddir, yn Ben Urddol yn Rhufain.

Cymerodd y dinystr alaethus hwn le, yn ol barn amryw, tua chanol y 6ed ganrif. Y mae rhai o hen deulucedd yr ardal, yn olrhain eu hachau i fynu at Helyg ap Glanog.

Bel'ach gadawn y Traeth, a deuwn gam i fynu i hendref Llanllechid, cwr nesaf yr hwn i'r môr a elwid Bodfeio, a Bodfaon, medd traddodiad, ond a gollwyd yn amser “Y llanw mawr” oblegyd felly y geilw yr hen bobl y gorlifad.

Am fod plwyfi ein testyn yn gorwedd rhwng y *Deva* (Caerlleon, a'r Ddyfrdwyf,) a *Segontium* (Caer Seon, ger Caer yn Arfon,) fe fu gyda eu godreuo'n gryn dramwy gynt gan y byddinoedd Cymreig a llengoedd dur-beisiog Rhufain. Cadarnheir hyn gan y Tŵr pridd oedd yn Nhal y Bont yn gwylio Rhyd Ogwen, y modd y gwyliid Rhyd Aber, a Rhyd Tal y Cafn, gan eu tyrau hwythau. Yn y Tŵr neu y domen bridd oedd yn Nhal y Bont, caed gwrn Rufeinig, yr hon sydd yn nghadw heddyw yn y Penrhyn. Bu yma ar hyd yr hendref: lawer o helyntion, ond gadawn y cwbl er coffa am, gylchiad a gymerodd le ychydig ar ein chwith, ryw 218 o flynyddau yn ôl sef.

BRWYDR Y DALAR HIR.

Oherwydd yr anghydweliad a fu rhwng Charles I a'r Senedd, gan y dŷb uchel oedd gan y breinin am dano ei hun, heb gosio mai “Trwy gyfiawnder y sicrhair yr orseddfaingo,” ac y dylasai fod yn gareg ateb i *ddyuniadau rhesymol* ei ddeiliaid; te ddarfu i'w bobl ymfino yn ymresymu

ag ef, gan osod eu hunain am dymor beth bynag, o dan y deddfau hyny sydd yn llywodraethu bwystfilod y maes, yn hytrach na chreaduriaid rhesymol, yr hyn a arweiniodd i ryfel cartrefol dychrynlyd; ac wedi amryw ymgyffarfyddiadau gwaedlyd, trwy yr hyn y llwyr ddymchwelwyd plaid y brenin, fe osodwyd y wlad dan ofal y Werin-lywodraeth, Llywydd, yr hon oedd Olifer Cromwel, yr hwn a hanai o deulu Cymreig o Ddeheudir Cymru, a gyfenwid Williams.

Yr oedd dau o brif gestyll y wlad hon, Conwy a Chaernarfon, eisoes yn meddiant y Senedd, ac yr oedd gan ein cydwladwr John Williams, Arch-escob Yorc, yr hwn oedd newydd gael cryn gam oddiar law plaid y brenin, law drom yn cynorthwyo i ddwyn hyn oddiamgylch. Fodd bynag pan oedd heddwch mewn rhan wedi ei adferu, a phlaid y brenin wedi eu distewi, yr oedd yma rai o fonedd Cymru, yn Môn ac Arfon, yn methu yn glir a gweled hyny yn dëg; am hyny aethant i gyfamod a'u gilydd i wneyd un cynyg yn rhagor dros eu Penadur, a'r Penrhychwr yr ochr yma i'r Fenai, oedd y marchog Syr John Owen o'r Glynenuau. Fel yr oedd achos eu brenin yn myned yn fwy anobeithiol, yr oedd hyny yn peri iddynt hwy ffyrnigo yn fwy yn ei blaid.

Ar hyn dyma Syr John Owen yn tori ar yr heddwch yn Sir Gaernarfon, gan godi baner gwrthryfel unwaith eto, a chyda byddin o filwyr profedig, o wyr meirch a gwyr traed, gwarchaeodd ar gastell Caernarfon, pryd y darfu i William Llwyd o Blas hen yn Eifionydd, yr hwn oedd Sirydd am y flwyddyn hono, alw yn nghyd y cartrefu, ac ymdrech codi y gwarchae; Ond Syr John Owen a'i cyfarfu, ac wedi brwydr fer, gorthrechodd y cartrefu, a syrthiodd y Sirydd yn archolledig i'w ddwylaw.

Yr oedd y castell ar y pryd, dan lywyddiaeth y Milwriad Mytton dros y Senedd, ac yn ddigon diffygiol o warchodlu yr hyn o bosibl a wyddai Syr John yn dda; ond llwyddasant rywfodd i anfon i Gaerlleon, i ddyweyd eu perygl, ac ar unwaith, gorchymynwyd i'r Uchelwriad Twissleton, a'r Milwriad Carter fyned i fynu i amddiffyn y lle; y rhai a ddaethant hyd yn Nghonwy, ac ar y 10fed o Fedi 1648, cychwynasant tua Chaernarfon. Aeth rhai mewn cychod i fynu afon Menai, ac eraill tros y Penmaenmawr, ac yr oeddynt i gyfarfod yn Mangor.

Clywodd Syr John gyda hyn, eu bod yn dyfod i'w erbyn; ac ar unwaith gosododd ran o'i fyddin i warchae y castell, a chyda y rhan arall prysurodd i'w cyfarfod, gan ddwyn gydag ef y Sirydd clwyfedig ar elorfarch; ac ymgyffarfu y pleidiau gwrthwynebus a'u gilydd ar y Dalar hir, yn ngodre plwyf Llanllechid, ac ychydig i'r dwyrain o Landegai, yn agos i'r Wig, ar lan y Menai.

Syr John ar y cyntaf a ymddangosai drechaf, tra yr oedd yn ymladd ffyrnig o bob tu; ond trwy i'w wrthwynebwyr dderbyn adgyfnerthiad, fe drodd y dydd yn ei erbyn, ac ymgauodd ei elynion am dano; ac mewn ymdrech bersonol a'r Cadben Taylor efe a lusgwyd oddiar ei farch, ac a gymerwyd yn garcharor. Lladdwyd y Cadben Buckley, ac yn nghylch 30 o'r milwyr cyffredin, a chymerwyd oddeutu 100 yn garcharorion, a gorfu y gweddill o wry y pladuriau a'r pigffyrch ffoi, ac felly syrthiodd Gwynedd o dan ofal y Weriniaeth eilwaith.—*Golud yr Oes* Medi 1853.

Ystyrid y frwydr hon a'r fath bwysigrwydd yn perthyn iddi, fel pan

ddychwelodd y Cadben Taylor i fynegi i'r Senedd, y rhoddwyd iddo wobr o £200 allan o etifeddiaeth Syr John eu hun. *Gwladgarwr.*

Traddodiad.—Dywed Mrs. Elizabeth Jones, Tyddyn isa, yr hon sydd fyw heddyw, ddarfod i ôr hen nain iddi hi o'r enw Marsli, yn gweini yn y Cae mawr, pan ganfu filwyr y Senedd yn neshau, redeg i'r ty, ac i'r drysorgell, a chymeryd yr arian a'u cuddio yn y gadlas, ac yn mhen megis ysbaid tair awr, fod bwrdd wedi ei hulo iddynt ya union ar y lle cyn yr oedd yr arian, a Marsli yno yn gwasanaethu arnynt, ac yn ymddangos mor onest a neb.

Y mae cofion eto fod ugeiniau o ieuengetyd y plwyfi hyn yno, ac wedi ymarfogi a phigffyrch a phladuriau wedi eu hunioni, ac na ddychwelodd ond ychydig adref, yn mhlith pa rai yr oedd gorhendaidd Mr. Elias Williams o'r Bronydd, sef Owen William Pirs Rowlant, dychwelodd ef adref yn iach. Ni laddwyd meddir fwy na 23 i 25. Yr oedd eu ffosydd yn welledig yn ddiweddar.

Ceir ambell i belen magnel i fyny mor uchel a'r Bronydd; ac ar dir Plas Cfa, fe gaed un yn bwys a chwarter, oddeutu 18 modfedd yn y ddaear, yr hon sydd i'w gweled eto yn y Tyddyn isaf. Hefyd darfu i John Gruffydd ysw., o Landdyfnan, Môn, ganu cywydd pruddglwyfus ar y Bukley crybwylledig, yr hwn sydd yn holi ac yn ateb, ac a ymddangosodd yn y Gwylledydd, ac y mae yn dechreu fel hyn,—

Mae tonau a dagrau dwys
Môr du effaith mawr diffwys,
• • • môr o ddagrau
Meddygon y galon gau.

y mae y cyfansoddiad hwn yn 80 o linellau. Ymlidid ar ol y ffoedigion mor uchel a'r Bryn llwyd; a darfu i un o'r milwyr yru ei fidog trwy droed un o hynafiaid Mr. W. Jones, Clochyd y Gelli, a ymguddiai mewn llwyn.

Dranoeth neu dradwy ar ol y frwydr, aeth y milwyr ar hyd y wlad i ysbeilio, ac yn mhlith manau eraill fe aeth rhai o honynt trwy Dre'r Garth, a'r Felin hen, ac yn y lle olaf, darfu i un o honynt droi oddiwrth ei gyfeillion, i'r Tyddyn isaf, lle preswyliai Sion Evan Bach, gorhendaidd i Mr. Richard Parry, Tre'r garth.

Yr oedd y wraig yn sâl yn ei gwely ers gryn amser, ac yn analluog i symud; ac yr oedd ei gwr ar ei ddyfodiad, wedi rhedeg i'r Siamber i ymguddio; gyda hyn dyma y milwr i mewn, ac wedi deall mai yn ei gwely yr oedd y wraig, dyna ef yn gorchymyn iddi i godi mewn munud, i ddangos ei harian iddo ef; hithau yn llesg a dychrynedig, a grefai arno ei harbed, gan geisio dweyd yr achos o'i bod yno, "Na na, meddai y milwr," Dweyd celwydd yr wyt, ac wedi myned i orwedd ar dy arian, "cwyd mewn munud," ar hyn aeth hithau i riddfan; pan ar darawiad amrant y neidiodd ei gwr i fynu a chyda golchbren a darawodd y milwr i lawr; ar hyn dyna filwr wedyn i mewn, wrth glywed y twrf, ac wrth iddo yntau fyned i'r siamber tarawodd y gwr yntau; ac ar hyn dyma y 3ydd, y 4ydd, a'r 5med, y rhai a gyfarfuant a thriniaeth yr olchbren; ar hyn dyma y cymydogion yno, ac aeth yn gwflio cyffredinol, hyd onid oedd wyth neu naw ar lawr yn waed yr ael. Wedi hyn y aeth cymaint ag oedd yn fyw, ac mewn gallu, i Fangor i gyfarfod a'r llynges gychod; ac ar y 15fed o'r un mis, aethant drosodd i Fôn,

ac wedi amryw frwy Irau, cymerasant dref a chastell Beaumaris, a chostio-ld i drigolion Môn ymostwng a thalu miloedd o buau o iawn.—*Golud yr Oes*, Medi, 1862, eto 1863.

Yr oedd yr ystorm hon a gyfodwyd oddiwrth y Brenin a'r senedd, wedi gwneyd i rai o'r Esgobion ffoi am nawdd i fynyddoedd Eryri. Daeth yr Esgob Goodman i ymguddio i'r Ty Du, Llanberis, a Gruffydd Williams a adawodd Esgobaeth Osorry, yn Iwerddon, ac a ddaeth i'w etifeddiaeth i Plas Ofa; ac os nad ydym yn camsynied, fe fu John Williams, Archesgob Iork, tua yr un amser yn ymguddio yn Ty'n Tŵr, yr hwn hyd heddyw a elwir yn "Hen dy John Iork," a byddai y diweddar Barchedig Ddeon Cotton, Bangor, yn cymeryd pleser a dyddordeb mawr o ddangos ei dŷ a'i ystafell wely.

Yn awr gadawn helynt brwydr y Dalar hir, a Glan y Mor, ac edrychwn tua godreu y mynydd ar ei chyfer. lle mae

NANT HEILYN, lle, medd traddodiad, y bu brwydr dost rhwng y Cymry a'r Saeson, ac y bu saethau yn ehedeg o'r naill fryn un tu i'r nant, hyd y bryn y tu arall. Islaw i lanerchau y frwydr, y mae lle o'r enw "Bryndadieu," y man y buont yn cytuno. Y mae dau le eraill o'r enw, un o'r tu isaf i Gonwy, a'r llall rhwng Bangor a Chaernarfon, a chyffelyb goffa am frwydrau yn eu canlyn hwythan. Sonia Caradog o Lancarfan am frwydr a ymladdwyd rhwng Rhodri Molwynog a'r Saeson, yn Nant Heilyn, yn Nghernyw, pan yr ymddengys i ni mai y frwydr hon yn Nant Heilyn, yn Ngwynedd, o bosibl ydyw, pryd y trechwyd y Saeson; hefyd, am fod Rhodri yn byw yn y Penrhyn, y mae hyn yn debycach etto.

Yr oedd yn yr hendref hon ychydig dai o nôd, fel y mae etto, megys Tai'r Meibion, yr hwn gynt a enwid "Llety'r Ewig," ac yno y preswyliai Arthur Benwyn, cyfaill mynweol Pirs Gruffydd o'r Penrhyn. Delir y lle yn awr gan Humphrey Ellis, Ysw., gynt o'r Cefnfaes.

WIGFAWR, yma yn 1603, y preswyliai Simon Williams, yr hwn oedd Sirydd dros Sir Gaernarfon, tan Iago I.; ac o tan y Weriniaeth, yn 1649 cawn Edward Williams yn yr un swydd.—*Cam. Reg.* 1796, *Vol.* II,

Sonid cryn lawer yn nechreu y ganrif bresenol am orchestion John Llwyd, perchenog y lle. Un o ba rai oedd ieuo chwe' iau o ychain, eu harwain i'r maes at bren byw, ac wedi rhoddi tid fawr am dano, ei lusgo o'r gwraidd, ac i'r buarth ag ef, er mwyn cael "Cyff Nadolig." Gwnai hyn y boreu, pan y byddai y bobl yn y plygain.

Yr oedd mab iddo yn Feddyg yn y Llynges, yn amser Nelson. Gronwy Williams, Offeiriad, a briododd ei ferch, ac felly daeth yn feddianol ar y lle, ac a'i gwerthodd i'r Penrhyn. Delir y fan yn awr gan John Atkinson, Ysw,

TALYBONT, bu y Tywysog Llewelyn ab Gruffydd yn ysgrifenu llythyr, a'i amseru yn "Talybont, y 6ed o Hydref, 1275," ac y mae ynddo yn galw ei hun yn "Oywysog Cymru ac Arglwydd Eryri," ac anfonai ef gydag Abadau Ystradflur ac Aber Conwy, at Gyngor Edward I, yn hysbysu ei resymau yn erbyn myned i wriogaethu i'r Brenhin, yr hyn a ddilynwyd gan lawer o lythytiau eraill, wrth ddarllen y rhai y mae pawb yn cydymdeimlo ag achos y Tywysog Cymreig, yr hwn yn mhen saith mlynedd a laddwyd, pan y colodd y Cymry eu tir a'u Coron.—*Han. Cym. t.d.* 694.

ABEROGWEN hefyd oedd hynod fel lle y dadlwythid o'r cewyll ac y llwythid i'r llongau, lechi y Fronllwyd, 300 mlynedd yn ol. Yr oedd hên wely yr Ogwen yn myned trwy "Lyn Celanedd" ac heibio y drws, ac yn y fan hon yr amaethid gwelyau wystrys gynt. Hugh Hughes, Ysw., sydd yn byw yno yn bresenol.

Yn awr gadawn y pethau hyn, i fwrw golwg ar yr Amddiffynfeydd, sef y caerau, y rhai yn ol y Parch. O. Jones, ydynt oddeutu 35 i 40 mewn nifer, o Gonwy, i'r Eifi, ac a gwblhaent o du y Deau, linell ymddiffynol y Menai. Ac er nad yw lled y ddau blwyf ond yn nghylch $5\frac{1}{2}$ o filltircedd, cawn o'u mewn gynifer a naw o'r cyfryw olion; ac y maent, oddieithr mewn un neu ddau o leoedd, yn sefyll ar fân fryniau, rhwng y mynydd-dir a'r hendref.

Y mae yn amheus a oes lathen o'r hendref hon, ar nad yw wedi ei lliwio a gwaed, neu a oes ynddi lanerch, heb ei thromlwytho a gruddfanau, ond a guddiwyd o'n golwg ni gan fantelli tywyllwch y canol oesoedd, ac a lapiwyd i fyny, i farn y dydd mawr!

Cyneuid tanau yn y nos, mewn amser o berygl, ar ben y caerau hyn, (oblegid yr oeddynt bron oll yn ngolwg eu gilydd, a'r wlad;) yn arwydd iddynt ymgasglu at eu gilydd i ymgynori. Cychwynid y tanio yn Mhen chwintan (pen-cychwyn-tân) yn agos i Fangor.

Cymerwyd y caerau hyn oll meddir, gan Dafydd ac Owen, brodyr y Tywysog Llewelyn, y rhai a ryfelsant yn erbyn eu brawd; ac ar ol iddynt golli y dydd rhoddwyd y ddau yn Nghastell Dolbadarn, y lle bu yr olaf garcharor am flynyddoedd lawer.

Ar ol hyny, y mae yn debyg iddynt gael eu hadgyweirio; ond ar ol Cwmp Llewelyn yn Muallt yn 1282, syrthiodd y cwbl o'r bron i ddwyllaw Edward I yr hwn a anfonai fyddinoedd cryflon i fyny i'r cymoedd, gan ladd pawb a'u cyfarfyddai; ac ar ol iddynt fod yn ein gwlad yn treisio, lladrata, a chrogi am oddeutu tair blynedd, dychwelodd Edward i Lundain gydag yspail fawr,—Ond i ddechreu;

1. **Y DIFFYNGLAUDD WRTH ABER OGWEN**, yr hwn a wyliai geg yr afon, yn agos i "Lyn Celanedd."—Gwel *Pennant Vol. II, part 2., Page 311.*

PENBRYN-MARIAN, mesura y gaer hon 28 o gamrau bob ffordd, ac felly yn gron. Y mae o fewn iddi, ôl dau o gytiau hir-grynon. Cariwyd ei mur-glawdd ceryg, yr hwn a fesurai oddeutu 5 llath o drwch, i wneyd gwaliau o amgylch y goedwig sydd yn y lle yn awr. Ymddengys fod mur-glawdd allanol yn ymddiffyn y cwbl o'r bryn gynt, ol yr hwn a welir eto o'r tu gogledd, er nad ellir ei ddilyn fwy na 49 o latheni. Cafodd y gwr sydd yn dal Penybryn yn bresenol, ddwy freuan yn ymyl y Gaer, ychydig fwyddi yn ol.

3. **RHIW GOCH**: Y mae hon yn 63 o gamrau un ffordd o fewn, ac yn 37 ffordd arall, ac felly yn hirgron. Difuriwyd hon fel yr oll bron yn y blynyddoedd diweddaf, i wneyd y fagwyr geryg o amgylch ei choedwig.

4. **CAER NANT GAREG GOCH**, a elwid hefyd yn ol rhai, yn Gaer Owen Goch, Caer rudd, a'r Achub; am yr anfonai ein hynafiaid eu gwragedd a'u mabanod a'u hanifeiliaid i fyny tu a'r caerau hyn, wrth Foel-faban a Moelwynion i'w HACHUB, ar ymddangosiad llynges ladronllyd yn

yn y Menai. Mae y gaer oddifewn yn 40 o gamrau un ffordd, ac yn 30 ffordd arall, a'i muriau maluriedig yn amryw latheni o drwch. Y mae ei safle oddiar Caellwyngrydd.

Yn awr ni a soniwn am dair amddiffynfa a wylent agoriad Nant Francon.—

5. CAER. CILFODEN (hâfod-en, neu hen, neu Owen), sydd ar du dwyrain i Fethesda, ac yn ymyl tyddyn o'r enw, yn yr hwn, medd traddodiad, y preswyliai boneddwr o deitl Iarll ryw amser. Mesura oddifewn 55 o gamrau un ffordd; a 47 ffordd arall, ac y mae eto yn amgylchedig gan fagwyr gref; yr hon a adeiladwyd ar gynsail yr hen gaer, trwch yr hon oedd oddeutu 2 lath. Gwasanaetha heddyw yn gorlan defaid, ac y mae grynïau ôl yr aradr ynddi. Traddodir mai ceiniog yn y dydd, ac mai lledr oedd hono, oedd cyflog dyn am ddiwrnod o waith, pan wnaed rhyw gyfran o'r Gaer hon.

6. Y TWR: Safai hwn ar glogwyn o graig rhwng shop Mr. D. Thomas, Pont y Twr, a Thy'n Twr, ac yr oedd ychydig o hono yn aros oddeutu 80 neu 100 mlynedd yn ol, fel y dywed hen ysgrif sydd yn meddiant yr ysgrifenydd; ac fe ddywed yn mhellach mai er coffa am dano, y codwyd ty, a mur llydan ychydig oddiwrtho i'r gorllewin, ac a alwyd yn "Gastell" gan Arglwyddes Penrhyn. Gelwid y tŵr hwn yn chwyddiaith y Beirdd, yn Llys enfys afon, ac mae ar lan yr Ogwen; ac yn Llŷs Don, am mai Don neu Wydion ab Don a'i cododd, rywbryd o'r 4ydd i'r 5med ganrif. (Gwel ei hanes mewn cwr arall.—*Mynyrian Arch*, t. d. 57.)

Yr ydym yn awr yn croesi Ogwen am blwyf Llandegai.

7. PENDINAS a saif ar fryn wrth ystlys orllewinol Ogwen, a diau ei bod yn un o'r lleoedd cadarnaf yn Arfon. Y mae ei ffurf yn driongl, a mesura yn nghylch 207 o gamrau un ffordd, ac oddeutu 87 ffordd arall yn ei man lletaf. Amddiffynid y lle gan natur, a gorphenwyd ef gan gelfyddyd. Yr oedd ei mur-glawdd yn y llewin-ogledd yn 6 llath o led; ac o'r tu dwyrain iddi, y mae diphwys serth oddeutu 150 i 200 o latheni, yn ymlithro i'r Ogwen; ac amddiffynid y ddau ben arall a magwyr geryg yn 5 neu 6 llath o led. Cafwyd yma wrth arloesi, lochesau, yn cynwys pentyrau o haiarn, mewn cyflwr mor ddrwg na wyddid pa beth a wnaed ag ef; er y tybid mai blaenau picellau oedd; yn nghyda chnewylloedd ceryg haiarn heb eu toddi: a sinidr neu ologion, yn dangos iddo fod yn cael ei doddi yma. Gwelwyd gael yma fodrwyau melynion, tebyg i dŷrch a wisgid am arddyrnau: yn nghyd âg urnau o grasiad gwael, yn cynwys esgryn a lludw. Yr oedd ty mawr yn ei chanol gynt a elwid Castell, sylfeini pa un a saethwyd i wneyd ysgubor, beudy, a thŷ sydd ar ei henw.

Treiglwyd ei meini mewn rhyw oes i'r Ogwen, a gwasgar eraill tu a'r gorllewin a roddes o bosibl yr enw o "Geryg llwydion" i gyfres o dai yn ymyl. Gani Wydion ap Don fyw yn y Twr, yn gystal ac yn Ngwardodog, dichon mai yma y diogelai ran o'i "Fual Fawr" mewn amser o berygl; ac os adgyweiriodd beth arni, gallasai fod ar ei enw am dymor, ac mai hi oedd hen Gaer Gwydion y chwedlau, megis y Gaer arall sydd yn yr wybr ar ei enw.—Gwel. *Obs., on the Snowd. Mount.*

8. PENARDD (garth) GRON, a saif ar ychydig godiad tir, rhwng Ty'n lon a Bryntwrw, mesurai o fewn yn nghylch 40 o gamrau un ffordd, a 32, ffordd

arall. Diffynid y lle hwn gan furlawdd llorweddog yn amryw latheni odrwch yn ei waelod, yr hwn a gariwyd ymaith i wneyd gwaliau i'r maesydd cyfagos, yn ein hamser ni, a chloddwyd y gaer i fynu, i enill ychwaneg o dir llafur. Cyrchid yma ar y suliau yn yr hen amser i ddawnsio yn dwmpathau, ymladd ceiliogod, a chwffio &c. Yr oedd carnedd fawr o geryg unwaith i'r llewin ogledd o honi, ac amryw chwedlau yn ei chylch, yn yr hon pan ei hagarwyd y caed cist faen, pot, ac un freuan. Y mae chwedlau am ysbrydion, ogfeydd, ac arian, a phethau anhygoel yn nglyn a'r gaer hon.

9. CAER PEN CRAIG a saif ar fryncyn rhwng Ffynon yr Euruch, a Thy'n y Caeau, ac yn ymyl yr olaf. A dyna yn fyr hanes y caerau.

Os oedd Môn ar hyd ystlys y Menai yn hynod am allorau Derwyddol, ac olion crefyddol, yr oedd Arfon fel y gwelir ar hyd ei hystlys gyferbyniol, yn hynod am olion darbodaeth ryfelgar; a rhaid fod y dyn oedd dan ddylanwad y naill neu y llall, a'i "drueni yn fawr arno."

Ar Heilyn, trydydd mab Cynfrig, brawd Ednyfed Fychan, yr oedd gwyl-iadwriaeth y caerau hyn; O.C. 1230, o'r Penmaenmawr, Caer Gogyrfan, a Chaer Owen Gôch, hyd at Maen Melyn, Lleyn. Ac un arall o'r teulu, sef Heilyn ab Syr Tudur ab Ednyfed Fychan, yn mhen 51 o flynyddau wedi'n, a losgodd yn ulw y coedydd o Aber hyd at ystlys Ogwen, ffordd deuai Edward I. a'i fyddinoedd heibio am Gaerynafon, rhag iddynt fod yn un nawdd i'r gelyn.—*Llythyrâu Wmffre Dafydd.*

PENNOD II.

Y MYNYDDOEDD.

Y Carneddau mawrion acw yn y gorwel, ydynt gymmalau yn y gyfres hono sydd yn cyfansoddi asgwrn cefn "Mynyddoedd Eryri;" y rha! sydd yn nghylch 38 o filltiroedd o hyd, ac yn cyrhaedd o Gcnwy i'r Eifl; ac a sugnant atynt gymylan yr awyr er mwyn gwneyd iddynt dalu y doll, y modd y sugna y ffôs a dyner trwy weirglawdd, y dwfr ati ei hun; ac a fuont fforestydd hela i Dywysogion Cymru hyd oni unwyd Cymru a Lloegr; a pharhant felly hyd heddyw. Bu mynydd Ll. llechid yn gryn destyn cynen, a pheth ymgyfreithio rhwng cymydogion a'u gilydd yn y 40 mlynedd diweddaf, yr hyn y gallasai doethineb y Goron yn hawdd ei ragflaenu.

NATUR EU HENWAU: Benthyciant weithiau eu henwau oddiwrth ranau corph dyn;—megis pen, cefn, braich, bron, &c. Galwyd y Moelydd felly oddiwrth benfoledd gwr. Fel y mae pen hen wr, neu yn hytrach y coryn, heb wallt, yn llwm a moel, felly y cafodd ein tadau gopa ambell fryncyn yn llwm, ond yn feddianol ar gylch o goed gyda ei waelod, a galwent fryncyn fel hyn yn FOEL. Bellach dechreuwn fanylu ychydig.

Y bryn isaf ar ein clwith, a chan llyfned ag wy, yw Moelwynion, (wyn), tros yr hon gynt yr oedd haen o sawndir yn orchuddiedig a grŵg, cyn i'r tân mawr, yr hwn a barhaodd am flyyddyn, ac o fewn côf gwr, ei ddifa; a'r bryn pica sydd yn ei hymyl, ond yn nes i'r dê, yw y Gyrn; ar

hon hefyd, o fewn cof, yr oedd haen o fawndir llathen o dew, lle byddai llys rhagorol; ond heddyw y mae bron wedi ei olchi ymaith gan ystormydd; a'r bryn bychan nesaf yn ymestyn i'r gorllewin yw y Llefni; a'r nesaf yn yr un cyfeiriad yw Moel Faban; a rhwng y ddwy y mae y daeardor a goffawyd eisoes, sef Bwlch yn Ylchi.

GŴYLFAAU : Ar y foel gyntaf yn gystal a'r olaf, cawn olion o wylfaau, (*Watch places*,) megis ag y ceir ar Foelyci ar eu cyfer, ac yn wir, ar Garnedd Llewelyn a Charnedd Dafydd, y rhai gynt a wasanaethent i'r cyffelyb ddyben a ag wna y gwefr-hysbysydd yn ein hamser ni, ac a roddant i ni gip olwg ar ansawdd cymdeithas yn yr hen oesoedd, pan oedd gwledydd yn ofni difrodiadau, ac yn gwylio naill y llall. Cynwys rhai o honynt gannoedd o dunelli o geryg, a dichon mai Carneddau oedd amryw o honynt ar y dechreu. Yn awr dychwelwn at y Gyrn, a chawn gefnen arall i'r tu draw iddi, ac yn ymestyn i'r gorllewin eto, tan yr enwau. Bwlch Tros y Ceffyl, Cyrn Wiga, a'r Mynydd Moel, ac a derfyna yn y Garth; a rhwng y ddwy gefnen uchod y mae gwaendir a adwaenir wrth yr enw

GWAEN-GWYS-MAI, ac y mae genym ddau hanesyn i'w hadrodd yma. I'r lle hwn, tua dyddiau Cromwell, yr anfonodd Lowri Jones, o Sychnant, ei buches, lle meddir, y gwnaeth ystôr dda o gaws ac ymenyn, ac y mae "Foty Lowri Galed," a'i flynon yn cadw ei henw hyd heddyw. Yr oedd i'r wraig hono gynheddfau meddwl rhagorol, yr oedd yn feddygwraig a bydwraig enwog, a chymaint oedd ei llwyddiant yn y gelfyddyd feddygol, fel yr haerai y werin ei bod mewn cyfrinach a'r cythraul, yr hyn hefyd a gredient am bob llenor, yn gystal ag am yr hen Gymraes ragorol hon.

Ergyd gwn yn uwch i tyny, ac yn nes i'r de-ddwyrain, ar lân y Ffrydlas, cawn le hynod arall o'r enw "Foty'r Famaeth," am mai yma medd unol draddodiad yr ardal, y ganwyd yr yspeillydd mawr, Twm Siôn Catti; a chan iddo droi yn ddyn da at ddiwedd ei oes, byddai yn resyn peidio ei goffa; ac hefyd am y teifi beth goleu ar ansawdd cymdeithas y dyddiau hynny. Yr amgylchiadau ydynt fel hyn:—Prifiodd Catti Jones yn feichiog o John Wyn, ac i guddio y gwarth, anfonwyd hi dros y mynydd ar gefyl, a'r gwas yn ei dywys i fyned i Wig, lle a berthynai mewn rhan i Wydir y pryd hwnw, ac yn mhell ar ol hyny; fodd bynag, ar y mynydd daeth gwewyr esgor ar Catti Jones, a throi a wnaethant i Foty'r Famaeth, lle ganwyd y bachgen a drodd allan yn Ismael Cymreig; ac arno lawer o nod y *dinod* man, a'r gwylltred yr anadlodd arno gyntaf. Thomas y gelwid ef, gyda y cyfenwau John a Catti, er coffa am ei dad a'i fam. Bu fyw wedi hyny yn Nghlwt y Myrddyn, lle y mae godreu Cloddfa y Cae arno, a'r man a feddianid cyn hyny gan Turpin, ond yr oedd gweithredoedd Twm yn tafu yr eiddo hwnw i'r cysgod. O'r diwedd rhag cywilydd a rhag iddo syrthio yn aberth i'r gyfraith, llwythwyd ei fam ac yntau a rhoddion gan deulu Gwydir, ac anfonwyd ef i Dregaron, lle bu ei enw yn ddychryn ac a swyd am gryn amser.

Dywedir iddo gael addysg dda, ac rywfodd syrthiodd merch Ystradffin ac yntau mewn cariad at eu gilydd; yr hyn pan wybu ei rhieni, a gyffrodd eu digofaint, gan roddi eu merch tan berygl na chyfeillachai, ac na siaradai a'r fath ddyn. Aeth Twm i edrych am dani ryw noson, ac er ei fawr siomedigaeth, dywedodd y ferch nad allai gyfeillachu dim ych-

waneg ag ef, ac mai hwn oedd y tro olaf iddynt siarad a'u gilydd. Wedi iddo yntau ddeall mai fel hyn y roedd pethau yn bod, gofynodd iddi, "A wnai hi ynte ysgwyd llaw o ffarwel." ? yr hyn a wnaeth hithau, gan ei hes-tyn trwy y ffenestr iddo Ond gafaelodd y carwr ynddi megis â gefail gôf, a dywedodd, "Wel, os ydym i ymadael, y mae yn rhaid i mi gael y fraich hon i goffio am danoch," ac fel hyn gwnaeth iddi ddod allan ato drwy y ffenestr y noson hono, a phriodwyd hwy dranoeth, a daethant yn ol yn fuan i Ystradffin yn wr ac yn wraig ; ac yr oedd ei dad a'i fam-yn-nghyfraith yn alluog yn y byd, a chlywsant yr hanes, ac erbyn i Twm a'i wraig ddod i'r tŷ, edrychent can ddued a mawn arno, ac ni allent feddwl am wneyd dim âg ef. Ffodd ei fam yn-nghyfraith o'r gegin i'r parlwr, ond arhosodd yr hen wr ychydig yn ôl.

Pan welodd y gwr ieuanc eu bod yn methu edrych arno, ac wedi colli eu parabl, dywedodd wrth ei dad-yn-nghyfraith;—"Wel" meddai "chwi a wyddoch mae yn debyg ein bod wedi priodi, ac yn awr, os edrychweh arnom yn y bwch hwn; myfi o hyn allan a fyddaf yn ddyn newydd, ond os nad edrychweh arnom, a gadael i ni fyw gyd a chwi, dichon na chewech mo'r cyayg yn rhagor." Panglywodd yr hen wr yr ymadrodd hwn, aeth yntau ar ol yr hen wraig i'r parlwr a dywedodd. "Wyddost di beth, y mae y dyn yna yn siarad yn gall iawn, ac y mae ynddo rywbeth mwy nag sydd mewn dynion yn gyffredin. Ai ni fyddai yn well i ni adael iddynt gael byw gyda ni rhag digwydd rhywbeth a fo gwaeth?" Sut bynag ar ol hir ymwrandaw â theimladau eu gilydd, caniatawyd iddynt gael byw gyda hwy, a chadwodd Twm ei air, a throdd yn ddyn arall. Ymroddodd i ddaioni; dringodd i fod yn Ustus Heddwch, a bu yn ofn i weithredoedd drwg. Ymddisfyrai mewn olrhain achau, casglodd y Trioedd Cymreig, ac efe cyn diwedd ei oes, oedd yr hyglod Thomas Johns, Porth y Fynwent, Tregaron.

Yn awr dichon mai gwell coffa am awdurdod arall sydd yn gwahaniaethu oddiwrthym am ei dad, ond yn cydnabod sylwedd yr hanes; ac fel hyn yr ysgrifenydd. "Mab ordderch i John ab Dafydd, ab Madog, ab Rhys Moethau, ab Gruffydd, ab Llewelyn Foethus, ab Rhydderch, ab Ieuan Llwyd, o Barc Rhydderch yn Nglyn Aeron.—O Catrin, bastarddferch i Meredydd ab Ieuan, ab Robert, o Benaman, Dolyddelen, a Gŵydir, ger Llanrwst, oedd Thomas Johns, o Borth y Fynwent, Tregaron, Ceredigion, yr hwn a gyfenwyd "*Twm Sion Catti*," *Lewis Dwn. Cyf. I. t. d. 46.*

Dywed yr un Oracl eto;—"Y Meredydd ab Ifan, ab Robert, uchod oedd dad i Sion Wynn, tad Moris Wynn, tad Syr John Wynn, o Wydir; ac yr oedd y teulu hyn yn disgyn yn llinachol o Rodri ab Owen Gwynedd." Eto "Y Meredydd ab Ifan, ab Robert, uchod, a briododd Als, ferch William ab Gruffydd, ab Robert Gruffydd, ab Gwilym, ab Gruffydd, ab Heilyn, ab Syr Tudno, ab Ednyfed Fychan."

Daliwyd y drych hwn yn lled hir o flaen yr wyneb i ddangos fel y cyn-orthwyr penderfyniad gonest, tuag at ddod i fynu drachefn o laid llygred-igaeth; ac yn lle chwerthin am benau ein tadau, dylem resynu at eu tostur gyflwr. Coffeir am y dyn hwn gan y Parchedigion David Peters, Thomas Price (Carnhuanawe), a'r Dr. J. D. Rhys, ac ysgrifennodd boneddwr arall lyfr o hanes direidi ieuengctyd Thomas.

Bellach gadawn y gefnen grybwylledig, ac edrychwn i fyny yn mhellach at un arall sydd yn rhedeg yn union i'r Dê, ac i Garnedd Llewelyn; rhanau o'r hon a lwaenir wrth yrenwau, Y Bera, Y Trwsgwl, neu *tros-col* Mawr a'r Trwsgwl Bach; yn nghyd â'r Aryg (o'r arddawd *ar*, sef cefn tir,) ond ni chawn amser i wneyd sylw ychwanegol arnynt, gan hyny trown yn ol i'r;

BERA, ac y mae dau le o'r enw, yn ymyl ac yn ngolwg eu gilydd; y Bera Bach yn Mhlwyf Ll. llechid, a'r Bera Mawr yn Mhlwyf Aber. Clogwyni craig ydynt, a chan eu bod ar ffurf Bera neu Byramid, gelwyd hwy ar yr enw: ac y mae y lle yn hynol am mair yn Ngwaen y Bera Mawr y daliwyd yr anffodus Dywysog Dafydd ab Gruffydd; ac er nad yw o fewn maes ein testyn, y mae yn ymyl, a goddefer i ni roddi cam o'n ffordd i fyned ar ol Tywysog.

DAL Y TYWYSOG DAFYDD. Yr amgylchiadau sydd debyg i hyn,—Ar ol i'r byddinocodd Seisnigddylio tros y wlad, ac i Ddafydd orfod cilio o Gastell y Bera, (Castell Dolbadarn ger Llanberis) gydag ychydig wyr i'r cymoedd a'r bryniau, ymddengys iddo fod yn gwersyllu yn Ngheryg Henllys yn ochr ddwyreiniol Pant yr ychain yn ngodre Carnedd Ddafydd, a dynodir eto linell ei wersylliad gan olion ambell gwt crwn, y rhai a gyhaeddant o Geryg Henllys ar draws Pant yr Ychain, hyd Fwlch anela ar gefn yr Orsedd, o'r lle y deuai i lawr i Llain y Pebyll ar lan Ogwen, ar dir Coetmor, ac o'r tu isaf i Fethesda, i ddysgu bechgyn Eryri mewn ymarferion milwraidd; ac y mae y lle yn cael ei alw hyd heddyw yn "Ddol Ddafydd" ar yr hon ryw 55 o flynyddoedd yn ol, yr oedd tair o Golofnau, ac ar ben pob un, yr oedd modrwy haiarn, a elwid dyrntol, lle y sicrhaid y babell, ond Llain y Pebyll, meddir, oedd enw y fan cyn hyny. Yna, gan hyny, y dysgai y tywysog yr ieuentyd i drin y saeth a'r bicell, tra y diogelai ei deulu, yn ngodre y Garnedd sydd ar ei enw.

Er mor anhebyg oedd y Tywysog i lwyddlo, daliodd ei dir yn wrol, a gwnaeth i bob llathien a ddygid oddiarno, gostio yn ddrud i'w elynion. O'r diwedd, wedi hir warchae yr Eryri, ac atal adgyfnerthion i'r fyddin Gymreig, gorfu i'r ychydig roddi lle i'r llawws, yr hyn oedd debyg i doriad argae; a daeth y gelyn i mewn fel afon, a chymrodd feddiant o'r holl wlad o hendref i fynydd, a bu Dafydd o hyny allan yn ffoadur crwydredig, efe a'i deulu, yn y gellioedd a'r corsydd; a chan fod Llys Aber o un tu i faes ein testyn, a Llys Dinorwig ar y llaw arall, y mae yn bosibl fod iddo ef a'i deulu gwydro llawer yn ol ac yn mlaen ar draws y plwyf hyn. Ac yn y cyflwr hwn yr oedd pan ei daliwyd yn Ngwaen y Bera Mawr, yn agos i Nanhysglain, (*nant dysglain*.) yr hyn a ddygwyd oddiamgylch trwy lwgrwobrwyo Einion ab Ifor, a Gronw ab Dafydd, y rhai a wyddent am y lle, ac a ddaethant arno yn y nos, ar yr 21ain o Fehefin, 1283, pan y dygwyd ef a'i wraig, ei ddau fab, a'i saith merch, yn garcharorion at Edward i Gastell Rhuddlan, a chyda hwy, creiriau, teyrndlysau Cymru, a Choron y Brenhin Arthur. Wedi myned i Rudllan, ceisiai Dafydd gael siarad a'r Brenhin wyneb yn wyneb, ond naeeid hyn iddo, a charcherid ef yn y modd diogelaf. Yn fuan anfonwyd ef tan ofal gwarchodlu cryf i'r Amwythig, lle y dodwyd barn arno. Edward, wedi gwysio i'r frawdle 11 o Ieirll a 100 o Farwniaid, ar ba rai yr oedd efe yn ben, a ddygodd yn mlaen gŷnion

yn ei erbyn fel un o'i ddeiliaid ef ei hun ; ac wedi iddynt gael y Tywysog yn euog, traddododd John de Vaus, prifynad Lloegr ar y pryd, y dedfrydau mwyaf anyol a dieflig a ddisgynodd ar ben unrhyw druan ddyn erioed ; ac wele hwy :—Iddo gael ei lusgo wrth gynffonau meirch trwy heolydd Amwythig i'r dihenyddle, am geisio bradychu y Brenhin, yr hwn a'i gwnaeth yn farchog. Iddo gael ei grogi am ladd Fulk Trigold, a Marchogion eraill, yn Nghastell Hawardin ; a'i galon a'i gylla i gael eu llosgi, am iddo wneuthur y gelanedd ar Ddydd Sul y Blodeu ; a thori ei ben oddiwrth ei gorph ; a'i aelodau i gael eu crogi i fyny mewn 4 o leoedd cyhoeddus yn Lloegr ; am iddo amcanu am fywyd y Brenhin ; yr hyn a gyflawnwyd yn gwbl i'r llythren ; a chymaint oedd gorfoledd y Saeson, fel y bu ymryson ffyrnig rhwng trigolion Caer Efrog a Chaer Wynt, am yr anrhydedd o gael y fraich ddeau, yr hon, o'r diwedd, a farnwyd yn deilwng i Gaer Wynt ; a'i aelodau eraill a gipiwyd ar frys i Gaer Efrog, Bristol, a Northampton ; a'i ben a osodwyd ar bawl haiarn, ar ben y Tŵr Gwyn, yn Llundain, yn ymyl pen ei friawd, Llewelyn ; ac fel hyn y terfynodd yr olaf o'r deyrnach Gymreig, yr hon a fu yn brwydro am ei bodolaeth, er pan ymadawodd y Rhufeiniaid a'r ynys, am dros 800 o flynyddoedd. Y Cymru, yn wir, a ymladdent am eu cartrefi, a'u hiawnderau ; ond y Saeson, yn unig am ladd-rata, ac echangu eu terfynau.

Y mae yr hanes uchod braidd yn annysoddefol i glustiau y Cymro allu ei ddal, heb ymlenwi a thuedd ddialgar ; ond ymbwyllwn frodyr, gan nad allwn ni eu disgynyddion, ie o'r ddwyblaid, ddim wrth gynhenau ein tadau. Cofiw'n hefyd, ddarfod i'n tadau, can belled ag y caniatâi eu nifer a'u gallu, ladd a dystrywio llawer o Saeson hefyd. A chofiw'n ymhellach, fod rhan o bais-arfau rhai o hen foneddigion Ll. degai, a Ll. llechid, yn cael ei wneud i fynu o'r arwyddlun isel o "Dri phen Sais," ac ymgoneddent mewn peth felly. Ein lle ni yw bendithio Duw am amseroedd gwell ; ac os mynwn ddial, gwnawn hyn trwy dalu iddynt. dda am ddrwg, a rhagori arnynt mewn gweithredoedd da.—*Myf. Arch. War Hist. of Wales. Han. Cymry, gan T. Price. Han. Cym. gan y Parch. O. Jones, Manchester, &c.*

Yn awr, gadawn lanerch y chwedl gâs, ac edrychwn tuag i fynu i'r Dê eto, a chawn yr uchaf ond un o flynyddoedd Arfon, er fod yr Elen (*elain ewig*) yn gwneyd ei goreu i'w guddio o'n golwg, yn ymysgwyddo tua'r cymylau, sef ;

CARNEDD LILWELYN ; ac y mae yn 3469 o droedfeddi uwchlaw wyneb y môr, yr hyn a'i cynorthwya i gymdeithasu llawer a'r cymylau. Ar ei chop cawn oddeutu dwy erw o dalwrn gwastad gorchuddedig a migwyn, trwy yr hwn y gwâna danedd y graig eu hunain allan, ac y mae y crigylloedd craidd ffoawl hyn, yn ymogyddo at yr ymylau, gan ymrannu fel y gwallt ar y coryn, yr hyn a ddengys gyda gweddillion haeniau darfededig, fod, nid yn unig y brynau oesol, ond hefyd y creigiau tragwyddol o'r bron, yn ymdreulio ymaith dan bwys yr elfenau. Codwyd arni dwr tua 1845, o geryg a gludwyd o "Garnedd Rhitta Gawr," a hyn gan filwyr y llywodraeth tuag at hyrwyddo morwriaeth. Ar y tŵr hwn yn nghyda manau eraill, cawn enwau yr ymwelwyr, a dengys eu hamseriad, iddynt oll gael eu tori yno yn yr haner canrif diweddaf.

Dringir i'r uchelder acw ar nosweithiau gloewon a thawel yn misoedd

yr hâf, gan luaws o ieuencyd yn gorau, gan ganu Salmau a Hymnau dyddan, er mwyn cael gweld yr Haul yn ddi allan o'i ystafell ddwyrein-iol, yn ei ddillad tanllyd, i ddringo gorsedd y dydd! Nid oedd dim llai na 75 fore 30 o Fedi 1865 ar ei phen; a'r nos wener canlynol yr oedd eu nifer yn 199. Weithiau dringir acw yn y dydd, a byd l gan y teithwyr yn fynych archwaeth dila at fwyd: a difyr iawn mewn amgylchiad felly fydd eistedd i lawr, yn ymyl llygeidyn o ddwfr codi, a gwneyd bwrdd o gareg wen, os bydd; ac hwyrach mai at ffawd fel hyn y cyfeiriai Llystyn pan yn ein gwahodd i'r mynyddoedd:—

Ar fyrddau o risial bwydwn ein saig,
Gan yfed gwin anian o gostrel y graig.

Heblaw y golwg a geir ar ddiwrnod clir, ar amryw o Siroedd Gogledd Cymru, a rhanau o Loegr, ceir hefyd ar gyfnewidiad tywydd, olwg ar Iwerddon, ac Ynys Manaw &c. Hefyd ceir cyfleusdra da i weled doethineb y cynllun o godi y gadwyn o fynyddoedd a redant o'r Eifd i Gonwy fel magwyr i dori gwyntoedd y gogledd, er eu bod wrth ffurfio eu hunain rhai yma, rhai acw, hic, hac, fel danedd llif, neu bolion Gored. Synir yr ymwelwyr hefyd gan gyflead moroedd, bryniau, dyffrynnoedd, ac afonydd, gogoniant Allan Fawr! Cofier hefyd y bydd gwasanaeth y Cwmpas a'r Pellweledur yn bur dderbyniol.

Ar y 14 o Ion, 1864 ar ddiwrnod o rew tyner, esgynodd dau gyfaill i fynu i weled gogoniant y gauaf ar ol un o'r rhewogydd mwyaf medd rhai newyddiaduron a gafwyd ers 65, o flynyddoedd, tra yr oedd natur wedi myned i orphwys ac i gymeryd cyntún, mewn trefn i'n gwasanaethu ni yn well yn y tymor dyfodol; a'r holl ddaear eto i raddau mawr yn rhwymau Orion, a chreigiau y Carneddau acw yn gwisgo clust-dlysau arian. a'r llynau cylchynol tan oddeutu troedfedd o rew, yn ol barn y mwyaf cyfarwydd o'r ddau; ac erbyn myned yno, canfyddent y Wyldfa chwaer hynaf y Carneddau acw, yn gwisgo gwarlen (*shawl*) o rew, o'i hysgwyddau hyd ei godre, (oblegid dyna oedd ffasiwn y tymor) a Charnedd Ddafydd yn gwneyd yr un peth, ac yr oedd y blymen a wisgai yr Ysgolion Duon o'r top i'r gwaelod, yn ddigon a gwneyd i wallt sefyll fel gwrychyn mochyn. Gwelent ar ben Moel Siabod ddwy o blymenau crynion o rew, yn union fel pe buasai newydd daro ei hyspectol ar ei hwyneb mewn syndod, ac megis i graffu yn ddyfalach, pa beti oedd neb yn ei geisio ar ben Carnedd Llewelyn yr amser huuw o'r flwyddyn! Ac er fod yr haul yn tywyuu yn braf, a'r hinsawdd yn un radd yn gynesach yno nag yn Bethesda, am 12 o'r gloch yr un munudau, crib y mynydd yn sych ac agored. fel y gellid eistedd i lawr am ychydig funudau i ysgrifennu pan fynid; eto marwolaeth oedd yn teyrnasu yno ac yn tremio arnynt o bob cwr, tra cylchdroai y gigfran grawc yn yr awyr uwch eu penau; ac y deuai rholyn o niwl tew, yr hwn a gyrhaeddai o'r Gorllewin i'r Dwyrain gan ddechreu cuddio holl siroedd Gogledd Cymru, fel tòn sawr a ymdreiglai o'r De tuag atynt, gan fygwth eu hatal i waered; fel hyn trwy y naill beth â'r llall, da oedd ganddynt gymeryd eto y goes am yr hendref, a bod yn ddiolchgar am gael bwrw y gauaf drosodd mewn rhyw gongl o hono. Yn ngodre dwyreiniol y Garnedd y cawn

FFYNON Y LLYFFAINT; Yr hon a elwir felly o bosibl, am fod llawer

o'r creaduriaid hyn ynddi yn nhymor Griffthio. Hefyd o'r tu De i'r Garnedd y mae,

FFYNON LUGWY; sef *llif-gŵy*; ond yn ol barn boneddwr o ymyl, *llugwy*, enw cyffredin oddiwrth loewder y dwfr; (*lux—Lladin am oleuni.*)

Y mae afon yn Ysgotland o'r enw *Lug*;—y ffynon tan sylw yn ol rhai yw mam afon Gonwy. Y mae yn y llynoedd hyn luaws o frithylliaid, y rhai a ddelir yn misoedd yr haf.

Yn agos i'r ffrwd a red allan o honi, ac o'r tu De i'r Garnedd y mae tyddyn a elwir Glan Llugwy, ac yno meddir y mae yr aelwyd uchaf yn y plwyf, megis mai Dôl Ogwen yn Mharc y Penrhyn, oedd yn cynwys yr aelwyd isaf o'r unrhyw. Yn awr wrth adael C. Llewelyn, coffawn y tybir iddi gael ei henw oddiwrth Llewelyn ap Iorwerth, Tywysog Cymru, yr hwn a deyrnasai O. C. 1194 hyd 1240: ac oedd yn byw yn Ngharth Celyn oddiar-Aber, ac felly yn ymyl; ond iddo yn amser y rhyfel a fu rhyngddo a'i dad yn nghyfraith John Brenin Lloegr, symud ei deulu i Gastell Dolydd Elen, tra medd traddodiad yr ymwelai ef ar gefn ei farch yn ddyddiol a phen y garnedd i wybod helynt symudiadau byddinoedd ei dad yn nghyfraith. Dywedir fod ei deulu yn fawr; ac nad oedd llai na 9 cryd yn siglo ar unwaith yn Hafod y Gwragedd yn agos i'r castell uchod.

Yr oedd y Tywysog hwn mewn undeb, ac yn cynorthwyo yr Arglwyddi Normanaidd i gael y Freinlen Fawr (*Magna Charta*) yn yr hon yr oedd amryw benranau ffatriol i'r Cymry.

Yr oedd y Tywysog Llewelyn wrth weled cymaint o'r pendefigion Cymreig wedi troi at y brenin, wedi rhoddi gorchymyn i'w ddeiliaid yn swyddi Caer, Flint, a Dinbych, anfon eu hanifeiliaid dros afon Gonwy i fynyddoedd Eryri, ac y mae yr enwau sydd ar amryw fanau yn nghyrau gogleddol y ddwy Garnedd yn cadarnhau hyny, megis, Pant y March, Tros y Ceffyl, Cwm y Gaseg, Foty'r Cesyg, Pant yr Ychain, Cwm Moch, a'r Foel Feirch; ac am y ddau le olaf, y mae yn amheus a fu yno farch na mochyn erioed; oddieithr eu hanfon yno o'r ffordd, yn amser rhyfel; oblegid anial mynyddig yw yr holl leoedd a enwyd.

Daeth y brenin a llu difawr yn erbyn Llewelyn, ac anfonodd fyddin o'i flaen dros Afon Gonwy i losgi Bangor, yr hyn a wnaeth, gan gymeryd Rhotbert, yr Esgob yn garcharor, yr hwn a ryddhawyd wedi hyny am ddau cant o hebogiaid. y rhai allesid eu cael yn fuan yn ystlysau Nant Ffrancon a'r Carneddi hyn; ond dywedir mai yn ngrheigiau Llandudno y'u caed. Dywed rhai mai oddiar y llethrau acw y canfu y Tywysog fwg llosgiad Bangor, pan yr anfonodd ei Dywysoges i lawr at ei thad i geisio cyfamod heddych, yr hyn a addawyd; wedi hyny daeth y Tywysog a'r Brenin at eu gilydd, a gwnaed cyfamod heddych, yn yr hwn yr oedd y Tywysog i dalu ugain mil o wartheg, a deugain march, a rhoddi y Siroedd crybwylledig i fynu; ar hyn dychwelodd y Brenin adref yn fuddugol.

Bellach gadawn Garnedd Llewelyn a'i helyntion, ac edrychwn tua'r gorllewin, a chanfyddwn

GARNEDD DDAFYDD; I'r hon y'n harweini'r o'r olaf gan gefnen gyswllt a elwir Adwy Cyfwr'r Drum, neu Y Clawdd llwyd, a hon neu hwn eto, a'n harwain hyd rimyn tebyg i Glawdd Offa, ac a elwir y Grimog Lem, ac yn mlaen oddiar y creigiau dychrynlyd acw a elwir, Yr Ysgolion Duon,

Ille y cyrhaeddwn ei choryn, yr hwn yntau sydd yn meddu ar dŵr, ac a godwyd yr un anser, gan yr un bobl, ac i'r un amcan, a'r un a goffawyd ar Garnedd Llewelyn. Y mae coryn Carnedd Ddafydd yn 3427 o droedfeddi uwchlaw arwyneb y môr, a chafodd ei henw fel tybir oddiwrth y Tywysog Dafydd ap Gruffydd. Tu draw iddi oddi yma y mae llyn a elwir *Ffynon y lloer*, tros yr hon y bydd trigolion yr hendref yn gweled y lleuad yn teithio bob mis; a phe gwelai y daillenydd fel y bydd ar ambell flwyddyn yn cael ei gosgorddio yn ei thaith i'r gorllewin, gan rai o brif ser y nefoedd, y rhai yn nghyda'r lleuad a welir megis yn pwyntio i lawr at Ffynon y lloer, ni synai mewn un modd, na ddarfu i blant natur dderbyn yr awgrym, dringo acw, a thalu rhyw barch crefyddol iddi hi, a llu y nef, ac mai hyny o bosibl a fu yn achos o'i henwi felly, oblegid yr oedd cenhedloedd yn ei haddoli, yr amser y daeth ein tadau i'r ynys hon. Yn ystlys orllewinol y Garnedd tan sylw, ac yn gwgu ar Nant Ffrancan y ceir Craig Braich Tŷ Du, lle peryglus ddigon, a man yr hauodd Arglwydd Penrhyn sacheidiau o hadau amrytal goed, ond yn gwbl ofer. O'r tu gogledd i'r Garnedd, dacw yr Ysgolion Duon, ac fel y mae yr enw, felly y mae y lle. Dalm o flwyddi yn cl, collodd bachgen o Ysgol Ty'n tŵr ei fywyd yn y gyntaf, a hen ŵr o Sais, Darllenwr yr Ysgrhythrau perthynol i Eglwys Loegr, ei fywyd yn yr olaf, ac y mae croen y ddaear mor lithrig weithiau ar wres, fel y mae yn beryglus myned at yr ymyl; ac hefyd bydd y defnyddiau lleicion eu hunain ar rai prydiau yn ymlithro tan draed yr ymdeithydd, gan ei drosglwyddo i ddinistr.

Y mae y Garnedd hon yn llawer peryglach i ddieithriaid, na Charnedd Llewelyn. Gelwir y Cwm nesaf i'r de-orllewin iddi yr *Ola Wen*, am mai trosti hi y gwelai Hafotwyr Cwm Idwal y wawr *oleu wen* yn tori gyntaf yn y boreu, oblegid ei bod yn sefyll mewn rhan i'r dwyrain o'r Cwm dywededig. Y gefnen fechan sydd yn dod i lawr tuag atom o'r Garnedd a elwir *Cefn yr Orsedd*, a godre nesaf atom, hwn drachefn, a elwir *Braichmelyn*, a a roddodd ei enw ar gyfres neu ddwy o dai.

Dylid coffa fod tehygolrwydd i Garnedd Ddafydd, a Charnedd Llewelyn, ill dwy fod yn llosg-fynyddau, ac mai Ffynon y Lloer, a Ffynon Lwgwy, oedd y cawg dyllau trwy y rhai y bwrient allan. dân, mŵg, a meini; a cheir un nodedig o'r meini hyn yn gorwedd yr ochor bellaf i Nant Ffrancan oddiwrth y mynydd, yn agos i'r Pentref, ac ôl tân arno, ac ni cheir ei gyffelybond ar Garnedd Ddafydd wrth Ffynon y Lloer, bamed daearegwyr. Rhwng Carnedd Ddafydd, a Chyrn Wiga, y cawn ddau o gymoedd, y cyntaf yw y *Waen Lydan*, â'r ail yw Cwm Pen Llafar, yr hwn a enwir felly, am fod ffrwd o ddwfr o'r enw *Afon Lafar*, yn anfon i lawr i'r cymoedd a'r hendref islaw, sŵn llafar ar gysnewidiad tywydd. Cyrhaedda y cwm hwn o ymyl Braich y Breisgyll, hyd gwm Marddwr, â'r Ysgyfeinciau wrth odre yr ysgolion Duon, lle y mae

Ogo Rys, A elwir felly mae yn debyg, am mai yno y bu y Bardd Rhŷs Goch 'Eryri, yn ymguddio oddeutu O. C., 1415, a diwedd rhwyg ein cydwladrwr Owen Glyndwr. Y mae yno amryw feini mawrion, y rhai a ymddatodasant o bryd i bryd o'r daneddau fry, a hen sâfleoedd y rhai a ellir eu cael allan gyda Syllwydr, neu y llygad. Perthynant i'r creigiau trawsnewidiol, ac y mae o'u hamgylch amryw gyttiau, lle bu ein cenedl yn

llechu rhag rbuthriadau y gelynyon; ie, cawn oddeutu 12 o'r cyfryw o myml Maen mawr Ogo Rÿs, cyn cyraedd ar hyd ochr ddwyreiniol y Lafar, i lawr hyd at y Maen Bogela (bugeilio ?)

LLYSIAU. Bydd amryw yn hoff o dynu i fynu tua'r Ysgolion yn yr haf i lysieua. Cafodd Mr. William Hughes, Garddwr, yn Mrynderwen 7 neu 8 o fathau o redyn yn y lle, megis *Polypodium*, *Dryopteris*,

Polypodium, *Phegopteris*,
Asplenium, *Trichomanes*.
Hymenophyllum, *Wilsoni*.
Asplenium Virida &c.

Y peth a gyffrodd sylw yr ysgrifenydd yn fawr un tro yn ystlys Cwm Marddwr, oedd gweled Dail Bysedd Cochion yn tyfu yn gylch, ac yn nghanol y cylch, yr hwn nid oedd swy na llathen o drawsfesur, un *uen* megis brenhines iddynt, a hwythau yn gweini i'w mawrhydi fel cynifer o *Life Guard*! Pa sut y bu hyn?

Ceir acw Rosyn y mynydd gadag un cylch o Flodau, y Berwydd, hefyd Brwynddail y mynydd, (*Anthericum Gerotinum*) ac am yr olaf dywed awdwr yn Yr Herald Cymraeg Awst 2, 1862. "Mai i Mr. Griffith o'r Garn yn Swydd Dinbych, y perthyn yr anrhydedd o'i gael gyntaf yn Ynys Prydain, a hyny yn 1808, yn yr Ysgolion Duon, ac na wybuwyd o'r blaen iddo dyfu yn nes atom na'r Alpau, ond ddarfod ei gael wedi hyny yn 1820 ar Grib y Ddesgyl yn y Wyddfa, ac yn Nghegin y Cythraul, yn Nghwm Idwal, lle yr oedd raid disgyn wrth raffau i'w gyrchu."

Yn awr gadawn fynyddoedd Ll. llechid a'u helynt, a chyfeiriwn ein golwg am blwyf

LLANDEGAI. Bellach, wedi gadael ystlys Orllewinol Carnedd Ddafydd, a chroesi y pantle acw, a elwir Nant Francon, y mynydd nesaf a'n cyferfydd i'r Gorllewin yw

Y FRONLLWYD, ac y mae yn hynod, am mai yn ei mynwes hi y mae Cloddfa y Cae, yn ymagor fel cwpwrdd cornel; ac y mae ei phonciau uchaf yn weledig oddiyma. O'r Fronllwyd y rhed cefnen o fryniau i fynu i'r De, ond a derfynant yn agos i Gegin y Cythraul, ac a groesir gan gefnen arall a'r bellaf a welwn, ac yn rhedeg o'r Gorllewin i'r Dwyrain; enwau y mynyddau hyn yw y Gludar Fawr, a'r Gludar Fach, y rhai a derfynant yn Nghwm Gwern Gô (*Gôg*?) Y mae y gyntaf yn 3300 o droedfeddau uwch wyneb y môr, tra nad yw yr olaf ond 3000.—*Clives' Book of North Wales*.—Dylem goffa ein bod yn awr wedi cyrhaedd

Y BENGLOG. Yno, i'r Dwyrain o'r Gludar Bach, y mae pyramid o fryn, nid anhebyg i dorth siwgr, ac a elwir y Tryfan (*try bán*), yr hyn sydd yn dynodi ei uchder, er y myn rhai ei alw yn *Drifaen*, a hyny o herwydd tri chlogwyn oedd gynt ar ei ben, pan nad oes ond dau yn bresenol. Bydd boneddigion, ac ambell foneddiges galonog, yn ymgripio i fynu i'w gopa, lle ceir golygfeydd tra swynol; ac fel y canodd J. D., Pen y Benglog, oddiar ei ben,

Gwel'd moroedd a gwlad Meirion—o'r Tryfan
 A'r trefydd hytrydlon;
 Hyd Walia ein gwlad wiwlôn,
 A thai mawr hyd eitha' Môn.

Rhwng y mynydd tan sylw a Charnedd Llewelyn y mae Llyn Ogwen; ac ychydig i'r De orllewin, y mae Llyn Idwal; ac ar fôch lwyd y Gludar Bach, y mae Llyn Bochlwyd; ac i fynu ar lethrau Carnedd Ddafydd, a Charnedd Llewelyn, y mae Ffynon y Lloer, Ffynon Lugwy, a Ffynon y Llyffaint; ac yn fwy i'r De tros y ddwy Gludar y mae Llynau Mymbyr, y rhai ydynt enwog am eu brithylliaid; ond nid ydynt gystal am *gadw*, a rhai a geir yn Llyn Ogwen; cadwant hwy yn galedion, ac anfonir hwy i Lundain mewn gwair gwlyb mewn basgedi. Gadaw'n hyn yn awr, a'r peth nesaf a fydd

TREFN Y CREIGIAU. Dechreuwn gyda y llechfaen, yr hon a rêd i'r Dê-orllewin, a chyfeiria heibio dalcen Gogleddol y Wyddfa, ac yn y cyfeiriad gwrthgyferbyniol i'r Dwyrain-ogledd, heibio Pant-dreiniog, Tan y Bwlch, a Brynhafof y Wern, at ystlys Ddeheuol Traeth Lafan; y mae yn llawer o filltiroedd o hyd, wrth filltir a chwarter o léd; gan gynnwys gyda hi, y cruglwyth haenau eraill a berthynant i'r creigiau dyffrol. Ar yr wythien hon y mae llech-gloddfeydd y Cae a Llanberis; y rhai a berthynant i'r dosparth hynaf o'u rhyw eu hunain, ac ydynt gyflawn o'r cymwysderau hyny o ran defnydd, a rydd i'r llechau a gloddir o honynt, y gwerth uchaf yn y farchnad; ac y mae y gyntaf, yn un o'r rhai hynaf, trefnusaf, a'r fwyaf, yn yr holl fyd. Y mae yr wythien hon yn gogwyddo i'r Gogledd, ac mewn uchder o 15 i 18 llath, yn colli llatheni dros ei throed, yr hyn sydd yn peri i ochr chwith y Gloddfa tan sylw fod yn beryclach i'w gweithio na'r ochr Dde, a pharha yr haen-welyau eraill i ogwyddo felly fel yr eir i'r De, nes y cyrhaeddant y Benglog, lle y cymerant ogwyddiad a chwympa ffordd arall.

Cyfranoga y Fronllwyd ar ddau fâth o greigiau, sef y *llechfaen* a'r *creigiau trawsnewidiol*; ac ymddengys fod y gyntaf yn hŷn, ac wedi ei rhoddi yn ei gwely yn gynt na'r llall, am fod yr olaf yn taenu ei hasgell tros y gyntaf; ac telly y mae y *lechfaen* fel cŷn yn myned o dan y Fronllwyd. Weithiau ceir mewn *tumblers* graeanog, ddarnau o'r lechfaen, yr hyn sydd gam yn mlaen i gadarnhau ein haerïad am ei hoedran. Dywed un awdwr, ond debygid yn gyfeiliornus, mai "Ogwen yw mam Cloddfa y Cae," ond nis gall afon sydd yn rhedeg ar draws ei haen-welyau, tel ar draws rhesi tatws, sef o'r De i'r Gogledd, roddi ffurf a threfn i wythien sydd yn rhedeg o'r Dê-orllewin i'r Dwyrain ogledd; rhaid i'r afon a agorodd wely llechfaen Cloddfa y Cae, neu a'i rhoddodd i gysgu ynddo, fod wedi bod yn rhedeg o'r De-orllewin i'r Dwyrain ogledd, neu ynte o'r olaf i'r gyntaf.

Yn awr gadawn heibio y llechfaen, a chawn son gair am natur y creigiau sydd yn ffurfio y mynyddoedd mawrion acw, a goffawyd genym eisoes, y rhai ydynt led hynod, os nad cyffrous i'r Dacaregydd. Oddiwrth y gwedd-illion anifeilaidd a geir wrth Bont Llyn Ogwen, yn ngodre yr Ola Wen, Cwm Idwal, a Phen Gwryd, ac yn wir hyd ben y Wyddfa, fe geir nad oedd Carnedd Llewelyn, Carnedd Ddafydd, y ddwy Gludar, a Brenhines y mynyddoedd ei hunan ond traeth, neu ymyl i ryw fôr blaenorol i'r cyfnod y't ydym ni yn byw ynddo, oblegid fe geir acw gregin o bob dull, er nad mor berffaith a rhai y cyfnodau dilynol; hefyd y Teirlabedau, a ffurfiau eraill o'r *Ammonites*, nad oes gan yr ysgrifenydd enwau arnynt, yn nghyda phŷsg

dieithrol; ac y mae gan yr ysgrifenydd ei hunan, a chan y Parch. J. Evans, M.A., Ll. llechid, engreiffiau o rai o honynt.

Yr ydys yn y fan acw yn dynesu at A B C y greadigaeth; ond pa faint o amser sydd er hyny, pa un ai chwe'mil ynte chwe'miliwn, ynte can miliwn o flynyddoedd, fel y coelia rhai, nid oes yma neb i ateb! nid yw Moses yn dweyd, nid yw Duw yn dweyd; eto y mae efe yn cadw y cloddion hyn yn rhwymau anatodol y graig, yn dystion o'i Dduwdod a'i dragwyddol allu; ond braidd na chlywem ei adlais caredig yn adsain o glogwyn i glogwyn ac yn dywedyd "*Pa bryd bynag yr oedd y dechreu, yr oeddw I yno,*" ac onid yw ein mynwesau minau yn ymateb? "Fy nghyfaill yn mha le yr oeddit ti a minau y pryd hwnw?" ond,

Yn awr, os oedd yn werth yn ei olwg gadw corph pysgodyn, neu gelain cragen, yn nurfingedd y graig, ai tybed nad allwn gael awgrym i obeithio, y bydd idd gadw hefyd y corph dynol, er i angau ei wedd-newid; mew? trefn i'w ail uno a'r enaid, a'i drosglwyddo i sefyllfa o wobr neu gosbn Ond yn nes at ein testyn, ceir acw, yr olion cyntaf o fywyd anifeilaidd a berthyn i'r creigiau Cambraidd, ac a elwir gan ein cymydogion, yn "*Lower Silurian Fossils,*" ac yn nghadw fyth yn nghoffrau cloedig y graig. Deallid yr edrychodd ein bod yn parhau o hyd o gylch y Benglog, yr hwn sydd yn lle gô fawr, ac yn cynwys amryw gymoedd er na nodwn yn awr, ond

CWM IDWAL. Yma y mae llyn difyrus iawn i bysgota ynddo â genwair, ac a goffhawyd eisoes, sef Llyn Idwal, ac o'r tu Gorllewin iddo y mae tomenydd mawrion, ac y sieryd rhai am danynt, fel "Beddau Milwyr Ynys Prydain," a'r clawdd anferth o'r tu draw iddynt, a elwir yn "Fedd y Cawr," sef Idwal. Tybiwn fod yr englyn hwn yn cyfeirio at ryw fedd sydd yn ngodreu y Gludar, yn y Cwm tan sylw:—

Pieu y bet yn y Clidur,
Tra uw ni bu eiturur,
Bet Ebediŷ am Maelur.

Sef:—"Pia y bedd yn y Gludar, tra bu, ni bu eiddilwr, bedd Ebediŷ am (ab?) Maelor." Gallai fod y bedd uchod yno yn rhywle; ond am y tomenydd mawrion sydd yn ochr Orllewinol y llyn, hawsach gan y sylwedydd goelio, nad ydynt ddim ond gwaith yr elfenau; oblegid bydd yn y Cwm tan sylw, y fath droell-wyntoedd mawrion ar amserau, nes y llyfir, ac y lleibir dwfr y llyn tros y brynau Gogleddol vn grychias i Nant Francon! Gwelodd yr ysgrifenydd hyn lawer gwaith, oddiar asgell Ddwyreiniol Cloddfa y Cae, a chreda mai yr un achos a wnaeth y naill, a ffurfiodd y llall hefyd. Ond y ryfeddod fwyaf aruthrol a berthyn i'r Cwm acw, sydd yn sefyll ar ael y mynydd, o'r tu Gorllewinol iddo, ac a elwir yn gyffredin,

Y TWLL DU, NEU GEGIN Y CYTHRAUL. Nis gall Buddai Ddu y Caletwr yn Meirion, na cheudwll hynod Rhaiadr Mochnant, yngystadlu a hwn; ac oni bae y llafur o ddringo, y chwythu a'r chwysu, sydd wrth fyned i fynu ato, buasai ei enw yn llawer mwy cyhoeddus. Dywed Pennant, fod yr agendor hon oddeutu 150 o latheni o hyd, ac oddeutu 100 o ddyfnder, ac hyd yr ydys yn cofio, nid yw ei gwaelod ond oddeutu 6 i 8 llath o led. Y peth sydd yn rhuthro i'r meddwl ydyw, pa beth a dorodd, a pha bryd y cafiwyd y fath geunant, yn y fath le, ar ael y mynydd? Pa un ai

y ffrwd fâch sydd yn ymlithro i lawr o Lyn y Cŵn, (yr hwn nid yw ond pwll), tan ganu ei chlych, ai ynte tafod yr ystorn, ac anadl y corwynt, wrth ruthro i fynu o Gwm Idwal a i torodd, ynte ai ceunant perthynol ydyw i'r hên fyd? Ond nid oes yma neb eto i ateb. Y mae yn y Cwm acw, le dymunol gan y dacaregwr, y darluniwr, y pysgotwr, a'r llysieuwr, yn misoedd yr haf.

LLYSIAU. Bydd trem ddymunol iawn i'w gael ar ystlysau y Gegin yn yr haf, oherwydd y blodeuyn melyn, a elwir Rhosyn y Graig, ag sydd wedi planu ei hun yn ei holl ystafelloedd o'r bron, gyda llawer o fathau eraill. Cymerodd Mr. Pennant, o'r Downing, sylw manwl o'r llysiau a dysant yn y Gegin a'i hamgylchoedd. a byth er ei amser ef hyd heddyw, fe fydd nifer mawr o fonedigion ein trefydd yn ymweled a'r fan yn y tymor priodol. Byddai ein meddygon enwog John Roberts, Penclip, ac O. O. Roberts, y ddau o Fangor, ac hefyd ein meddygon cartrefol ffyddlawn, megis O Rowland, Blaen Nant, a John Owen, Pant y Ffrwdlas; yn ymweled ag ystlysau y Gegin bob blwyddyn wrth raffau, a chanddynt ffyn hirion, a chrymanau bychain yn eu penau, i ryddhau y llysiau oddiar yr ysgraffellydd peryglus; a deallwn fod ein cymydog, Gruffydd Roberts, 37, Penbryn, Bethesda, yn arfer myned yno ambell waith etto, wrth raffau. Wele ychydig o lawer o'r dail a geir yn y Gegin, a'i chylchynoedd:—

Brwyndail y mynydd, *Anthericum Geronitum*, *Mountain spiterwort*.

Dêrig, *Dryas*, *Mountain Avens*.

Sŵan y Waen (y gron). *Rumex Acetosa*, *Common Sorrel*.

Bêrwydd, *Juniperus*, *Juniper*.

Gwreidd-don, *Scabiosa Luccisa*, *Devil's Bit*.

Chwys yr Haul, *Drosera*, *Undew*.

Y Gronell, *Troilus*, *Globe Flower*.

Mantell Fair Fynyddig, *Alchemilla Alpina*, *Alpine Lady Mantle*.

Cyn terfynu gyda y llysiau, y mae yn bleserus genyf ddwyn i sylw enwau y Rhedyn canlynol gan fod eu cael allan wedi bod yn ffrwyth ymchwiliad hen llysieuwr profiadol a barf-wentliaes; yr hwn a fu fyw mewn bwth ar lan Llyn Ogwen, am yr hanner canrif diweddaf, ac yn orael y fro am redyn, &c., sef John Davies, yn awr o Fraich Tŷ Dû; ac wele ei gasgliad ef:—

RHEDYN, (Ferns.) a ellir ganfod wrth fyned o Bethesda i Gapel Curig:—

Adain redynen y chwarelau, *Allosorus crispus*.

Dueg redynen goesddu, *Asplenium adiantum-nigrum*.

Dueg redynen rhiw'r gwaliau, *Asplenium ruta-muraria*.

Dueg redynen gyffredin, *Asplenium Trichomanes*.

Dueg redynen werdd, *Asplenium viride*.

March redynen fanyw, *Athyrium filix-fœmina*.

Rhedyn gwib, *Blechnum Spicant*.

Lloer redynen cyfrdwy, *Botrychium lunaria*.

Rhedyn gogofau, *Ceterach Officinatum*.

Cystopteris Fragilis. Nid wyf yn gwybod am enw Cymraeg.

Rhedynach teneuwe, *Hymenophyllum Tunbridgeuse*.

Rhedynach teneuwe mab William, *Hymenophyllum Wilsoni*.

March redynen eang, *Lastrea Lilatata*.

March redynen wryw, *Lastrea Filix-mas*.

March redynen y mynydd, rhedyn Mair, *Lastrea Oreopteris*.

Rhedyn y derw, *Polypodium Dryopteris*.

Polypodium Pheopteris. Nid wyf yn gwybod ar y pryd am enw Cymreig iddo.

Llaw redynen, *Polypodium Vulgare*.

Adain redynen eryraidd, *Pteris Aquilina*.

Tafod-yr-hyld cyffrelin, *Scolopendrium Vulgare*.

Mae y rhai hyn oll, oddieithr rhyw ddwy neu dair, i'w cael heb fyned yn mhell o'r ffordd. Cymerwyd yr enwau Cymraeg o waith Hugh Davies, F.L.S.

Oddiar Gwm Idwal, ac i'r Llewini-ogledd, mae lle a elwir

CWM CLUD, a ffrwd sechan yn rhedeg i lawr o hono i Lyn Idwal, ac yn ngenau yr hon, sef y Rô wen, neu ei *rhyd*, yr ymgynull llawws o bysgod i ymgladdu; ac nid ydys yn ameu nad yw y pennill hwn yn cyfeirio at y fan :—

“ Eiry mynydd—pŷsg yn *rhyd*,
Cyrchid carw culgrwm, *Cwm Clud*
 Gofal dyn, Duw a'i gweryd.”

Chwedleir am y *cyrchu* yn fynych am y Ceirw a fyddai yn y cylchyn-oedd acw gynt, a'r hela a fyddai arnynt, gan y pendefigion a'r tywysogion Cymreig; y rhai wedi eu codi o'r cymoedd islaw, a gyrchent am ben mynydd, lle y parotoid cŵn ar eu cyfer, a hyn meddir a fu yr achos o alw gwastadedd oddiar y Gegin yn Rhôs llyn y Cŵn. Cadarnheir hyn gan y cyrn ceirw a gaed rhwng meini mewn manau yn y Benglog, a chan yr enwau lleoedd, megis *Perthyr Ewig*, yr *Elain*—(*ewig*), a'r *Llwyn Carw*, sydd yn y Benglog.

Yn awr, cyn i ni dynu ein golwg oddiar geseiliau y Benglog, adroddwn ddau neu dri o hanesion bychain. Y mae yn ddywediad am ein hynafiaid, “ Os byddai i ryfel ddigwydd troi yn eu herbyn, y ffoent yma i fynyddoedd Eryri, fel eu noddfa claf; ac yn gytunol a hyn tybir gan rai, i Buddug, ac a elwid Beadicea, ar ol y frwydr fawr a fu rhyngddi â'r Rhufeiniaid, yn agos i Gaerwys, yn Sir Fflint, ffoi yma am orphwysdra ac adloniant, i le a elwir

BODESI; lle yr oedd ganddi dŷ hâf wrth dalcen deheuol Llyn Ogwen, lle difyrai ei phendefigion a lithau eu hunain yr hâf, mewn hela a physgota. Enwogodd y feyw hon ei hun yn fawr o herwydd ei gwroldeb yn gwrthsefyll y byddinoedd Rhufeinig; megis ag y darfu ein Brenhines Elizabeth Tudur, mewn amser nes atom, pan oedd llynges fawr Yspaen, tan nawdd a bendith y Pab, wedi cael cenad i lyncu Ynys Prydain i'r wlad hono, modd y llwnc hŵch bytaten. Fodd bynag, dywed rhai hanesion i Fuddug farw trwy wenwyn, tra y dywed eraill iddi farw o farwolaeth naturiol.

OGO EVAN BACH. Y mae hon rhwng godreuon yr Ola Wen a Llyn Ogwen, ac odditan hen lwybr caregog, perthynol i'r hen amseroedd; ac er nad yw ond twll anolygus, a ffurfiwyd gan gydgyfarfyddiad meini, eto, am mai yma yn gystal ac yn Ogo Rŷs, yn Nghwm Pen llafar, y bu yr enwog fardd Rhys

Goch Eryri, a pherchenog Hafod Garegog, yn Meirion, yn ymguddio, o herwydd ei fod yn bleidiwr gwresog i achos Owen Glyndwr. Dyma fel y canodd John Davies i'r lle hwn eto :—

Hynodol im i'w nodi,—Oesau gynt,
Un Rhys Goch Eryri,
A ganodd cyn ein geni
Dan y maen medd dyn i mi.

IDWAL A DUNAWD. Nefydd Hardd, o Nant Conwy, yn amser Owain Gwynedd, (yr hwn a fu farw, O.C. 1169,) oedd bendeifig yn hanu yn union-gyrchol o Cunedda Wledig, ac yn sefyll yn uchel ei gymeriad gyd a'r tywysog, yr hwn a roddes iddo ei fab Idwal ar faeth, a baint maethu y tywysog arno dros fyth, ac ei etifeddion o baladr. Eithr Dunawd ab Nefydd, a laddes y tywysog Idwal, drwy arch ei dad Nefydd, yn y lle a elwir Cwm Idwal yn yr Yri, lle yr oeddynt yn heboga, achos i Idwal daro Dunawd, am ddwyn a laddasai ei hebog. Am y gyflafan hon doded llwgr ar yr epil dros fyth, ac o foneddigion eu gwneuthur yn gaethion. Rhun ab Dunawd, yn iawn am y gyflafan, ac yn werth y llwgr, a roddes dir a chyfoeth i Eglwys Llanrwst. Ac Ystiward Llewelyn ab Iorwerth, oedd Madog Gôch, ab Iorwerth, ab Gwrgynon, ab Cyfnerth, ab Nefydd Hardd, fel y mae yn llyfr Gruffydd Hir-æthog. Efe a ddwg—arian triphen gwaew gwaed trochaid, a'u blaenau tuag i fynu.—*Bryth. cyf. III., t. d. 417, Obs. Snowd. Mount.*

HANES Y DDAU BORTHMON. “Ar fore Sabboth rhywbryd yn Ngorphenaf 1670 yr oedd tad a mab yn dyfod o'r Amwythig i Fôn, i brynu gwartheg; ac mewn lle o'r enw Grisiau y Benglog, rhwng godre Llyn Ogwen a Phant y Lladron, cyfarfu dau lofrudd a hwynt, ac aeth yn ymladd ofnadwy rhyngddynt â'r Porthmyn, ond y llofruddion a fuont drechaf; ac ar ol eu lladd â'u hysbeillio, llusgasant eu cyrph, ac â'u tasfasant i hollt yn y graig oddiar Rhaiadr y Benglog, lle buont am flynyddoedd yn guddiedig; ond ar ddamwain cafwyd eu hesgyrn, a chladdwyd hwy gerllaw yr Ywen yn Mynwent Llanllechid. Yr oedd ar y pryd fachgen o fugail yr ochr draw i'r Ogwen yn gwaeddi ei oreu, ac yn ei ganlyn gi bychan: a phan gyflawnodd y lladron eu galanas, aethant trwy yr afon am y bachgen, yr hwn a ffôdd am ei fywyd; a phan oeddynt bron â'i oddiweddyd, piciodd tan faen mewn carnedd o geryg, gan wasgu safn y ci bach rhag iddo ei fradychu, tra safai y llofruddion ar y maen, yn methu cael trwydd arno, ac yn siarad yn ei glywedigaeth fel y gwneient os dalient ef. Ar ol hyny aethant tros y Gludar am Beddgelert, a phan oeddynt wrth ddrws Gwasgawd Onos, gofynasant am ddiod o laeth, ac estynnodd hen wraig oedd yny ty, faidd glasiddynt; a thynodd un o honynt swllt o'i logell am dano; a phan oedd y cyntaf yn yfed taffodd gwael o'i drwyn am ben yr hen wraig, yr hon a roddodd floedd sawr nes cynhyrfu yr holl gwm, tra yr oedd y trigolion yn brysur gyda eu cynhauf gwair. Ffôdd y llofruddion ar hyn a thros Fwlech y maen Pig, ac ni chlywyd byth air o sôn am danynt. *Llyth. Wmff. Dafydd.*

Hefyd tua yr un amser, yr oedd natur cymdeithas mor bwdr, a'r gyfraith mor ddiym, fel y byddai lladron o wlad y Saeson, mewn undeb ag eraill yn Eryri, yn lladrata ceffylau yn Môn, a'u hanfon o law i law, i Loegr, a neb yn gallu eu dilyn i ddim pwrpas; a dywedid i Dic Turpin fod yn byw yn Nghlwt y Murddyn fel y soniwyd, ac yn cyflawni llawer o weithredoedd ysgeler tu ag at y trigolion. Yn awr gadawn y Benglog, a dychwelwn i

lawr ar y llaw ddê ar hyd plwyf Llandegai, ac wrth ddychwelyd bydd genym air am

NANT FRANCON; a alwyd felly oddiwrth Afancwn (*beaver*), ac y mae yn agos i Gapel Curig "Lyn yr Afanc." Dywed Giraldus Cambrensis a fu trwy ein gwlad, yn y 12fed ganrif, fod y cyfryw greaduriaid yn Afon Teifi yn ei amser ef, *Hist. Works, argraff Bohm t. d. 47.* Fodd bynag, y mae yma yn awr nifer o ddyfrgŵn, ac ni wyr yr ysgrifenydd am y rheswm i ameu i afancwn fod yma hefyd. Sonia Taliesin yr hwn a flodeuodd yn y 6fed ganrif am Nant Ffrancon; ac nid tebygol ei bod wedi derbyn ei henw oddiwrth estron, yr hwn y mae ei enw wedi ei gysylltu a llofruddiaeth y Tywysog Llewelyn, yn Muallt, yn y drydydd ganrif-ar-ddeg. Yr oedd hefyd yn ei chwyr isaf, mewn lle a elwir Ceunant, fan i groesi yr afon a elwid "Sarn yr Afanc."

LLOFRUDDIO TUDUR AP GRONO. Heblaw yr "ymladd," a fu acw "rhwng y Gwythaint a Gwydion," y mae tiaddodiad yn yr ardal, ddarford i foneddwr o Fôn gael ei ladd acw, wrth ddychwelyd o'i daith, ac iddo gael ei gladdu yn Mryn y Byrddau. Yn yr *Herald Cymraeg, am Gorph. 5* 1862. Cawn hynafiaethwr galluog, genedigol o blwyf Llandegai yn holi fel hyn;—"Gwelais yn ddiweddar hên ysgrif o waith Gruffydd ap Dafydd. Yn hono crybwyllir fod un Tudur o Benmynydd yn Mon, wedi cael ei ladd gan lofrudd, pan ar ei daith i Bangor, a'i gladdu yn Mryn y Byrddau, yn mhlwyf Llandegai. Mewn awdl iddo o waith yr un gŵr dywedir ei fod,

"Dan faen glâsgaen—yn ngôr llen."

â fu yr adeilad ryfedd, oedd ar Fryn y Byrddau, cyn adeiladu St. Ann's yn *Gôr llen?*" Dywed yr un gŵr eto, "Yr oedd Tudur ap Grono yn byw yn nechreu y drydedd ganrif ar-ddeg, ac efe a adeiladodd ddarn lled fawr o Fonachlog (*Friars?*) Bangor." Eto oddiwrth *Y Gwlybedydd am 1832 t. d. 162*, fe ymddengys mai yr un yw yr uchod a "Tudur ap Gronw, Arglwydd Penmynydd a Threacastell," ac mai efe a adeiladodd Friars Bangor, tua O. C. 1276.

Bellach gadawn y Nant, a dyrchafwn ein golwg unwaith eto, ar y gefnen orllewinol sydd yn rhedeg i lawr o'r Benglog, a chawn yn wynebu y nant, gropa neu lithrigfa fawr a elwir

LLECHEN CYTROLAR; ac a elwir felly o bosibl am fod pob peth a syrth arni yn *cyd-rolio* i lawr i'r gwaelodion islaw, ac felly yn dra pheryglus. Dywedir y bydd y llwynog yn gallu ei chroesi. Yn nghwr neu y talcen nesaf i'r gefnen tan sylw, ac yn nesaf atom ond y Fronllwyd, y cawn

GARNEDD FILIAST; ac i'r gorllewin o honi hithau dyna Elidir Fawr; yr hon os edrychir arni oddiar Garnedd Ddafydd neu Garnedd Llewelyn, a ymddengys yn gonaidd, tebyg i fera neu dorth siwgr. Rhwng yr Elidir a'r Bronllwyd yn y gesail acw y mae llyn a elwir

Y MARCHLYN MAWR; ac ychydig islaw iddo y mae y Marchlyn Bach, ac y mae yn y ddau luaws o frithylliaid. Yn y cyntaf, yn y dyfn, tua chreigian yr Elidir, maent yn feddianol ar benau mawrion, duon; ond fel y deuir i'w enau yn ngodre'u'r Fronllwyd, mae y pysgod yn oleuach eu crwyn, llai eu penau, a mwy golygus; a thyf yn y cwr hwn wair merllyn. Y mae y llynau hyn yn werthfawr at wasanaeth Cloddfa y Cae, a'r Felin Fawr. Yr oedd gynt ar lan y ffrwd a rêd allan o'r uchaf, faen, ac argraff

arno, ond methir ei gael yn awr. Y mae yn aros etto, faen yn gwahanu y dwfr hwn, ac arno y canlynol:—

L.

B. † B.,

yr hyn, meddir, yw Lewis, neu yn hytrach, *Lord, Bishop, Bangor*. Ar ein deheulaw, dyna fryn etto, a elwir *Moel y Cî*; ac ar ei phen, mae gŵylfa a elwir *Gwâl y Cî Dû*, oddiar yr hon y ceir golwg eang ar wlad Môn, ac o Landudno, gydag ystlysau y Menai, hyd Gaerynarfon; a'r Gwaendir sydd yn gorwedd rhyngddi a'r Bronllwyd, yw

GWAEN GYNFI, neu *Gynfil* medd rhai, *Cenfydd* medd eraill, am y gellir canfod llawer o fanau o honi, ac yn enwedig oddiar y Foel a goffawyd. Y mae ei hyd, o'r Galedffrwd i gwr tir Llanddeiniolen, oddeutu dwy filltir; ac o'r Fronllwyd i Foel y Cî, oddeutu un filltir o led. Ac yr oedd Gwaen Gynfi gynt yn perthyn i Fonachlog Bangor, yr hon a adeiladwyd gaa Gronwy o Benmynydd, ac oddiyno byddent yn cael yr holl fawn a losgent, Ar ol lladd (*Crogi*) Syr Gruffydd Llwyd, Dinorwig, aeth ei holl dir i'r Goron; a phrynwyd ef gan Gwilym ab Gruffydd, o'r Penrhyn; a chan fod y Mynydd, y waen uchod yn y cyffiniau, bu ymrasael maith rhwng teulu'r Penrhyn a gwr Monachlog Bangor, yn nghylch pwy a bia y mawn, ond yn mhen amser y Penrhyn a aeth a hi. Canys bu teulu y Penrhyn yn eu lladd, a'u gwerthu, i wŷr Bangor wrth y cawellaid.—*Llyth. Wmff Daf.*

Traddodir hefyd i ymgysfreithio fod yn nghylch y dwfr, ac o bosibl fod a wnelai y llythyrenau ar y meini a goffawyd, rywbeth a wnelent a'r amgylchiadau a fu tan sylw. Cerid llawer o rŵg a mawn o'r waen hon i Fangor o fewn cof gŵr. Y mae traddodiad i ymladd ffyrnig fod yn y waen hon gynt, rhwng y Cymry a'r Gwyddelod, at yr hyn y cawn yn fuan gyfeirio, ar ol i ni son yn gyntaf am yr hyn a alwn

GORMES Y GWYDDELOD Y mae hanesion ysgrifenedig, a thraddodiadau yn cyduno i ddweyd i'r Gwyddelod fod yn ormes mawr ar y wlad hon gynt, oblegid cymerent fantais ar ymadawiad y Rhufeiniaid, neu gwnaent gyngrair a hwy; y rhai a fyddent eisoes wedi ysgubo ymaith ieuencyd ein gwlad, i ymladd yn eu rhyfeloedd hwy; ac felly ni fyddai yma neb i'w gwrthsefyll ond gwan hen, a gwan ieuanc, a dyma fel y dywed *Iolo MSS.*, "O.C. 267, y dug Don, Brenhin Llychlyn a Dilyn, y Gwyddelod i Wynedd, lle buont gant o naw mlynedd ar hugain, a Gwydion ab Don a fu yn enwog dros ben, am wybodau a chelfyddydau, ac a ddysgodd chwareu hŷd a lledrith gyntaf i'r Cymry; ac efe a ddug wybodaeth ar lythyr gyntaf i'r Iwerddon, ac i Lychlyn. (Twrog) "Ac wedi gwladychu o'r Gwyddelod a'r Llychlyniaid yn Ngwynedd gant a naw mlynedd ar hugain, daethoeddynt feibion Cunedda Wledig o'r Gogledd, i Wynedd, ac a drechasant ar y Gwyddyl a'u Cilyddion, ac a'u gyrasant ar ffô i Ynys Manaw." (Môn ?)

Y mae traddodiadau yr ardal, ac enwau lleoedd yn cadarnhau yr hanes uchod, megis *Buarth Gwyddelod*, ar Gefn yr Orsedd, a *Bryniau Gwyddelod*, o'r tu isaf i Waen Gynfi, ac hwyrach *Foty Alis* yn ei chwyr uchaf, yn nghyda y nifer mawr o Gytiau'r Gwyddelod, oedd gynt yn Nghae Maes Gollen, Cilgeraint, Moel y Cî, Moel Rhiwan, a Chiltwillan, &c.; y rhai oeddynt yn lluosog iawn yn ein gwlad 70 a 80 o flynyddau yn ol, ond ydynt yn awr yn yn darfod brysur, gan eu bod yn eu defnyddio i gau gwaliau ffriddoedd a

mynyddoedd, &c. Nid yma yn unig yr oeddynt yn blino y bobl, ond yr oeddynt hefyd felly tua Beddgelert, fel y dengys Mr. William Jones, tu hwnt i bob dadl, yn "Hynafiaethau" y lle. Ceir yr un olion yn lluosog yn Môn ac Arfon. Enw eu Tywysog, fel y dywedwyd, oedd Don; ond ei fab, Gwydion, a wnaeth fwyaf o son am dano yn y gwledydd tan sylw. Rhaid i ni bellach son ychydig am

GWYDION AB DON. Gelwid ef yn Frenin Môn ac Arfon, oherwydd iddo ef, neu ei dad, yn ol rhai, gael llywodraeth ar y gwledydd uchod gan y Rhufeiniaid. Dywedir iddo fod yn byw, am ryw gymaint o amser yn *Ngwaredog*, ger Clynog; ac y mae yn ymyl y lle, fryn, o'r enw "*Bryn Gwydion*." Bu fyw hefyd, yn y *Tŵr*, ar lan Ogwen, yn nghwr isaf Nant Francon; am yr hwn y coffawyd o'r blaen, yn ei berthynas a'r amddiffynfeydd; ac megis ag yr oedd yr hen Dŵr hwnw, a elwir Castell Dolbadarn, yn gwylio y fynedfa hono, felly yr oedd y *Tŵr* hwn yn gwylio y fynedfa i Nant Francon, a'r berfedd-wlad. Daeth i'r fangre hon, er hunan-amddiffina d o bosibl, yn gystal a myfyrio ar sêr, a phorfaui ei "fual fawr." Gosodir ef allan yn un o "*Dri Buelydd Gosgordd Ynys Prydain; Ail Gwydion, fab Don, a gedwis wartheg gosgordd Gwynedd uch Gonwy; ac yn y Fual hono ugain mil ac un.*" "Sef 21,000!"

Pa beth bynag feddylio haneswyr o hyn, ymddengys eu bod yma mewn rhyw gyfnod pur foreu, oblegid, mewn gweynydd, ffriddoedd, a mynyddoedd, y ceir eu cytiau fynychaf; yr hyn a ddengys, o bosibl, fod y gwaelodion islaw, yn wernydd a chorsydd gwlybion, fel y cawn ddangos eto; a sicr yw, mai cangen o'r cŵff Celtaidd oeddynt, am mai Cymraeg, neu os gwell genych Celtaeg pur, yw pob enw a adawsant ar eu hól; a digon tebyg nad oedd mwy o wahaniaeth rhyngddynt â'r Cymry o'r 3ydd i'r 4ydd cant, mwy nag sydd rhwng trigolion De a Gogledd Cymru â'u gilydd heddyw.

Ymddengys hefyd fod y *Tŵr* o amseriad boreu, oblegid nid oedd o'r tu allan iddo gymrwd o fath yn y byd; ond o'r tu fewn, yr oedd wedi ei gymrydu â chalch a wneid o gregyn, fel y canfu Mr. D. Thomas, Pont y *Tŵr*, wrth gloddio i'w sylfaeni, lle y cafodd swrn o forter, cymysgedig â choccos. Y mae chwedlonwyr a beirdd yn son llawer am Gwydion, gan ei osod allan yn frenin, bardd, buelydd, swynwr, a seronydd; a rhaid ei fod yn *Ulenor* dâ, cyn y buasant yn meddwl felly. Fodd bynag, bu Gwydion farw, a chladdwyd ef yn Morfa Dinlle:—

*Bed Gwydion ap Don;
Yn Morfa Dinlle, dan fain daseillion,
Garanawc a geffyl Meion.*

Sef "Bedd Gwydion fab Don, yn Morfa Dinlle o dan dafellau o feini; Garanawc a gafodd Faenan."

"*Fain daseillion*," ceryg wedi eu hollti, (*slabs*) o ba rai y gwneid y gist faen, "*Meion*," neu Maenan wrth Lanrwst.

Bellach wedi i Don, a Gwydion ab Don farw, a Gwyddnyw ap Gwydion hefyd farw, fel y mae yn debyg, ac heb olynydd, darfu i nai Gwydion, sef *Serigi Wyddel*, yr hwn oedd eisoes yn frenin yn Môn, ar y Cymry ac ar y Gwyddelod hefyd, a yrwyd yno gan feibion Cunedda, feddwl am feddianuu

tyfoeth ei ewyrth Gwydion, ac efe a ddaeth tros Fenai i Wyrfaï (enw ar y wlad o Waen Gynfi i Gaernarfon) gyda llu o wŷr.

Fodd bynag ymddengys i fechgyn Eryri gael gwybodaeth, ac anfonasant air yn ddioed i Gaswallon Law Hir, wŷr Cunedda, yr hwn oedd eisoes mae yn debyg yn meddianu Dunodig yn Arfon, a manau eraill yn hawleiddad, ar iddo ymbarotoi i'w derbyn, ac felly fu.

Yn awr ar ol i Serigi ddyfod trosodd fel y soniwyd, ac hwyrach gymeryd hen frenhindy Gwardog, gyda manau eraill, daeth rhag ei flaen trwy Wyrfaï, heibio Dinorwig, ac i fynu i'r Dŵyrain am Waen Gynfi, gyda y bwriad o gymeryd Llŷs Don, sef y Tŵr, wrth Nant Ffrancon; ond yr oedd y Cymry o tan eu blaenor Caswallon wedi ymbarotoi ar ei gyfer, ac yn awr yr ymladdwyd

BRWYDR GWAEN GYNFI. Y Cymry o dan eu penaeth Caswallon Law Hir o un tu, â'r Gwyddelod o dan eu penaeth Serigi Wyddel o'r tu arall. Dywed yr hen bobl un ac oll, mai brwydr boeth iawn oedd hon, ac iddi fod yn galed ddigon ar y Cymry mewn lle a elwir Cae Maes Gollen; ond o'r diwedd i'r frwydr droi yn ffafr y Cymry, ac i'r Gwyddelod ddechreu cilio, a ffoi i wared at Frynau Gwyddelod, a'r Gelli, lle o bryd i bryd caed llawer o esgyrn dynol; ac oddi yno i wared at y Menai, a throsodd i Fôn; ond yr oedd y Cymry yn parhau i'w herlid, a dilynasant hwy trosodd i Fôn; yna fodd y Gwyddelod am Gaergybi, a'r Cymry yn eu dilyn; ac yn agos yno mewn lle a elwir "Ceryg y Gwyddyl," y cafodd Caswallon y llaw uchaf arnynt, ac a'u gorthrechodd, a lladdodd Serigi eu penaeth, a fodd y gweddill i'r Iwerddon. *Ilan. Cym.*, t.d. 155. *Em. Welsh.*, page 69.

Yn awr os rhoddir 129 o flynyddoedd at 267, rhaid ddarford ymladd y frwydr hon yn gymwys yn O. C. 396; ac felly o fewn 1470 o flynyddoedd i eleni. (1866) Felly y mae cymaint o amser wedi myned heibio nes ysgubo bron bob olion o honi. Dodwn yma eto ddyfyniad o hen ysgrif o'r *Iolo MSS.* "Ac efe (Serigi) a ddaeth a llu cadarn hyd yn Ngwyrfaï yn Arfon, er ymladd a Chaswallon, sef a'i gyred yn ol i Fôn, gan Caswallon, ac a'i lladdodd yn Ngherig y Gwyddyl * * * * Yna Caswallon a gwehlyth Cunedda, a ddodasant Saint yn Môr, i ddysgu'r ffydd yn Nghrist, a throedd i'r Cymry a ddygodd yno o Ddysed, a Gwŷr, a Gwent. Yna myned o Fôn yn folianus am ei Seiniau, a'r gwyr doethion a'r dwyfolion a gaed ynddi."

Meddylir mai at y frwydr hon y cyfeiria "Maes Meddygon," "Careg can awen ffrwyn," a'r golofn sydd ar ei phen ar dir Cefn Braich,—caed yn Ngwaen Gynfi wrth ladd mawn, amryw freuanau, ac wrth agor dwy neu dair o hen garneddau yno, yn y fl. 1856, i gael ceryg i wneyd gwaliau, cafodd gweithwyr Mr. Henry Jones, Bryn Bela, yn mhob un gist faen a breuan. Hefyd yr oedd y breuanau a gaed wrth arloesi yn Muches Cae Rhedyn, ar dir Bodfeirig wedi eu malu, a muriau y cytiau crynion lle yr oeddynt, wedi eu curo i fewn, ac yn profi gweithredoedd gelyniaeth. Caed yno hefyd, geryg haiarn, â blaensaueth o esydd neu ryw fetel &c. Cafodd un yno mewn lle a elwir Cae'r Mynydd, swm mawr o arian daear. Dyn arall o Fôn wrth ladd mawn, a gafodd gymaint ag a allasai gario yn ei Geitlen. Cafwyd cistan drachefn o ryw fetel, ac ynddi drysorfa dda o arian

bu agos i hon hefyd fyned yr un ffordd a'r lleill ; ond llwyddodd y Parch. O. Jones, gynt o Fanchester, i gael un bâth (*coin*) o honi, yr hon a berthynai i amser y brenin John. Caed arian eilwaith yn y ddaear ar Foel Rhiwen, yn ymyl maes y frwydr ; y mae un darn o'r rhai hyn hefyd gan Miss Francis, Bryn Derwen, ac arno fath Edward III. Ond diweddar mewn cydmariaeth yw y rhai hyn. Mewn hengan hefyd coffeir :—

*“ Clywyd cant o wragedd a phlant
Yn cwynfan yn Ngwaen Gynfi.”*

Ymddengys y byddai eraill hefyd heblaw y Gwyddelod yn ymladd â'n tadau, ac o bôsihl fod i'r dyfyniaidau canlynol rywbeth a wnelont a'r cymydogaethau hyn, a dyma fel y dywed *Y Brut* :—

“ O. C. 818. Y diffeithiws y Saeson mynyded Eryri, ac y dygasant frenhiniaeth Rywoniawc y ar y Cymre.”

Er i hiliogaeth Cunedda fwrw allan y Gwyddelod o Arfon, ac yn ddiweddaf o Fôn, cawn hwy wedyn yn cymeryd mantais ar ryw amgylchiad i ddod yma drachefn ; a dyma ddywed *Y Brut* ;—

O.C. 820 (neu yn ol Carhuanawc) 825 y bu farw Hywel Fychan, ac y lladdodd y Gwyddelod Môn ac Arfon lawer o'r Cymry.”

Gwyddis iddynt hefyd ddod yn erbyn y Cymry yn y rhyfel a fu rhyngom ag Edward I., gan anfon llynges i'w gynorthwyo ; ond a anfonwyd yn eu hol yn fuan gan llynges Llewelyn. Cawn yr un bobl drachefn yn gwrthwynebu milwyr Cromwel yn Nghonwy, a phan gymerodd Mytton y ddinas, yr hwn a gynorthwywyd gan John, Williams, gwr a hanai o deulu Cochwillan, rhwymwyd y Gwyddelod yn gefn-gefn, a thadwyd hwy i afon Gonwy ;—gweithred rhy giaidd o lawer. Oddiwrth draddodiad yr hen bobl, ymddengys i'r Gwyddelod, pan yn ffoi, o'r parthau hyn, guddio eu trysorau mewn ogofeydd yn y mynyddoedd, ac y mae o gyleh Nant Francon amryw chwedlau am hyny, a nodir un neu ddwy er engraifft :—

“ Aeth dau frawd o fugeiliaid defaid allan o Giltwillan, i edrych am eu defaid i'r Benglog, ac yno mewn lle anghysbell, canfu yr ieuengaf dwll yn myned i ogof ardderchog, yn yr hon yr oedd bwrdd crwn, ac ar y bwrdd, bentyrau rheolaidd o aur ac arian ; ond ni feiddiai fyned i mewn i'w cyrchu, gan fod yn sefyll yn eu hymyl, filgi, a llygaidd tanllyd yn tremio arno, ac yn barod i ruthro arno os meiddiai fyned i mewn. Ar hyn aeth y bachgen ar ol ei frawd, ac ar ol ei oddiweddyd, ac adrodd ei weledigaeth, troisant yn ol i chwilio am yr ogof, ond er cymaint eu hawydd a'u hymdrech, methasant ei chael.”

Yn y chwedl arall, dywedir “ I wâs — fyned i fynu i geseiliau y mynyddoedd yn nghymydogaeth Llyn Ogwen, a chanfod o hono yntau ogof, ac o'i mewn gyflawnder o lestri prês o bob ffurf a desgriafiad ; ac yno, yn llawenydd ei galon am y caffaeliad dedwydd hwn, neidiodd at un llestr i'w gymeryd ymaith, ac fel ernes am y lleill ; Ond, och ! fawr, yr oedd yn rhy drwm i un dyn allu ei symud. Gan hyny, gyda y bwriad oddychwelyd yno boreu dranoeth, gyda chyfaill i'w gynorthwyo, efe a gauodd i fyny gêg yr ogof a cheryg a thywairch yn ddiogel ddigon ; pan y saethodd i'w feddwl, fod eraill fel yntau, wedi dod o hyd i ogofâu, ond eu bod hwy

druain ddynion yn eu celli drachefn. Ond rhag i'r fath anhap ddigwydd iddo ef, meddylodd am roi rhyw no! neu farc ar y fan, a'i cynorthwya i'w gael drachefn, ond nid oedd yma ddim i'w gael a'i boddlonai ar fater mor bwysig. Fodd bynag, tarawodd yn ei feddwl am naddu y ffon oedd yn ei law, a chymeryd ei rhasglodion yn arwyddion ffordd iddo i ddychwelyd yno dranoeth, ac felly fu, dechreuodd naddu wrth ddychwelyd adref, gan fwr-iadu iddynt fod yn arweinyddion diogel iddo ddychwelyd yno dranoeth. Boreu dranoeth a ddaeth, a chychwynodd ef a'i gyfaill i'r mynydd, yn hyderus i geisio y trysorau o'r ogof; ond gyda ei fod yn y fan yr oedd y llwybr rhasglodionog i ddechreu, ni welai yno gymaint ag un rhasglodyn, oblegid, meddir, "Yr oedd y Tylwyth Têg wedi bod yn eu casglu bob un!" Ac felly aeth y weledigaeth hon hefyd yn ofer. Ond nid fel hyn mae pethau i fod byth chwaith ddarllenlydd, O, nagê; y mae traddodiad yn y Nant, mai Gwyddel sydd i gael y trysorau hyn, ac fel hyn y bydd:—Fe ddaw Gwyddel yn fugal defaid i'r gymydogaeath, ac ar ei waith yn myned i'r mynydd i fugeilio, ar un o'i deithiau, pan welo tynged yn dda, fe rêd llwdn du penfrych o'i flaen, ac a â rhag ei flaen at yr ogof, ac i mewn iddi, â'r bugail Gwyddelig yn ei ddilyn, a rêd i mewn ar ei ol i'w ddal; pan ar ei ddyfodiad i mewn, er ei fawr syndod, y cenfydd y trysorau, ac a'u cymer, ac fel hyn y dychwelir eiddo y Gwyddelod iddynt, mewn rhyw oes!"

Hwyrach y dengys hyn i ni fod a wnelai y Gwyddelod rywbeth a'r manau hyn rywbyrd, ac nad chwedlau disail yw yr oll a ddywedir am y Genedl hon; ac y mae dywediadau yr hen bobl hyd heddyw yn dangos fod rhyw ddaint rhwng ein Cenedl ni a hwy bob amser, megis os bydd dyn yn anwadal, dywedir, "*Y mae wedi troi yn Wyddel!*" ac os bydd un yn ddi-gywilydd iawn a haerllug, dywedir, "*Taw yr hên Wyddel!*" ac y mae nifer mawr o'r cyfryw ddywediadau sydd i'w cael, yn profi y byddai llawer o gynhenu gynt rhwng y ddwy chwaer-genedl. Yn awr, gadawn helynt y Gwyddelod, ac awn i son am le o'r enw

BRYN LLYS. Y mae yn sefyll rhwng Afon Ogwen a Choed y Parc, a chredir gan Hynafiaethwyr ei fod yn lle o gryn henafiaeth. Wrth dori sylfeini tai yn y lle, o fewn cof gwr, fe gloddiwyd i fynu lawer o geryg nâdd, y rhai oeddynt dywod-faen; ac ymddanghosent fel pe buasent wedi bod yn fwâau uwchben y drysau, neu ynte uwchben y cloerau, a arferid yn lle ffenestri gynt; a chan mai llechfaen yw y creiglawr, tybir iddynt gael eu dwyn yno, mewn rhyw oes, o Fôn neu'r Faenol. Cloddiwyd i fynu y llynedd gerllaw yno, faen melin tlws, ac arno amryw addurniadau, yr hwn a elwir *breuan*; a chredir y perthynai i ryw wr mawr a allasai fod wedi byw yn Mrynllys, neu Llys Don. Ar lan Llyn Meirig, yr oedd llys ein testyn, a pherthynai, meddir, i ryw wr enwog o'r enw Meirig. Yr hwn a adawodd ei enw ar amryw fanau yn y gymydogaeath, megis y dengys Llyn Meirig, Bodfeirig, Bryn Meirig, a Glan Meirig; ac hwyrach fod a wnelai ei enw a "Cholofn Maes Meirig," sef yr hon a elwid "Maen Llyfon," ac mewn amser diweddarach yn "Bulput John Iork," am ei fod yn ei berllan, ac i'r prelad hwnw lorweddu ei ben, yn gyffelyb i ddesg, i ddal ei lyfr, am y byddai yn ymneillduo yno i ddarllen; yr oedd y golofn hon yn sefyll ychydig yn ol, ac felly yn ddigon hysbys i luaws. Yn ol ein cyfaill craffus y Parch.

O. Jones, gynt o Fanchester, nid oedd y Meirig hwn neb llai na'r Meirig y dywedir iddo syrthio at y Rhufeiniaid, ac mai efe yw yr un a eilw tramoriaid yn *Arviragus*. (Gwel y *Traethodydd* am 1859.)

Coelir iddo ffoi yma, i'r gesail hon o fynyddoedd Eryri, o ffordd dialedd ei gydwladwyr; ac iddo, mewn cyd-ddealltwriaeth a'r maes-lywydd Rhuf einig, adael bylchau Eryri yn fwriadol yn agored, fel y gallodd hwnw arwain ei fyddin rhag ei blaen i Fôn, i lofruddio y Derwyddon.

Dywed *Hanes yr Hên Gymry* t.d. 123, i'r penaeth hwn, yn y flwyddyn O.C. 114, wneuthur "Cytundeb a Trajan, trwy yr hwn y cydsyniodd Prydain o'r diwedd ar delerau penodol i ddyfod yn rhan o'r ymherodraeth Rufeinig." Rhêd *Llythyrâu Wmffre Dafydd* yn yr un cyfeiriad, gyda yr eithriad fod yr olaf yn galw y penaeth hwn, yn "Feirig, Brenin Eryri." Ond y mae a wnelo Meirig arall, llawer diweddarach, a Bryn Llŷs; sef

MEIRIG LLWYD O NANNAU. Allan o hen ysgrif-lyfr Cymreig oedd yn y Penrhyn, (ac sydd yno eto am ddim a wyddis i'r gwrthwyneb,) o waith Simwnt Fychan, ac a elwid "Achau Bonedd," y mae Wmffre Dafydd yn dyfynu fel hyn:—"Meirig Llwyd o Nannau a ddechreuodd adeiladu Bryn Llŷs, ond rhoes y gwaith heibio, ac a adeiladodd Ty'n Tŵr. Y Meirig hwn oedd yr un a Meirig Hên o Nannau, a thad Llewelyn Gôch a Hywel Sele. (Selyf?) Ei wraig gyntaf oedd ferch i Gruffydd Dewrwas, o Gochwillan;—Cafodd hi am saethu dyn a saeth oddiar fŵa, oddeutu milltir oddiwrtho." "Gruffydd Llwyd oedd bia llawer o'r tir yn ochr Llandegai i'r Ogwen, a phan ddaliwyd Syr Gruffydd, (fel y coffawyd,) aeth ei dir yn eiddo i'r llywodraeth; ond prynwyd ef gan Gwilym ap Gwilym o'r Penrhyn, pan briododd efe Agnes, y ferch. Y Gwilym hwn, sydd a'i lûn ef ac Agnes, ych Guffydd Llwyd, o'r tu ol i'r drws, yn Eglwys Llandegai."

Cymerodd hyn le, y mae yn debyg, oddeutu O.C. 1324. Wedi dal Gruffydd Llwyd, a'i garcharu yn Rhuddlan; ac oblegid rhyw gysylltiadau ag ef, hyn a barodd i Feirig Llwyd, roddi heibio adeiladu Bryn Llŷs, a chario llawer o'r defnyddiau i adeiladu Ty'n Tŵr, yr hwn oedd yn perthlyn iddo yn ei gysylltiad a'i wraig, yr hon oedd o deulu Cochwillan; ac yn wir, cawn rai o deulu Cochwillan yn byw yn Nhy'n Tŵr, mor ddiweddar a dechreu yr ail ganrif ar bymtheg.

Yn awr, mae yn dra thebyg mai *ail* godi Bryn Llŷs oedd amcan gwreiddiol Gruffydd Llwyd, hyd res ataliwyd ef gan y llywodraeth, pan y trodd yntau ymaith, ac yr adeiladodd Dy'n Tŵr, o hên Dŵr Gwydion ab Don, ac a'i galwodd yn ddigon priodol ar yr enw uchod.

Nid oes amheuaeth nad yr un ty, ac a adeiladodd Meirig Llwyd, yw yr un sydd yno heddyw, ac felly y mae oddeutu 542 mlwydd oed. Y mae golwg hynafol arno, ac y mae coed ei nen o dderw, a chan ddued a phren mawnog, ac arweinir ni i'r llofft gan risiau ceryg. Y mae yn debyg fod y ty dan sylw yn nghyda Chiltrefnus, Cilfoden, Maes y Groes, a Phlas Ofa yn ddrych ini eto, o hen dai y drydedd, a'r bedwaredd ganrif-ar-ddeg; amryw o ba rai a adeiladwyd yn ol yr *arddull groes* o adeiladu, y rhai y mae penau eu cyplau ar y ddaear, ac yn meddu grisiau ceryg fel y coffawyd.

Yma fel y coffawyd y bu John Iork, am ryw hyd yn llechu, ac o fewn ergyd carreg i'r dwyrain, y mae hen dŷ a elwir "Capel John Iork," ac yn ddiweddarach mewn ffordd o wawd, ar ol i rywrai fod yno yn pregethu a elwir "Capel Cwta." Dywed rhai na bu erioed yn gapel, ond cyfeiria eraill at ei hen ddrws, a'r ystafell wisgo a berthynai iddo i gadarnhau y gred iddo fod.

Ar ol dydd John Iork, bu fyw yno hen Gymro clo-lwiw, o'r enw

OWEN DY'N TŴR, ac o hono ef yr hanodd amryw o deuluoedd mwyafrifol Llanllechid, megis Mri. Dafydd, a Huw Gruffydd, Llwyn Penddu, Richard William, Talsarn, ac o du ei fam, Mr. Williams, Rector Llanfaelog, Môn, &c. Gwr o'r enw Robert Jones, Chwarelwr, sydd yn byw yno yn bres-enol.

Dyma ni yn awr wedi darfod a Bryn Llŷs, a Thy'n Tŵr; ac yn awr a gaf fi adgofio fy nghyfeillion, mai y mynydd olaf a enwyd oedd Moel y ci; ac hefyd crybwyll iddynt nad oes genym nemawr ddim i'w goffa yn bres-enol am y rhan yma o blwyf Llandegai, hyd oni chyrhaeddodd Draeth Lafan eilwaith, na bydd iddo eto gael ei goffa mewn cysylltiadau eraill. Gan hyny dyna ni wedi taflu ein golwg yn frysio trost blwyf Llanllechid i fynu gydag ystlys dwyreiniol yr Ogwen, hyd y Benzlog; o'r lle y dychwelasom gyda ei hystlys orllewinol ar hyd plwyf Llandegai i wared i Draeth Lafan yn ol.

Yr ydym yn sefyll yma ers meityn bellach ar bont Llandegai, a chyn i ni dori tir newydd i'n llygaid na'n tafodau, gadewch i ni yn gyntaf gael llymaid o ddwfr, o

FFYNON Y GRAGEN, a godwyd gan foneddiges o'n hy nyl, ac oedd yn dewis dangos ei hewyllys da i'r fforddolion, a chan fod y ffynon mewn ychydig latheni, awn ati, a chawn arni yr argraff canlynol, yn Saesneg:—

*Y Ffynon hon a gsfodwyd
gan*

Mrs. Dawkins Pennant,

Chwef. 17eg, 1851.

O! ni buom erioed yn ddigon diolchgar am lymaid o ddwfr glân, Diolch yn fawr i'r foneddiges am ei charedigrwydd; a brysied y dydd y delom oll i geisio nid ein lles ein hunain yn unig, ond yr *eiddo arall hefyd*, yn ol yr esiampl hon. Os nad oes neb o honom a fedr wneyd englyn neu bennill iddi, gwrandawn pa beth sydd gan y bardd ieuanc Mr. James Kirkham (Iago Wyn Tegai), ac y maeganddo ef yn sicr rywbeth da i'w ddywedyd;—

Molawd i'r Gragen ddwfr ger Llandegai.

Tôn—Llwyn Onn.

Cysleus i'r cyhoedd yw'r dyfroedd di drai
O Bistill y dyfrwr ar gwr Llandegai;
Sy'n tarddu trwy'r Gragen, ac allan, a'i si
Yn ffrydio'n rhywioglan win anian i ni;
I'r cawg ar bob enyd o hyd heb wahân
Yn barod mae'n bwrw y gloew ddwfr glân,
Yn groew a pheraidd, grisialaidd ei liw,
Y llesol arllwysiad da roddiad dŵr yw.

Uwchben y ddwfr-gragen yn llawen o'r llwyn
Bydd adar yn trydar yn seinber eu swyn;

Y Ceiliog mwyalchen ar gangen fain werdd,
Yn melus chwibanu, neu ganu pŕ gerdd;
Bronrhuddyn mor llawen ar berthen llawn brig,
A'i fawl i'r grisialaidd, ddwfr peraidd o'i bŕg:
Mwy diolchgar yw 'deryn neu'r asyn am ddwr,
Na llu o'r hil ddynol, an'styriol eu stŕr.

Llawforwyn yr ardal ddihasfal yw hon,
Fel mamaeth fwyn hynod yn barod a'i bron;
Dylifa tros wefus y gragen yn hael,
At eisiau pob auedd, digonedd sy' i'w gael.
Cywreiniawl waith Cymru anwyngu yw hi;
Wnânt rif o orchwyllion anwyllion i ni:
Efengyl mae'n ddangos yn ddios i ddyn
Ac ynddi gyflawn 'er ar gyfer pob un.

PENNOD III.

Bellach, nyini a ddychwelwn yn ol am y bont am dipyn eto, a chawn sylwi yn fyr ar y *llynau*, ar yr *afonydd*, ar *bysgod*, ac ar *bysgota*.

Soniwyd eisoes am rai o'r llynau, ond er mwyn bod yn drefnusach, a manylach, coffawn hwy yma gyda'u eu gilydd, a dechreuwn gyda

LLYNAU LLANLLECHID. 1.—Ffynon y Gaseg, yn nghesail yr Elen, ychydig, meddir, o bysgod (os oes rhai.) sydd yn hon, o herwydd y copr sydd yn ymyl. 2.—Ffynon Lugwy; 3.—Ffynon y Lloer; 4.—Llyn Ogwen; yr hwn sydd yn gorwedd rhwng plwyfi Llandegai a Llanllechid.

Lle yn perthyn i'r llyn olaf oedd *Foty Coedyr Ynys*, ar y Penrhyn Melyn. Nid yw y penrhyn hwn, ddim ond lithriad o'r Tryfan; a dywed chwedlau'r Nantddarfod cuddio yno lonaid buddaio aur, ond mai Gwyddel sydd i'w cael, ryw bryd! Aci'r Foty hon y byddai pysgodwyr oddeutu 80 neu 100 mlynedd yn ol yn myned i newid eu dillad, gochel gwlaw, neu i fwyta eu tamaid.

LLYNAU LLANDEGAI. 1.—Ffynon Cwm Ffynon; 2.—Llyn y Capel; y ddau yn Nyffryn Mymbyr (Mânebyr;) ac ni pherthynant ond mewn rhan i'r plwyf hwn. 3.—Llyn Bochlwyd; 4.—Llyn Idwal; 5.—Llyn y Cŵn; 6.—Y Marchlyn Mawr; 7.—ac mewn rhan y Marchlyn Bâch; 8.—Llyn Corŕion; ond nid oes ond llysŵod yn hwn.

Y mae llynoedd y Benglog yn enwog am eu brithylliaid er cyn cof, ac y mae cyrchu mawr yno yn misoedd yr haf, nid yn unig i bysgota, ond hefyd i fwynhau awel iach y mynyddoedd, a'r golygfeydd dyddorol geir ar y creigiau; lle

Mae natur rhwng y cymoedd a'r creigiau yn ddigŕ,
Yn gwenu mewn tangnefedd a diniweidrwydd pur.

Bydd boneddigion o Lerpwl, Manceinion, a Llundain, yn gystal ag o'r trefydd cyfagos, yn ymweled a'r lle yn flynyddol er mwyn ymenweirio yn y llynoedd, yr hyn a wnant yn bleserus, ar gychod yn aml, ac at y rhai mae agoriadau i'w gollwng yn rhyddion, i'w cael yn Ngwesty Capel Curig, yn Ngŕlân Llyn Ogwen, Ty Tan y Dderwen, ac yn Methesda, gan Mr. H. J. Hughes, Douglas Arms. Y pysgod hyn a anfonant, fel y coffawyd, i drefydd Lloegr, mewn gwair, neu yn hytrach mewn brwyn gwlybion, mewn basgedau adref i'w cyfeillion, ac ystyrir hwy yn bur ddanteithiol.

Bydd nifer fawr hefyd o lanciau Cloddfa y Cae yn tynu i fynu yno, gyda eu genweiriau a'u crythod, ar oriau hamddenol, prydnewnau Sadyrnau, a

dyddiau gŵyl, i bleseru eu hunain yn y ffordd hon, ac ychydig bobl a allant ymgystadlu a hwy am hudo brithylliaid; ac y mae aml ddiwrnod o ymrys-on poeth, wedi bod rhwng y Cymry a'r Saeson, pan y byddai genwair, werth gini, neu rywbeth cyffelyb, yn wobr i'r goreu; ond bechgyn Cloddfa y Cae a fydd yn ennill fynychaf. Y diweddgar Morris, Jones, Glan y Gors, a fyddai yn gyffredin ar y blaen amser yn ol, meg s ag y mae Robert Williams, Tanysgrafell, ac eraill gydag ef, heddyw. Byddai y diweddgar Robert Williams, Felin Fawr, a Richard J. Prys, Ty'n Tŵr, yn picio i fynu gyda eu crythau a'u genweiriau mor heinyf a bechgyn, pan oeddynt yn yr oedran o 80 mlwydd oed, a throsodd; a hawdd y gallasai yr ysgrifenydd adrodd aml chwedl ddyddan ddityr am y cyntaf, pe buasai amser a lle. Bellach cawn son am

AFONYDD LLANLLECHID. 1.—Afon Llugwy, yn rhedeg o Ffynon Llugwy at Gapel Curig, am Afon Conwy. 2.—Afon Ffynon y Lloer; yn rhedeg i Lyn Ogwen. 3.—Afon Berthen; yn ymlithro o Gwm Pant Taran, am yr Ogwen. 4.—Afon y Foel Graig; yn rhedeg trwy Bant yr Ychain, i'r Lafar; yr hon drachefn sydd yn ymuno a'r Gaseg, ac yn myned i Ogwen. 5.—Y Lafar; yn dod i waered o Nant y Gilfach Felen, i Gwm Pen Llafar, ac i'r Gaseg. 6.—Afon Gaseg; yr hon sydd yn rhedeg o Ffynon Gaseg, yn nghesail yr Elen, ac wedi derbyn o honi yr Afon Wen, ac Afon Boles, (*eboles*,) sydd yn ymrannu yn ddwy gainc wrth Aber Caseg, ac yn eu harllwys i'r Ogwen. 7.—Y Ffrydlas, yr hon sydd yn codi oddiar Foty'r Fam-aeth, yn nghwr uchaf Gwaen-Gwys-Mai, ac yn dod i lawr heibio'r Bont uchaf, ac yn cael yr Ogwen ychydig oddiar Bethesda. 8.—Afon y Llan, yn codi yn Nghwm Oewm (*Cwm-y-Cwm*,) ac yn cael yr Ogwen wrth Bont y Pandy. 9.—Afon Cae Du, yn dod i waered heibio Maes y Groes, ac yn cyrhaedd Ogwen wrth Dal y Bont.

AFONYDD LLANDEGAI. 1.—Afon Gwern y Gô; yr hon wedi ymuno a'r Llugwy sydd yn ffurfio Afon y Capel, ac yn ymarllwys i Afon Conwy. 2.—Afon Bochlwyd; a red olyn o'r enw, ac yn cyrhaedd yn fuan Lyn Ogwen. 3.—Afon Idwal; yn rhedeg o lyn o'r enw, am yr Ogwen. 4.—Afon Llyn y Cŵn; yn rhedeg trwy Gegin y Cythraul, i Lyn Idwal. 5.—Afon Cwm Clud; yn dod i waered i Lyn Idwal. 6.—Afon Gywion; yn rhedeg i lawr o Gwm Cywion, oddiar Blaen Nant, ac yn myned i'r Ogwen yn agos i'r Pentref. 7.—Afon y Galedffrwd; yn codi yn mynydd Llandegai, yn dod heibio Coed y Parc, ac yn cael yr Ogwen yn y Sarnau. 8.—Afon Bod Feirig; yn dod heibio Felin Hên. gan ymuno ag Afon Cegin, cyn cyrhaedd Pont y Wern, neu Bont Ty Gwyn, fel y gelwir y lle weithiau, ac yn cael y Menai yn Aber Cegin. Y mae y mân afonydd, neu yn hytrach y ffrydiau hyn i gyd, ond tair, yn arllwyso eu dwfr i Ogwen; yr hon drachefn, sydd yn eu trosglwyddo i'r Menai yn Aber Ogwen. Y mae y llynau a'r ffrydiau a enwyd uchod, oll yn glodfawr am eu brithylliaid, ond yn unig *Ffynon Gaseg*, a *Nant y Gilfach Felen*. Y mae dwfr oddiar gopr medd y pysgodwyr yn eu lladd yn y *gyntaf*, ac y maent o herwydd *Gwrym Caregog*, yn methu ymwthio i fynu o Gwm Marddwr i'r olaf.

Fe synai dyn dieithr y fath gyfnewidiad a allai gymeryd lle yn yr afonydd hyn ar ol gwlawio, am ddwy awr neu dair. Chwyddant yn ddioed, ac y maent fel mewn cyngrair â'u gilydd, ac yn galw ar eu gilydd i ymgysfar-

fod yn Ogwen; yr hon a lenwir at ei glanau yn union, gan ymgodi yn genllif; yr hwn a ysguba bob peth o'i flaen tua Thraeth Lafan; ac hyd y y gellir barnu yn adffurfio byrdd-dir newydd. Yn awr oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, fe yn dysgir y byddai yr hen Gymry yn galw llynoedd, ie, *llynoedd dyfnion*, yn *ffynonau*; ac hefyd ffrydiau, ie, *ffrydiau bychain*, yn *afonydd*: ac y maehynhefyd yn egluro y fath gyfnewidiad sydd ar *ystyr enwau*, mewnlaina thair mil o flynyddoedd. *Ffynon* y geilw yr hen boblsydd heddyw y llygeidyn hwnw o ddwfr codi, a fydd rhwng pedair llech, lle gallo dyn gladdu ei biser ynddo i gael dwfr; a *ffrydiau* y galwant yr hyn a alwai y cynfrodorion yn *afonydd*. Dywedir eu bod wedi methu cael heddyw, hyd i'r afonydd a ddarluniwyd yn Iliad Homer ar wastadedd Troy; yn awr, ai nid ydyw hyn yn tarddu oddiar ddull y Groegiaid yn galw ffrydiau bychain yn *afonydd*, megis ac y deallwn y gwnai yr hen Gymry; ac ai nid ydyw hyn yn debycach i fod yn gywir, na thybio fod y dwfr yn lleihau, a'r afonydd yn darfod fel y coelia rhai gwyr dysgedig? (Gwel yr *Anianydd Cristionogol*, *arg. Merthyr*, t. d. 452). Oni wna hynafiaethau y Cymry a'r Groegiaid ddim taflu goleu ar arferion eu gilydd?

Y PRSGOD. Yn y ffrydiau sydd yn rhedeg trwy y mawnogydd, ceir hwy agos can ddued a malwod; ond yn y ffrydiau sydd yn rhedeg tros raeau glân, y mae eu crwyn yn oleuach, a'r ysmotiau cochion sydd ar eu hystlysau yn siriolach; yr hyn a ddengys y gall y pysgodyn, yn debyg i'r geneu goeg, gyfnewid ei liw, a thebygu i'r gwrthrychau a fydd o'i gylch. Heblaw y brithylliaid, y mae yr eogiaid yn ymweled âg Ogwen a'i ffrydiau perthynasol, ond nis gallent fyned can uchod i fyny a Nant Ffranccon, hyd o fewn dwy neu dair blynedd ar hugain yn ol, pryd y darfu i'r Anrhydeddus E. G. D. Pennant orchymyn ergydio y meini a'r creigiau oedd yn eu hatal.

Daw'r eogiaid o'r eigion,—i fyny
Hyd fynwes Nant Ffranccon;
Fyny i'w dal o drefniad Ion,
O'i ddaioni i ddynion.

Ni welir dim un o'r crethyll cyfrwyog (a elwir felly o herwydd y llinellau tywyllion sydd ar draws eu cefnau) yn gallu myned yn uwch i fyny i afon Gaseg na Cheunant Uffern, o herwydd y disgyniad dwfr, yr hyn a barodd i'r ysgrifenydd dybio lawer gwaith mai sîl yr eog ydynt hwythau, ac nid brithylliaid. Y mae bod y fath amllder o bysgod môr ac afon, wedi peri adloniant mawr ar lawer aelwyd yn yr ardaloedd poblog hyn, yn gystal a dangos ini argraff o ddaioni Duw, yr hwn y mae ei drugaredd ar ei holl weithredoedd. Ar ol ymddangosiad sîl y gôg yn y gwanwyn, ymlithrant i lawr wrth gwrs naturiaeth i'r môr, rhwng y ddau Galanmai, ac os bydd y dwfr yn fychan, gwnant hyn yn y nos, pan na byddant ar y pryd ond ychydig *ounces* o bwysau; ond ar eu hail ddyfodiad i'r afon yn Mehefin a Gorphenaf, byddant ond odid yn amryw bwysau. Gelwir hwy y pryd hyn yn *wyniaid* neu *wyniadau*, a hyn o bosibl oddiwrth wynder eu torau, ac wedi iddynt ddyfod i oed a maintioli, gelwir hwy yn *leisiaid*, oddiwrth eu cefnau *gleision* debygid. Gan fod y môr yn anghyfleus i ddyn eu dal, enfyra Rhagluniaeth lwynt i fyny i dir ar hyd yr afonydd a'r ffrydiau, fel y

byddont yn fwy manteisiol at ei law, yn gystal ac i ymgladdu, ac oni bydd i ddyd achub yr adeg, y mae eu cyrph tewion a breision yn toddi ymaith yn rawn yr hwn a gladdant yn ngraiian yr afon, yna dychwel y pysgodyn i lawr yn ddigon salw ei wedd i'r môr i ymadnewyddu, ac er mwyn cyflawni yr un daith fendithiol drachefn.

Pysgota. Gynt, dēlid pysgod â dwylaw neu rwyd, neu tarewid hwy a thryfer, ond y mae dull fel hyn yn llwyr wahaddedig erbyn ein hamser ni; ac â phluen (*fly*) yn unig y ceir eu dal yn awr, ac os delir sŵl y gôg bydd yn rhaid eu gollwng i'r afon yn ol. Gwnai yr hen bobl eu genweiriau o gyli sychion, y rhai oeddynt ysgeifu, ac wrth enwair fel hyn dodent llyn rhawn, ac os byddent yn arfer y rhith wybedyn a elwir yn bluen, ni byddai blaen y llyn yn cynnwys mwy na dwy neu dair o rawn, wrth yr hon y sicraent fach *Limerie* wedi ei guddio yn ofalus â phluen; ond pan ddaeth y perfeddyn a elwir *gut* yn aduabyddus fe wthiodd y cyntaf o arferiad, a chydag ef y gwneir blaen y llyn yn awr. Anfonir yma y geuweiriau a'r llynau cywreinniaf o Loegr, ac wrth fon yr enwair sicrheir troell fechan yn cynwys arni ddigonedd o llyn, fel y gelir ei ollwng a'i gwtogi yn ol yr augen. Anfonir yma hefyd llynau rhagorol o Laniwst. Er cywreinnied yr ymddengys bachau plu Loegr, nid ydynt mor llywddianus am amser bron a'r rhai a wneir gan y brodorion eu hunain, am y rheswm eu bod yn dynwared natur y ffordd hon yn well. Y mae yn hyspys i'r hanesydd ddarfod dal rhai pysgod lled fawrion yma weithiau. Daliwyd brithyll yn Marddwr Nant Ffrancoon un yn 6 phwys, ac nid anwiw coffa ddarfod dal drachefn yn yr un lle yn ddiweddar lysowen yn 11eg pwys. Daliwyd brithylliaid yn llynau y Benglog yn wyth neu naw pwys. Dywedir y bydd eogiaid oddeutu 20 neu 25 pwys yn ymwithio i fyny can uchel a Bethesda, ond ni welodd yr hanesydd ddal yr un mwy nag oddeutu o 18 i 20 pwys.

Clywodd y diweddar Mr. R. Thomas, Abercegin, yn dyweyd mai 47 pwys oedd yr eog mwyaf a ddaliodd ef yn y Gored, yr hwn a anfonwyd i'r Amwythig, a chaed swllt y pwys am dano—pris mawr yr amser hwnw, yr hyn oedd oddeutu 60 neu 70 o flnyddau yn ol. Ond yr eog mwyaf y gwybuwyd ei ddal yn Ogwen erioed oedd yr un a gafwyd yn Llyn Gorllwyn oddiar Ben-lan; yr oedd dwy dryfer yn ei gorph, a phan hwyswyd ef yr oedd ny 65 pwys; ond aufnych y mae rhai mawrion yn anturio i fynu o enau yr afon. Yn awr, cyn darfod a hyn, goddefer i ni goffa "fod rhyddid i bysgoda" yn y "tair afon" yn Arfon gynt, yr hyn a ganyddir yn y seithfed penrhau o "Freiniau Gwyr Arfon," y rhai a lofnodwyd gan y Tywysog Rhun, yn Nghaer Rhun, rywbrd rhwng y blynyddau o. c. 561 a 586. Y mae yn ymddangos fod gan y tywysog trwy hawl ei daid, Caswallon Law Hir, a'i hynafiaid eraill, feddiant o lawer o dir yn Arfon heblaw Dunodig, yr hwn a gawsant yn wobr am yru y Gwyddelod allan o Wynedd, ac felly trwy yr hawl hon, a'i awdurdod ei hun, fel tywysog Cymreig, caniatuodd dair afon i fod yn rhyddion i wyr Arfon am eu gwaith yn blaenori trwy yr afon i frwydr yn Aber Menewudus, ac ar yr enw hwn gwel sylw cywrair gan Eben Vardd yn "Nghyff Beuno," t. d. 66. Ond yn awr, at y penran, a dyma fe;—"Seytheu, bot yn ryd pysgota ary tair auon y syd yndy yn gyffredyn."—*Camb. Reg., vol. ii., page 310.* Sef yn "Seithfed, bod yn rhydd pysgota ar y tair afon sydd vnddi yn gyffredin." Y rhai fel y tybir, yw Ogwen, y Saint, a'r Llifen.

Yr oedd Aber Gwyn Gregin o bosibl yn rhy fechan i'r tywysog wneyd sylw o honi. Yn awr, os parhaodd yr afonydd uchod yn rhyddion felly hyd y flwyddyn o. c. 1282, pan unwyd Cymry a Lloegr, y mae yn debyg iddynt fyned o law i law mewn rhan gyda y tiroedd, o hyny hyd heddyw. Pa beth bynag fu helynt eraill, neu ydyw heddyw, ni cheir pysgota ond ar fanau ncillduol yn Ogwen yn bresenol, mewn misoedd pennodol, ac ar oriau pennodol, ac mewn dull pennodol.

GOEDAU ABERGEGIN.—Y mae yma ddwy er's llawer o flynyddoedd, ond un oedd gynt. Ceir ynddynt yr eogiaid, y lledu, a'r penfras, ynghyd a'r penwaig, &c. Ceir ynddynt hefyd y nodwydd fôr a'r garai fôr, ac ambell waith bysgodyn lledenaidd a elwir cythraul môr; carcherir ynddi weithiau y llamiedydd; a gwelodd yr hanesydd gael ynddi unwaith forſil bychan, yr hwn a bwysai, gellir tybio, o ddeg cant ar ugain i ddwy dunell. Yn amser Arglwydd Penrhyn delid yma fwy nag a allai y broydd hyn eu derbyn, am hyny anfonid hwy i fanau eraill. Yn amser John Williams, Tal y bont, a William Gruffydd, Cororion, ac wedi hyny yn amser Robert Thomas, byddid bron yn methu eu clirio o'r gored cyn yr ail lanw; a chai dyn faich ei gefn am ychydig o gynorthwy. Ciliodd y pysgod wedi hyny, yn hyn a briodolir i amryw achosion, megis, fod eu hymborth yn darford, neu yr agerlongau yn eu dychrynu, &c., ac ymddengys hefyd y gallai anystyriaeth ac anniolchgarwch gwlad, bechu daioni fel hyn ymaith; ac yma nid anaddas coffa y gall yr Hwn a'u gorchymynodd i fyned ymaith, eu galw yn ol, os gwel hyny yn oren. Mynych y clywid gynt, am y gored yn tagu gan bysgod, yn enwedig pan chwythai y gwynt yn rymus oddiar y tir, a nifer o ddynion gyda cheffylau a throliau yn methu eu clirio cyn yr ail lanw, ac y byddent yn dyfod yn llwythi tua Chloddfa y Cae a manau eraill; ond gwelodd yr adroddwr ddau ddyn yn cario cynnwys y ddwy gored bresenol, ac nid oedd ganddynt fwy nag a gariai un dyn.

HIN FYNAG YR HEN BOBL. Y mae yn ddigon hyspys i bawb nad peth dibwys, yn enwedig i bysgodwyr, tyddynwyr, teithwyr, a llechgloddwyr ein gwlad, yw ychydig o ragwybodaeth am y tywydd; a pha ryfedd i'r gwr ieuanc gobeithiol sydd yn byw yn mynydd Llandegai geisio ein gwasanaethu o bryd i bryd, a hyny yn lled lwyddianus hefyd, yn yr wyddor hon, ond yn awr ein hamcan presenol yw coffa i'r oes heddyw am y blaen arwyddion:

1.—Pan fo niwl Conwy yn dod i fyny gyda godre Moelwynion, gan gyfeirio at Nant Ffrancon, y mae yn debyg o'wneyd tywydd teg am gryn amser.

2.—Ar ol gwlybanaeth, os bydd Pistyll Bodfeirig, Rhaiadr Pen isa'r nant, yn nghydag Afon Lafar ac Afon Gaseg, yn anfon i lawr i'r hendref swm llafar eu dyfroedd, fe fydd anian y pryd hyn yn canu marwnad y tywydd blaenorol, ac yn ymgais am dywydd teg.

3.—Os dygwydd i'r wybren fod yn drymaidd a thywyll yn y bore, fel ag i beri i ddyn betruso am dywydd y dydd, yn awr, os gwel ffenestr, neu dwll gloyw yn Mwlg y Benglog (rhwng y Tryfan a'r Gludar) y gall roddi ei ddwrn trwyddo, fe geir tywydd teg am y diwrnod hwnw.

4.—Os bydd y cymylau yn y bore yn ffurfio eu hunain ar ben yr Aryg, Carnedd Llewelyn, a Charnedd Ddafydd, &c., nes gwneyd magwyr a elwir "y wal wynt," bydd yn debyg o chwythu yn galed cyn nos.

5.—Pan fo y gwybed llwydion yn codi allan o'u tyllau i ddawnsio yn

gymdeithasau yn yr awyr, er ei bod yn ddiwrnod hyfryd o bosibl, a'r gwenoliaid yn ehedeg yn isel, a llarpiau o niwl tywyll yn dechreu esgyn Carnedd Ddafydd, &c., a moelyci yn gwisgo cap o niwl, y mae gwlaw yn ymyl.

6—Os bydd yr awelon yn cipio sychu gwedi gwlaw, a golwg du plymaidd ar Afon y Foelgraig ac eraill, y mae ychwaneg o wlaw i'w ddisgwyl; ond os bydd yn sychu yn raddol, a'r mynyddoedd yn ymddangos yn lân, yr wybr yn loyw, a'i ffrydiau yn arianaidd, y mae hinon gerllaw. Gall pysgodwyr yn awr gychwyn am y Benglog, gan fwynhau awyr bur beraroglaidd, a gweled y llynau yn chwerthin ac yn chwincian arnynt i'w croesawu.

Yma gallwn sylwi y rath bleser a gafwyd lawer gwaith wrth yr olwg fawreddog a fydd ar y cwmwl yn cyflawni ei daith arddunol tros amgant y nefoedd, yr hwn, wedi llenwi ei berfedd a dwir y Mor Werydd a ymlusga yn arafaidd i ben un o'r mynyddoedd, lle yr erys i eistedd am funyd neu ddau, nes derbyn gwybodaeth i ba le y mae i fyned i wlawio, yna efe a ail gychwya i'w daith tan ganu corn, i'n rhybuddio i fod ya barod i dderbyn yr elusen o wlaw, ac weithiau tyr allan ar ganol ei waith i chwerthin yn daranau, o wir lawenydd am gael gwneyd rhyw gynwynas i ni dros ei Feistr Hollalluog! Ond er mor hael yw y cwmwl, ni chaiff Ogwen sydd danom un dafn, os gall y ddaear ei lyngau, nes y caffo hi yn gyntaf ddigon, ac ni chai wedyn chwaith, ond fel y bydd yn rhedeg heibio ei genau! Yna brysia y dwir i waered tan dydar a dwndro rhyngddo ag ef ei hun, ac mewn brys a ffwdan am fyned i'r mor, mewn trefn i gael ei godi i'r awyr, a dychwelyd i'w waith i'n gwasanaethu ni yn y plwyfi hyn. Yna wedi iddi fyned yn hindda, "Dyn a â allan i'w waith, ac i'w orchwyl hyd yr hwyr. Mor lliosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb: llawn yw y ddaear o'th gyfoeth."

PENNOD IV.

Y CYNFRODORION.

Wedi son am arwyneb y wlad, a nodi rhai llanerchau hynod o'i mewn, byddai yn ddymunol hyd y gellid, gwneyd sylw byr ar yr hen breswylwyr a'u harferion; ond o ddiffyg defnyddiau dymunol, a bod y testyn yn anhawdd, yr ydys yn teimlo gorchwyledd wrth ddechreu. Ni adawodd ein cyndadau nemor i ddim i ni ar eu hol, ond eu cytiau crynion, eu hesgyrn, a'u lladw. Nid oeddynt yn adeiladu tai, trin y ddaear, nac yn meddu dysg ar lyfr, nac yn feddianol ar ddim braid fel nyni, ac nid oes odid linell mewn rhyddiaeth na barddoniaeth i dafu goleu i ni ar eu dull o fyw, ac felly wrth gwrs, gwelir ein bod i raddau mawr tan ein dwylaw. Oddiwrth yr enwau sydd ar y mynyddoedd, dyffrnoedd, ac afonydd, gwelir ar unwaith mai Cymraeg ddihalog ydynt, yr hyn a awgryma mai Cymro (*cyn—brô*) oedd y cyntaf i'i fro hon fel yr oll o Ynys Prydain. Er fod rhai enwau yn aros braid yn annealladwy i rai, eto, ceir mai Cymraig bur ydynt. Y mae yn wir ddarvoud i liaws o eiriau ac enwau estronol ddod i ymarferiad ar ol y goresgyniad, o herwydd arhosiad y byddinoedd Seisnig yn y wlad; fel *ffarm, lôn, euter, sparrow*, &c., yn lle tyddyn, ffordd, ffrwd, ac aderyn tŷ. Bellach nodir rhai pethau a allant ein cynorthwyo i dynu casgliad am nodwedd y cyn-breswylwyr.

Y CYTIAU CRYNION. O fewn y 30 mlynedd diweddaf, wrth ddiwyllie treftadaeth y Penrhyn, deuwyd ar draws o bryd i bryd, a hyny oddeutu llathen yn y ddaear, mwy neu lai, amryw o'r cytiau crybwylledig, rhai yn cynnwys dim ond gwrym o bridd; tra yr oedd eraill yn meddu magwyr gylchynog o feini, a chaed rhai yn agos i Felin Esgob, Gat y Lôn Isaf, a Buches Cae Rhedyn yn Modfeirig, &c., ac o ran hyny, ceir hwynt yn mynydd-dir a hendref y ddeu-blwy. Dichon mai ar y lleoedd hyn y pabell-ent, neu ynte y gwnaent aneddau mwy parhaus.

CRYMUN (*Crum—lân*). Coelia rhai mai pentref o'r cyfryw gytiau oedd y lle hwn, ac a elwid felly oddiwrth arddull gylchynog y tir; gwelir olion o hono yn aros eto, mewn gweirglawdd yn myyl y pentref presenol, ac felly hefyd y dywed traddodiad; ond coelia eraill mai cylchoedd Derwyddol ydynt, ac y maent yn chwech neu saith o ni'er, a rhai yn seith-lath neu wyth o draws-fesur, a rhai yn ilai. Tebygant i Gytiau Crynion Cloddfa'r Cae.

LLANERCHYN, neu *Llan Iyrclyn*, yn Nghwm Oewm, oddiar Chwarel Bryn Hafod y Wern, a berthynai o bosibl i'r cynoesoedd, er fod rhyw adrefniad wedi bod ar y lle, fel y dengys amryw olion tai ysgwar sydd yno eto, ynghyd a gweddillion eglwys. Tybir mai y Rhufeiniaid a ddysgodd i'n cyndadau wneyd tai ysgwar. Hwyrach fod yr olion tai ysgwar ynghyda hen furddyn sydd gerllaw yn cael ei alw yn "Dy Rolant Pen Pres," (oddiwrth ei helmet), yn dangos fod a wnelai y canol oesoedd â'r lle.

CIL TWLLAN (*Cil—tynyll—llan*). Ceir yma eto olion naw neu ddeg o gytiau crynion, ac ambell ol ty hir ysgwar yn eu plith. Yr oedd rhagfur neu frestwaith llydan o flaen yr hen bentref hwn, ac y mae yno hefyd ol hen eglwys, ac y mae dwy golofn o honi yn sefyll eto; ac yr oedd hen ffordd dda yn dyfod i fyny yno ati oddiwrth Gil Trefnus neu Treflys. Y mae y tri phentref hyn erbyn heddyw yn bentwr, ac ni wyr neb byw ddim o'u hanes, er y credir y perthynent i'r hen âl gyntefig, yn enwedig felly, y lle cyntaf a enwyd. O herwydd fod Cil Twllan yn gorwedd rhwng Ceryg Henllys a Dol Ddafydd, (gwel t. d. 20), a bod murddyn yr eglwys yn perthyn i'r *arddull groes* o adeiladu, yr hwn a ffynai yn Lloegr rywbryd yn y canol oesoedd, y mae yn ddigon tebyg y bu a wnelai y Tywysog Dafydd ab Gruffydd, yr hwn a fu yn preswyllo dalm yn Lloegr, ac wedi hyny yn myned ac yn dyfod y ffordd hon, rywbeth ag adeiladu yr eglwys; ac hefyd dengys i bobl ei fod yn byw, neu ynte wedi gorfod *cilio* yno, yn gystal a Llan Iyrclyn, am nawdd tua'r mynyddoedd mewn amser o ryfel. Y mae yn iawn son yma fod rhyw draddodiadau a choffa am bob hafotty bron ellir weled, ond am y cytiau crynion, ni cheir y coffa lleiaf am eu henwau, na phwy a fu yn eu preswyllo. Weithiau ceir cwt crwn ar ei ben ei hun, pryd arall ceir olion cwt golygus, ac adwy neu ddrws yn myned o hono i ddau neu dri eraill o'r cyffelyb gytiau, ac y mae yn debyg mai gwr mawr ei dylwyth oedd yn byw mewn lle felly; a phryd arall ceir pentref o honynt fel y coffawyd. Eto, ni phrofa hyn debygid, ddim mwy na gwahaol raddau cymdeithas, neu ynte gwahanol fath ar aneddu, neu ynte o gynydd perthynol i'r un bobl. Y mae yn anhawdd penderfynu dim am eu hoedran. Barna ein cymydog craffus Mr. Elias Owen, Yr Achub, os ceir lludw coed ynddynt, ei fod yn myned yn mhell i brofi eu hynafiaeth, ond os lludw mawn, nad yw hyny mor ffafriol i'w hynafiaeth; a phe ceid lludw glo, yr

hyn ni chaed eto, profai hyn eu diweddarwch. Y mae y drefn sydd **ganddo** yn hynod naturiol, am mai coed a arfeid gyntaf yn danwydd, yna mawn; ac yn olaf glo. Y mae y boneddwr a goffawyd, Mr. Owen, newydd gwblhau darlun-len o Foel Faban a Moelwynion, yn cynnwys y cytiau a'r carneddau perthynol iddynt, a nodiadau manwl a gwerthfawr arnynt.

CWT CRWN TANDDAEAKOL. Ar dir y Gerlan, yn agos i'r lle olaf a goffawyd, cafodd W. J., Tan y Garth, yr hwn sydd eto yn fyw, hyd i gwt crwn dan y ddacar, pan yn arloesi tir tatws, a hyn yu nghanol perthi, twmpathau, a bonicyffion coed, lle na feddylodd y perchenog na'r cymydogion ddim am y fath beth. Fel yr oedd yn ceibio teimlai yr offeryn yn cyrhaedd llawr ceryg, a thybiodd mai llawr hen feudy ydcedd, a galwodd ar ei feistr i'w weled, yr hwn, wedi dyfod yno, a phrofi y llawr trwy ei guro a throsol, a dybiodd yn union ei fod yn wag odditanod.l. Ar hyn dechreuwyd arloesi y pridd i chwilio am ddrws yn ei ochr i fyned i mewn, a chaed ef, yr hwn oedd o gareg wenithfaen lydan; ac wedi ei thynu a myned i mewn, cawsant yno gwt crwn trefnus, ond yn ymddangos yn bur hên, ac wedi ei lorio yn dda a gwenithfaen, ac yn ei ystlys le tân, o'r hwn yr oedd lle i'r mwg fyned i fynu, ac yn y lle tân, alch ddwyffon can braffed ag arddwrn gwr, ond yr haiarn mor rydlyd a brau fel na ddaliai ddim, ac yr oedd yn yr alch olog cced, mor newydd yr olwg arno, ond yr ychydig lwydni oedd ar ei wyneb, a phe buasid newydd ei ddiffodd. Erbyn craffu, yr oedd y parwydydd wedi eu cymrydu a chalch a wneid o gregyn cocos, malurion y rhai oedd ynddo o herwydd eu llosgiad amherffaith. Coffeir y cwt hwn, nid oddiar dybiaeth ei fod yn hen fel y cytiau crynion, ond oddiar ystyriaeth o'r posibilrwydd a'r tebygolrwydd i Dafydd ab Gruffydd fod yn llechu ynôdo. Pa beth a feddyliai fy nghyfeillion am dasu eu meddyliau ddeunaw canrif yn ol, a thybio eu bod yn troi i mewn i letya am noson i un o'r cytiau crynion, lle y caent y tân ar lawr yn y canel, a meibion a merched yn eistedd o'i gylch, ac yn llawen ddadgan arwrgeiddi gyda y crwth, neu'r delyn, neu ryw offer cerdd, er coffa am wrhydry eu hynafiaid; ac wedi cwynos ar fara rhyg, neu geirch, gyda chig ceirw neu eifr, &c., taenu brwyn neu wair ar lawr a'i gyweirio, ac ar hwnw taenu rhestog neu garthen, a phawb orwedd arni felly yn eu dillad, ar gylch, a'u traed at y tân? Diau y teimlent yn lled chwithig. Hwyrach mai cyfeiriad at yr hen wely gwair cyntefig sydd pan elwir merch onest, na fyn ymostwng i gyfeillach halogedig, yn *ddi-wair*; a'r feddal, drythyll, yn *an-ni-wair*; ac felly am fab yr un modd. Gweddia yr eglwys am *gy-weir-iad* i rai mewn cystudd, yr hyn debygir a gyfeiria at y dull o esmwytho gwely gwair.

BREUANAU (*Querns* or *liand mills*) a elwir felly am eu bod yn *brwne* neu yn *breuo* yr yd. Y mae dau faen yn ofynol i wneyd par o feini y felin hon. Y mae yr isaf yn grwbi a'r uchaf yn geuol, yr hwn a roddir am yr isaf fel doddi het am ben. Mae twll yn myned trwy yr uchaf i'r isaf, trwy yr hwn y rhoddir gwerthyd haiarn, yr hon sydd yn cyrhaedd rhyw fodfedd i'r isaf, a thrwy yr un twll hefyd y rhed yr yd i waered rhwng dannedd y ddeufaen. Mae y meini cyntefig at faint maip go fawr, neu benau dnyion, ac eraill diweddarach yn debyg i faen llifo bychan, ac eraill diweddarach yn meddu rhychau i gario y blawd allan, fel meini y melinau dwfr presenol. Ceir hwynt yn y mynydd a'r hendref, ac yn fynychaf yn nghytiau crynion

y ddau le; ac wrth ffosio, dyfndroi y tir, neu ladd mawn, megis ag y caed amryw o bryd i bryd yn mawnogydd Gwaen Gynfi (gwel t. d. 34), Gat Lon Isaf, ac yn Muches Cae Rhedyn ar dir Bodfeirig, y rhai a gedwir yno eto, ac a brofant fod dyn ar y pryd yn byw yn syml iawn, pan ddefnyddia y cyfryw garegos i falu ei yd, modd y defnyddiwn ni yn awr y felin goffi. Dywed yr hen air:

“Tra rhed yr ôg rhed y freuan.”

Gwelir oddiwrth Gyfraith Hywel Dda yr arterid breuanau mor ddiweddar a'r ddegfed ganrif, a meini melinau cyffelyb i'r eiddom ni hefyd, a chostiai breuan 4 ceiniog, a maen melin 24 ceiniog.—*Camb. Reg. vol. ii. page 333.* Y mae ein cynnydog Mr. Owen wedi tynu darluniau manwl o amryw o'r rhai hyn hefyd. Coelir mai blawd garw eisinog oedd gan yr hen bobl, yr hwn, wedi ei dylino a gresid yn gri neu groew, ar *lêch*, a elwid hefyd *e-lêch*, ac mewn amser diweddarach *alch*, ac wedyn *alch ddn* (*grate*), a phwy ni chlywodd am *fara lêch*? Traddodir mai ar lechi felly y byddai hen breswylwyr pentref Cil Twllan, sydd heddyw yn garneddau, yn crasu eu bara, a hyny mewn lle a elwir eto yn “Gae Pôbdy.”

ARDDU Y BRYNIAU. Ymddengys mai brynïau a llethrau mynyddoedd a drinid gyntaf, ac y mae traddodiad felly hefyd, yr hwn a gadarnheir gan olion yr aredig bore fu ar ein llethrau. Cawn ar ledben deheuol Moel Faban olion nifer o gaeau, a elwid llanerchi, y rhai ond odid a roddasant yr enw o *Fwlch y Llanerchi* i'r daeardor sydd yno; y cyfryw enw a esmwytheir trwy ddyweyd Bwlchynylchi. Mae y llanerchi hyn yn cynnwys dwy nen dair o erwi o dir, ac y mae y magwrydd ceryg sydd o'u hamgylch bron wedi suddo o'r golwg erbyn nosio i waered i'n hamser ni, tra mae cytiau crynion y cynbreswylwyr wedi eu troi yn fuarthau defaid, a'r rhei'ny drachefn wedi myned yn garneddau, a bron wedi suddo o'r golwg. Hefyd yn ymyl y foel tan sylw y cawn le o'r enw “Gwaen—gŵys—mai,” ac ni wyr yr hanesydd am un hreswm tros ei alw felly, os na byddent yn ei gwyso a'r aradr ar y mis hwnw o'r fiwyddyn. Mae yn debyg mai y caib, y rhaw balâr, a'r ârad, oeddynt hen offerynau cyntefig amaethyddiaeth. Mae ol trin yn ystlysau y Waen Lydan, ac amryw fanau yn mynyddoedd Llanllechid. Mae gweddillion murrddyn suddedig a magwrydd suddedig hen dyddyn o'r enw *Maes Madog* i'w ganfod eto oddiar Chwarel y Bryn. Cydnabyddir gan ddyunion dysgedig fel ein cydwladwr y taich R. W. Morgan, B. D., Tregynon, yn “Hanes Cymry,” ac eraill, mai llethrau y mynyddoedd a drinid gyntaf, a bod llawer o Ynys Prydain tan ddwfr, ac felly yn anngghymwys i'w choled d ar ddyfodiad y dôn gyntaf o ymsefilydwy, ac os ambeuir hyn, Daiareg sydd i roddi cyfrif am dano; ac nid anmhosibl nad lle felly oedd dyffryn Cynwy, ac mai Gŵy-dir oedd ei hen enw, sef tir dyfriog. Dywed traddodiad yr hen bobl fod gwaelodion Llandegai a Llanllechid ar y dechreu yn llawn gwerni, hesg a brwyn; lle llochesai llewod, eirth, a bleiddiau, ac y mae lle o'r enw *Ogo Flaidd* ar y Braich Melyn.” Dywedir yn mbellach “ddarfod i'r cynffrodorion, ar dymor sych o'r hâf hir-felyn, amgylchu y bwystfilod hyn a thân, y rhai yn eu cyfyngder hwn a redasant i ben bryn, lle y clywid hwy yn ubain yn dost, ond o'r diwedd i'r elfen ddinystriol eu llwyr gylchynu ac iddynt hwythau drengu yn y canlyniad.”

BU HARFOGAETH. Cesglir oddiwrth yr ol hogi a'r ysgraffinio sydd i'w weled ar rai meini yn mynydd Llanllechid, ac oddiwrth enw fel Bwlch Anela, fod y bwa saeth a'r bicell yn gwneyd i'w syny ran o'u harfau ymddiffynol.

HEN FFYRDD CYMREIG A RHUFEINIG. Dywed rhai hynafiaethwyr fod *Sarn glan y Mor* yn dod i'w syny o Gaerlleon trwy Gonwy, am Icaion (Caeonu), sef Bangor, ond meddylia eraill mai myned yr oedd i Borthwygyr (Beaumaris) yn Mon; ond gan fod nifer y trigolion yn ychydig, y mae yn debyg nad oedd eu ffordd ar hyd y plwyfi llyn ond llwybrau gleision ar y goreu, fel y gallai ceffyl a char llusg eu tramwy, y rhai a barhasant hyd yn ddiweddar. Tybir fod ffordd Rufeinig yn myned trwy yr hendref (gwel t. d. 11), ac y mae traddodiad am un arall yn dyfod o Gaer Rhun (Canovium) tros Fwlch y Ddeufaen am Aber, yna tros y Ffridd Ddu am Waengwys mai, ac i lawr at Ffos y Rhufeiniaid (Bwlchynylchi) a Llwyn Bleddyn, ac yn syth heibio Goetmor i'r Rhyd Lâs yn Ogwen, ychydig oddiwrth Felin Goetmor; yna trwy yr hen Durnpike i'w syny at y Foty (hen Foty fawn y Penrhyn meddir), ac heibio Clogwyn Corlan y Crydd i lawr i Ffriddoedd Chwarel Goch, at Ty'n lliadiart, ac i'w syny y gefnen yn syth at Ben Ffridd, ac i lawr i'r Waen Hir, gyda chwr isaf Moelyci i Lôn Maltt, at Bentir, ac oddiyno i Gaer Seiont (Segontium) ger Caernarfon, ac y mae rhai o'r pedwarugeiniaid yn coffa am beth tramwy a fu ar hyd-ddi; ac yn mhlith eraill, ar hyd hon yr anfonai ac y cyrchai hen foneddigion Coetmor eu nwyddau, gyda gwas, a chanddo geffyl yn dwyn dau gawell. Er maint oedd cariad y Rhufeiniaid at ffyrdd uniawn, yr oeddynt yn gorfod ymstwg i drefn y wlad, er fod hon mor uniawn ac y geilir dysgwyl, fel y gwelir oddiwrth Gefnen Penyffridd yn mhlwyf Llandegai, hyd Fwlchynylchi yn mhlwyf Llanllechid. Y mae traddodiad ddartod i'n cenedl ni, yn agos i'r ffordd hon ymladd.

BRWYDR A'R RHUFEINIAID. Mae yn bosibl fod gwersyllfa gan y Rhufeiniaid ar lan Afon Gonwy, ac Afon Saint yn Arfon, lawer o flynyddau o flaen y Caerau a adawsant ar eu holau yn y ddau le, ac mai y ffordd uchod oedd y dramwyfa o'r naill i'r llall, yn gymaint a'i bod yn myned trwy y mynydd-dir, lle preswyliai y Cynfrodorion. Diau ei bod yn hysbys i'n cyfeillion ddartod i'r Penluyddwr Caradog ap Bran, yr hwn oedd a'i breswyl yn Neheudir Cymru, ymladd 32 o frwydrau â'r Rhufeiniaid, ac iddo yn y frwydr olaf a ymladdodd a hwy, gyfleu ei wyr yn mhen bryn ar lan afon, sef Caer Caradog yn Swydd Amwythig medd rhai, ond Castell Knoll ger Bramton Brian yn ol eraill. Ond y mae y Parch. O. Jones, un o'r rhai mwyaf cyfarwydd yn Hynafiaeth ei wlad o neb sydd fyw heddyw, yn meddwl nad yn yr un o'r ddau le y bu hyny, ond mai yma yn ein gwlad ni; yn ol ei farn ef, y bryn y sonia Tacitus am dano, oedd Pendinas; ac mai yr afon, oedd Afon Ogwen; a'r rhyd, oedd Rhyd Las; y Daenryd neu y Daer-ryd, fel y galwai yr hen bobl y lle; a chan fod y ffordd Rufeinig a soniwyd yn dod heibio y Gaer Gymreig uchod, gyda bryn a rhyd cyfatebol i'r darluniad, ymddengys hyny yn ddichonadwy. O du dwyrain i'r Ogwen yn y lle tan sylw y mae man o'r enw Bryn Bela (*rhy-fela*), ac ar y lan gyferbyniol ar gefnau o dir o'r enw "Ffridd y Foty," yr oedd yn ddiweddar ddwy o golofnau mawrion y rhai yr oedd gan Arglwydd Penrhyn feddwl mawr

am danynt am y gallai eu gweled trwy ffenestr ei barlawr, ond yn anffodus a ergydiwyd ychydig gydag ugain mlynedd yn ol, ond ni wyddai neb eu dyben, os nad oeddynt yn cynal coffadwriaeth am ddewrder y rhai a ymladdasant yn y lle. Tybir i Caradog dderbyn gwahoddiad gan yr Arfon-iaid i ddysod yma i wrthladd y Rhufeiniaid oeddynt yn yspeilio eu gwlad, iddo yntau wrando, a dysod yn lled ddichellgar tios Fwlch y Breccan i Nant Ffrancon a chyfleu rhan o'i fyddin yr ochr gyferbyniol i'r dyffryn ychydig yn is, ar Fwlch Anela, ac iddo, o herwydd ei gyfrwystra, yr hyn a addeffid gan y Rhufeiniaid, a'i wybodaeth am y lle, eu hudo ychydig i fyny y cwm, ac iddo, mewn lle a elwir "Maes Caradog," roddi curfa dda iddynt a'u maeddu; ac i'r gweddill o honynt ddychwelyd un ai i'r gwersyll ar lan Cynwy neu i'r un ar lan Seiont, o'r lle y dychwelasant dranoeth neu dradwy gyda byddin lusocach, ac y cawsant Caradog yn gwersyllu ar Bendinas, a chanddo lu belyd o wyr pendefigol yn amddiffyn y Rhod Las. Yn awr, gan y dywedir i Ostorius roddi i lawr y gwrthryfel yn Lloegr, gyfeirio ei gamrau "yn erbyn y Cangi neu Cangiani, pobl sir Gaerynarfon," a darfod cael wrth agor Carnedd wrth Ben isa'r Nant ryfel-fwyell efydd, yr hon sydd yn nghadw yn y Penrhyn, ac nu arall mewn Carnedd o'r fath wrth Benlan, at y mynych urnau a gaed yno o bryd i bryd tua glanau yr Ogwen, a darfod cael modrwyau efydd, urnau, &c., yn Mhen Dinas (gwel t. d. 16), mae yn debyg fod Mr. Jones yn gywir yn ei ddysfaliad, ac mai yma gyda ni ar lan Ogwen ya ymladdodd Caradog ei frwydr olaf a'r Rhufeiniaid, pryd y collodd y Cymry y dydd, ac y ffodd Caradog am nawdd at Cirtus Finddu, brenhines y Brigantwys, lle y daliwyd, y rhwymwyd, ac yr anfonwyd ef yn garcharor i Rufain; yr hyn, trwy gyfres o ail achosion eraill, a oruwch lywodraethodd daionus law Duw nes peri i ni glywed efengyl ein Iachawdwriaeth yn ad-sain rhwng creigiau Eryri. Dygwyddodd y frwydr hon o. c. 51. *Gwel Hanes Cymru gan y Purch. T. Price, t. d. 72—73.*

CARNEDDAU. Tan bentwr o geryg neu dwmpath o bridd y byddai y cynbreswylwyr yn claddu eu henwogion. Yr oedd amryw fathau o honynt; weithiau ni chleddid ynddynt ond un person, pryd arall cynnwysent amryw argellau i deulu. Y maent yn cynnwys yn gyffredin gist faen, y rhai ydynt dafellau neu "daseillion" o feini holltedig yn ystlysau, ac eraill "am y tal" ac wrth y traed, ac yn gaed ar y gist hon cawn fyrddfaen holltedig ar y cwbl. Dywedir fod y claddfeydd hyn a geir yn ein gwlad yn dwyn yr un gweddnodau a'r rhai a geir hyd risiau y Cae Cäs (*Caucasus*) a'r argela neu yr argellau a gaed yn y Crimea neu Ynys y Tŵyr (*Tourida*), ac yn Nhir Gâl. Fe gai y rhai y mynai y wlad eu hanrhydeddu fel rhyfelwyr neu Dderwyddon eu "hargel wely" yn neu ar benau y mynyddoedd; a chai eraill a ystyrir yn ddrwgweithredwyr eu claddu yn y godreu ar lan y mor, a than ddyrnod trystiog y don (gwel t. d. 1). Y mae hynafiaethwyr yn eu gwneyd yn dri chyfnod, sef y cerygog, yr efyddol, a'r hearnaid.

I. Y CYFNOD CERYGOG a geir yn mynyddoedd Llandegai a Llanllechid, hyd y cafodd yr hanesydd gyfleusdra i wybod (gwel t. d. 34), er nas gellir bod yn sicr am y rhai olaf, o herwydd y mae y carneddau wedi eu bagor, a chynwys y cistau wedi eu hyspeilio cyn geui neb sydd fyw heddyw, a hyny mor llythyrenol i lygaid naturiol a phe buasai yr adgyfodiad wedi cymeryd lle. Mae enw y gwron a gladdwyd yn cael ei gysylltu ag ambell

garnedd, ac y mae eraill na ŵyr yr hen fugeiliaid cydnabyddus ag enwau a thraddodiad y lle ddim am danynt; y cyfryw yw y rhai sydd uwchben Ffynon y Lloer. *Carnedd Drystan* y gelwir un sydd ar ysgwydd Carnedd Llewelyn, sef un o wrdd feichiaid y Grefydd Dderwyddol, neu ynte y gwron a berthynai i Lys Arthur; y mae y garnedd hon uwchben Ffynon Llyffaint. Yr olaf, y mae yn debyg, oedd *Tristram* Sir Walter Scott, ac yr oedd darlun hynafol o hono yn Mhalas Westminster yn cael ei urddo yn Farchog y Ford Gron gan Arthur, yr hwn a ymddangosodd gydag eraill o'i gyfoeswyr yn *The Illustrated London News*, Oct. 22, 1864, page 412. Y mae hwn yn 30 troedfedd o led, ac yn 15 troedfedd o uchder, a bu yr awdwr dair blynedd yn ei baentio.

Carnedd Rhita Gaur (Cym. *rhudd*; Saes. *red*; Gwydd. *ruadh*;) enw cyfystyr a Reuda neu Riada. Y mae hon ar gopa Carnedd Llewelyn. Cyfeirir at fedd y gwron hwn gan Rhys Goch Eryri, yr hwn a fu yn ymguddio mewn ogof yn ymyl y garnedd, a chan awdwr *Beaumaris Bay*. Gwel t. d. 24. Ni wyddis dim am y carneddi mawrion ond agored sydd ar Foel Grâch, Trwsgwl Mawr, Moel Wynion, ac wrth Fwlchynylchi.

Carnedd Idris. Y mae hon yn bentwr suddedig yn y Waen Lydan, ac yn ei hymyl dwmpath pridd o'r enw Bryn Idris, a phwll o'r enw Pwll Idris.

II. Y CYFNOD ERYDDOL. Ceir y rhai hyn yn yr hendref, ac ynddynt ryfel-fwyll, modrwyau efydd, &c., (gwel t. d. 49,) a phan agorwyd y garnedd yn Nghae Gwilym Ddu ar dir yn hendre Llanllechid; caed yn hono amryw gelfi o efydd na wyddid eu dyben, a darn o freuan, &c. Hwn yn ol rhai oedd Gwilym de Breos, yr hwn am ei fradwriaeth a ga'odd ei grogi yn Aber trwy orchymyn y Tywysog Llewelyn ap Iorwerth; ond tybia eraill y perthyn i gyfnod llawer cynt. Claddfa deuluaidd oedd yr un a elwid "Y Crwn," ar dir Tai'n y coed. Carneddi o'r fath a ddarluniwyd hefyd a roddasant yr enw "Y Carneddi" i ardal sydd boblog yn awr oddiar Bethesda, yr isaf o ba rai a elwid "Y Garneddwen," hon oedd claddfa Llys Don o bosibl, a phan ei hgorwyd oddeutu y flwyddyn 1816 wrth ei chario, yr hyn a barhaodd am wythnos i wedd, i wneyd y ffordd fawr, deuwyd o hyd i gistfaen o'i mewn, a thybiai y gweithwyr eu bod wedi cael digonedd o arian, a thynodd un o'r enw John Prichard, hen wr sydd fyw eto, ei thalcen, ac erbyn edrych i mewn, ni welent ddim ond twll gwag; ar hyn tarawodd ei drosol yn y pridd du a welai yn ei gwaelod, a chododd esgyrn dyn o faintioli mawr i fyny, y rhai oeddynt can ddued ag eboni, ac yn arwyddo iddo gael ei gladdu mewn cŷff derwen (cyffyn neu coffin fel dywed y Deheuwyr), yr hwn a adawodd ei liw ar yr esgyrn. Dywed yr hen wr fod yr asgyrnlwm hwn yn fwy o gryn lawer nag ef, ac y mae efe oddeutu dwy lath. Yr oedd caead y gist oddeutu 30 cant o bwysau, ac yr oedd gwaelod y bedd hwn wedi ei balmantu yn gywrain a cheryg mân.

III. Y CYFNOD HAIARNAIDD, Nid yw yr hanesydd yn gwybod gael o neb eto un garnedd yn y plwyf hyn yn perthyn i'r amseriad uchod; ond cafwyd *ceryg* haiarn weithiau mewn cytiau crynon, o amser fel y tybir, tra boreol; gwel *Hanes Cymry*, t. d. 32; *Geir. Charles*; *Geir. Duwin. W. J.*; *Y Gwyddon.*; &c. Yr hyn fu yn achos syndod nid bychan oedd, pahan y rhoddid y freuan i mewn gyda y marw yn y garnedd?

oeddynt yn credu mewn sefyllfa ddyfodol? Oeddynt medd hen awduron. Ond a oeddynt yn ei ystyried yn fantais iddynt gyfarfod y sefyllfa hono trwy ddwyn melin gyda hwy? Ymddengys eu bod yn meddwl rhywbeth felly, neu ynte fod y maen yn arwyddo fod y claddedig yn wr mawr, a theulgyddwr o hosibl.

CLADDU MEWN POTIAU. Y Rhufeiniaid wrth ganfod rhai cenhedloedd yn codi cyrph o'u beddau wedi iddynt hwy gilio ar ol brwydr, er mwyn eu hanmharchu, a'u llosgent yn lludw, yr hwn a ddodent ynghyd a'r esgyrn golosgedig mewn gwrn neu urn; ac oddiwrthent hwy y mae yn debyg y benthyciodd ein tadau yr arferiad o gladdu mewn potiau, yr hyn a ymddengys yn fwy paganaidd na Christionogol. Caed rhai o'r urnau hyn yn y Felin Hen, Hen Eglwys Graeandre, Cwm Ocw, Glanau Ogwen, y Ffryd-las, &c., yn profi, debygid, i'r cyfryw arferiad fod yma gynt. Gwel t. d. 11. Oddiwrth yr arferiad hwn y daeth yr hen air "Syrthio ar y pot," ac y dywedir am un a fu glaf iawn, "Bu agos iddo a syrthio ar y pot," neu am un a golwg wael arno, "Y mae bron a syrthio ar y pot," ac amryw ffurfiau eraill a ellid eu coffa i'r un dyben. O'r diwedd fel yr oedd y byd yn dod yn drefnusach a choethach tan ddylanwad Cristionogaeth oddeutu y seithfed neu'r wythfed ganrif, dechreuwyd claddu mewn mynwentydd, yr hyn sydd yn parhau; ond ni chaed ol claddu neb hyd y gwyddis yn yr hen lanau mynyddig, am eu bod o amseriad boreuach debygid, er y buwyd yn cael ar ddamwain urnau yn agos atynt. Gwel *Observation*, t. d. 96, 97.

EU CREFYDD. Dywed Caisar mai Derwyddiaeth oedd crefydd yr hen Gymry, a gallwn ninau ychwanegu ei bod yn gangen o'r grefydd Batriarchaidd, er ddarfod iddi lygru ei ffordd yn resynus, o herwydd ei henciliad oddiwrth ei hamcan gwreiddiol. Ni wyddis am nemor olion diamheuol o honi wedi aros yn y plwyfi hyn, eto amcenir ddangos fod yn bosibl y ceir yma ychydig friwsion digysylltiad yn cadarnhau y dyb am ei bodolaeth, a hyny yn ei berthynas a ser-addoliad. Cydnebydd yr hanesydd anhawsder y testyn, o ddiffyg profion amlycach, gan hyny nid amcana fod yn rhy benderfynol, a chaiff ei gyfeillion dynu y casgliad a farna eu doethineb yn oreu oddiwrth yr hyn a draethir. Ar y tu gorllewinol i Fryn yr Hen Eglwys, ac "Yn Ngodir hen Eglwys yn y diphwys Graeandre," o tan y ffordd yn agos i'r Ffynon bach, y cawn faen a bwysai oddeutu chwe' thunell wedi syrthio ar ei ochr, ac heb ond un golofn o tano, yr hwn a adnabyddid gan yr hen bobl wrth enw "Yr Allor," a choeliai Gutyn Peris mai hen allor Dderwyddol oedd; ond rhaid bod gan ddyn gryn ffydd mewn hen bethau i gredu felly. Yr ydys yn cael ein tueddu i goelio nad ydyw wedi pob ymchwiliad ond bedd un o Farchogion Llys Arthur, at yr hwn y cyfeirir yn un o Englynion Beddau Milwyr Ynys Prydain, yr hwn a gofnodir eto wrth son am ein llanau presenol. Ond pahan y gelwir hi yn Allor ynte? wel, fe farna ein cyfaill Mr. E. Owen iddi gael yr enw hwnw oddiwrth yr arferiad oedd gan yr henafiaid o aroglardhu ar feddau enwogion, un ai o barch i'w coffadwriaeth, neu mewn amser o galedi gwladwriaethol; megis y dywed traddodiad y byddent hefyd ynaberthu ychaingwynion ar Garnedd Trystan mewn amseroedd blinïon. Byddai yn arferiad gan ddeiliaid y grefydd hon gymeryd "Glain nadredd" y rhai a roddid ar llyn, ac yna am eu gyddfau fel *neck-lace*; fe wneid y rhai hyn o wydr, a chaed un o'r desgriafad gymaint ag wy iâr ar dir

Ty'n yr hendref, ac yr oedd yn ddiweddar yn cadw yn Nhal y Bont, ac a elwid gan y teulu yn "*ôg y beirdd*"; a chaed tri neu bedwar o'r gleiniau hyn, y rhai oeddynt at faintioli wyau colomenod, ac o liw glas, a thyllau trwyddynt, yn lleiniau y Talgae. Caed hefyd lestri ceryg o bryd i bryd yn y ddaear, ac y mae un o'r cyfryw i'w weled yn Mhen y Bryn, Llanllechid, a dywedir gan rai ei fod yn dwyn perthynas a'r addoliad Derwyddol. Mith ar wenithfaen yw, ac yn llyfngwrn o fewn, ac o henaint diamheuol, ond dywed eraill nad yw ond bedyddfaen o un o'r hen lanau mynyddig sydd yn ganneddau ers llawer oes. Hefyd, mae lle o'r enw *Clogwyn Druid* (Derwydd) wrth Sarn Gymro.

BAAL ADDOLIAD. Wedi i'n cenedl ddechreu masnachu â'r Pheniciaid, yr hyn, yn ol rhai gwyr dysgedig, oedd yn cael ei ddwyn yn mlaen 500 o flynyddoedd cyn Crist; fe goelir iddynt hefyd gael eu llygru ganddynt nes derbyn eu crefydd, yn yr hon yr addolid Baal neu Beli, sef yr Haul; ac y talent ryw wasanaeth crefyddol i'r lloer a'r ser, ac fe ymddengys uno Derwyddiaeth y Cymry a Baal addoliaeth y Pheniciaid â'u gilydd, ac mai cymysgedd o'r ddwy a arferid yma pan laniodd Caisar, ac yu wir y mae rhyw gymysgedd hefyd yn ngwaith y beirdd a chwedloneg ein gwlad yn ffafriol i'r dyb uchod. Gellir tybio y byddent yn gwneyd delwau bychain i Beli neu Baal. Mewn lle yu Mon o'r enw Dinsylwi (*din—Sol*, sef dinas yr haul) fe gaed delw fechan o aur; a dywedir gael un arall yn Ngharnedd-ddelw, neu clw, wrth Lyn Nanhafon gan wr o Aber a gyfenwid Paul. Hefyd mewn carnedd geryg yn ymyl cylch o gyrtiau crynion, y rhai sydd ar ffurf haner lleuad, ar dir Cororion, fe gafodd Mr. Hugh Gruffydd o'r un lle, ddelfw o ryw fetel melyn, ac argrapharni, yr hon a roddodd i ofal y Parch. R. Davies, person yn byw yn Mangor; y cyfryw ddelfwau o bosibl oeddynt gyfyngau addoliad Baal. Hefyd dyma linellau o waith Taliesin, y rhai a roddir i lawr yn ol alleiriad Davies, ac atolwg at ba beth y cyfeiriant os nad at ryw wasanaeth aberthol i Baal:

"Y rhodd yn yr aur gorn,
Yr aur gorn yn y llaw,
Y llaw ar y gyllell.
Y gyllell ar flaenor y praidd,
Yn ddifrif yr addolaf dydi
Buddroddydd Feli
A manogan y brenin
A gedwi anrhyddedau Bel,
Sef Ynys Beli."

Hefyd, cawn eu brenhinoedd yn cael eu galw ar enw Beli neu Belyn; megis Beli Mawr, Belyn Frenin o Leyn, &c.; ac y mae lle o'r enw Foty Felyn ar Foel Wynion. Hefyd, hwyrach fod anfoniad y blaidd, yr hwn a gynrychiola y haul mewn chwedloneg baganaidd, i Menwaed Arglwydd Arllechwedd yn cadarnhau y golygiad. Eto, yn ngodre y foel grybwyllledig yn Nant Heilyn (heulyn?) yn Nghremlyn, mae nifer o gylchoedd, ac y tybia rhai mai perthyn i Dderwyddiaeth yr oeddynt, ac yn cynrychioli cylchdro y saith seren ogleddol a elwir yr Arth Fawr. Y mae hefyd nifer cyffelyb yn ngodre Carnedd Ddafydd, goris Ceryg Henllys, yn ystlys ddwyreiniol Pant yr Ychain. Eto, yn agos i ben Carnedd Ddafydd y mae llyn a elwir Ffynon y Lloer, yr hon, wrth gyflawni ei chylchdro, sydd i edrychwyr o hendref

Llandegai a Llanllechid, yn ymddangos yn agos i Ben y Garnedd, a golwg mawreddog arni; ond pan y gosgorddir hi gan un o'r prif ser, fel y gwneir weithiau, a'r ddwy yn cyd-bwyntio i lawr at Ffynon y Lloer, ni byddai yn anhawdd gweled y rheswm i blant natur ei galw felly, ac o bosibl yn achlysur i seraddolwyr esgyn acw a thalu rhyw barch crefyddol iddi. Hefyd ar gopa y garnedd hon, ac oddiar y ffynon tan sylw, mae dwy o garneddau meini mawrion; a thybïa rhai mai gweddillion temlyw un o'r ddwy. Eto, mae enwau pump o wroniaid yr hen oesoedd yn dal rhyw gysylltiad na'u gilydd a Charnedd Llewelyn a Charnedd Ddafydd, neu a'u godreunon. Y mae enwau tri o'r pump wedi eu cysylltu a charneddau o feini; ac y maent yn hynod fel *celfyddwyr*, *seronyddion*, neu *ryfelwyr*, yn ol hen chwedloneg; ac at hyn gellir ychwanegu yr hyn a ddywed y Trioedd am dri o honynt: "Tri gwyn Seronyddon Ynys Prydain,—Idris Gawr, a Gwydion ab Don, a Gwyn ab Nudd." 1. *Idris*; y mae Charnedd Idris yn y Waen Lydan yn agos i odre Charnedd Llewelyn; ond ai yr un yw ac Idris Gawr, sef y Seronydd, ni wyddis. Dywed Carnhuanawc fod yr enw Idris neu Edris i'w gael yn mhlith yr Arabiaid hefyd. (Gwel Charneddau t. d. 49). Yn 2. *Gwydion ab Don*: y mae ei enw yntau i'w gael yn gysylltiedig a Nant Ffrancon, yn ymladd â'r wythaint, ac y mae yn gysylltiol a Llys Don, y ddau le yn ngodre Charnedd Ddafydd; a cheir ef hefyd yn gysylltiol a Gwaredog. Cyfeirir ato hefyd gan hen fardd, sef Gruffydd ab Dafydd, fel hyn:

Seryddiaeth Don yn Sir Gaerynaron

Lle bu rôn (Regin) dragon dreigiau Emreis.

3. *Gwyn ab Nudd*: mewn cân o ymddiddan rhyngddo a Gwyddno Goron Hir, gelwir ef yn "Garneddwr" ac er na chysylltir ef yn bendant a charnedd Llewelyn na Charnedd Ddafydd, eto y mae gan y ddwy gystal hawl iddo fel Derwydd, Seronydd, neu Ryfelwr ag un garnedd yn yr Ynys.

4. *Charnedd Drystan*; y mae traddodiad yn dywedyd y byddent mewn amseroedd o drychineb gwladwriaethol yn aberthu ychain gwynion ar Garnedd Drystan, a dangosir eto gan rai y llwybr yr arweinid yr anifeiliaid i fyny i'r clogwyn. Bu Mr. Williams o'r Bronydd, wrth chwilio i'r garnedd, yn cael ynddi bentwr o ludw. Yr oedd Trystan, fel y coffawyd yn barod, yn uu o wrddfeichiad y grefydd Dderwyddol. 5. *Charnedd Rhitta Gawr*, neu y *Cawr Coch*; yr un yn ol rhai a'r masnachydd coch o Phenicia, yr hwn oedd Edomiaid o un tu, a Chanaanead o'r tu arall, ac yn drafniidwr am alcan rhwng Cernyw a'i wlad ei hun; yr un mae yn debyg a Rhuddlwm Gawr. Gwel *Darlithiau y Parch O. Jones ar Hanes y Cymry*, t. d. 24—26.

Dylem yn awr wneyd rhyw sylwadau pellach ar rai o'r gwroniaid crybwylliedig. Y mae Charnedd Drystan ar ysgwydd Charnedd Llewelyn tua chodiad haul, ac uwchben Ffynon y Llyffaint; a charnedd Rhitta ar goryn yr un garnedd, ac oddiar Ffynon Lugwy, megis ag y cawn garneddau mawrion eraill fel y soniwyd oddiar Ffynon y Lloer, yr hyn o bosibl a ddengys y bwriadent gadw rhyw goffa am y dwfr diluw. Hefyd rhwng dau frynceu a elwir y Llymllwyd a Chlogwyn y Feuddai, y cawn fryncyn arall rhwng y ddau a elwir y "Foel goch," ar gopa yr hon, med i traddodiad, ac yn ngolwg tri llyn, Bochlwyd, Ogwen, ac Idwal, y claddwyd offeiriad Derwyddol a chadwyn aur am ei wddf; yr hyn ond odid a ddengys fod rhywbeth a wnelent a diluw Noah. Eto, ymddengys eu bod yn uchel yn ffaf

eu hoes, fel rhyfelwyr, seronyddion, neu seraddolwyr, pan eu claddwyd yn y manau uchel hyny, lle o bosibl a fynychwyd ganddynt yn eu bywyd, ac nid ychydig oedd y draul o gyfodi y fath garneddau.

Y mae rhai gwyr dysgedig yn ystyried Gwyn ab Nudd yr un a Pluto y Groegiaid, yr hwn a'i wialen a allai newid greddf creaduriaid; ac yn yr oesoedd tywyll a orseddwyd yn nychymyg y bardd, a rhamwnt y chwedlonydd yn arglwydd y wlad obry, ac yn frenin y Tylwyth Teg; y rhai y coeliai ein tadau y byddent yn eu gweled yn dawnsio ar y Clogwyn Coch oedd unwaith lle saif Cloddfa y Cae, neu eu bod yn eu clywed yn canu yn "nhoceodd llynoedd," neu ynte eu bod yn eu gweled ar forenau yn lladd gwair ar lan Llyn Coronion, ac erbyn rhedeg yno i weled eu gwaith, nid oedd yno ond "cais lle bu," ac heb yr arwydd lleiaf o blygu un gweiryd chwaithach ei dori! Gwydion hefyd a gyfrifid yr un a Hermes a Mercury, duwdodau tir Groeg, yn ddyfeisydd llythyrenau a thywysydd teithwyr, ac y mae y Llwybr Llaethog (*Milky Way* y Saeson) yn cael ei alw fyth ar ei enw yn "Gaer Gwydion." Hefyd, "Llys Don" y gelwir *Cassiopeia*, cydser yn yr arddrych ogleddol, yn cynwys 55 o ser. Gwel *Hanes Crefydd yn Nghymru*, t. d. 17, 18; *Dictionary D. S. Evans*, t. d. 245. Mewn cân a elwir Cadeir Kerridwen, gosodir Gwydion allan fel wedi dringo yn uchel i ffafr Araurod (yr Enfys), gan iddi, ar ol yr ymdrech a fu rhyngddo a'r Gwythaint ar Gefn yr Orsedd, gael ganddi gawod o wlaw nes cododd Afon Ogwen, pan y gorfa i'r Gwythaint tyned i Fon i chwilio am gawod. Sonia y Trioedd hefyd am Gwydion yn myned gyda Llew Llaw Gyffes i geisio euw ac arfau gan Aranrod ei fam. Gwel *Myvyrian Archaeology*, t. d. 399, arg. Dinbych. Rhitta Gawr, heblaw ei fod yn selog tros ei grefydd, a esyd chwedloneg ein gwlad yn rhyfelwr mawr, yn dlorseddwr ac yn dorwr barfau breninoedd, yr hyn yn ddiau a ystyrid yn sarhad i'r eithaf yn yr hen amser, fel y cawn esiampl yn Llysgenadon Dafydd Frenin. Yn awr, pa beth bynag oedd Rhitta, y mae yn ddiameu fod cuddiad ei gryfder yn uniondeb ei ddeddfau, a'i fedrusrwydd i gyfarfod a hawliau cyfiawn ei bobl, y rhai am hyny a godent gydag ef fel un gwr, yr hyn a roddodd iddo y fantais ar freninoedd ynfyd nad allent gymeryd rhybudd mwyach, ac a'i cyfododd i fod yn fath ar Garibaldi ei oes. Dywedir iddo wneyd cochl o farfau breninoedd, ac iddo adael lle yn ei chwr uchaf i roddi yno farf Arthur, er y dywedir mai colli y dydd a wnaeth pan aeth i ymladd a hwnw; ac y mae lle yn agos i Dywyn a elwir "Rhiw y Barfau" hyd heddyw.

Ymddengys oddiwrth y chwedloniaeth Fabinogaidd i grefydd ddysyml ein tadau, a chrefydd wedd-decach y Pheniciaid fod yn achlysur cwerylon, ac o bosibl rhyfel, rhwng ein hynafiaid, ac y mae chwedl ar lafar eto yn Nant Ffrancon hwyrach yn cadarnhau y cyfryw dyb. Ar fin y ffordd yr eir o Fethesda i fyny at Dy'n y maes, mae Clogwyn a elwir "y Gareg," ac a roddodd yr enw o "Ben y Gareg" i dŷ yn ei ŷmyl, ac yn awr a elwir weithiau yn "Faen mawr Pen y Gareg," ond yr hyn sydd genym i'w adrodd yw: "Dywedir mai Cawr yr hwn oedd yn sefyll a'i droed de yn Nghwm Graeanog, a'i droed chwith yn Nghwm Dolawen, onid oedd y mynydd yn panelu tano, a'i taffodd yno, wrth geisio taro hen wraig yn mhlwyf Llanllechid!" Yn awr, hwyrach mai y gwirionedd a amcenid ei gyflwyno trwy y chwedl hon (am na feddent well ffordd i argraffu hanes ar feddyliau y

bobl y pryd hwnw), yw hyn, mai yr hen wraig oedd Derwyddiaeth, hen grefydd y Cymry; ac mai y cawr oedd y grefydd newydd o Phenicia, sef seraddoliaeth, yr hon a gymhellid ac a gefnogid gan Rhitto gawr, a'i ddysgyblion aiddgar. Yr oedd y cawr yn sefyll yn mhlwy Llandegai, â'r hen wraig fel y gwelir yn mhlwyf Llanllechid, yn mynyddau yr hwn y cawn y cyfryw enwau a goffawyd mewn cysylltiad a charneddau &c., Oddiwrth yr hyn a sylwyd arno, tueddir ni i gredu ddarford i'n tadau mewn rhyw amser pell yn ol, fod nid yn ymdrin cymaint a seryddiaeth, er y gallasai hyny fod ar ffurf cyfyng, ond hefyd a seraddoliad. Os nad oeddynt, y mae yn syndod i ba ddiben y casglasant y fath garneddi, ac hefyd y dodasant arnynt amryw enwau megis Idris, Trystan, a Rhitta Gawr, &c., y rhai y gesyd chwedloniaeth baganaidd ein cenedl, hwy yn wroniaid a phendodau crefydd Dderwyddol eu hoes, a pha fodd y daeth y cyfryw bethau ynghyd o ddamwain. Yr oedd holl genhedloedd y byd ond un yn eulunaddolwyr, ac os nad oedd ein tadau ninau yn meddu rhyw ffurf o'r cyfryw, rhaid ynte eu bod yn eithriaid. Ond y casgliad tecaf oddiwrth ein hanes ein hunain yn gystal ag eiddo cenhedloedd eraill, yw, eu bod hwythau felly, ac mai cymysg o Dderwyddiaeth a Seraddoliaeth oedd yr eiddynt hwy.

Oddeutu amser ymddanghosiad y Duw-ddyn ar y ddaear, yr oedd amryw genhedloedd lled waraidd, wedi olyniad o chwyldroadau a chyfnewidiadau, ac ymboeni am wir wagedd, megis yn aros fyth heb eu diwallu, yr oeddynt wedi alaru ar eulunaddoliaeth, yr hon yn lle eu llesoli a'u dyrchafu, a'u gwaethygai ac a'u darostyngai, hyd onid oeddynt yn ymwybodol nad oedd dyn na'i grefydd yr hyn y dylent fod, yr hyn a'u gweithiai i ddymuno ac i obeithio am ddysg, a rhyw ddysgawdwr gwell nag oedd ganddynt. Edrychai y Persiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid yn obeithiol tuag at eu Gwroniaid, ac a'u dwyfolent hwy, fel rhai yn dysgwyl am ryw ymwared oddiwrthynt. Wel, yr un modd hefyd, ac oddeutu yr un amser debygid y canolbwyntiai dysgwyliadau ein hynafiaid ar bersonau gwroniaid fel Arthur y Chwedlau, Trystan ab Tallwch, Rhitta Gawr, Gwyn ab Nudd, Gwydion ab Don, &c., a diau fod sail i'r golygiad hwn gan Haggai pan ddywedodd, ar ol hir ddysgwyliad "A dymuniant yr holl genhedloedd a ddaw," ac hwyrach fod y traddodiad a gafodd ein tadau odiwrth Noah am sylweddoliad eu haberthau, yn gyfryw ag a barai iddynt edrych i fyny at Dduw, ac "i dlysgwyl am ei Fab Ef o'r nefoedd" i ddwyn iachawdwriaeth wladol ac ysprydol iddynt, yr hyn y teimlai eu cydwybodau trallodedig nad oeddynt yn feddiauol arni; oblegyd cawn hwy yn dwyfoli eu gwroniaid trwy briodoli iddynt weithredoedd nas gallai neb ond Duw eu gwneuthur. Ai tybed na chlywodd neb o'r gwroniad ag sydd a'u llwch yn gorphwys tan y carneddau ceryg a goffawyd, son am breswyliad Duw gyda dyn ar y ddaear, iddo gael ei eni o wraig, cymmyrd arno agwedd gwas, ie, iddo Ef ac yntau yn gyfoethog ddyfod er ein mwyn ni yn dlawd. fel y cyfoethogid ni trwy ei dodi Ef? A glywsant hwy iddo fyned oddiamzylch gan wneuthur daioni, maddeu pechod, ac iachau pob atiechyd yn mhlith y bobl, a bod cyffwrdd hyd yn nod ag ymyl ei wisg yn ymendio dyn yn y fan? A glywsant hwy am dano yn galw y meirw o'u beddau, yn myned i mewn at ei ddisgyblion a'r drysau yn gauad, yn diflanu o'u golwg, yn cerdded ar donau y mor, yn marw yn bechaberth drosom, yn cael ei roddi mewn bedd, yn cyfodi oddi-

wrth y meirw, yn bendithio ei ddisgyblion wrth wneud grisiau o'r awyr ac esgyn i'r nefoedd, lle mae yn ymddangos i eiriol trosom, ac na rydd mo'i swydd i fyny nes cael y rhai a gredant ynddo o'r byd a'r bedd ato ei hun, pan y bydd wedi dwyn iachawdwriaeth gyflawn iddynt? Ofnir na chlywsant am dano, am na fynegwyd iddynt; ac os mynegwyd, a ddarfu iddynt goelio y dystiolaeth? ofnir na wnaethant; ac iddynt felly wrthod eu hiachawdwriaeth eu hunain fel y gallodd rhai Iuddewon a'i gwelsant wneuthur. Ofnir iddynt lynu mewn twyll a marw yn eu pechodau. Gallai fod eu crefydd wedi myned yn greulawn, ac i fod yn fagl a melldith iddynt, a'i bod yn gwrthsefyll Cristionogaeth, cynyg olaf y nefoedd i ddyn. Y mae yn debyg fod hyn yn wir! O'r diwedd, y Duw hwnw a oddefodd i'r Rhufeiniaid ddinystrio pobl ei gyfamod am eu hanufudd-dod, a oddefodd hefyd i'r undynstrwyr ddysod yma i ddyfetha o'r ffordd, grefydd pobl nad oeddynt yn perthyn iddo, yn yr ystyr yr oedd yr Iuddewon felly. Tybia ein cydwladwr y Parch. O. Jones ddarfod dwyn hyn oddiamgylch trwy i Feirig (Arviragus) Frenin, yr hwn oedd yn ffafr y Rhufeiniaid, ac o bosibl yn byw ar y pryd yn Mryn Llŷs, ar lan Llyn Meirig, adael yn fwriadol tylchau Eryri yn ddiarnedd, fel y cafodd Suetonius ei ryddid i ruthro i Fon a lladd y Derwyddon diarnedd, a chyda eu cwmp hwy darfu am Dderwyddiaeth fel crefydd sefydledig yn yr ochr yma i Fenai, ac felly hefyd yn y plwyfi hyn.

PENNOD V.

CYFARFOD AR GEFN YR ORSEDD YN Y CHWECHED GANRIF.

Rhwng Cwm Pant Daran a Chae'r Berllan, ac o du dwyrain i Nant Ffrancon, y mae lle o'r enw y Cefn, neu Gefn yr Orsedd; o du y gogledd i'r Cefn neu y bryncyn hwn, cawn olion hen fagwyr geryg betryal, yn lli troedfedd o hyd ac yn 88 o led, a choelir mai hon yw olion yr Orsedd, ac a elwir hefyd gan yr hen fugeiliaid yn "Fuarth y Gwyddelod," ac y mae yn lle difyr ddigon i gynnal cyfarfod "yn ngŵydd haul a llygad goleuni." Tybir fod yno gryn gynulliad o drigolion Mon ac Arfon, a bod eu cyfarfod o natur gystadleuol i raddau, ac yr oedd Taliesin yno yn feirniad. Dechreuwyd ef yn blygeiniol ar fore Sul, a pharhaodd am bedwar diwrnod o'r hyn lleiaf, pryd y cawn amryw o'r beirdd a'r cantorion y dyddiau canlynol yn troi adref yn siomedig am Fon. Y mae yn debyg mai Gwyddelod gan mwyaf oeddynt, ac hwyrach mai oddiwrthynt hwy y gelwir yr Orsedd weithiau yn Fuarth y Gwyddelod fel y soniwyd. Ond pa un ai hen gyd-mabyddiaeth ai cyfathrach rhwng yr ychydig Wyddelod a allasai fod yma er dyddiau Gwydion a'i berthynas Serigi, ynte natur gystadleuol y cyfarfod a'u tynodd yma, ni wyddis.

Mewn cân o waith Taliesin a elwir "Cadair Keridwen" *Myv*, t. d. 57, oeir cyfeiriad at y cyfarfod hwn, ond y mae y darluniad a roddir o hono o natur mor dywyll a chymysglyd fel na wyddis yn iawn o ba awydd yr oedd. Ymddengys weithiau fel pe yn weddillion Baal-addoliad, pryd arall fel pe byddai yn addoliad Duw mewn rhan, a phryd arall o natur

gystadleuol. Gelwir Nant Ffrancon yn bresenol, fel hefyd ag y gwneid gynt, yn Nant Isaf; ac o gwr isaf Llyn Ogwen hyd Gapel Curig, yn Nant Uchaf; ac yn lluosog gelwir hwy yn Neint, a Newaint;—ac medd y gân

Yn Newaint ym mhlygeieu
Llewychawd yn lleufereu,

sef “yn y neutydd ar foreuau, llewyrchodd eu goleuderau.” Ond pa beth yw “*lleufereu*?” ai at oleuni llu y nef, megis haul a lleuad y cyfeiria? oblegid fe wyddis fod yr haul yn tywynu yn gryf iawn yn y bore, trwy fwch y Nant Uchaf, i Gwm Idwal. Ynte a oeddynt yn defnyddio banffaglau yn lleufereu, yn eu cyfarfod boreuol fel y darluniad a roddir o'r Derwyddon yn Môn ar ddynesiad y Rhufeiniaid? Onid oes lle i ni dybio fod yma debygrwydd i'r wyl a elwid Baal tân, Beltein neu Beltane? Cedwid yr ŵyl hon ar y cyntaf o Fai, neu ar yr 21 o Fai—hâf-in pan fyddai yr haul yn dychwelyd i'r mawrwril (*meridian*) i ffrwythloni y ddaear; ac wedi derbyn y ffrwyth, cyneuid tanau drachefn a elwid coelcerthau, fei cydnabyddiaeth ddiolchgar am y ffrwythau, pryd y torid caau, y codid afalau o'r dwfr &c., ac y mae yr hanesydd yn cofio yr arteriad hwn yn Meirionydd oddeutu 40 mlynedd yn ol. Eto,

Dedwydd Dofydd rhwy goreu
Ynghyfamryson Kerddau.

Braidd na thybid oddiwrth y llinellau hyn, eu bod yn ymryson canu cerddi o fawl i Dduw, sef Dofydd; ond yn y munud dyma Wydion yn clywed, ac o ran hyny hwyrach mai Gwydion oedd efe yn ei alw yn Ddofydd; oblegid fel hyn y dywed;

Celfyddaf gwr a giglen
Gwydion ap Don dygnfertheu
A hwdwys gwraig o Flodeu.

“Y gwr celfyddaf a glywodd, Gwydion fab Don, mawr ei brydferthwch, a hudodd wraig o flodau y merched.” Y wraig hon tebygid oedd y grefydd newydd o Phenicia. Eto

A dyddwg moch o Ddeheu
Can ni bu iddaw disgoreu
Drud ymyd a gwryd pletheu*

* Pleth wrŷf.

A rithwys gorwyddawd y ar plagawd lys.

Moch y gelwid disgyblion y grefydd hon, y rhai a ddaethant yma o'r De, sef o Gernyw, ac yr oedd nifer mawr o honynt meddir yn Môn, ac am hyny y gelwir trigolion y wlad hono hyd heddiw, yn “*Foch Môn*.” Ond yn ol y llinellau uchod, y mae yn debyg i Gwydion trwy ei allu fel Tywysog, a chyda ei “wryd pletheu,” sef ei swyn wialen blethedig, tra safai ar falcaud Llys Don, eu derbyn yma a'u croesawu hwy â'u crefydd, yr hon fel y soniwyd a dalai ryw warogaeth i lu y nef, a thyna o bosibl y modd y bu i'r canol oesoedd ei ystyried ef yn un o dri “Gwyn Seronydd Ynys Prydain,” nid am ei fod ef yn seryddwr gymaint, ond am ei fod yn seraddolwr! Y mae yn debyg fod Gwydion wedi marw ers talm cyn hyn, a Gwyddno ei fab hefyd o bosibl, ac mai ŵyr iddo oedd yn byw yn Llys Don, er nad ydys ond yn dychymygu yn unig. Ond paham y dywed Taliesin fod Gwydion wedi “*cigleu*” (cyglyw neu glywed) onid oedd yn ei wneyd yn rhywun mwy na dyn; sef ei ddwyfoli, fel y gwnai y Rhufeiniaid

H

a'u dynion cawog. Y mae Taldia yn ymddiheuro oddi wrth wneud cam tebygid yn y llinellau canlynol.—

*Yr Enys yn Enys y Fôn
Mwyaf Enys y Fôn*

Y mae yn debyg iddo ef â'r boneddigesau a'u dilynent gael eu croesawu i Lys Don (gwel t. d. 16) lle caent eu parchu, a'u hystyried yn gall, sef yn "*gyfuyys*," lle cyfarfyddid a'u hungenrheidiau tros ddyddiau y cyfarfod. Wele ei ddesgrifiad o'r cyfarfod;—

Gweleis ymladd taer yn Nant Ffranco
Duw sul pryd pylgeint rhwng wythain a Gwydion
Dyfeu yn geugant ydd aethant Fôn
I geisio yscut a hudolion.

Y mae yma i'w weled gryn dynu yn y dorch rhwng y beirdl â'u gilydd, neu ynte rhwng y cerddorion yn "nghyfaarysion cerddau," ac am nad allent bawb enill, aethant yn geugant; ac y mae Taldia yn eu gwawdio trwy eu llysenwi mewn trawseawad yn "wythain," sef adar y llied. Benthyciwyd yr enw hwn oddiwrth luniau adar ysglyfaethus sef y cigfrain, a fyddent ar fanerau Tywysogion Cymru. Dywedwn eto fod yn debyg mai gwyddelod anhawdd eu boddio oedl y "Gwythrin" a ddaethent drosodl o Fôn i gyfoeth Gwydion a Gwydduwyd, i ymryson canu a'i hen ddeiliaid, er ei fod ef Gwydion wedi marw ers talm y mae yn debyg, ond fod ei enw fyth mewn bri ac anrhydedd. Ar ol ymdrechgu amryw weithiau onid oedd eu geneuau yn sychion a'u lleisiau wedi myned yn gryg, ac i grawcian fel cigfrain, bellach dychwelasant yn "geugant" neu cylawasant eu cylch, trwy ddychwelyd yn ol i Fôn, yn sychedig ac i chwilio am "yscut" neu gawod o wlaw i dori eu syched, yn nghydag ymheli a "hudolion" hen arfer pobl ddeillion ac auffodus; ond nid oedd ar Gwydion neu yn hytrach ei ddeiliaid eisiau cyflawni y cyfryw daith, oblegid —

Aran rod drem clot a gwawr hinon
Mwyaf gwarth y marth o barta Brython* * Sef Gwydion.
Dybrys am ei Lys Enys Afon.

Dyma hi allan yn iawn o'r diwedd, oblegid gwelwn fod Gwydion gymaint yn ffafri ei fam, Aran rod, nes y cafodd ddigon o wlaw. Alleiriwn y llinellau fel hyn;—

"Yr enfys wedd glodadwy, a gwawr hin hyfryd, yr hon sydd allan yn fwyaf amlwg o blaid Brython, (nid Gwyddid) a frysiodd am ei Lys Enys Afon."

Yn awr yn rhinwedd y ffafri hon o gael gwlaw, llifodd Ogwen, onid oedd yn gwrth daro y tir yn echrys, a'i hewyn yn ymroli fel y gwelir;—

Afon a'i hechrys gurys gwith terra
Gwenwyn ei chynbyd cyion byd eda.

Y mae yn debyg i Brenda fel Helyg ap Glanog, yr hwn oedl wr eglwysig, ac hwyrach yn Gristion pur pan yn ysgrifenu rywbryd ynerbyn rhai o'r arferion paganaidd oedd yn y cyfarfod (o'r hyn nid ymlanhawdd beirdd ein gwlad hyd heddyw), oblegid dyma fel y ceryddir ef gan y beirniad;—

Nid wydwai i'w geu llyfreu Breda
Cadair gedwidedd yssydd yma
A hyd frawd parawd yn Europa.

Sef:—"Nid gwir ddywed *Myfrau Breda*,
Cadair yn cadw gyirionedd sydd yma,
A saif yn Ewrop hyd ddydd y farn."

Tebygyf nad Breda, na Breda yw hwn, fel y tybia rhai, ond yn hytrach Sant Brenda, fel y coffawyd (t. d. 11). Os ydym yn gywir am Brenda, nid yn y seithfed ganrif ynte y boddwyd y Tyno Helyg, fel y tybir gan rai pobl dda, ond yn y chwechfed. Mae y gân yn terfynu yn ddefosiynol iawn:

An rothwy y drindawt
Trugaredd Dyddbrawd
Cein gardawd gan wyrda.

Rhodded y Drindod drugaredd i ni Ddydd y Farn, yr hyn a fyddai yn gardod anwyf gan drueiniad.

Ni phroffesir deall y gân tan sylw i gyd, ac hwyrach i'r cymysgedd a welir ynddi mewn tri neu ychwaneg o gyfeiriadau, fod yn waith rheolaidd cynifer a hyny o ddyddiau, a bod y cyfarfod er pobpeth yn cael ei ddwyn yn mlaen yn lled drefnus. Dengys yr yspryd paganaidd sydd yn rhedeg trwyddi ddarfod ei hysgrifenu yn bur fore, megys y parch uwchddynol a delir i Wydion, a'r ofergoel am yr enfys, ac yn wir henaint yr iaith a arferir; a phwy bynag a ddarlleno y "Gerdd am Veib Llyr ab Brychwel Powys," sydd ar ei hol yn y Myfyrian, a ysgrifenydd debygem yn agos i ddiwedd y seithfed neu ddechreu yr wythfed ganrif, a gaiff weled ddarfod i awdwr hono fenthycu peth o yspryd Cân Cadeir Kerridwen, os nad rhai geiriau o honi hefyd, megys:

Yssid imi deir Cadeir cyweir cysson
Ac yd frawd parhaudd gan Gerdorion.

A sonia hefyd am "Gadeir o beir Cerridwen," a diwedda yntau trwy apelio at y Duwdod fel y gwna Taliesin, yr hyn a ddengys fod y gân a fu tan sylw yn hysbys iddo, a'i bod nid yn unig ar gof a chadw, ond hefyd yn cael edrych yn uchel a pharchus arni cyn ei amser ef. Hefyd y mae ymadawiad y Rhufeiniaid o'r ynys hon ychydig amser cyn geni Taliesin, y rhai a dalent ryw barch crefyddol i'r enfys (gwel y *Gwyddon*. d. g. Enfys), yn ein cadarnhau yn y dyb iddi gael ei hysgrifenu yn fore pan oedd Derwyddiaeth a Christionogaeth eto ond megys blith draphlith yn mysg y bobl, ac felly tueddir ni i gredu mai ryw bryd yn y chwechfed ganrif yr ysgrifenydd hi, ac mai Taliesin oedd ei hawdwr. Yn awr, pan gofir fod Taliesin wedi bod yn "arwain tair cadair," ac iddo gael ei groesawi yma i Arllechwedd, fel y dywedir, y mae hyny yn debycach fyth. "Wedi hyny gwahoddwyd ef i gyfoeth Gwyddnyw ap Gwydion yn Arllechwedd yn Arfon, a chael braint yno ar dir a daear, yna daeth i fyw i lan Llyn Geirionydd yn mhlwyf Llanrhyochwyn." *Gorch. Beirdd Cym.* t. d. 21, 22. Felly nid oedd ganddo ond taith o ychydig filltiroedd i ddyfod i'r Cyfarfod ar Gefn yr Orsedd, lle y croesawid ef gan un o ddisgynyddion Gwydion a Gwyddnyw neu ynte gan ryw un mawr oedd yn byw ar y pryd yn eu cyfoeth. Yr oedd Dunawt esgob cyntaf Bangor, a Thegai, a Llechid yn byw yn y cymydogeithau hyn tua yr amser hwnw, ac o herwydd bod natur bur eu crefydd yn gwrthdaro yn erbyn arferion yr Orsedd, y mae yn ddigon tebyg na roddasant en hwynebau o blaid y cyfarfod, ac nid anhebyg eu bod yn ei erbyn megys ac yr ymdengys fod Sant Brenda. Y mae gweddillion o fagwyr hen orsedd betryai fel yr un a goffawyd, ond ei bod yn llai, yn

ngodre dwyreiniol Cefn yr Orsedd, ac yn wynebu at haul y fore, megis ag y mae hon at haul y prydawn. Ilesyd nid anaddas cofia fod nifer o gylchoedd ac olion llawer mwy cyhoeddus ar hyd y Penmaen, o'r tu dwyreiniol i Garnedd Dafydd a Charnedd Llewelyn, a digon tebyg mai gwasanaeth i lu y nef oedd ynddynt hwythau, megis ag y tybir fod yma, ac y mae yn debyg mai pendodau y gwyr a fu enwog gynt yn y ddau le, gladdwyd ar uchaf y Carneddau tan sylw. Deallir ein bod yn rhydd "draethu ein llên" fel hyn ar y mater, heb ofalu nemor am syniadau na barnau neb arall, er nad allwn lai na'u parchu. "Rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei llafar."

ENWAU LLEOEDD.

Y mae rhai yn dra darluniadol, a chan eu bod o amseriad lled foreu, gellir disgwyl i gysnewidiad gymeryd lle arnynt yn ngyrfa amser,—megis,

Y Meusyn Glasog, yr hwn sydd Gefnen gynnes, gynar, ar lan Ogwen; ac erbyn heddyw yn lle ffrwythlawn a dymunol, ac ar ei gwr, saif pentref Llandegai.

Rhiw Gôch, a elwir felly yn ddigon priodol oddi wrth liw y gweryd â'r creiglawr.

Y Fwsoglog, am mai felly yr oedd mae yn debyg ar ddyfodiad y Cynfrodorion, ond pe cai y gefnen hon ei henw darluniadol heddyw; *Y Grawcwelltlog* a fyddai hyny, ac y mae yr enwau *Braich y Breisgyll*, ac *Argoed &c.*, lle na cheir cymaint a gwialen geffyl heddyw, yn profi fod gwedd y wlad yn newid; ac nid hyny yn unig, ond y mae yr iaith hithau fel y dengys y parwyddiaid sydd ynglyn â'r enwau canlynol:

Bwlch Anela, *Bwlch Arnelu*.

Maen Bogela *Maen Bugeilio*.

Cwm Cnyfia, *Cwm Cneifio*.

Y Rô wen, *Y Gro Gwyn*.

A gallai i'r enwau uchod gael eu seinio yn y wlad hon yn fuan ar ol i'r *Bala Clafa*, yn y *Crimea*, a *Rouen* yn Ffrainc dderbyn eu henwau.

Y Braich Melyn, a elwid felly oddiwrth y Mwsog Melyn a'i gorchuddiai gynt; ond erbyn heddyw meddienir ef gan laswellt a chrawcwellt.

Llymllwyd, yn aros eto bron yr un fath, er y gallai fod yn ychydig glâsach.

Ogwen, neu yr afon wen, am mai golwg felly a geir arni yn dod i waered o'r mynyddau, yn enwedig ar lif.

Y Marchlyn, sef y *prif* lyn; fel yr arwydda yr enwau march alan (alan mawr), march fieri, march wiail, &c.; ac yma gelwir y llyn hwn felly am fod yn ei ymyl lyn arall, llai nag ef, y rhai erbyn hyn a adwaerir wrth yr enwau bonglerus Marchlyn Mawr a'r Marchlyn Bach! ac wrth yr un drefn, neu anrhefn, y dywedir Llwytmor Fawr (llwyd mawr) a Llwytmor Fach (llwyd mawr bach!). Dengys hyn fod enwau lleoedd yn debyg i gesyg eira, yn myned yn fwy fel y treiglir hwy. Ond un o'r rhai sydd wedi prifio fwyaf ag y gwyddis am dano, ac yn lled agos atom, yw yr enw Nantnanhwyman. Y mae yn ddigon tebyg mai ei hen enw syml oedd *Nant*, wedi hyn *Gŵynant*, ac wedi'r *Nant-gŵynant*, ac yn olaf *Nant nant-gŵynant*! neu yn esmwythach er mwyn y tafod a'r dannedd, *Nantnanhwyman*.

ENWAU TAF. Mae yr awgrymiadau syml sydd yn dilyn amryw o'honynt, yn gystal a rheswm yn ein dysgu mai anaml oedd trigfanau dynol yn ein gwlad mewn amser lled bell yn ol.

Penrhyn, a elwid felly am y rheswm, yn ddiau, nad oedd un ty i'w gael ar y gefnen sydd rhwng Cegin ac Ogwen ond efe.

Aber Cegin, Cafodd hwn eto ei enw oddiwrth yr sfon sydd yn dod i waered oddiwrth Ffynon Cegin Arthur, am nad oedd yno dŷ arall yn ddiameu, a'r un modd y gellir dweyd am *Aber Ogwen*.

Tal y Bont, a elwid felly am nad oedd un arall ond efe wrth *dalcen Pont Llandegai*, a'r un modd gellid dweyd am *Dal y Sarn*.

Y Winllan, Dwg yr enw hwn ar gof i ni i'r cynfrodorion fod yn byw yn ngwlad y gwinwydd, megis Tîr Gwâs gwin (*Gascony*) yn Ffrainc.

Tan y Bwlch, o herwydd nad oedd un arall tan Fwlchynylchi.

Llidiard y Gwaenydd, am nad oedd un arall wrth lidiard *gwaenydd* Cilfoden. Y mae yma luaws o dai heddyw a gam enwir yn *Llidiard y Gwenyn*.

Y Gerlan, tyddyn yr hwn sydd ger glan Afon Gaseg. Codwyd yma nifer o dai yn 1864, y rhai a ychwanegant lawer at brydferthwch y fro.

Dyffryn (dyfr-hynt), a elwir heddyw yn Nant Gwryd; y cyntaf debygid oedd yr enw dechreuol. Bu holl Ddyffryn Mymbyr, neu Mynbyr, (mân ebyr), yr hwn sydd oddeutu pedair milltir o hyd, yn perthyn i un tyddyn, yr hwn, am ei fod yn *unig* ar waelod y dyffryn, a elwid felly ar ei enw; ac yn lle bod y Dyffryn wedi llyncu y ty, y mae y ty hynod hwn wedi llyncu y Dyffryn!

Cil tu llan, neu cil-tywyll-lan (llan dywyll), am fod yma fel y tybir gan y Cristionogion cyntaf, eglwys fechan o'r neilldu, ac arni, debygid, yn lle ffenestri, gloerau bychain culion i ollwng goleuni i mewn; ond a lysenwyd ar yr enw uchod gan y cynfrodorion, y rhai a gynalient eu cyfarfodydd allan ar y mynyddoedd weithiau, "Yn ngŵydd haul a llygad goleuni."

Cororion, (*côr*) hen enw Cymreig ar gynnulleidfia Gristionogol, ac a drosglwyddwyd o'r diwedd ar y *man* neu y *lle* yr addolid ynddo, megis yma. Cafodd y saint yr enw, oblegid fod y cyn Gristionogion yn arfer canu fel ninau yn ein addoldai; a *chôr* y gelwir cynnulliad o gantorion yn Arfon hyd y dydd hwn, yr hyn hyd y gwyddis nid arferid yn Nghymru yn gyffredin o'i blaen ond yma, hyd oni ddarfu i lenyddiaeth ddiweddar ei ladaenu;—yn unigol *cor*, ac yn lluosog *corau* neu *coreddau*:—

"Cerreifant o'n correddeu,"—*TALIESIN*.

Ond gan fod y lle uchod ar lan Llyn Cororion, tybir gan rai mai *creurion* yw y gwreiddiol, o *creyr*; am fod amllder o bosibl o'r adar hyn y a elwir yn unigol *creyr glâs*, ac yn lluosog *creyrod gleision*, yn trigianu ar hyd ei lanau. Dywedir hefyd mai hen enw ar adarwyr yw *creyrorion*, ac yr ydym yn lled-dybio fod l'ennant o'r farn hon. Ond haws gan yr hanesydd goelio y cyntaf, am fod traddodiad yn coffa "*Mai o Gororion y szmudu yd y Gwasanaeth Dwyrhol i Landegai*." Ond gall y ddau fod yn gywir.

ENWAU RHAI O'R CYNDRIGOLION y rhai sydd yn aros eto ar eu *haneddau*, neu ar *leoedd*, y rhai ydynt yn y plwyfi hyn; enwau, medd un gwr dysgedig, na ragorwyd arnynt mewn sain a thlysni yn mblith un genedl eto; y mae rhai yn unsill, eraill yn ddeusill, a rhai eraill yn deirsill; dodwn engraffit o'r rhai deusill yu unig;—

Hwfa (<i>Pias Hwfa</i>)	Mertyn (<i>o'r Penrhyn</i>)	Idwal (<i>Llyn Idwal</i>)
Geraint (<i>Cil Geraint</i>)	Meirig (<i>Bodfeirig</i>)	Idris (<i>Carnedd Idris</i>)

Hywel (*Coed Hywel*) Iolyn (*Tyddyn Iolyn*) Rhydderch (*o'r Penrhyn*)
 Belyn (*Foty Felyn*) Iarddur (*o'r Penrhyn*) Madog (*Maes Madog*)
 Rhitta (*Carnedd Rhitta*) Heilyn (*Nant Heilyn*) Bleddyn (*Llwyn Bleddyn*)

Yr oedd enwau o'r fath dlysaf hefyd ar y benywod, a dodwn yma rai heb wneud sylw o nifer eu sillau, megys Gwen, Nest, Non, Esylt neu Esill, Bronwen, Llechid, Euron, a Gwladus; ac y mae yr enw olaf ar ddwy neu dair o fenywod yma heddyw, ac hefyd mae genym o leiaf un Wladus Ruffydd eto.

DIARHEBION.

Mynych y clywir y tri-ugeiniaid a'r pedwar-ugeiniaid yn y plwyfi hyn yn arfer y dywediadau hyn a llawer eraill:

Os perchi fi parcha fy nghî.
 Gwael yw y ci na thal chwibanu arno.
 Hen gi yw ci Morgan.
 Cadw ci, a chyfarth fy hunan.
 Ni chellwair hen gi a chenaw, (ci bach).
 Melus i bawb ei bleser.
 Cwyd y blewyn, a chwyd y blewyn dithau.
 Enill nodwydd ddur, a cholli trosol haiarn.
 Trydydd troed i hen, ei ffon.
 Rhyna maban lle toddo y frân.
 Ni thynir gwaed o gareg.
 Aml gnoc a dyr gareg.
 Nes penelin nâg arddwrn.
 Rhoddi y dorth a chrefu y dafell.
 Mewn undeb mae nerth.
 Os ydych am ddwfr glan, ewch i lygad y ffynon.
 Anhawdd dwyn dyn oddiar ei dylwyth.
 Fel y bo dyn y bydd ei lwdn.
 Fel ar "Gefn Nithgroen."*
 Cysgod cawnen.
 Ni waeth dyweyd wrtho, "Careg a thwll."
 Hi a ddaw heibio iddo yntau.
 Can deneued ag iâr yn ei thalcen.
 Rhuthr y fammaeth.
 Angen a yr wrach i drotian.
 Pob cyffelyb a ymgais.
 Da cyffelyba y byddar, os clyw beth.
 Mynai y gath bysgod, ond ni fyn wlychu ei thraed
 Chware plant yn y pistyll.
 Haws gwarchod nag olrhain.
 Iro yr hwch dew â bloneg.
 Nid dafad yw pobpeth gwyn.
 Nid aur yw pobpeth melyn.
 Cyrchu dw'r dros afon.

* Lle hynod am wynt yn agos i Fwlch y ddeufaen.

Gwell cyngor hen na'i faeddu.
 Curo march i ysgraff.*
 Rhediad cyntaf ci.
 Can gyfrwysed a llwynog yr Aryg.
 Po tecaf y chware, tecaf fydd peidio.
 Ni ddeil nyddiad.
 Ni waeth heb hel dail iddo fo.
 Mae hen gôb yn well na hen gleddyf.
 Tri lli Awst†.
 Yr awr dywyllaf, yw yr awr nesaf i'r dydd.
 Fe ddaw eto haul ar fryn, nid ydyw hyn ond cawod.
 Os cregyn fydd yn y cwd, cregyn a ddaw allan.
 Cyhyd a Chywydd.
 Pan fo y tywydd yn deg cofia am dy gôb.
 Tori fy mhen, a rhoddi i mi eli.
 Pe clywai efe y gôg unwaith eto.
 Ni chlyw efe mor gôg eto.
 Castell i bawb, ei dŷ.
 Hyf pob ci ar ei domen ei hun.
 Gwynt i oen a haul i fochyn.
 Ni cheir chware â'r afal a'i fwyta hefyd.
 Adar o'r unlliw a ehedant i'r unlle.

Dyna i ti fy nghyfaill ychydig o ddoethineb yr hen bobl, a chan ei fod yn sylfaenedig ar natur ac arferion, ni ddylid ei ddiystyru. Yr oedd yn dda ei gael yn yr oesoedd tywyll, ac yr oedd pob dihareb fel y fagien â'r ganwyll frwyn, yn gweini peth goleu hyd oni chyfeithwyd y Bibl, a goleuo llusernau llenyddiaeth. Diau fod rhai o'r meddylliau yn hen, ac iddynt gael dillad newydd rai gweithiau.

Bellach ni byddai allan o'i le i ni droi yma at fater arall, yr hwn fel dolen yn y gadwen, sydd yn cydio yr hen oesoedd a'r canol oesoedd â'u gilydd, sef

CAETH-DDEILIADAETH. Er i Dduw wneuthur o "un gwaed bob cenedl o ddynion i breswyllo ar holl wyneb y ddaear," a'u bod wedi eu goleuo a'r un gorchymyn nefol "Car dy gymydog fel ti dy hun," eto, cawn y cryf yn cymeryd mantais ar y gwan er yn fore, gan wneuthur caethwas o'i frawd; ac yn mhlith eraill o hen genhedloedd y byd, cawn y Cymry felly; ac yn eu plith hwythau, y mae genym wr o blwyf Llandegai a wna'i hyny; eto am ei fod yn hen arferiad, a chotho diffyg ein taldau o'r wybodaeth sydd yn Ngair Duw, nyai a ddylem gyd-ddwyn a hwy, o blegid ni wyddent ond i raddau aamberlith eu bod yn gwneuthur drwg, eto yr oeddynt yn trosedlu y gorchymyn, yr hyn ni all neb ei wneuthur, ond er ei golled. Gellid nodi yma nifer o deuluoedd, gwledydd, a theyrnasoedd, ag y bu y pechod hwn fel y caner yn eu hysu, ac yn bwyta ynaith eu nerth; a thra yr wyf y munui hwn yn adrodd hyn o eiriau, y mae dynion oeddynt yn rhyddion yn America y llynedd, yn awr yn gathion o dan haiarn; y rhai ddysidiau yn ol a wnaethant eu goreu i ddal y dyn da mewn cadwyrdd; ac ynddynt

* Yr hen ddull o groesi Menai.

† Cyfeiriad at Ogwen o bosibl.

hwy cawn yr eglurhad llythyrenol hwnw o Air Duw, "Os oes neb yn tywys i gaethiwed efe a â i gaethiwed." Nis gallwn lai na chofio pa beth a ddaeth i'r rhai a gynor hwyasant gathreistriail y *De meon llongau, arian, oc arfau*, wedi i gathfasnach, dinas gobath eu helw, fyned ar dân, a phan welant "fwr ei llosgiad" yn esgyn i fyny! Gwyddis iddynt "sefyll draw" i alaru drosti, o herwyd "antheithio cymaint cyfoeth!" yr hyn a andwyodd rai teuluoedd cytain; a gwyddis i un Cymro, o herwydd colli ei arian yn y ffordd hono, fyned "ac yngrogi!" ac y mae yn dra thebyg mai hyn, yn nghyd a phethau eraill, a fu yn achos i'r Cymry go'li eu tir a'u coron, pe chwiliid yn deg i wraidd eu helynt. Ond at ein testyn. Yn Marwnad Cunedda, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu o. c. 328—389, ychyiig cyn llwyr ymadawiad y Rhufeiniaid o'r Ynys, nyhi a gawn ryw *gun-Daliesin*, neu ynte yr un o lan Llyn Geirionydd, yn personoli y genedl ynddo ei hun, ac yn dywedyd;—dodir alleiriad Carnhuanawc.

Cyn cymun* Cuneddaf
Kym afei biw blith haf
Rym afei eddystrawl y gaya
kym afei win gloyw ag olew
kym afei toraf keith rag untrew

Sef:—Cyn marw Cuneddaf [yr haf
Bydd i i ni (neu i mi) wartheg blitaion
Byddai i ni feirch y ganaf
Byddai i ni win ag olew
Byddai i ni dorf o gaethion ar ainnaid."

Hefyd yn y rhagdraeth i Freinniau gwyr Arfon y rhai a ysgrifenydd fel y tybir yn y chwechfed ganrif, fe goffeir yno am "*weision caeth*." Ac hefyd yn Nghyfreithiau llywel Dda, y rhai ysgrifenydd yn y ddegfed canrif, fe geir yno gryn son am danynt; ac yn mhilith pethau eraill cawn y frawddeg ganlynol, yr hon a alleirir felhyn;—"Taircelfyddyd ni ddysg *caethwas* ei fab heb genad ei Arglwydd, *Ysgoleiclod, Barddoni, a Gofuniath*." Hyn yn nghydag amryw bethau eraill sydd yn y cyfreithiau hyny, a ddengys fod y caethwas truan, yn isel, a drwg ei gyflwr: gelwid ef hefyd yn *daeog*, yn *gostog*, ac weithiau *costog tom*; (tomen) enwau bryntion, ac yn arwyddo ei ddiraddiad.

Derbyniwyd yr hyn a ganlyn oddi wrth y Parch. O. JONES, gynt o Fanchester, ar y mater, ac yn mae yn dda genyf, allu ei ddwyn gerbron, oddi wrth wr mor gydabyddus a phethau o'r fath;—

"ANWYL FRAWD,—Gofynech mewn llythyr a gefais oddiwrthych dro yn ol, am chwaneg o hysbysrwydd yn nghylech ffyniant caeth ddeiliadaeth yn Nghymru yn yr amser gynt. Mewn Gwaith a ysgrifenydd gan y diweddar Rowlands, Plas Gwyn, yn Lladin, ar hynafiaethau plwyfau Mon, yn y flwyddyn 1710, cawn y sylwadau canlynol a'u cyffelyb.

ABER BRAINT, NEU DWYRAN, PLWYF LLANGEINWEN.—Yr oedd y faerdref hon gynt yn *un*, dan yr enw *Aber Brait*, ond yn awr y mae wedi ei rhanu yn *ddwy*, am ba achos ei gelwir *Dwyran*. Dyroddwyd y faerdref hon gan Idwal, Tywysog Cymru; y mae y naill ran o honi at gynhaliath eglwys Clynog Fawr yn Arfon, a'r rhan arall at gynhaliath eglwys esgobol Bangor Fawr yn Ngwynedd: ac adweinir y rhan o fewn eu terfynau hyd heddyw, dan yrenw, "Dwyran Esgobol," a "Dwyran Beuno." Caeth ddeiliadaeth (*villenage*), oedd rhan yr esgob a'r faerdref hon; rhyny yw, yr oedd yr holl drigolion, yn ol cyfreithiau y Brython, wedi eu

* Ymddengys y byddent y pryd hwnw, megis eto yn derbyn y cymun cyn marw.

geni mewn cyflwr caeth-ddeiliadaeth ac yn berchenogaeth i Arglwydd y rhandir. Nid oedd y rhandir yma o nemawr o werth o ran tir; ond yr oedd yn perthyn iddi gryn lawer o gaeth-ddeiliaid, fel yr awgrymwyd uchod, yn rhwym i'w harglwydd trwy eu lle genedigol, ac am hyny eu gelwir yn yr hen freinlenau yn *briodorian*; math o ddynion oeddynt a orthrymid yn dost gan eu harglwyddi, ac a werthid gyda'r tir yn gyffredin, fel pe na buasent namyn anifeiliaid; ond er gwneyd natur y gaeth-ddeiliadaeth yma yn fwy dealladwy, dygaf rai engreiffiau yn mlaen, y rhai a weiniant i egluro hyn, pan sonir am dano mewn manau eraill.

Gweithred o werthu dynion. "Rhys ab Gruffydd ab Iorwerth; Gruffydd ab Dicws; Ifan ab Dicws; &c., yr ydym ni wedi rhoddi, cadarnhau, a gwerthu dros byth i William ab Gruffydd ab Gwilym o Benmynydd, &c., y priodorian hyn, sef Engan Goch ab Iorwerth ab Cynwric, Dicws ab Engan Goch ab Iorwerth ab Cynwric, a meibion a merched y dywededig Engan a Dicws, a genhedlwyd yn naturiol o honynt, a'u holynwyr, tiroedd, dodrefn, a dâoedd o bob math, am swm pennodol o arian, &c., i'w meddianu gan y dywededig William Gruffydd ab Gwilym, ei etifeddion a'i ddirprwywyr, dros byth. Rhoddedig yn Mangor, ar yr ail dydd o Fai, yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Harri y Pedwerydd."

"Myfi Gruffudd ab Iorwerth Fychan, rhydd ddeiliad o faerdref Llechgynfarwy, &c., a werthais ac a gadarnheais i William ab Gruffudd ab Gwilym, &c., i'w hetifeddion a'u dirprwywyr, y priodorian hyn, sef Dafydd ab Ifan ab Adda; Iorwerth, a Gruffydd, ei feibion; ac Angharad, merch y dywededig Dafydd, a Hwfa ab Ifan ab Adda, fy mhriodorian, yn nghyd a'u holl feddianau symudol ac ansymudol, &c., i'w meddianu gan y dywededig William, ei etifeddion, a'i ddirprwywyr dros byth. Rhoddedig yn Mhenmynydd, ar y dydd Llun nesaf o flaen Gwyl Sant Bartholomeus; yn y flwyddyn gyntaf i Harri y Chweched. (?)

Ednyfed Fychan ab Ednyfed, a gyfenwir Ednyfed ab Arthelw ferch Dafydd ab Gruffydd, a Howel ab Dafydd ab Ryryd, a gyfenwir Howel ab Dafydd ab Gruffydd, rhydd ddeiliaid ein Harglwydd, y Brenin, o Faerdref Rhandir Gadog, &c., a roddasom ac a gadarnhasom i William ab Gruffydd ab Gwilym, *Ysw.*, a rhydd ddeiliad Porthamel, &c., saith o'n priodorian, sef Howel ab Dafydd Dew, Matto ab Dafydd Dew, Ieuan ab Ieuan Ddu, Llewelyn ab Dafydd Dew a Llewelyn ab Ifan Goch, yn nghyd a'u holl hiliogaeth, a genhedlwyd neu a genhedlir, a'u holl ddodrefn, dâoedd &c., i'w meddianu, &c., ein dywededig briodorian &c., gan y dywededig William Gruffydd ab Gwilym, ei etifeddion a'i ddirprwywyr, am byth, Rhoddedig yn Rhandir Gadog, yr 20fed dydd o Fehefin, yn y 27ain flwyddyn i Harri Chweched."

Y William Gruffydd uchod oedd William Gruffydd, *Ysw.*, o'r Penrhyn, ac y mae yn ymddangos ei fod ef yn perchenogi Plas Penmynydd, yn Môn, a'r Plas Newydd, Tref Borthamel, yn Môn. Efe a wnaed yn ddinasydd o Loegr, yn y 18fed i Harri Pedwerydd ar yr amod na byddai iddo briodi Cymraes; ac efe a fu yn Siamberlên Gogledd Cymru. Gelwir ef hefyd, Gwilym Fychan, a "William Fychan, Ystafellydd Hên, ab Gwilym ab Gruffydd ab Gwilym ab Gruffydd ab Heilyn ab Syr Tudur Marchog, mab hynaf Ednyfed Fychan ab Cynwric ab Iorwerth ab Gwgan ab Idnerth ab

Edryd ab Nathan ab Jafeth ab Carwed ab Marchudd, un o bymtheg llwyth Gwynedd, ag ydoedd o dad i dad o Genau ab Goel Godebog." Yr oedd efe yn fyw Awst 10 1466, fel y gwelir oddiwrth weithredoedd a lawndwyd ganddo. Dywaid yr Achan ddarfod id lo briodi Gwenllian, ferch Iorwerth ab Dafydd ab Ednyfed Chwith, yr hon, gallem seddwl wrth yr enw, oedd yn hanu o deulu Cymreig. Ei biant o honi oeddynt, "Robert Gruffydd o'r Plas Newydd, yn Môn, yr hwn a briododd Gwenhwyfar, ferch Gruffydd ab Howel, y Fawr.—(2) Edmwnd, yr hwn a briododd Janet, ferch Meredydd ab Ievan ab Robert, *Fsw.*, o Wydir; yr hon a fu yn briod yr ail waith â Syr John Puleston, merch (3,) William, ac amryw ferched, un o ba rai, o'r enw Agnes, a fu yn briod â Syr Rolant Velville, mab ordderch i Harri y Seithfed, a Chwnstabl castell Beaumaris."

Yn awr, oddiwrth yr llyn a ddywedwyd, ceir trem ar yr hyn allasai fod yn myned yn mlaen yma gynt, trwy yr hyn a wnelid yn ein hymyl. Ond cyn hir fe wawriodd amser gwell trwy i Iarll Richmond, yr hwn oedd yn hanu o Syr Owen Tudur o Fôn, pendefig o waed tywysogaidd, esgyn gorsedd Prydain dan y titl Henry VII., ac er ei fod wedi ei lyngcu gan chwant anniwall am arian, ac nad oedd ryw lawer o ddaioni cyffredinol i'w ddysgwyl oddiwrth ddyn mor hunan-geisiol, eto fe edrychai pob Cymro i fyny tuag ato fel yr edrych y teithiwr ar y seren ddydd, gan ddysgwyl pethau gwell; diffanodd y gaeth-ddeiliadaeth yn raddol oddiar ei thraed, gan wywo ymaith dan awelon y felldith ddifaol sydd yn perthyn i'w natur, er yn waethaf debygid i'r dosparth hwnw ag y byddasai eu llwyddiant mor ddrwg, fel ag y bydd pob cam o *chware teg* a wneir ag eraill i'r un graddau yn *gweithio yn eu herbyn lwy!* ac y mae genym le i feddwl fod gormod o hen fonedd y plwyfi yma yn perthyn i'r dosparth hwn. Hefyd gellir ychwanegu yma am William Gruffydd Fychan, pa mor lwyddianus bynag y bu i beutyru cyfoeth yn ol arfer ei oes, a pha ddylanwad bynag oedd ganddo ar fywyd ac angau ei gyd-ddynion fel swyddog gwladol, fe ddarfu am y cwbl ac nid oes cymaint ag un o'i ddisgynyddion heddiw yn y Penrhyn, yn Nghochwillan, na Choetmor; yr llyn a'u dysga mor auwadl yw pethau y byd. *Gwel llanes ei Ffynfyl yn yr Achan.*

Heblaw caeth ddeiliadaeth, yr hon a ddaeth i ni fel asiechyd trefdadol oddiwrth ein hynafiaid, fe boenid ein talau yn dost gan yr iau haiarnaidd a roddodd Henry IV ar eu gwarau, yn achos *Owen Glyndwr*, yr hwn a ymladdodd am bynthenng mlynedd â holl allu Lloegr, ac er iddo fethu cadw alian y Saeson o Gymru, methent hwythau yn lan trwy yr holl amser bron a rhoddi Owen i lawr. Cospai Owen, a llosgai feddianau y Cymry hyn yn eiddoent o'i blaid, a gwndi y Saeson yr un peth eilwaith i ddiynawyr Owen pan gaent y llaw uchaf; a bu y wlad yn y wedd hon yn cael ei malu fel rhang dau faen melin yr holl amser, a phan y cafodd y Saeson y llaw uchaf, dodasant fel y coffawyd gytreithiau blinion arnom, a byddai eu gweinyddiad drachefu yn aml yn waeth nag y dylasai fod, yn gymaint fel ly. fel y cawn *Llawdden*, y bardd pabaidd o'r Bala, yn cwyno fel hyn tua 1450:—

"Nid archwn ni drochi 'n iaith
Na dialedd Duw eilwaith;
Ni a roem yn wir yma
Dreth aur am lywodraeth dda."

Onid yn y cwbl yr oedd Rhagluniaeth y nef yn cofio am danom, a'i llygad arnom fel ag y mae y fam ar ei phlentyn, er mwyn gwneud daioni i ni yn y diwedd; ac wedi iddi symud Henry VII. at ei dadan, daeth ei fab Henry VIII. i'r orsedd, a chyn hir iawn anfonodd y Cymry Ddeiseb* synhwyriawn, fel bodau rhesynol, er parch i'w coffadwriaeth, at y brenin; yn *dymuno cael yr un breintiau ag eraill. o'i ddeiliaid*; ac er ei glod, o'i du yntau, gwrandawodd Henry ar eu cais, ac yn y flwyddyn 1536, a'r 27 o'i deyrnasiad, gwnaethpwyd gweithred yn corphori Cymru a Lloegr yn nghyd byth, yn yr hon y sicrhawyd i Gymry yr un rhyddid a breintiau a deiliaid eraill y brenin, yn nghyd a rheolau etifeddiaeth a phob deddfau Seisnig eraill. Yn amser y penadur hwn hetyd ymwrthodwyd a Phabyddiaeth, gelyn marwol rhyddid a ffyniant teulu dyn; ac wedi cael gwaredigaeth fel hyn oddiwrth orthrymderau *gwladol ac glwysig*, fe wellaodd amgylchiadau *tymorol ac ysprydol* dynion o hyny allan, fel ag y mae gwenau y nefoedd wedi bod arnom ni a'n cymydogion Seisnig o hyny hyd heddyw. Magwyd yspryd anturiaethus mewn dynion, blodeuodd celfyddyd a masnach, a gwellaodd amgylchiadau lluaws, ond nid neb yn fwy o bosibl na phreswylwyr plwyfi Llandegai a Llanllechid, o herwydd eu cysylltiad a *masnach y llechi*. Lluosgodd a chyfoethgodd dynion o hyny allan, pan nad oeddym ond *ychydig a thledion*; a thra y bendithiwn Arglwydd Dduw ein tadau am ein cofio yn ein hisel râdd, nis gallwn anghofio yr offeryn a ddefnyddiodd i hyny, os na chanwn gyda Sion Tador o Lanelwy,—

Hari lan, hir lawenydd

I w'r un a'n rhoes ninau'n rhydd.

Yn awr, pa golliadau bynag a berthynent i Henry VIII., ac y mae y dyn sydd hebddynt heb ei eni eto, rhaid cydnabod mai efe a wnaeth fwyaf o ddaioni i'n cenedl ni o neb a eisteddodd ar deyrngadair ein gwlad, ac nid hyny yn unig, ond bu o les mawr i genhedloedd eraill, a theimlir oddiwrth yr ysgogiad a godwyd trwyddo ef gan oescedd a chenedlaethau sydd eto heb eu geni. Cymro oedd Henry o un tu fel y coffawyd, ac yr oedd Rhagluniaeth wedi tori gwaith mawr ar ei gyfer, a phe cawsai hi ryw Sais yn Lloegr a wnaethai y tro yn well, diameu na buasai yn anfon yma i Gymru, oblegid ni byddwn ni yn anfon i geisio dim o Loegr os bydd y peth hwnw at ein pwrpas adref yn Nghymru! Ond maddeuer gair fel hyn. Wel, dyna ni yn awr wedi taflu goiwg tros blwyfi Llandegai a Llanllechid, ac wedi adrodd ychydig o'u helyntion gynt, a choffa am amryw lanerchau hynod o'u mewn, &c., a hyny oddiar le nad oedd can waethed nac ychwaith cystal ag a alliesid gael, ond a ddewiswyd er hyny er mwyn y *dieithriaid* a allent fod yn myned heibio trwy y godreuoyn hyn, ac yn caru cael gair o'u hanes; ac yn awr, dyma ni yn terfynu yr ymddiddan ar Bont Llandegai, yr hon a saif rhwng y ddeu-blwyf, ac yn myned i ymdrin a phethau eraill a mwy sefydlog, megys crefydd, gweithfau, a phethau nes atom, &c. Ond hwyrach y gofynir, Paham na wnaethid sylw ar hen balasau y wlad? yr ateb yw, Am na cheir yma olwg mor ffafriol ag a ddymunid ond ar un o honynt, a bod raid dweyd gair am danynt pan ddeuir at yr "Achau." Gobeithir y gwna hyny ddigon o esgusawd ar y mater, gan hyny, foneddigion, am fod y cylla yn galw am fwyd, a'r haul ar fachlud, prydawn da i chwi, a byddwch wych.

* Gwel gyfieithiad o'r llythyr canmoladwy hwn gan y Parch. WALTER DAVIES, M.A., yn ei Draethawd gorchestol ar *Ryddid*, t. d. 66—72.

DYFODIAD CRISTIONOGAETH.

PA mor hen bynag ydyw ein cenedl ni, dyma y pryd y cafodd ei genī i fodolaeth Gristionogol, ac yma y dylem ddechreu cyfrif ein blynyddoedd. Yr ydys yn coelio ddarfod i ni gael ein tadau yn baganiaid eilunaddolgar fel cenhedloedd eraill, ac yn gwasanaethu llu y nef, &c. (gwel t. d. 51—56), ond yma amcenir dangos i Dduw ein cofio ninau yn fore, ac y gellir cymhwyso atom eiriau Isaiah y Prophwyd pan ddywedodd tros ei Feistr, “Ceisiwyd fi gan y rhai ni ymofynasant am danaf.” Ymddengys mai *llan* y galwai y Cymry le addoli, a *golychwyd* yr addoliad. Ond wedi dyfodiad Cristionogaeth gelwid cynulliad crefyddol fel hyn yn *gôr*, a hynny yn ol rhai mor gynar a'r ganrif gyntaf; ac o dipyn i beth aeth enw y gynulleidfa ar yr *adeilad* y cynhelid yr addoliad ynddo, a dyma ddechreuad y *côrau*; coelir hyn gan rai, ac amheuir ef gan eraill; ond mae yr ansoddeiriau Cyngor (*cyd-gor*), Bangor (*ban-gor*), a bod y fath le mor fore a *Bangor-is-coed*, at eraill sydd yn ein gwlad, ac yn yr Ynys Werdd, a Llydaw, yn taro llawer o blaid y dŷb. Gwel *Y Gwyddon. Cyf. I. t. d. 496*. Ond beth bynag am hynny ymddengys mai yn y *Côrbre* a *Chôrorion* (gwel t. d. 61) y dechreuwyd galw ar enw yr Arglwydd yn y plwyfi hyn. Yma fe arwydda yr enw *côr* yr adeilad, a *Chor-bre*, Gôr ar y bryn, ac y mae yn cyfateb yn dda i'r tyddyn henafol sydd ar yr enw hwn yn ymyl eglwys Llanllechid. Cyfeirir at y lle hwn yn un o “*Englynion y Beddau*,” fel hyn,

“Bedd Ceri Gledddyfhir yn ngodir Hen Eglwys
Yn y diplwys graeandde—
Tarw torment yn mynwent Corbre.”

Mae y cyntaf yn mhlwyf Llandegai, a'r ail fel y coffawyd yn mhlwyf Llanllechid, ac felly am yr afon a'u gilydd. Mae yn debyg mai rhyw hen *dir raniad* oedd “*Graeandde*” neu *Graeandre*, ac yn cyrhaedd o'r Ogwen heibio *Nant y Graean* i syny hyd Fryn yr Hen Eglwys ar dir Ffynon bach; ac o'r Galed-ffrwd i ystlys *tir raniad* arall a elwir *Tre' Garth*. Gan fod cryn son yn y canol-oesoedd am y ffug-frwydrau a elwid “*Tournamentau*,” y rhai a ddechreuwyd tua'r wythfed ganrif, coelir mai llithro i mewn rywfodd y pryd hwnw, neu wed'yn a wnaeth y gair estronol *torment* yn lle “brwydrin,” yr hwn a arferid yn fore mewn cyfansoddiadau Cymreig, ac felly ymddengys fod yr *Englyn*, a'r *ddwy eglwys* tan sylw yn dra hen. Hefyd, mae bod y *Corau* hyn, sef *Cororion* a'r *Corbre* ar y bryndir yn eyd-daro yn burion a'r dyb a'r traddodiad mai y bryndir a llethrau y mynyddoedd a breswylid ac a drinid gyntaf. Ond pwy a fu yma gyntaf yn cyhoeddi y “*Newyddion da*” i bobl Eryri, pa enwau oedd arnynt, neu pa faint oedd rhifedi y dychweledigion cyntaf, neu pa faint a oddefasant yn achos y grefydd newydd? coelio yr ydys, nad oes neb a all ateb. Ymddengys i'r wlad ar ymddatodiad y lywodraeth Rufeinig fyned trwy bangfeydd caledion tua diwedd y bedwerydd a dechreu y bummed ganrif, ar amser ymadawiad y Rhufeiniaid, pan rwygid cyndeithas gan chwyldroadau mewnol, a chan ymosodiadau allanol oddiwrth Wyddelod a Saeson. Y mae yn debyg iawn mai clywed am dywydd ein tadau

a wnaeth eu brodyr Llydawaidd, nes enyn eu tosturi, yr hyn o'r diwedd a esgorodd ar waith y boneddwr Cristionogol hwnw, *IRHEL HAEL*, yn anfon ei blant yn genhadon i Gymru, ac yn mhlith eraill *Tegai a Llechid*, brawd a chwaer, y rhai a ddaethant i lafurio i'r plwyfi hyn, ac a adeiladasant leoedd addoli, y rhai sydd ar eu henwau hyd heddyw. Mae yn debyg fod yr *hen gorau*, sef *Cororion a'r Corbre* wedi eu dryllio cyn eu dyfod, o herwydd y mae yn hen ddywedid mai "o Gororion y symudwyd y gwasanaeth i Eglwys Llandegai," yr hyn a gymerodd le fel y bernir tua 510 i 610 o. c. Hefyd nid yn y Corbre chwaith y gwasanaethodd Llechid ei chwiorydd, o ba natur bynag ydoedd, ond yn "Nghapel Llechid" ar dir Plas uchaf, yn agos i "Gae'r Bettws" a "Ffynon Llechid," i'r hon y priodolid rhinweddau iachael gynt, ac o'r hon y byddai hen bobl Llanllechid yn arfer a galw am lymaid o ddwfr pan dybient eu bod ar fin marw! Y mae traddodiad hefyd o natur ddyddan iawn yn perthyn i "Gapel Llechid," ac y mae yn debyg y beir yr ysgrifenydd am ei goffa, dyn a'i helpo, a dyma fo, sef "Bod y ceryg a'r *cymrud* a gludid ato y dydd, yn cael eu cludo y nos i'r lle y saif Eglwys Llanllechid arno yn awr," yr hyn a ddengys debygid, mai yn rhywle megis y *Corbre* yn ymyl yr eglwys, yr oedd yr *hen gor* yr arferid ymgynull iddo ar y cyntaf, ac mai hwn oedd y man a'r *lle yr oedd rhaid addoli ynddo*. Cludwyd y ceryg a aeth i wneud "Capel Llechid" o'r Gyrr, fel y profa eu gweddillion yno eto; y ceryg hyny a geid yn rhyddion ar y wyneb, ac a gludid i waered ar geir llusg, fel y gellir tybio, yr hyn a ddengys iddynt gael eu dwyn yno mewn amser pur fore, pan nad oedd nemor arfau metelaidd i'w cael yn y wlad, gan hyny yr oedd yn rhatach eu ceisio oddiyno. Y mae yn debyg fod cludiad y ceryg oddiwrth Capel Llechid yn hollol wirionedd, pa un bynag ai nos ai dydd y cymerodd hyny le, oblegid yr oedd ceryg clochdy a hen eglwys Llanllechid, lawer o honynt, fel y dangosai y muriau, wedi eu cludo o'r Gyrr, ceryg yr hon sydd hawdd eu gwa-haniaethu, ie, y mae rhai o honynt i'w hadwaen eto yn yr adeilad newydd. Ond gadawn yr adeiladau gyda choffa fod cyplau Capel Llechid i'w gweled heddyw, yn hen dy Plas uchaf, yr hwn sydd ysgubor yn awr. Cafodd rhai o'r triugainyddion presenol ddarnau o dywodfaen nâdd, esgyrn dynol, &c., o gylch hen adfail Capel Llechid. Anfonwyd *Tegai a Llechid* yma yn genhadon, yr un ffunud ag y darfu i'r brodyr Seisnig anfon Mr. Jenkins atynt hwy i Lydaw oddeutu 30 mlynedd yn ol, ac yn wir fel y darfu y Methodistiaid Calfinaidd anfon y Parch. James Williams, atynt yn y flwyddyn 1842, a choeliwn y byddwn ni yma, yn enwedig pobl plwyf Llanllechid, wedi ad-dalu yn lled dda iddynt pan anfonir eto y gwr ieuanc Mr. John Williams o'r Gatehouse. Nid yw anfoniad *Tegai a Llechid* atom yn un ryfeddod, oblegid gellir dangos fod cyniweirio mawr gynt rhwng Cymru a Llydaw, ar negeseuon gwladol yn gystal ac eglwysig, ac adferwyd y cyniweirio hwn mewn rhan yn amser Eisteddfod Abergafeni, pan y bu rhai o'u boneddion hwy yma, megis ag yr aeth rhai o'r eiddom ninnau yno. Ymddengys i *Tegai* fod yn byw ar lain o dir neu dyddyn a elwid *Maes y Llan*, ar gwr lle a elwid *Meusyn Glasog*, ac i'r tyddyn hwnw gael ei alw *Tan y Fynwent* mewn amser diweddarach, yr hwn oedd ar y tu gogleddol i eglwys Llandegai, ond sydd wedi ei uno a Pharc y Penrhyn ers 60 neu

70 o fwyddi yn ol. Nid oes gan Lewis Morris, yr hynafiaethydd galluog o Fon, lai na chwech o ddyfyniadau o ysguif-lyfrau, ac yr oedd rhai o honynt yn *hen iawn*, y rhai a brofant i Tegai a Llechid ddyfod yma o Lydaw, a chyfeiria rhai o honynt at ei drigias yn *Maes y Llan*, ac wele hwy, yn cael eu gwahaniaethu â llythyrenau yr wyddor neu enwau y gwanol awdwyr :

"Teccai neu Tegai ym Maes Llanglassawg mab Ithel hael o Lydaw. S.—Llandegai yn Arfon Tegai Glasawg yn Maes ythan (y Llan?) ap Ithel o Lydaw. B Tegai ym Maes Llanglasawg mab Ithel hael o Lydaw. V. D. L. M, Tegai ym Maes Englysawg a Thrillo yn Ninerth yn rhos, a Rhychwyn meibion Ithel hael o Lydaw, a Llechid chwaer iddynt. Llechid yn Arllechwedd 'ch (*talfyniad o ych neu merch*) Ithel hael o Lydaw. B—Llanllechid. Chwaer i Degai a Thrillo. C; velly Tho. W. I a Q.; aci Rychwyn. T. W. I." Dyna res go dda o gyd-broffion onide. Gwel *The Myo.* t. d. 417 a 427 a 430. Y mae gan yr ysgrifenydd un dychymyg o'i eiddo ei hun i'w gynyg yma.—Gan fod Clovis brenin Ffrainc, yn fuan ar ol y fwyddyn o o. c. 496, wedi rhoi i eglwysi Cristionegol yr esiampl gyntaf meddir o dalu degwm, a bod ei glod yn cael ei uchelsci: io trwy yr eglwysi yn Ffrainc am hyny, a bod hyny wrth gwrs yn wybyddus i Tegai, y mae yn ddigon tebyg iddo yntau ddwyn hyny i sylw bonedd a chyffredin y plwyfi hyn, ac iddynt hwythau weled y rhesynoldeb o hyny er mwyn cynnal yr achos, a dilyn esiampl Clovis. Os ydyw hyn yn gywir, fe allai mai yn mhlwyf Llandegai y talwyd y degwm cyntaf yn y deyrnas hon. Gwyddys y byddai y cenadon cyntaf yn byw mewn lleoedd arghysbell a dinod man, er mwyn cael llonydd, ac y derbynient yno yr ychydig ioddion gwirfoddol a gaent gan y rhai y llafurient yn eu plith, megys yd, bara, caws, ymenyn, &c., ac weithiau degwm. Mae lle yn y plwyf tan sylw rhwng Cororion ac Ogwen o'r enw *Tyldyn Dicwm* (degwm), Gro. *dika*, Llad. *decem.*, ac nid anmhosibl i Tegai fod yn byw yma, lle y derbynai ryw bethau fel y soniwyd yn gyfnewid am ei lafur gan ei frodyr Cynneig, a bod ei chwaer Llechid yn cadw ei dŷ, yr hon a allasai groesi yr Ogwen gyda phont-bren mor aml ag y myuasai, i fyned i ddysgu a chyfarwyddo ei chwariorydd Cymreig mewn darllen, gweddio, a chanu mawl i D. uw : ac y mae yn deigon tebyg mai tua diwedd ei oes y bu byw Tegai yn *Maes y Llan*, ac y bu Llechid fyw yn y llas uchaf yn ymyl "Capel Llechid" a "Ffynon Llechid." Ond cofier nad yw hyn ond tyb, am a wydâys i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag mae tebygolrwydd mawr i Tegai ail agor blwch nardus yr efengyl yn mhlwyf Llandegai os nad yn Llanllechid hefyd ;—iddo fod yn fugail da i'r ychydig braidd, a allasent fod yma, a bod ei lafurus gariad yntau yn cael ei werthfawrogi ganddynt; onide, mae yn debyg na buasent yn galw yr eglwys ar ei enw, ac na buasai cynifer o gofion am dano; a diameu fod cofiadwriaeth ei chwaer yr un mor gymeradwy. Ymddengys ddarfod claddu Tegai yn amhydeddus mewn *arch gareg*, wrth dalcen dwyreiniol Eglwys Llanglasawg sef Llandegai, a dodi colofn hirgron o raeanfaen, uwch ei ben, yr hon wedi hyny a dynwyd i lawr yn amser rhyw derlysg gwladol, ond a gyfodwyd drachefn, a bu yn ddeial am ryw hyd, er nad yw bellach ers llawer dydd. Codwyd hefyd yr arch i fyny i wneud

Ile i rywun, ac yr oedd yn wrthrych sylw a siarad' wrth borth y fynwent, oddeutu 80 i 100 mlynedd yn ol; ond y mae yn awr wrth dalcen dwyreiniol yr eglwys, ac yn cael ei galw yn "*Arch Gareg Tegai*" ac y mae darn o'r "*Golofn*" hefyd i'w weled, ychydig o latheni oddiwrth i'r Dê. Y mae colofnau tebyg iddi i'w gweld ato yn Nghorwen yn Meirion, ac yn Llan Gorwen mewn nynnwent ger Aberystwyth. Dywedodd Carnhuanawc wrthyf un tro, fod cyfodi colofnau o'r fath, yn beth cyffredin yn y chweched ganrif.

Y mae yn ymddangos i'r Eglwys Gymreig, cyn ei llygru gan Rufain, na chan ymweliad Baldwin, gael lloches glûd yma yn nghilfachau Eryri, fel y wraig a "*ffodd i'r diffaethwch*" lle cafodd lonydd oddiwrth ei gelynion; ac i fynyddoedd Arfon fod iddi hi yr hyn oedd e eigion Piedmwnd i'r Waldensiaid. Mae yn debyg iawn fod ei llusern yn oleu yma yn yr "*oesoedd tywyll*" a bod yma rai wrth eu bodd yn addoli Duw yn yr oesoedd blinion hyny, ie, rhyw rai bob amser yn meddwl am ei enw Ef. Yr ydys vn haeru hyn oddiwrth *olion*, cymaint o eglwysi ac oddi wrth gynifer o *dra llochlau* am danynt, tra yr oedd eglwysydd gwledydd eraill yn fferu mewn unfurfi-aeth.—A dyma hwy;—

1. *Eglwys Nant Ffrancon* ar dir Ty gwyn, ac yr oedd yn 16 llath o hyd wrth 8 o led; a John Evans, yr hwn oedd yn fachgen gyda'i dad y pryd hwnw, ond sydd hen ŵr heddyw, a gariodd ei sy'feini ymaith gyda throl.

2. *Eglwys Cŵ Twellan*, o'r hon y mae dwy golofn yn aros eto. Meddai hon gôr, neu adail groes wrth ei phen deheuol, yr hyn a'i gwnai yn debyg i'r lythyren T. Pan gofir fod hon yn ymyl *Llwyn Rhandir*, tuadlir ni i goelio y gallasai ychydig weddill o'r *Derwyddon*, ar ol y dinystr fu arnynt yn Môn, *gilio* yma; a chof genym y dywed Gildas, ddurfol eodi rhai o'r adeiladau Cristionol ar yr hen lanau *Derwyddol*, a hyny mor fore â'r ganrif gyntaf. Dywed traddodiad mai y Gwyddelod a godasant yr eglwys hon; ac fe wyddys iddynt fod yn orthrwm mawr ar y wlad hon tua'r pedwerydd â'r pumed canrif. Gwel t. d. 32—36. Dywed haneswyr mai ei latrata pan yn fachgen o Gymru a gafodd Padrig Apostol y Gwyddelod, a dengys hanesiaeth Gymreig ei fod yn orwyr i Wydion ab Don, yr hwn a fu yn byw ychydig cyn amser Padrig yn Nghog Nant Ffrancon. Gwel t. d. 16. Dyma fel y dywed yr âchau "*Padrig Sant ap Alfryd, ap Gronwy ap Gwdion ap Don o Warédog*," Gwel *Myv.* t. d. 429, lle nat oes lai na 5 neu 6 o hen gofion yn profi ei berthynas â Chymry, ac â Gwydion, neu ei deulu. Dichon i'r Gwyddelod ei ddwyn ymaith tua'r amser Brwydr Gwaen Gynfi. Gwel t. d. 34. Y mae eglwys yn Iwerddon a elwir "*Cŵ Padrig*," a phwy a ŵyr nad er cof am eglwys "*Cŵ Twellan*." Gwel t. d. 45.

3. *Eglwys Llanerchyn neu llan iyrchyn*. Mae yma heddyw bentwr o adfeillion tai &c., ac ol eglwys o saerniaeth digon del, ac y mae "*Llwybr yr offeiriad*," a'i "*Sarnau*," a'i "*Ryd*," ei dramwyfa yn o hen eglwys Garth celyn medd rhai, ond o Gonwy, Maenan, neu "*Y Friars*" medd eraill, i'w gweld eto. Saif hon yn Nghwm Ocwm oddiar chwarel y Bryn. Gwel t. d. 45.

4. *Capel Llechid*, ar dir Plas uchaf, lle mae dan gae a adwaenir wrth yr enwan "*Cae'r Capel*," a "*Chae'r Betws*," ac yn agos i "*Ffynon Llechid*."

5. *Y Corbre*, yr hwn sydd amaethdy ers llawer oes, ac ychydig i'r gogledd-ddwyrain o eglwys Llanllechid.

6. *Capel Ogwen* oedd gynt yn mhlwyf Llandegai cyn newid gwely yr afon, ond heddyw yn mhlwyf Llanllechid, ac eto ar lan Ogwen yn agos i'r Menai.

7. *Yr Hen Eglwys*. Safai hon o'r tu dwyrain yn ymyl *Bryn yr Hen Eglwys* wrth Ffynon Bach; mesurai oddeutu 16 llath o hyd wrth 8 o led. Mr. D. Owen a gludodd ei sylfaeni ymaith i wneud gwaliau. Y mae yn fyw hen wraig a fyddai, oddeutu 90 o flwyddi yn ol, yn arferol o fyned rhwng ei sylfaeni gyda phlant ei hamser i "*chware gweddiol*!" Gwel t. d. 51.

8. *Eglwys Bryn y Byrddau*. Safai mewn lle o'r enw, ar lan Llyn Meirig, lle yr aceiladwyd *Sant Ann* y tro cyntaf.

9. *Cororion*. Saif ar lan llyn o'r enw: mae yma heddyw amryw dai a hen adfeilion. Dywedir ei fod yn enwocach yn yr hen amser, fel y dengys hen weithredoedd, na Chochwillan, Penrhyn, a Choetmor. Pandy Cororion hefyd y gelwid pandy Tregarth gynt. At yr uchod ni fyddai allan o'i le coffa fod capel yn perthyn i'r Penrhyn unwaith ychydig i'r gorllewin oddiwrth y castell ar *Fryn Darlwyn*, ac y mae ei adfeilion i'w weled wrth Gwt yr Eryr. Yn awr, fe wel y darlennydd, pa un bynag ai perthyn i oesoedd cynaraf Cristionogaeth, ai ynte i'r canol oesoedd, yr oedd yr hen gapeli a'r eglwysi uchod (pan y gallasai y trigolion ffoi am noddled tua'r mynyddoedd yn amser rhyfel), fod yma gyfran o'r boblogaeth bob amser yn galw ar enw yr Arglwydd, ac nid allwn ni, er cymaint ein breintiau yn awr, gario meddyliau culion na siarad yn ddirmygus am danynt, heb fyned yn farnwyr meddyliau drwg. Os oedd gwaith Abraham wrth godi allorau yma ac acw, pan yn crwydro yn Nhir yr Addewid, yn profi i'r Canaaneaid ei fod yn ofni Arglwydd Dduw y nefoedd, wel yn siwr yr oedd gwaith ein hynafiaid ni yn codi yr eglwysi uchod, mewn oesoedd helbulus a thrallodus, yn dangos yn amlwg iawn pwy a ofnent, a phwy a wasanaethent hwythau. Nid oeddynt yn arfer claddu wrth yr hen eglwysi hyn, a'r ychydig *freuanau* ag *gwrnau* geirweithiau yn agos atynt a ddangosant eu hynafiaeth. Pe gellid profi yr addolod yn *Nghâl Tullan*, ac yn *Ilen Eglwys Graeandde* yn y chweched ganrif, fe ellid dangos hefyd oddiwrth eu maintioli nad oedd nifer trigolion y plwyfi tan sylw fwy nag oddeutu 300 bob un. Ond i fyned yn mlaen, y mae bod hen grefydd-dy y Penmon am y Menai a hwy, i'r lle y deuai Einion Frenin o Leyn, ac Elaeth Frenin, a Llychlynwyr am addysg tua'r chweched ganrif, yn awgrymu i ni nad oedd y plwyfi hyn o bosibl yn ei ddibrisio. Ond o ran hyny nid oedd eisiau croesi y Menai, oblegid dyna Fangor Fawr yn eu hymyl, a godwyd tuag o. c. 525 o'r lle y gallesid anfon brawd i fyny bob bore sabboth i bregethu, ac y gallasai ddychwelyd yr hwyr, fel y *bu* ac y *mae* amryw o bregethwyr yr Ymneillduwyr eto.

Hefyd, gan fod y fath wr a'r tywysog Cristionogol Rhydderch (*Ryderc* or *Roderic*) Molwynog yn trigianu yn fynych yn y Penrhyn, o'r flwyddyn 720 hyd 753, ac iddo godi yr *ail* fynachlog yn Enlli fel y dywed haneswyr, nid yw yn debyg iddo esgeuluso ei blwyf neu ei ardal ei hun, oblegid yr oedd efe yn fab i Idwal Iwrch (*Iorc*), fab Cadwaladr, brenin olaf y Prydeiniaid. Hefyd, gan fod safle y plwyfi hyn rhwng Llys Aber a Llys Dinorwig, lle bu y fath dywysogion haelionus a Llewelyn ap Iorwerth, a

Llewelyn ap Gruffydd tua'r 12fed a'r 13eg ganrif, gwy'r a gynysgaeddasant eglwysi Cymru ag amryw diroedd fel dengys eu gweithredoedd, coelir na fuont ddisylw o'r plwyfi yma. Hefyd y mae genym le i goelio fod amryw o'r gwy'r ag y cawn eu henwau yn Achau y Penrhyn a Chochwillan, &c., wedi hyny yn ffafriol i grefydd. Mae hefyd yn debyg oddiwrth rai o ddywediadau yr hen bobl, y gwyddai ein hynafiaid am ryw ranau o Lyfr Duw, gan y dywedent,—

Can wired a'r Pader.

Dechre cyfrif Paderau.

Can wired a 'Fengyl Ifan.*

* Efyngyl Ioan.

A diameu fod ganddynt ryw gymaint o'r Bibl yn Gymraeg at wasanaeth eglwys Bangor, megis cawn fod y Pedair Efyngyl yn eglwys Llanellwyl, o. c. 1284.—Gwel "*Bedd Gwr Duw*," gan y Parch. JOHN JONES, M.A., (Tegid).

Yn awr, wedi cymaint a hyn yna o ddyfalu am yr Eglwys Gymreig, a chael oddiwrth yr olion crybwylledig arwyddion eu bod yn eadw ty i'r Arglwydd yn y nos,—ei bod yn gafael mewn crefydd a chrefydd yn gafael ynddi hithau; rhaid i ni gydnabod ddarod i ryw gymaint o arferion di-eithrol ddyfod i mewn iddi o flaen, yngystal ag ar ol y goresgyniad yn amser Edward I. pan y gwithwyd esgobion Seisnig i'u gwlad, y rhai ni charent ein cenedl na'n iaith, ac ni cherid hwythau; a bu hyn yn achlysur i oeri sel ein tadau; ac er i Henry VIII. agor drws i ddiwygiad fel y soniwyd, mae yn amheus, ar ol gweled Sais anghymwys yn dod i swydd Gymreig, iddynt edrych arni fyth mor serchog, a digon priodol yr ystyrient hi yn Eglwys *Loegr*. Oerodd y bobl at yr offeiriaid, ac wrth gws oerodd yr offeiriaid at y bobl, a chafodd Cristionogaeth gam oddiar law y ddwyblaid; ond eto, fe barhaodd yma ychydig Gristionogaeth lwydaidd, ac er i amryw o ddynton da gyfodi ynddi, y mae yn amheus a allodd hi adenill y serch a gollodd, yr hyn o bosibl a rydd gyfrif i raddau am gynydd cyflym Ymneilldunaeth yma mewn amser nes atom. Cadarnheir yr haerriad uchod gan un o esgobion Bangor, yr hwn sydd yn rhedeg fel hyn:—

"Talfyriad o'r holl gwynion yn erbyn parsoniaid Esgobaeth Bangor ar ymweliad y Parchedig Dad yn Nuw Lewis, Arglwydd Esgob Bangor, a gynhaliwyd Gorff. 1623.

DOSPARTH CAERYNARFON.

Llandegai.—Syr David Morgan yw yn Curat yma; nid yw yn byw yn y plwyf.

Llanllechid.—Yr eglwys: mae y gwarcheidwaid a'u cynorthwywyr yn cwyno fod y fynwent yn cael ei halogi gan gefyllau y Dr. Williams, ac nid oes neb yn ei glanhau; ac ni chawsant ond tair pregeth y flwyddyn ddiweddaf. Syr John Payne yw y Curat.—*Arch. Camb. Series 3, Vol. ix., Page 284*. Ond dywed traddodiad yr hen bobl na byddai yn yr olaf ond un bregeth yn y flwyddyn, a hono ar Sul y Pasg. Ond mae yn debygol ddarod i bethau wellhau yn raddol tua diwedd y ganrif ragddywededig, a'r un ddilynol, ac hefyd yr un bresenol, fel erbyn ein hamser ni yn enwedig yn y 30 mlynedd diweddaf, y mae ynddi bobl effro a gweithgar, ac eleni (1866), pan y mae hyn yn myned i'r wasg, cyfaddefir gan rai oddiallan i'r eglwys fod ynddynt weinidogion ymroddgar tros Eddu, yn parchu ac yn cael eu parchu gan eraill. Arweinir ni yn awr i ddweyd gair am y llanau

presenol. Soniwyd eisoes am naw o hen lanau a berthynent, fel y coelir, i'r oesoedd cynaraf a'r canol oesoedd, ac y mae genym chwech eraill i'w coffau, sef, Llandegai, Llanllechid, Capel Curig, Sant Ann's, Y Gelli, a Glan Ogwen. Cyfrifir yr olaf yn mhlwyf Llanllechid, a'r lleill oll yn mhlwyf Llandegai; a gwneir sylw byr ar bob un. Dechreuwn gyda

LLANDEGAI A LLANLLECHID.

Yn cl y mesuriad awdurdodedig yn y flwyddyn 1837, cynwysai yr olaf 17630 o erwau (*acres*); 2938 o dir â, 8326 o dir porfa, 70 o goed-tir, a 6296 o fynydd-dir.* Methwyd cael nifer erwau Llandegai.

Gwerth Degwm Llandegai yr un flwyddyn ydoedd £340, a gwerth degwm Llanllechid yr un amser ydoedd £465. Perthynai Llandegai gynt i arch-ddeoniaeth Bangor, ac yn y flwyddyn 1649 bernid yfywiolaeth yn werth £40 yn flynyddol, o'r hyn y talwyd £8 yn flynyddol i'r Curat.—*Brown Willis.*

Trethi Llandegai a Chapel Curig yn 1803 oeddynt £275 10s., yn ol 2s. 6c. y bunt; ac yn 1832, £529 10s. Swm y dreth yn 1864 oedd £974 3s., yn ol 6c. y bunt. *Trethi* Llanllechid yn 1803 oeddynt £211 3s. 8½c. yn ol 5s. 6c., ac yn 1832, £464 16s. Swm y dreth yn 1864 oedd £1530 18s. 4½c. yn ol 3s. 8c. y bunt.

Trefi Degwm Llandegai a elwid—1, Parsel isaf; 2, Parsel Cororion; 3, Parsel bach; 4, Parsel uchaf; yn cynwys o Nant Ffrancon i Ben y Gwryd, ac a elwid weithiau Nant Uchaf a Nant Isaf, a'r ddau yughyd yn yr hen amser a elwid Neint a Newaint, ac i ryw dir-ranlad gogyhyd hynafol o bosibl y perthynai y Graeandde (Graeandre), Tregarth, a'r Hendre. Dywedir fod degwm y plwyf oll yn gwertnu rhwng 1810 a 1815 am oddeutu £400.

Ei Ddegwm Blith a Mâg. Gwyddys werthu hwn yn yr amseriad cyntaf o'r ddau uchod am £81, yn cynwys moch, gwyddau, defaid, gwartheg, &c., ac yr oedd ceiniog y dimai y pen ar bob buwch. Ceffid "*un o dri ac un o dri ugain*," yr oedd 4c. ar bob priodas i fod yr un ffordd, y rhai a ddefnyddid i dalu am yr elfenau yn y cymundeb y Pasg. Hefyd 4c. oedd o ddegwm gwair ar bob tyddyn o Ddyffryn Nymbyr hyd y Galeffrwd. Cyrhaeddai y Degwm Blith y cnusiau gwlan &c.

Trefi Degwm Llanllechid. 1, Parsel Isaf; 2, Parsel Cochwillan; 3, Parsel Ty'n'r Ardd; 4, Parsel Iâl (oddeutu'r Bronydd); 5, Parsel Tal y Sarn; 6, Parsel Uchaf; yn cyrhaedd o dir Cifoden hyd Lanllugwy a Thal y Waen. Dywedir y gwerthid y degwm yn 1805 am oddeutu £500 yn y flwyddyn. Er 1837 meist'r y tir sydd yn talu y degwm yn ol canolbris y gwerth. *Rhif y bobl ar wahanol gyfrifiadau, a'r flwyddyn:—*

Y FLWYDDYN	1801	1811	1821	1831	1841	1851	1861
LLANDEGAI . .	1280	1770	1341	2600	3004	3398	3377
LLANLLECHID .	1322	1470	1964	3075	4957	5948	7346
CYFANSWM . .	2602	3240	3305	5675	7961	9346	10723

Gwel *Dae'r. R., Pop. Gaz., a Lewis's Top. Dict.,* arg. 1832.

* Darfu i'r Anrhydeddus Arglwydd Penrhyn, sydd fyw yn bresenol, guddio llawer o noethai bryndir y ddeublyw a llawydd buandwf, yn yr ugain mlynedd diweddar.

ENWAU RHAI O RECTORIAID LLANDEGAT.

Y Parch. William Lloyd, yn 1754. | Y Parch. John Kyffin, yn 1767,
 „ John Thomas, yn 1762. | „ E. R. Owen, yn 1776.

Byddai hwn, beth hynag am ei ragflaenoriaid, yn catecisiau ieuencid, a byddai R. W., Cilgeraint, a Jane Jones, Hen Durnpike, yn myned i lawr gyda eu cyfoedion i'w haddysgu; ac y mae yr olaf yn fyw eto, ac mae hynys ers oddeutu 90 mlynedd! Gofynnodd iddi un tro a wyddai hi “Pa sawl ffordd sydd yn y byd?” acatebodd J. J. “na wyddai,” pryd dywedodd yntau “Dwy fy ngeneth i, un yn arwain i'r nefoedd, a'r llall i uffern,” ac y mae yr hen wraig yn cofio hyn eto. Denys hyn radd o'i nodwedd fugeiliol.

Parch. Richard Dafis, D.D. 1790. Yr oedd y gwr hwn yn dra dysgedig, ac yn hynafiaethydd clodfawr.

„ Rowland Williams, M. A. 1803. Dyma y gwr a roddodd i lawr ddawnsio a gwerthu Cwrw Bach ar y Suliau a elwid “Suliau Chwarel Goch,” a hyny trwy eu peryglu a chyfraith y tir; efe hefyd yw tad y Parch. Rowland Williams, M. A., awdwr hynod yr “*Essays and Reviews*,” yr hwn a dynodd gymaint o sylw y blynyddoedd diweddaf.

„ Hugh Price, M. A. Medi 30, 1810.

„ Edward Jones, M. A. Gorph. 1, 1827. Yr oedd hwn yn wr dysgedig a phregethwr doniol, ac ysgrifennodd lawer i'r *Gwyllydd*.

„ William Morgan, M. A. Rhag. 24, 1845. Efe yw gweinidog presenol y lle. Cafwyd y rhestr uchod gan Mr. Hugh Jones, y Clochydd presenol.

ENWAU RHAI O RECTORIAID LLANLLECHID.

Parch. Robert Evans, Deon Bangor yn 1534, oedd yn dal Rectoriaeth Llanllechid.

„ Prys Tudur, Person Llanllechid yn 1561, oedd yn cadw ty ac yn trigo ynddo.

„ Henry Mostyn oedd Rector Llanllechid yn 1600, a Changhellwr Bangor. Bu farw yn 1616.

„ Dr. Gruffydd William oedd Person Llanllechid yn 1634, wedi hyny yn esgob Ossory, ac yn dal deoniaeth Bangor yn nghyd a'r esgobaeth.

„ Richard Jeffreys, M. A., Rector Llanllechid a Phrebender Bangor, a gladdwyd yn Mhentir Hydref 13, 1664, yn 64 mlwydd oed, lle mae plât pres ar bared yr eglwys, ac arno yn Lladin—“*ei fod yn wr cywir a duwiol os bu neb erioed felly*.”

„ Edward Wynn, Rector Llangeinwen a Llanllechid, a Changhellor Bangor. Bu farw 1669. Cyhoeddodd “*Lawlyfr o Weddiau*,” at wasanaeth ei blwyfolion.

„ John Jones, D.D., yn 1689 oedd Ddeon Bangor, a Rector Aber a Llanllechid.

„ Roger Williams, Rector Llanllechid a Changhellor Bangor, a gladdwyd yn 1693.

„ Peter Maurice oedd Rector Llanllechid o 1754 hyd 1758.

„ Thomas Lloyd oedd Rector Llanllechid yn 1762.

Parch. John Roberts. 1795. Bu farw 1821.

- „ J. H. Cotton oedd Rector Llanllechid yn 1821, ac wedi hyny Deon Bangor; efe a ddaliodd Rectoriaeth Llanllechid hyd ei farwol-aeth yn 1862. Dilynwyd ef yr un flwyddyn gan
- „ John Evans, M.A., Rector presenol Llanllechid. Canon Bangor, ac Archddiacon Meirionydd; ac iddo ef yr ydys i ddiolch am y rhestr uchod o Rectoriaid y lle, yr hyn a loffodd oddiar galon gynnes at Gristionogaeth, ac anrhydedd ei genedl a'i wlad.*

Yn mhellach, gan y bu yma dri neu bedwar o ddynion lled hynod fel llenorion, denant hwythau i mewn gydag

ENWAU CURADIAID LLANLLECHID.

Parch. Syr Rhys Parry, a gladdwyd Awst 8, 1708. *Syr* oedd ditl a roddid i rai oeddynt wedi cerbyn graddau colegawl, ond tybir mai i'r gwrthwyneb yr oedd gyda y Parch. Rhys Parry. Mae traddodiad yn yr ardal ddarfed i Gruffydd William, esgob Ossory, pan oedd efe wedi ffoi o'r Iwerddon rhag ei ladd, fod yn ymguddio mewn rhyw gongl o Blas Ofa, a bod yno wyluos, ac i'r esgob wrth glywed Rhys yn darllen gael lle i dybio ei fod yn *wr duwiol*, a dyfod i'r penderfyniad o'i wreud yn Gurat Llanllechid, yr hyn hefyd a wnaed ar ol dychweliad yr esgob i'r Iwerddon; anfonodd am Rys ato i Ossory, a gwnaeth ef yn Gurat fel yr amcanasai, i ddarllen y gwasanaeth a'r Homiliau &c. yn Llanllechid. Dywedir ddarfed i'r Arglwydd lwyddo llafur y dyn syml hwn i droi aml un i'r iawn, ac y byddai ef ar ol hyny, ac ychydig eraill, naw mewn nifer, yn cael eu herlid, ac y byddent hwythau yn ymneillduo y nos i fynydd Llanllechid i weddio, megis ag y byddai llawer yn 1860, amser yr adfywiad diweudaf. Gelwid ef weithiau yn Rhys y Wern, a Rhys Thomas, ac y mae Mr. Enoch Thomas, clochydd presenol y lle, yn bedwaredd cenedlaeth iddo. Hen gartref y teulu oedd y Wern.

„ John Ellis, Curat Llanllechid o 1749 hyd 1730.

„ Evan Evans (*Prydydd Hir*), Curat y lle rhwng Hydref 1758 a Mai 1759. Dyma un o feirdd enwocaf Cymru. Mae llawer o ddarnau barddonol o'i waith ar dafod yn fynych, megis,—

Gwell ryw awr golli'r arian
Na chau'r gôl a nychu'r gwan.

Ac hefyd,

Ni thyn dilledydd na than,
Na dillad fanwyd allan;
Gwr oerach nag Eryri
A Berwyn wyf, i'm barn i.

„ Owen Parry, Curat rhwng Tach. 1759 a Hydref 1762.

„ Lewis Owen, Curat rhwng Ionawr 1763 a Hydref 1783. Yr oedd hwn hefyd yn brydydd.

„ John Williams, Curat rhwng Medi 1783 a Ionawr 1795.

* Cartrefai offeiriaid Llanllechid yn Maes y Groes, ond gwnaed Rectory newydd hardd at wasanaeth y Parch. J. Evans, yn 1865, ar dir Tai'n y coed.

- Parch. Lewis Hughes**, Curat rhwng Awst 1821 a Tachwedd 1829.
 „ **Henry Owen**, yn Gurat rhwng 1829 a Chwefror 1845.
 „ **Morris Williams, M. A., (Nicander)**, o 1845 hyd Ion. 1847. Dyma fardd a llenor yn ngogoniant ei ddydd.
 „ **Evan Lewis, M. A.**, rhwng 1847 a Rhag. 4, 1859.
 „ **Erasmus Parry, M. A.**, rhwng 1859 ac Awst 1862.

HEN EGLWYS LLANLLECHID.

Barna Mr. E. Owen, yr ysgolfeistr, ei bod o'r hyn lleiaf o dri i bedwar can' mlwydd oed, o herwydd bod y dyfrgawg yn ei phorth, â dwfr o'r hwn yr ymgroesid wrth fyned i mewn, yr hwn ni cheir mewn eglwysi a adeiladwyd ar ol dydd Henry VIII. Galwyd adeilad a fu yno rywbryd ar enw Llechid chwaer Tegai, er mae yn debyg mai mewn lle arall y gwasanaethodd hi ei chenhedlaeth. Ni chynwysai fwy o cistiedleoedd nag i 214, o'r rhai rhai yr oedd lleoedd rhyddion i 150. Capel Croes Llanllechid a elwid Capel Llandegai, a Chapel Croes Gogleddol Llandegai a elwir eto yn Capel Croes Llanllechid. Pobl ucheldir Llandegai yn myned i gapel Llanllechid, a phobl iseldir Llanllechid yn myned i Landegai.

Eglwys Newydd Llanllechid, a adeiladwyd ac a eangwyd yn 1845, fel ag i gynnwys lle i 495, trwy gymorth a gaed gan yr *Incorporated Society* yn benaf. William Hughes a William Prichard oedd y Wardeniaid ar y pryd. Yr unig ddau gof-fynor yw:—laf, am Eliza Wynn Coetmor, o Coetmor, gwraig y Parch. William Wynn Coetmor, D. D., yr hwn a gladdwyd yn Nghapel Grosvenor, plwyf *St. George's, Hanover Square*, Llundain, Bu farw Ionawr 1808, yn 48 mlwydd oed. Yr ail sydd am Richard Morris Gruffydd, Ysw., o Fangor, a ymadawodd a'r bywyd hwn Rhag. 4, 1843, yn 55 mlwydd oed.

LLOFFION O FYNWENT LLANLLECHID.

Mae llawer o'r beddfeini yn annarllena'wy ac erill yn gladdedig. Clywais gan un a wyddai, ddarford i'r Rector presenol fyns dadorchuddio cynifer o honynt. Dyma fel y dywed y Parch. John Evans, ei hunan am y beddfeini, gwr ag y mae genym bob ymddiried ynddo,—“Copiais rai o honynt.—Un sydd ar deulu Tan y Bwlch, ac yno gorwedd George Waller, dinesydd o Lundain, a'i wraig, y rhai a fuont feirw yn 1724. Un arall oedd yn glöb wrth ochr yr hen Allor, ac arni yr argraph gyda y goreu a welais erioed, o ran llythyrenau a threfnusrwydd. Yr oedd bron wedi ei chladdu am byth. Yr wyf am orphen ei chodi i liw dydd, fel byddo yn batrwm i greu gwell chwaeth gyda'r gwaith.” William Wynn o'r Ty Gwyn, boneddwr, a'i ferch sydd yn gorwedd yno. Y nesaf a gynnwys argraph, sef *Tri phen buatch rhwng cyplau nen*, sef arwydd Barwn Hill, neu Blas Cöch, neu fe allai y ddau, Arwyddair “*Os dd ffydd, dd fydd*.” William Buckely o Goyden sydd o dan hon—neu yn hytrach oedd—chwal wyd eu hesgryn oll goelia'i erbyn hyn! claddwyd ef yn 1682, yn 80 mlwydd oed. (Ychwanegwn ninau fod traddodiad yn yr ardal i hwn fod yn ymladd yn “*Mrwydr y Dalar Hir*,” iddo briodi merch Coetmor; ac iddo pan yno ar ei ymweliad diweddaf gael ei daro a llucheden boeth, o'r hon y bu farw; a dyna y rheswm o bosibl am ei gladdu yma.) Un arall a goffa am Elizabeth gwraig Roger Williams, Rector y Plwyf; bu farw yn 1680; ni

allaf ddeongli y gweddill. Wrth ochor honyna mae argraph gyflawn wedi ei chwarteru, meddyliaf y gallaf wneyd allan yn y carol *Arfau Cochwillan*, sef "*Tri phen Sais rhung Cwpl*" ond mae yr argraph i gyd wedi ei ddileu, ni chansfyddaf un arwydd am deulu Coetmor. Allau Hywel Coetmor oedd "*Tri phen Gwaerffon rhung Cwpl*." Y gareg lwyd (galchfaen) arall sydd tros weddillion Barbara fwaig y Parch. Lewis Owen. Bu farw yn 1768. Mae yr argraph ddywededig ar ddalen brës wedi ei hoelio." Dywedodd Mr. John Williams *Red Lion* wrthaf fod yn Eglwys Llanllechiid Ysgol Sul ers tros 20 mlynedd. Yn y plwyf hwn hyd yr ydys yn gofio y rhoddwyd bodolaeth ac ysgogiad gyntaf i *Gysarfodydd Lleyuol yr Fglwys*, y rhai a ddygid yn mlaen mewn rlan sawr yno ac yn y cymydogeathau cylchynol gan y diweddar Mr. Thomas Jones, Corbre, a'r dywededig J. W.

EGLWYS LLANDEGAI.

A gafodd ei henw yn ddiau oddiwrth Tegai; ond pa sawl adeilad a fu yma er ei amser ef, neu pa gan hyned yw yr un bresenol, ni chafodd yr ysgrifenydd fantais i wybod. Yn ol y *Register* ychwanegwyd darn o dir at ei mynwent gan y diweddar a'r Anrhydeddus George Hay Dawkins Pennant, Ysw., a chaed pregeth ar yr achlysur gan y Parchedig Cristopher Bethel Esgob Bangor, ar y cyntaf o Chwefror 1834. Mae y darn hwn o'r tu gorllewinol i'r Eglwys. Yn 1835 rhoddodd yr un boneddwr haelionus y glwyd haiarn â'r pyst perthynol iddi ar borth y fynwent, Yn y darlun sydd o'r Eglwys yn Nheithlyr Pennant o'r Downing yr hwn fu heibio ers mwy nag 80 o flynyddoedd, ni welir un o'r ddwy iës, o'r coed *Yw*, sydd yn ffurfio nensfwd bwaog pruddaidd o borth y fynwent i borth yr Eglwys bresenol, yr hon sydd un o'r rhodfeydd harddaf yn y Deyrnas. Yn 1843 darfu i'r Anrhydeddus Mrs. Dawkins Pennant, ei hanrhegu a ffenestr amryliw sydd yn ei thalcen dwvreiniol;—ac yn 1853 ehangwyd hi gan yr Anrhydeddus E. G. D. Pennant, y pryd hwnw, sef yr Arglwydd Penrhyn yn bresenol. Tybier yn awr ein bod yn myned o dan y rodfa dywell a goffawyd at yr Eglwys; yna ddarllenwyd ar y chwith, lle saif Ysgol y Genethod yn awr, ac o fewn ychydig latheni i'r Eglwys yr oedd hen dafarn dy gynt, a elwid Ty'n llan, ac yn y lle neu yn agos ato y bu yr hen Degai o bosibl yn byw.

Bellach dyma ni yn myned i'r eglwys, ac er mwyn y dieithr, adroddwn ychydig hares am yr hyn sydd ynddi. Uwch ein penau gyda ein bod i mewn. Dyma lofft y côr, lle cydgenir a'r organ. Ar ein chwith, ac o tan y grisiau, gwelir cap haiarn Pirs neu Prys Gruffydd o'r Penrhyn, a'i arddyrnau, yn rghyd a'i yspardynau, a bonion dau gleddyf toredig, neu o'r hyn lleiaf dyna y traddodiad; ond braidd na thybiai yr ysgrifenydd mai eiddo William Gruffydd Fychan o'r Penrhyn ydynt, yr hwn fu byw yno ugeiniau o flynyddoedd cyn geni Pirs. Ar ein deheulaw dyma ddelfw o William Gruffydd Fychan y soniwn am dano, gyda ei wraig Agnes ych Gruffydd Llwyd o l dinorwig, yr hon sydd yn gwisgo talaith am ei phen megis ag y dywed Giraldus Cambrensis fod y boneddigesau Cymreig yn gwnued yn ei amser ef. Yn mynachlog Llanfaes yr oedd y rhai hyn meddir, ac atynt hwy, yn ol rhai, y cyfeiria Rhys Goch Eryri yn ei gywydd; ond ar ymddatodiad y lle tua dyddiau Elizabeth, dygwyd hwy yma, medd y

chwedl, gan Pirs Gruffydd, ac wrth eu gweled yn dod ar draws y Menai, tybiodd y bobl mai môr-yspail Pirs oeddynt.

Gwelir ein bod wrth fyned yn mlaen yn myned trwy y côr croes, yr hwn sydd yn gwneud i'r eglwys ymddangos fel †; ac yn awr wele ni yn y Gangell. Ar ein chwith, ar fynor du, dyma gofiant am yr anrhydeddus George Hay Dawkins Pennant, Ysw., o'r Penrhyn, a fu farw Rhagfyr 17, 1840, yn 77 mlwyd oed, ac a gladdwyd yn eglwys Chipping Norton, swydd Rhydychain. Yn nesaf dyma gof-fynor gwyn o'r ardderchocaf am Arglwydd ac Arglwyddes y Penrhyn, yn yr hwn y cynrychiolir galar y wlad ar eu hol, gan wryw a benyw. Y nesaf atom o'r ddau sydd ddelw o lēch-naddwr a'r gyllell geryg yn ei ddeheulaw, a'i bwys ar ben ei drosol, gan dristwch, pan glywodd am farwolaeth ei Noddwr. Tu draw i ldo dyna ddelw o forwyn wedi ei tharo a phrudd-der o herwydd colli ei Noddwraig, nes syrthiodd y cogel oddiar ei throell. Odditanodd mae darluniau llai; y laf yw bachgen yn porthi ei eifr ar y mynyddoedd, yn arwyddlun o sefyllfa y plwyf pan ddechreuodd Arglwydd Penrhyn ei wellhau; yr 2il yw dau fachgen yn gweithio yn y Gloddfa, yn arwyddo diwydrwydd; y 3ydd yw bachgen yn dysgu arall i ddarlenn y Bibl, i arwyddo addysg grefyddol; a'r 4ydd yw tri o fechgyn gyda chrymanau mewn cae gwenith, yn arwyddlun o ddigonedd. Rhwng y delwau cyntaf mae darlenniaid i'r perwyl canlynol:—

“Yn y beddadail odditanodd y gorwedd corph y Gwir Anrhydeddus Richard Pennant, Barwn, o'r Penrhyn. Efe a briododd Anne Susanah, unig etifeddes yr Isgadfridog Warburton, ac a fu farw, yn Wynington, sir Gaerlleon, Ionawr 21, 1808. Ei oed oedd 70. Bu amryw flynyddau yn gynrychiolydd diwyd tros Liverpool yn y Senedd, ac a grewyd yn Farwn y Penrhyn yn 1783. Efe a agorodd y ffordd drol gyntaf drwy Nant Ffranco, ac a gynlluniodd Longborth y Penrhyn, ac a gyfethogodd ac a adluniodd dreftadaeth y Penrhyn a'r wlad oddiamgylch âg adeiladau, diwylliaeth, a phlanigfeydd; a wellaodd gyflwr y werin, gan eu hanog i arferion o ddiwydrwydd trwy roddi gwaith iddynt, ac a roddodd i lawr sylfaen i'r llwyddiant sydd gyda chrefydd yma yn awr, trwy godi a gwaddoli Capel St. Ann. Ei fywyd cartrefol oedd wedi ei hynodi gan drefn, tymheredd, a rheoleidd-dra. Ei wneb a hynodid gan siirioldeb a hynawsedd tymer. Yr oedd o foesaiu boneddigaidd at bersonau o bob gradd.”

“Yn yr un beddadail mae wedi ei dodi y Wir Anrhydeddus Anne Susanah, Barwnes y Penrhyn, yr hon a anwyd yn Nghaer yr 8fed o Chwefror 1745, ac a fu farw yn y Penrhyn Ionawr 1805. Yn ei defodau dyddiol yr oedd yn rheolidd, yn ei gwahanol ddyledswyddau yr oedd yn gweithio ar gyfundrefn reolaidd. Yr oedd yn gymydoges lednais a siiriol, heddychol, ac yn gyfeilles ddiragrith. Nid oedd dim a allai ei hudo i ddyweyd yr hyn a gredai nad oedd wir, nac i wneud yr hyn a gredai nad oedd gyfiawn. Hi a helaethodd ddiwygiadau ei Harglwydd trancedig, a gyfododd yr ysgoldy sydd yn ymyl, ac a gymunroddodd amryw symiau i ofal ei chymunweinyddwyr, at Organ ac Organydd yn Nghapel St. Ann, a chynaliaeth i'r gweinidog, ac at gadw mewn trefn ac addurno yr eglwys hon, ar ba un y mae gadwedig y cofiant hwn o rinweddau cyhoeddus ac unigol.”

Yn nesaf ac yn 3ydd, dyma gof-fynor gwyn am Juliana Isabella Mary Douglas Pennant, etifeddus George Hay Dawkins Pennant Ysw., yr hon oedd wraig gyntaf yr aarhwyddus Colonel Edward Gordon Douglas Pennant, A. S., a fu farw yn Pisa, Ebrill 23, 1842, yn 35 miwydd oed.

Yma tan yr allor helyd y claddwyd yr enwog John Williams, Arch-egob Caer Efrog, ac ar ein deheulaw, wele gof-fynor yn coffa am dano yntau, a cherffu o hono yn ymgrymu, ac odditanodd y darlleniad caulynol yn Lladin:—

“Ymwelydd, darllen ac ail-ddarllen beth na ddisgwylicch yn y gysegr fechan hon, adnabyddus ond i ychydig. Yma y dodwyd John Williams, yr enwocaf o'r holl esgobion, yn tarddu o du ei dad, o deulu y Williamiaid, o Gochwillan; o du ei fam, o deulu y Griffithiaid, o Bangor. Goruchelddoniau yr hwn, ynghyd a'i ragoroldeb yn mhob math o Lenyddiaeth a deilyngodd ei ddyrchafu, drwy flafr y Brenin Iago, i Ddeoniaeth Salisbury, ac wedi hyn i Ddeoniaeth Westminster. Ceidwad Sel fawr Lloegr, ac Esgob Lincoln. Yr hwn yr addurnodd Siarl y Cyntaf ef a meitr Arch-egobaeth Caerefrog. Yr oedd yn dra dysgedig yn yr holl wybodaethau; yn dyrsorfa naw iaith; mēr duwinyddiaeth pur a dilwgr; orael o gallineb gwleidyddol. Pen ac addurn doethineb cysegredig, canonaid, gwladwr-iaethol a dinasyddol. Yn symbal o hyawdledd; ei gŏf yn asaelgar tuhwnt i ddynion craill; cneiflwech hanesiaeth o bob math; adeiladydd gweithiau mawrion hyd at draul ugain mil o bunau. Esiampl hynod o haelfrydedd, lletygarwch helaethwch, a thosturi tuag at ddiolion. Mewn amseroedd tra galarus, pan oedd wedi diflasu ar yr holl bethau a welodd ac a glywodd, ac ni allai mwy wasanaethu ei Frenin a'i wlad trwy gynddaredd teyrnfradol, wedi gorphen y 68ed flwyddyn o'i oed, ar y 25ed, dydd o Fawrth, yr hwn oedd ei ddydd genedigol, mewn cyflawn fydd yn Nghrist, a flyddlondeb disigl tuag at ei Frenin, rhoddodd ei yspryd a ddiffoddwyd gan yr yspinog yn berffeithlan i Dduw. Nid yw o bwys fod beddadail mor fychan yn cadw cof am wr mor fawr, rhinweddau yr hwn y bydd yr holl oesoedd yn eu clodfori.—

Ymaith ymwelydd, yr wyt yn ddigon o ddyledwr i'th olygon.”

Yn awr dychwelwn allan o'r eglwys gyda choffa mai y Parch. William Morgan, M.A., yw gweinidog presenol y ile, yr hwn sydd bregethwr da, a chanddo gynulleidia luosog. Cynelir gwasanaeth yn Gymraeg y bore, yn Saesneg y prydawn, ac yn Gymraeg drachefn yn yr hwyr. Mae y gweinidog presenol yn byw yn Llwyn Onn, ond Pen Lan oedd hen drigfa offeiriaid Llandegai.

Y FYNWENT.

Ar y dde wrth fyned i mewn iddi cawn fedd “Gutyn Peris, a anwyd yn Llanberis Chwefror 2, 1769, ei oed 67,” &c., y mae pedwar o englynion ar ei gist, dau ar bob talcen.

Beddadail y Penrhyn a'n tery nesaf, yr hwn a gyfodwyd yn 1842, ac efe yw brenin y beddadciladau.

Yn fwy i'r gorllewin cawn feddfaen Christopher Bethel, D.D., yr hwn oedd y 69ain o esgobion Bangor. Ganwyd ef Mai 2, 1773, a bu farw

Ebrill 19, 1859, ar ol bod yn llafurio yn yr esgobaeth yma am 29 o flynyddoedd. Yr oedd yn disgyn o Elnowen Bendew; ac felly yn Gymro o waedoliaeth. *Gwyddon, cyf. i., t. d. 510.*

Yn y rhan ogleddol i'r fynwent cawn fedd plant Richard Jones, Tai duon, Judith a gladdwyd Mawrth 23, 1868, yn 19 mlwydd oed. Owen, Hydref 20, 1808, yn naw mis oed.

Er eu huno fer enyd—eu deuoedd
Diau cânt eu hedfryd;
Agorir pyrth y gweryd
Ddydd barn, ar ddiwedd y byd.

Hefyd, Richard Jones, a fu farw Rhagfyr 31, 1833, yn 75 mlwydd oed &c., Ychwanegwn ninau fod yr olaf yn un o dadau Methodistiaeth yn ei ardal ac un a fu selog iawn dros yr Ysgol Sul.

Yn y cwr yma o'r fynwent hefyd mae bedd yr enwog hanesydd ar hynafiaethydd &c., William Williams, Llandegai, a gladdwyd Gorff. 18, 1817, ei oed 79. Am yr hwn y dywed Dafydd Ddu fel hyn,—

Anwylaf wr yn ei alwad,—enwog,
Uniawn oed i ei fwriad;
Gwir awdwr teg ei rodiad,
Carai les cywir ei wlad.

Dwys hyder, profer bob pryd,—ei fyned
I fewn i'r dedwyddfyd,
O derfysg blin daearfyd,
I'r wyl fawr yn yr ail fyd.—D. T.

Cawn hefyd yn ei chwr dwyreiniol feddadail Mr. Benjamin Wyatt a fu yn brif oruchwyliwr tref-tadaeth y Penrhyn am fwy na 30 o flynyddoedd. Bu farw Ionawr 5, 1818, yn 73 mlwydd oed.

Wrth dalcen dwyreiniol yr eglwys mae amryw o'r cof-feini yn annarllennadwy, a chan fod yn y fynwent gynifer yn perthyn i bersonau lled hynod, ni allwyd gwneud un cyflawnder a'u coffadwriaeth am nad oedd amser. Ond y derbyn canlynol o farddoniaeth, yn dadgan gobaith Cristionogol, a ddiffrwythodd law yr ysgrifenydd, fel y bu agos iddo dafu y papyr a'i *bensil* o'r neilldu, a myned i gydymwrandaw a'r saint am ddydd Iesu Grist:

Dysgwyl 'rwyf ar hyd yr himos,
Dysgwyl am y bore ddydd,
Dysgwyl clywed pyrth yn agor,
A chadwynau'n myn'd yn rhydd!
O! na wawriai
Bore hyfryd Jubili.

A dywedodd y diweddar Barch. W. Roberts, Amlwch “na ddaw y dydd hwnw ond mewn atebial i weddi.” Rhaid gweddio am yr Adgyfodiad!

ELUSENAU LLANDEGAI.

Elusenau Jane Roberts ac eraill.—Mae cofnodiad wedi ei amseru Medi 13, 1821, yn Nhirlyfr y Plwyf hwn, yn dangos y cymunroddion i gyd yn gwneud i fyny y swm o £36 ls., wedi eu gadael gan amrywiol bersonau, a bod llog y swm hwnw i'w rhanu yn fara gwyn yn mysg y tlodion ar

wahanol amserau o'r flwyddyn. Yr elusenyddion oeddynt y rhai canlynol:—Jane Roberts £1; 1s; Ellen Jones, £2; W. John Thomas, £2; Griffith W. John, £6; a Pierce Prichard, £10; y cwbl yn gwneuthur y swm o £21 1s., a hlog yr unrhyw fel y crybwyllwyd i'w ranu y Nadolig. Eilwaith, elusen Richard William Prees, £2; a W. Roberts, £1; i'w rhanu yr un modd yn nyddiau y Pasg. Helyd £10, o roddiad O. Luke, i'w rhanu ar y Nadolig a'r Pasg. Drachefn, £2 a adawyd gan Robert W. Humphreys, i'w dosparthu ar y Nadolig a'r Sul yn Mae y swm uchod o £36 1s. yn awr yn nwyllaw y plwyf, a hlog yn ol pum punt y cant, sef 36s., yn cael eu dosparthu yn rhanau cyfartalar y tair prif wyl crybwylliedig bob blwyddyn, yn dorthau dwygeiniog yn mhllith tlodion y plwyf yn ddiwahaniaeth, dan gyfarwyddyd y wardeniaid.

Elusen Rhoddler Anhysbys.—Mae y Tithwr hefyd yn dangos fod rhyw gymwynaswr anhysbys wedi gadael dwy bunt i ddeillio yn flynyddol oddiwrth dyddyn a elwir Gwern y Saeson, yn mhllwyf Llanllechid, gan gyfarwyddo fod i werth dau swllt o fara gwyn gael ei ranu yn mysg tlodion Llandegai bob yn ail Sul drwy y flwyddyn. Y tyddyn crybwylliedig a gynnwys anedd, ac yn nghylch 40 cyfir o dir, ac sydd yn awr yn meddiant Mr. John Williams o Llanllechid, yr hwn sydd yn tala yn rheolaidd £2 12s. bob haner blwyddyn, yn nghyd a 4s. i'r wardeniaid am eu trafferth o ranu y bara yn dorthau dwy geiniog bob yn ail Sul, yn mysg deuddeg o bobl tlodion y plwyf, y rhai a ddewisir gan y *Vestry*.—O *Dirlyfr Llandegai, Gwladgarwr, cyf. viii., t. d. 43.*

ELUSENAU LLANLLECHID.

Elusen John Jones.—Yn ei ewyllys, amseredig Mawrth 10fed, 1719, John Jones, D.D., Deon Bangor, a adawodd i beriglorion a wardeiniaid Llanllechid dros byth, y swm o £100, ar yr ymddieth fod iddynt ddefnyddio y hlog tuag at gynnal ysgol rad i ddenddeg o blant tlodion y plwyf, i gael eu dysgu i ddarllen Cymraeg yn berffaith, ac i gael eu hyfforddi yn Nghatecism Eglwys Loegr, y Bibl, a'r Weddi Gyffredin, yn nghyd ag ychydig ysgrifenu a rhifo, os byddai bosibl. Yr ysgolfeistr i gael £4 yn y flwyddyn allan o log y £100 crybwylliedig, a'r gweddill o'r hlog blyneddol i brynu llyfrau neu ddilad i'r rhai tlodaf o'r plant hyny, dan gyfarwyddyd periglor a wardeiniaid y plwyf. Y £100 uchod, yn y flwyddyn 1775, a ddiogelwyd ar dollau y brifffordd sydd yn arwain o Faugor i Bwllheli; ar ol hyny sefydlwyd ysgol, a dygwyd hi yn mlaen yn ganmoladwy dan ofal Maurice Griffith yr athraw, am 28 mlynedd, lle y dysgid 12 o blant tlodion yn y Gymraeg a'r Saesonaeg, yn Nghatecism yr Eglwys, ac hefyd i ysgrifenu a rhifo. Pan aeth yr ysgolfeistr yn hen, tua 70 mlwydd oed, y periglor a'r wardeiniaid a ganiatasant iddo yn y flwyddyn 1828, roi yr ysgol heibio, a pharhau i dderbyn y cwbl o log y £100 tra y byddai byw, a'r athraw dilynol i gael taledigaeth drwy gydroddion gwirfoddol yr esgob, y periglor, y curad, ac eraill. Mae yr ysgol wedi ei dwyn yn mlaen yn ol y du i cenedlaethol er y flwyddyn 1828, pan yr adeiladwyd ysgoldy ar dir a roddwyd gan Mr. Hughes, o'r Bryn llwyd, drwy draul o £155 11s. 11c., o'r hyn yr echwynwyd £100 gan yr hen athraw, yn ol llog o £5 yn y flwyddyn, a'r gweddill o'r draul a gasglwyd trwy gydroddion, yn nghyd a £30 oddiwrth y Gyndeithas Cenedlaethol; ac y mae o 50 i 80, rhwng

bechgyn a lodesi, yn cael eu dvsgu yn barhaus. Costau yr ysgol hon yn y flwyddyn 1832, y rhai a delid drwy gynrychiou a grybwyllir rhagllaw, a thrwy gydroddion gwirfoddol, oeddynt fel y canlyn:—

	£	s.	c.
Cyflog yr Athraw	30	0	0
Gwobr yr Athrawes am ddyysgu gwnio	3	10	0
Llog am yr echwyn o £100	5	0	0

Elusen William Griffith.—Drwy amod-weithred a wnaed ar y dydd cyntaf o Fai yn yr 16 flwyddyn o deyrnasiad Charles I., darfu W. Griffith o Fodfaio sicrhau rhent dal o 56s. yn y flwyddyn, i ddeillio oddiwrth ddau ddarn o dir a elwir y “Parciau uchaf” a’r “Parciau isaf,” sef rhan o dyddyn a elwir Cilyfoden, yn Nhref ddegwm Bodfaio, yn mhlwyf Llanllechid, gan ymddiried yr unrhyw i nifer o arolygwyr cyfaddas, i’w defnyddio tu ag at ddarparu gwerth deuddeg ceiniog o fara gwenith iachus i’w ranu bob Sul drwy y flwyddyn yn yr eglwys ar ol y gwasanaeth boreuol rhwng deuddeg neu lai o dlodion y plwyf hwnw, gan y wardeniaid, i’r rhai y caniateir 2s. bob un allan o daliad pob haner blwyddyn, tu ag at eu trafferth. Y rhent-dal hwn a dderbynir yn rheolaidd gan y wardeniaid oddiwrth dyddyn Cilyfoden, yr hwn yn awr sydd yn meddiant Owen Ellis o Gefnfaes, yr hwn sydd yn talu 56s. yn y flwyddyn; ac y mae 12 o dorthiau dwy geiniog yn cael eu rhanu bob ya ail Sul rhwng 12 o dlodion dewisedig, gan y wardeniaid, y rhai helyd a gadwant y 4s. gweddill tu ag at eu trafferth.

Elusen Griffith Williams.—Yn ei ewyllys, wedi ei hamseru Hydref 16eg 1671, Griffith Williams, esgob Ossory yn yr Iwerddon, a adawodd ei dir-oedd yn Llanllechid, yn swydd Gaernarfon, a elwir Plas Hwfa, yn nghyd a thyddyndy, a 4 o aneddau eraill arno, (oddieithr y ty wrth y lôn), a’i dai yn Nghonwy, a’i dir yn y Gyffin, ac yn mhlwyf Bangor, i Ann, merch John Price, dros ei hoës, ac ar ol hyny i dlodion pob un o’r plwysau crybwyllledig, dan gyfarwyddyd eu gweinidog, dros byth. Y tiroedd yn Llanllechid, a elwir Plas Hwfa, ydynt yn gynnwysedig o dyddyndy, pedwar o aneddau, a naw o gaeau bychain, yn mesur yn nghylch deg cyfar a haner. Naw cyfar a osodwyd gan y Parch. J. Roberts, diweddar beriglor Llanllechid, i Richard Edmonds, fel tenant o flwyddyn i flwyddyn, am y rhent blyneddol o £13. Y gweddill, yn cynwys ty anedd, ystabl, gardd, a thri chylfar a haner o dir, a osodwyd i W. Ellis, am rent o 40s. yn y flwyddyn, gydag ammod o gadw y cwbl yn ddiadfail. Ni dderbyniwyd dim o’r rhent yma er y flwyddyn 1825, am fod y tenant mewn amgylchiadau isel, ac yn derbyn treth oddiwrth y plwyf. Y tri thy eraill a gyfaneddur gan bobl dlodion, rhai o honynt yn derbyn treth wythnosol, ac eraill gynorthwy achlysurol oddiwrth y plwyf, ac felly yn talu dim rhent; y taliad diweddaf, sef 17s. 6c., rhent haner blwyddyn, a gafwyd gan un o honynt yn y flwyddyn 1827. Gan fod y teuluoedd hyn yn dal meddiant o’r tai heb gydsyniad yr ymddiriedolwr presenol, a bod y fath daliad yn groes i gyfarwyddiadau y rhoddwr, anogodd y Dirprwywyr Seneddol, fod i’r taigael eu cynyg i’r *Vestry* am rent teg, ac os gwrthodid y cynygiaid hwnw, bod i’r ymddiriedolwyr roddi rhybydd i’r teuluoedd ymadael o’r tai y calan-

gauaf canlynol, ac yna eu gosod yn y modd a ffernid fuddiolaf i'r elusen. **Y £13** crybwylledig a ddosparthwyd yn y flwyddyn 1832 yn y dull a ganlyn :

	£	s.	c.
Tuag at yr ysgol genedlaethol	5	0	0
Rhanwyd y Nadolig rhwng tlodion, yn symiau bychain o 1s. i 2s. 6c. yr un	5	0	0
Glo a ranwyd rhyngd ynt gan y gweinidog	3	0	0

Anogwyd fod i'r rhent a ddysgwylid oddiwrth y tir a'r pedwar ty crybwyll-
edig gael ei ranu rhwng y tlodion mwyaf anghenus, heb fod yn derbyn
treth; neu tuag at addysiad.

Elusen Robert George ac eraill.—Mae Tirlyfr plwyf Llanllechid, mewn
cofnodiad wedi ei amseru yn y flwyddyn 1831, yn gosod allan ddarvoud i
Robert George a'i chwaer, Catherine George, eu dau o blwyf Aber, adael
rhyngddynt £50 i tlodion plwyf Llanllechid am byth, a'r llog i gael ei
ranu bob flwyddyn bob yn werth swllt o fara gwenith ar y Suliau; rhwng
12 o'r tlodion hyly, dan gyfarwyddyd y periglor, a'r gweddill o'r arian i'r
wardeniaid am eu trafferth.

Hefyd, ddarvoud i *Pierce Williams* adael £5 yr un modd, a'r llog i'w
ranu rhwng y bobl dlotaf bob gwyl yr Holi Saint.

Drachefn, ddarvoud i'r Parch. Dr. Lloyd, Deon Bargar a Pheriglor Llan-
llechid, adael £20. a'r llog i'w ddefnyddio dan gyfarwyddyd y gweinidog
tu ag at gefnogaeth yr ysgol, neu gynorthwyo tlodion y plwyf, fel yr ym-
ddangoso reitïaf.

Hefyd, ddarvoud i Jane Thomas adael £5, a'r llog i'w ddosparthu rhwng
tlodion y plwyf am byth. Y cwbl o'r elusennau hyn yn gwneuthur £80,
yn nghyd a £32 a arbedwyd yn amser atalfydd yr ysgol, a gynyddodd
erbyn 1821 i'r swm o £122 18s. 3c., yr hyn yn y flwyddyn hono yn ol
anogaeth y periglor, a ddefnyddiwyd i adeiladu chwech o dai bychain yn y
lle a elwir Gate-House, y rhai a breswylir yn awr gan chwech o deuluoedd
tlodion, yu cael eu doddi yno gan y plwyf, gan dalu y rhent blyneddol o
£6 2s. 6c., yr hyn a ddosperthir fel y canlyn :—

	£	s.	c.
Tuag at gynol yr ysgol genedlaethol	3	10	6
Deuddeg torth o fara i'r tlodion bob yn ail Sul	2	12	0
	£6	2	6

Elusen Margaret Owen.—Mae cofnodiad pellach yn y Tirlyfr am £5
wedi eu gadael gan Margaret Owen i'r tlodion, ac y mae llog o 5s. am yr
unrhyw yn cael ei ranu gan y Wardeniaid i'r tlodion bob Nadolig.

Elusen Maurice Prichard.—Mynega y Tirlyfr drachefn fod Maurice
Prichard wedi gadael £5 i'w rhoi allan ar log am byth, a'r cynyrch i'w
ddosparthu rhwng pump o'r bobl dlotaf, ond nid tenantiaid y Penrhyn. **Y**
£5 crybwylledig a roddwyd yn menthyg ar amodysgrif (*bond*) wedi ei
hamseru Hydref 28, 1772, i John Williams o'r Pand, a dau fechnydd.
Bu farw yr echwyuwr, ac felly ni dderbyniwyd dim llog er's 20 mlynedd.
Anogwyd y plwyfollion i ganlyn ar gynrychiolwyr y machniwyr, y rhai
ydynt mewn moddion i dalu yr hawl a'r llog dyledus.

Elusen Gwen Fletcher.—Yn nbellach y mae y Tirlyfr yn hysbysu

ddarfod i Mrs. Gwen Fletcher adael £60 i'w rhoi allan ar log am byth, a bod i'r cynyrch blynyddol gael ei ddefnyddio i brynu dillad, esgidiau, a hosanau i chwech o'r hen wragedd tlotaſ yn y plwyf, dan gyfarwyddyd y periglor ac etifeddion Coetmor a Threbor. Yn bresenol nid oes dim gwybodaeth am yr elusen yma; ac yn adroddiad Seneddol y flwyddyn 1786, sylwir, "Ni dderbyniwyd dim llog er y flwyddyn 1781."—*O Dirlyfr Llanllechid, Gwladgarwr, Cyf. viii. t. d. 336.*

CAPEL CURIG.

Yn mhen uchaf plwyf Llandegai, sydd ar enw Curig Sant neu "Curig Lwyd," yr hwn oedd nodedig am ei wybodaeth a'i fywyd santaidd, yr hwn a ddaeth ac a ymsefydlodd yn Nghymru yn y seithfed ganrif. Wedi glanio yn Aberystwyth, teithiodd yn mlaen i'r wlad, ac a orphwysodd ar ben mynydd uchel, yr hwn sydd yn parhau i ddal yr enw "Eisteddfa Curig," o ba le wrth edrych o'i amgylch, gwelai ddyffryn ffrwythloa, yn neillduedd yr hwn y penderfynodd adeiladu eglwys, yr hon a elwir oddi-wrtho yn Llangurig, yn swydd Drefaldwyn. Yr oedd hefyd yn esgob, fel y coelir, yn Llanbadarn fawr. Bu am amser maith yn cael ei godi i'r bri uchaf gan y Cymry, ac yr oedd yn un o'r ser mwyaf yn ffurfafen yr eglwys Gymreig. Sonir am ei ŵyl fwy nag unwaith yn Nghyfreithiau Hywel Dda, a thalai beirdd y canol oesoedd barch i'w enw. Yn mhlith eraill sonia L. G. Cothi am dano, ac ymddengys ei bod yn beth cyffredin yn ei amser ef i'r "Brodyr Cardoteiol" werthu oddiamgylch ddolwau o hono ef ac eraill, fel sŵyn i'r werin, ac yn derbyn yn eu lle gaws, cig moch, gwlan, yd, &c.—*Gwaith Lewis Glyn Cothi, t. d. 280.*

Un a arwain yn orlog
Curig Lwyd dan gwr ei glog;
Gwas arall a ddug Seiriol,
A naw o gaws yn ei gol.

Gan fod plwyfi Llandegai a Llanllechid yn gorwedd rhwng *Ysbytty Ifan* a Monachdy Penmôn, o'r rhai y dylifai heidiau o gardotwyr monachaidd, ymddengys eu bod yn peri cryn boen i'r trigolion, ac yr oedd y lle cyntaf, yn ol John Wynn o Wydir, yn nodedig am ei ladron. Hefyd, gan fod bardd Glyn Cothi wedi bod yn teithio yn Ngogledd Cymru, y mae yn debyg fod y crwydriaid hyn o flaen ei feddwl pan yn gwneud ei gywydd.

Cedwid bugeillfon Curig yn eglwys gymydogaeithol Llanarmon yn amser Giraldus, yr hwn a ddywed fel hyn am ei rhinweddau,—"Yn eglwys St. Germanus y mae ffon St. Curig, yn orchuddiedig bob tu gan aur ac arian, ac yn debyg yn ei phen i ffurf croes; ei heffeithiolrwydd a brofwyd mewn amryw ffyrdd, ond yn fwyaf uniongyrchol mewn symud chwyddiadau chwareno! a manwynol, yn gymaint ag y bydd yr holl bersonau a fyddant yn cael eu poeni gan y doluriau hyn, ar gymwysiad cydwybodol o'r ffon, a rhoddiad un geiniog, yn cael eu hadfer i'w hiechyd." At hyn y mae yn dyfod a dau amgylchiad rhyfeddol o'i heffeithioldeb yn ei amser ef.

Yr oedd Curig arall, medd rhai sef Curique, sant o Tarsis yn Cilicia, yr hwn a ferthyrwyd yn ei faboed, yn nghyd a'i fam Juliet neu Julietta. "Capel Curig sydd gyflwynedig i Curig neu Curique a'i fam Iutta." "Capel Curig a'i fam Iulita yn Arfon."—Yr ydys bron a meddwl mai yr un person

tyw yddau. Gesrd Rhufain ferthyrod y fam a'i mab yn A. D. 304.—*Myo. Rees' Welsh Saints; Eminent Welshmen, page 87.—Hynaf. t.d. 118.*

Llên Gwerin.—Y mae chwedl yn y Nant, ddarfod i foneddiges o'r enw *Lady Curic* ddyfod i'r wlad hon yn y wedd ganlynol ;—

“Yr oedd gynt ar dir Gelli'r monach ffynon yn gwellau defaid gwylltion, ac yn mhilith y rhai a ddeuent yno, fe ddaeth *Lady Curic*. yn cael ei blino gan ddafad wyllt ar ei braich, ac erbyn iddi ymarfer a dwfr y ffynon, gwnaed hithau yn gwbl iach fel eraill, ac erbyn hyn nid oedd dim yn ormod ganddi ei roddi am ei hiachad ; ond ni fynai ceidwad y ffynon dderbyn tal na gwobr newn un modd. Aeth hithau yn daerach arno, ond nid oedd dim yn tycio. Pan welodd yr Arglwyddes hyny, hi a ddywedodd, “Mi a wn pa beth a wnaeth, myfi a adeiladaf i chwi eglwys.” ac felly fu, adeiladodd eglwys iddynt Dywed eraill mai Capel Llechid y gelwid y lle o'r dechre, ac na wnaeth *Lady Curic*. yr hon a ddaeth yno, meddiant, o swydd Dre-faldwyn i wellau dafad wyllt,* ond cofi y darn croes a berthynai i'r hen eglwys gyntefig, a diau tod ei mab gyda hi.”

Dan nawdd esgob Bangor y mae y fwyoliaeth, ac y mae ardreth Bryn-tyrch a Gwern y Felin, yr hyn a roddwyd o *Queen Anne's Bounty*, yn myned i gynol y gweinidog. “Deallwn oddiwrth y *Gazette* am y 12fed o'r mis hwn fod eglwys henafol Curic Sant, drwy orchymyn ei Mawrhydi yn Llys Windsor ar yr 11eg, wedi ei chreu yr hyn a elwir *Consolidated Chapelry*, drwy yr hyn y cysylltir *district*, a'r gapeliaeth yn cynwys rhanau uchaf piwyfi Llandegai a Llanllechid, a pharthau o blwyfi Llanrhochwyn a Threwydir. Arbeda y trefniad hwn lawer o anghfleusdra i'r wlad yn gyffredinol.”—*Ier. Cym., Meh. 30, 1866.* Adeiladwyd yr eglwys bresenol gan yr Amhyddedus E. G. D. Pennant.

Y mae Methodistiaeth yma yn bur flodenog ; ac yma y dechreuodd y diweddar Barch. R. Jones, Rhoslan bregethu, pan nad oedd ond llanc oddeutu 18 mlwydd oed, pan yma yn cadw ysgol dros Madam Bevan. Bydd y gwesty yn bur lawn o ymwelwyr yn misoedd yr haf, y rhai a ymwelant a'r Wyddfa, ac a bysgotant yn y llynau a'r afonydd cyfagos. Dechreuwyd codi y gwesty gan Arglwydd Penrhyn yn 1791, ac a wnaed o ddarn i ddarn, yn y blynyddcedd dytoddol.

SANT ANN'S.

Mae yn anhawdd adrodd ei hanes yn well nag yn ngeiriau y Parch. Morris Hughes ei hun, y rhai a draethodd pan yn gwasanaethu ynddi am y tro olaf Medi Sydd, 1865, pan cedd yn nghylch ei 80 mlwydd oed ; ac fei hyn y dywedai :—“Amser, fel y dywedir, sydd yn dyfod a phob peth i ben, ond ni feddyliais 52 mlynedd yn ol y buasai y dygwyddiad presenol yn dyfod i'm rhan, sef cael pregethu y bregeth ddiweddaf yn yr eglwys hon,—pregeth a draddodwyd 52 mlynedd yn ol. Mae rhai sydd yma yn cofio, ac ni allaf finau byth anghofio, pan byddai y Parchedigion Meistri Richards o Gaerwys, Phillips, Bridges, Fisk, a Carus, &c., yn dyfod i'n cyfarfodydd blynyddol, ac fel byddai y muriau hyn yn llawn hyd

* Canodd rhyw ddyn y ffynon hon, a dywed yr hen bobl ddarfod i ddefaid gwylltion ddilyn ei deulu hyd y drydydd genedlaeth.

y drysau." Yna aeth yn mlaen i ddangos y modd y dechreuwyd meddwl am adeiladu St. Ann's, ac meddai,—“Ryw faint gyda 60 mlynedd yn ol yr oedd Dr. Clever yn esgob yn Mangor, ac ar y pryd Arglwydd Penrhyn yn bur bryderus yn nghylch y chwarel, neu fel y gelwid hi y pryd hwnw “Y Chwarel Fawr,” a dieithriaid yn dyfod i’w hedrych y pryd hwnw fel yn bresenol. Un diwrnod daeth Arglwydd Penrhyn ac esgob Bangor gydag ef i fyny i edrych y Chwarel, a chafodd i’r esgob ei foddloai yn fawr wrth edrych o’i amgylch, a gweled tai newyddion yma ac acw, a chael ar ddeall fod o 300 i 400 o ddynion yn gweithio ynddi ar y pryd, a dywedodd wrth Arglwydd Penrhyn, “Fy Arglwydd, mae un peth yn eisiau.” “Oes,” meddai Arglwydd Penrhyn, “Mae llawer o bethau yn eisiau, ond dywedwch i mi pa beth yw yr *un peth* hwnw?” ac atebodd yr esgob, “Yr wyf yn gweled yma le braf i fyw, lle da i gael ymgeledd gymwys i’r corph, gwelaf yma dai newyddion cysurus, ond, fy Arglwydd, ni welaf yma un lle i gael ymgeledd gymwys i’r enaid,—ni welaf yma un lle o addoliad yn ngolwg fy llygaid.” “Na minau ychwaith,” meddai Arglwydd Penrhyn, “a dyma y tro cyntaf i’r peth ddysfol i’m meddwl.” A chan edrych yn syn dywedai wrth yr esgob, “Eich swydd chwi fy Arglwydd Esgob oedd amlygu y peth, a’m dyledswydd inau ydyw ei gyflawni.” Aeth ei arglwyddiaeth yn ddioed at y gwaith o adeiladu St. Ann's, gwnaeth hi yn eglwys hardd a helaeth yn gystal a chyfleus, a gorphenwyd y gwaith, ond ni chafodd i ei arglwyddiaeth yr hyfrydwrch o’i gweled yn cael ei chysegru, oblegid daeth angau o hyd iddo, a bu farw yn sydyn yn ei dy yn Grosvenor Square yn Llundain &c. Ar ddydd Sul yn Ngorphenaf 1813 cysegrwyd St. Ann's gan Dr. Magendi, esgob Bangor ar y pryd. Myfi a bregethais ar yr achos, ond ni feddyliais y pryd hwnw y deuai galw arnaf i orphen yn gystal a dechre athrawiaethu yn yr eglwys hon.”—Her. Cym., Medi.

Dyna fel y dywed yr hen weinidog hybarch, ond gallwn gasglu oddi-wrth ei eiriau, os aeth Arglwydd Penrhyn at y gwaith o’i hadeiladu “*yn ddioed*,” iddo fod fflynyddoedd cyn gorphen, yr hyn hefyd a gadarnheir gan dystiolaeth yr hen bobl sydd yn cofio. Dywedir y byddai Arglwydd Penrhyn yn ymbleseru yn aml trwy droi iddi, i eistedd yn lle yr allor, pan byddai yn myned heibio, am y cymerai ddyddordeb mawr yn lles tymorol ac ysbrydol ei weithwyr. Ar gais y Parch. D. W. Thomas, M.A., y gweinidog presenol, yr anfonwyd am y Parch. Morris Hughes. Ei destyn oedd “Yr Arglwydd a gâr byrth Sion,” &c.

Er cof am Anne Susanah, gwraig Arglwydd Penrhyn, y galwyd yr eglwys yn St. Ann's; yr hwn hefyd a’igwaddolodd.—Gwel t. d. 79. Iawn crybwyll yma ddarford i’r Parchedigion Meistri Binns, Vincent, a D. Thomas fod yn weinidogion yn yr hen St. Ann's. Hefyd am fod ysbwrial y Gioddfa wedi dyfod i’w hymyl, a bygwth ei chladdu, cododd yr Anrhydeddus Filwriad Pennant eglwys arall oddentu tri chwarter milltir yn fwy i’r gorllewin, mewn lle a elwir Cilgeraint, ac oddentu 8 neu 10 o dai newyddion yn ei hymyl ar y tu gorllewinol. Mae yr adeilad yn addurn i’r ardal, fel yr holl adeiladau a wneir gan Mr. Pennant, ac ni all neb sydd yn caru yr Arglwydd Iesu mewn purdeb lai na lloni wrth weled y fath dŷ wedi ei neillduo i’w addoli. Dydd Mawrth, Medi 5ed, 1865, cafodd ei hagor, tra yr oedd yn bresenol yr Anrhydeddus Filwriad Pennant, A.S.,

Arglwydd Esgob Bangor, ac yn nghylch 33 o offeiriaid. Dygid y gwasanaeth yn mlaen yn Saesneg y bore, a'r hwyr yn Gymraeg. Taffodd pawb ar y pryd ei ragfarn o'r neilldu, ac aed yno, a chawsom bregethau rhagorol. Yr oedd yno gynulleidfa fawr o ieuenctid, canol oed, a hen bobl penau gwynion yn britho y cynulliad. Bedyddiodd yr esgob bump o fabanod yn nechre moddion yr hwyr. Yr oedd ar y gynulleidfa olwg ddymunol, fel tyrfa yn cadw gwyl. Myfyriwyd y llinellau canlynol gan un oedd yno :

O! gyfnewidiad crasol a welir yn ein gwlad,
Fu'n enal ddydd diffaith a thrigle twyll a brâd;
Y lle teyrnasai Satan mewn rhwysg a gallu mawr,
A llawer corph ac enaid o tan ei craed ar lawr.

Os bu ein tadau truan gynt ambell noson oer,
Ar ysgwydd Carnedd Ddafydd a llaw'n addoli'r lloer;
Neu Fe i fawr ei danllwyth; fe gaed goleuach dydd,
Mae gwell ac iawnach Gwrthrych i'w gael i lygad fydd.

Os buont draw'n addoli llu eu dychymyg ffol,
Anfonodd Duw er hyn yn fore ar eu hol,
Tywalltai i lawr ei Yspryd, cyhyrfodd lthel Hael,
I anfon dau o i deulu a goleu i rai gwael.

Os cadd ysgubau distryw eu teimlo yma'n hir.
Ni adodd Duw i'r gelyn eu llwyr ddileu o'r tir;
Gwnaeth gesul oer Eryri i lu yn noddfa lon,
Ac Eden y mynyddoedd i'w plant fu'r ardal hon.

Os llanau bychain llwydion, o herwydd tan a chledd,
Fynychwyd gan ein tadau i arwy bwrdd y wleidd,
Mae genym neddyw'r capel, a hitau'r deml fawr.
Fel nad oes eisiau beliach ddim ond y tan i lawr.

Os lluddiwyd dwfr y bywyd i redig trwy Sant Ann,
Gwnai ynte yn Nghilgeraint ymddangos yn y man;
I ddyffryn gostyngeddwrwyd y rhedai i ffrwd yn gref—
Mabnod a phenwyni yn ei groesawu ef.

Mwy mwy o Dduw i'r golwg, a llai o dwrf y dyn,—
A raid am byth ymrannu, pa bryd y byddwn un?
Ucheldrem dyn i-eler, ac yntau i lawr at draed
Y Person hwnw'n unig a brynodd ddyn a'i waed.

O! Yspryd Glan santeiddiol, a ddygaist er dy glod
Oleu i o dywyllwch, pan nad redd eto'n bod;
Fâr heddwch pur a chariad o fewn y fangre hon,
A blaen-brawf o'r tangnefedd sydd yno ger dy fron.

Gwerth y fywoliaeth hon yw £250 ; a rhif y boblogaeth yn yr adran hwn o blwyf Llandegai yn 1861 oedd 1765. Cyst y Persondy newydd odddeutu £1500 i Arglwydd Penrhyn.

Yr oedd ar y cae yn ymyl, babell i giniawa; y ciniaw hwn a gostiodd i'r Milwriad Pennant £150. Costiodd yr eglwys newydd hefyd iddo odddeutu £5000.

TANYSGRAFELL.

Codwyd yr eglwys hon ar draul y Milwriad Pennant, A.s., yn 1847, ac mae mewn undeb a St. Ann's. Mae claddfa hefyd gyda hi o roddiad yr un boneddwr. Cysegrwyd hi gan Christopher Bethel.

Y GELLI.

Ar draul y Milwriad Pennant yr adeiladwyd yr eglwys hon hefyd, oddeutu 1853, ac efe a roddodd y tir claddu sydd gyda hi. Mae hi mewn undeb a Llandegai, a'r achos yn myned yn mlaen yn siriol ynddi.

GLAN OGWEN.

Dyma eglwys ardderchog eto a godwyd ar draul y Milwriad Pennant, yr hon a gostiodd o leiaf £6000, a chynysgaeddodd hi hefyd â mynwent; ac y mae hon yn eglwys i bob dyben plwyfol ond yn unig gofalu am y tlodion. Cysegrwyd hi gan Christopher Bethel.

Am hysbysiadau pellach yn nghylch yr eglwysi uchod gwel *Y Daflen Eglwysig* yn mlaen.

AGWEDD FOESOL Y WLAD O'R FLWYDDYN 1700 HYD 1807.

Os edrychwn yn ol ar ein tadau, cawn olwg isel a dirywiol arnynt yn ngoleuni yr Ysgrythrau, yn enwedig pan y maent yn dyfod i'n golwg ni allan o niwl yr hen oesoedd,

Marchredegyfeyddl.—Cynhelid cyfarfod i redeg ceffylau bob blwyddyn ar feusydd y Penrhyn yn ymyl Llandegai, y rhai a barhasant er cyn cof hyd oddeutu y flwyddyn 1766 neu yn ddiweddarach, a chanlynid y cyfryw gyfarfodydd a'r tŷngu, y rhegu, y meddwi, a'r cwfio sydd yn eu hynodi yn mhob gwlad. Cynelid cyfarfodydd cyffelyb hefyd yn Llanberis; rhai o honynt hwy yn dyfod yma, a rhai yn myned oddiyma yno; a byddai y merched yn gystal a'r meibion yn cymeryd rhan yn yr ymdrech. Traddodir i wraig ieuanc o'r enw Cathrin, yn hyw yn Nghaerfyn, enill y gampwobr un flwyddyn, yr hwn oedd ŵn *stamp*, neu fel y dywedir fynychaf gown (*go-wŵn*) ac yr oedd son mawr am *stamps* y pryd hwnw.

Suliau Chwarel Goch.—Cynhelid y rhai hyu ar y tri Sabbath olaf yn Ngorphenaf, ar dyno mynyddig y pryd hwnw a elwid Pant y Lôn, ychydig odditan y Chwarel Goch. Byddid yn darllaw yn helaeth at yr achos, a mawr y cauu a'r dawnsio a fyddai yno gyda'r delyn, y rhai yn fynych a derfynent mewn meddwi a chwfio, &c. Gwerthlid yuddynt eirin mair, *surein*, a *currants*, &c. Arferent chware damwain mewn *pitsio* a *thosio*. Cedwid Gwyliau cyffelyb yn Llanberis, a byddai rhai yn dyfod yma, megys ag y byddai rhai oddiyma yn talu yr ymweliad yn ol. Cynhelid y cyfarfodydd hyn yn mhell cyn cof i neb, ac a elwid yn "wyliau," ac weithiau "gwili hoban" (*gŵyl i hobian?*); ac am hyny dywedid am blant penrhydd; "mae y bachgen, neu yr eneth, wedi myned i wili hoban!" Nid amhosibl nað oddiwrth y Gwyddelod y cafodd ein tadau yr ŵyl hon, pan fuont yma yn nyddiau Cunedda; ond dychymyg yr ysgrifenydd yw hyn. Ceisiodd y diweddar Mr. William Jones, Aber caseg, yr hwn oedd yn llosgi mewn sel dros y dydd Sabbath, eu hatal, ond methodd yn deg; ie, ceisiodd trwy dalu am y delyn a'i llosgi yn eu gwydd. O'r diwedd llwyddodd Mr. Williams, Llandegai, i'w llwyr ddarostwng trwy eu bygwth yn hylig a chyfraith. Dygwyddodd hyn yn 1804. Gwel t. d. 74.

Campiau Ceryg llwydion.—Ar ddydd gwyl y cynelid y rhai hyn, a dyma

y diwrnod y byddai rhai yn gwneyd eu hardreth, ac edrychid arno fel peth cysegredig. Hen bobl oedd yma yn ymryson rhedeg am bellen o Dobacco. Yr oedd yr yrfa hon yn cyrhaedd o Lidiard Ceryg llwydion hyd Lidiard Lleiniau y Talgae, a chan eu bod yn croesi dyffryn bychan cafnog, yr oeddynt yn cael dwy allt, a dau orifyny cyn cwblhau yr yrfa.

Hefyd byddent ar y Sabbathau yn aml ynicio pel droed, curo bandi, ac yn “dyrnu'r iâr,” ar ddôl fawr Ty'n y Clwt: a gwnaent y naill neu y llall yn Mhen yr Ala hefyd, lle y mae Shiloh, Tregarth; a byddai ymladd ceiliogod yn aml rhwng muriau hen gaer ger Ty'n Lôn, a elwid Penardd Gron. Coelient bethau anhygoel hefyd am ymddangosiad ysprydion, a'r Tylwyth Teg, ac yr oeddynt diuain yn drwm lwythog o bob ofergoelion, pethau rhy wael i ysgrifenu dim arnynt. Ond yn awr, pa ryfedd eu bod felly, oblegyd nil oedd neb o'r bron yn dysgu dim angen iddynt. Mae yn wir fod yr eglwys yn ceisio dysgu ychydig arnynt, ond yr oedd pregethau mor anaml yn hono, fel yr oedd yr eglwys mewn gwirionedd megys wedi myned i gysgu.

Y Bibl.—Costiai y Bibl a alwn ni yn Fibl Eglwys, sef Bibl Teuluaid, gini yn 1804, ac yr oedd yn anhawdd ei gael, heblaw bod yr arian hyn yn llawer i wr tlawd y pryd hwnw, ac yntau y truan am y llen a'i werth. Os byddai gan ddyn Fibl, yn gyffredin, fe'i cadwai fel rhyw nwydd yn ei gist heb ei ddarllen. Dywedir nad oedd yn mhilwyf Llandegai yn y flwyddyn uchod ond prin un Bibl yn mhob deg o dai. Yn y flwyddyn 1803 bu siarad yn y Senedd am roi Bibl yn nwyd law pob un a ellid; yn y flwyddyn hon yr oedd yr holl fyd wedi colli i'n herbyn, a buwyd yn y plwyf hyn yn codi meiwy'r (*militia*) dair gwaith mewn chwe' mis, a byddai y taliad o ddeg i ddeuddeg swllt yr un bob tro, onid oedd llanciau yn methu cael dillad i guddio eu noethni. Rhaid oedd talu o £120 i £200 i ddyn am fyned i'r fyddin;—byddai bechgyn y pryd hwn yn myned i fynyddoedd Llandegai a Llanllechid i hel cen ceryg i liwio dillad y milwyr yn gochion, yr hwn a werthid am 3s. y pwys. Yn 1804 aeth y Parch. Thomas Charles o'r Bala i Lundain i gyfarfod a gynelid gan wyr o'r un ysbryd daionus ag yntau, a diwedd yr ymddiddan a fu yn foddion i roddi bodolaeth i'r “*Fibl Gymdeithas Frutanaidd a Thramor*,” ac yn 1807 daeth Biblau o blyg bychan i Abercseg, y rhai a werthid am 3s. 6c. yr un.

Dywedir i'r Gymdeithas fod yn foddion o symbyliad i'r esgobion, ac yn y flwyddyn 1810 daeth llwyth trol o “*Fiblau Eglwys*” i Landegai, y rhai a werthid am 6s. 1c. yr un, gan y gwr effro y soniwyd am dano o'r blaen, sef Mr. Williams, yr Offeiriad. Yr oedd amryw o'r enwadau crefyddol heblaw Eglwys Loegr yn y wlad erbyn hyn ers amryw flynyddoedd, fel cawn ddangos eto. Yr oedd rhai yn effro o blaid cynydd gwybodaeth a chrefydd, ac eraill yn methu deall pa beth oedd yr helynt oedd arnynt; rhai yn meddwl fod y byd yn myned yn well, ond eraill yn ei farnu yn myned yn waeth. Wedi dyfodiad y Biblau uchod i Abercseg a Llandegai, ac i ddynion tanllyd, fel y Meistri Jones a'r Williams a goffawyd, eu lledaenu, fe aed i'w darllen, ac o'u darllen i ymddadlennu a thaeu; ac aeth mab yn erbyn y tad, a'r ferch yn erbyn ei mam; rhai am fyned gyda y blaid yma, ac eraill gyda y blaid acw, onid oedd amryw dai wedi ymrannu hyd oni siglwyd sylfaeni cymdeithas deuluaid gan egwyddorion y deyrnas nad yw

o'r byd hwn, yn union fel y rhagddywedodd ei Sylfaenydd y byddai i bethau fod, wedi i'r gwirionedd afael yn y gydwybod. Ond i fod yn fyr, yr oedd hyn yn ymddangos yn syn a dieithr; i rai ag oeddynt ar hyd eu hoes wedi rhoi gormod pris ar waith y cryf arfog yn cadw ei neuadd mewn heddwch, a chredent yn gydwybodol fod y byd yn myned yn waeth, ac ofer i neb ymresymu i'r gwrthwyneb—ffyliaid a deillion oedd pawb a'u gwrthwyneben, neu bobl heb gael dim gras. Yn awr, yn mhlith y dosparth ofnus hwn o hen bobl, rhaid i ni gael nodi un hen ŵr oedd yn byw yn ngodre Carnedd Ddafydd; ond rhag i ni ffinio rhyw gydwybod dyner, ni ddywedwn mo'i enw. Eglwyswr gonest oedd y gwr, ac yr oedd yn engraifft gywir o aml un oedd yn byw yn y dyddiau hyny. Rhaid i ni ddyweyd gair o'i hanes.—Yr oedd tua ei ddyddiau olaf, hyd yr ydys yn cofio, wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 95 mlwydd oed, neu yn ŷgos, ac wedi lladd pedwar ugain cynauaf; gwisgai glos pen glin, a chot gynffonfain laes hyd ei sodlau. Yr oedd ei wisg briodas ganddo yn nghadw hyd ddiwedd ei oes, yr hon ni roddai fyth am dano ond ar Sul y Pasg i fyned i Lanllechid i'r cymun. Yr oedd yn hen wr cynil, ac yr oedd ganddo ddigon o arian wrth law yn wastad, ac ystôr go dda meddir yn cadw mewn llestr *pewtier* ar y Drestl, yn cynwys rhai batheiniau er dyddiau Charles II., a gwe y pryf copyn fel wedi mantellu drostynt. Os dywedai gyfrinach i chwi, gwnai hyny ar ganol y cae, am y rheswm, meddir, "*Fod clustiau gan y cloddiau.*" Rhoddai hefyd fenthyg pum' punt neu ddeg ar ganol y cae i ryw gyfaill cywir, heb un dangosiad am danynt, ond ymddiried yn ei air; fodd bynag, cafodd er hyny ddigon hyd ei ddiwedd. Yr oedd gan yr hen ŵr hwn farnau rhyfedd, a dywediadau digon rhyfedd drachefn yn codi oddiar y barnau hyny, ac yn mhlith eraill dyma rai o'i ddywediadau:

"Ha! fe aeth llawer o dywydd dros y wlad yma o dro i dro i mi gofio, ond nid aeth hi erioed *i'w chrogi* yn mhlwyf Llanllechid nes i'r *Penau crynion*, a'r *Dail Tê* a *Newid yr Amseroedd*, ddyfod i'n trwblo."

"Am y *Penau crynion*, nid oedd yma eisiau yr un o honynt, ac yr oeddym ni yn gwneud yr llawer gwell hebddynt, a chai dyn lonydd i wneud y peth a fynai heb i neb weled bai arno na'i alw i gyfrif. Ni fu yma erioed y fath ddadleu a checru ag sydd; ac y maent yn son am oleuo y byd, ond tywyllach ydyw pethau yn myned bob blwyddyn! Hefyd dyna'r *Tê* fydd y merched yn ei gymeryd; codi y fath grogbris bobl, am ddyrnaid o ddail! ac mewn pum' munud, yn Nghae'r Wrâch, yr heliwn i rai gwell o'r haner na nhw!"

"Ond *Newid yr Amseroedd* ydyw y peth ynfytaf y clywais i erioed son am dano. Gwnaeth yr Arglwydd y tymhorau, ac mi goelia i eu bod nhw yn dda yn eu lle. Meddylwch chwi fy nghyfeillion am symud y cynhauaf gwair i fod yn ddiweddarach o bythefnos, pa sut felly y ceir yr yd i fewn mewn pryd? Na, mi'r ydwy' yn meddwl os ydyw pobl am gael yr yd i fewn cyn y gauaf, y byddai yn well iddynt adael yr amseroedd fel y maent!"

Hefyd yr oedd yr hen ŵr yn ddig iawn wrth y rhai a ddywedent mai y y ddaear oedd yn troi o gwmpas yr haul, yn lle yr haul yn troi o gwmpas y ddaear, ac fel hyn y dywedai: "Mae pobl yr oes yma wedi myned yn

ddoethach na'r Bibl, mae y Bibl yn awgrymu mai yr haul, yr hwn sydd yn "ymlawenhau fel cawr i redeg gyrfa," sydd yn troi o gwmpas y ddaear, ac nid y ddaear sydd yn troi o gwmpas yr haul. Pa un a goeliwch chwi, y bobl hyn, ynte y Bibl?" Bu ymddiddan fel hyn rhyngddo ag un, ryw dro;—"Mae y bobl sydd yrwan yn dyweyd fod dynion odditanom ni yr ochr arall i'r ddaear, a'u traed atom ni, ond nis gwn i ddim pwy sy yn gwybod, na phwy a'u gwelodd nhw. Wyt ti, Ned, yn coelio peth felly?" "Ydwyf fi, ydwyf," meddai Ned, "gan fod y dysgedigion yn dyweyd hyny." "Ho! o'r gore," medd yr hen ŵr, "cerddda dithau dipyn o dan y llofft yma gael i ti wybod hyny." "O nhaid," meddai Ned, "Nid ydych chi ddim yn deall pethau, mae y byd yn grwn, a phawb yn cerdded a'u traed at ei ganol o." "O," meddai yr hen wr, "bacha dithau y crochan mawr tan y llofft, ac mae y crochan mawr yn grwn, a cherddda dipyn ar hyd ei din o, gael i ti wel'd sut mae pethau yn bod!"

Yn awr, rhag i ni ddfilasau neb, gadawn yr hen ŵr ar llyn yna, ac ond odid nad yw yr hyn a grybwyllwyd yn engraifft o'r llyn oedd llawer yn yr amser hwnw. Pan gofir leied oedd y manteision i wybodaeth, bydd yn hawdd i ni gyd-ddwyn ag ef a phawb eraill. Byddai yr hen wr gonest a grybwyllwyd yn methu deall pa beth oedd wedi hurtio pobl y wlad hon, i newid cnusiau gwlan deadelloedd Eryri am galico neu gotwm Manchester, ac y mae hyny i'w ryfeddu hefyd. Os oedd rhai o'r hen bobl fel y nodwyd yn y dechre yn methu gyda rhai pethau, hwy a wnaent gywilydd i lawer wyneb gyda phethau eraill.

PENNOD VII.

Yn awr, gan i ni amgylchynu gymaint, ni byddai yn ddoeth arnom beidio gwneud sylw byr ar

YR YMNEILLDUWYR.

Yn awr, gan fod pawb o bosibl yn cydnabod fod eu bodolaeth yn ffaith bellach, dichon y byddai yn burion fel mater o hanes wneud coffa byr am bob plaid ar ei phen ci hun, yr hyn a allai cynn dyddordeb eglwyswr ac ymneillduwr, er mwyn i'r naill wybod tipyn ychwaneg am y llall, oblegid nid felly y bu hyd yn hyn, ond pawb yn dyweyd neu yn ysgrifenu ar ei ochr ei hun, gan dderbyn ynddo ei hun y cyfryw gerydd ag oedd raid am ei ffoledd, *sef mesur mawr o ddyluni*. Yn awr, bydded i ni oddiar safon synwyr cyffredin, nid yn unig edrych ar yr eiddom ein hunain, ond ar yr eiddo arall hefyd. Fe goelia yr ysgrifenydd yn awr yr hoffa y brodyr o bob plaid wybod ychydig o'r hyn lleiaf o hanes eu gilydd, gan eu bod oll dan yr un faner, yn ymladd yr un brwydrau, a thau yr un Brenin, ac yn ceisio yr un wlad. Awn yn mlaen wrth drefn yr wyddor.

Yr Annibynwyr.—Yn 1784 derbyniodd y Dr. George Lewis wahoddiad i ddyfod yn weinidog i gynulleidfa yn Nghaernarfon, pan nad oedd eto ond llanc 22 mlwydd oed, ac yno daeth, ac y bu am oddeutu 10 mlynedd yn gweinidogaethu, ac yn cadw ysgol ddyddiol, ac oddiyma yr arferai fyned i Fangor a chyffiniau Cloddfa y Cae i bregethu, yn gystal a manau eraill.

Dechreuad ei lasur yn nghymydogath y Gloddfa sydd debyg i hyn. Oddeutu 1788 daeth y Doctor ac a bregethodd oddiar ben careg yn Nhref-garth, er nad oedd ond oddeutu 26 mlwydd oed, a golwg wylaid arno.

Yr oedd y son wedi myned allan cyn ei ddyfod, fod gwr dieithr a fyddai yn myned oddiamgylch i dwyllo y bobl, i fod yno yn pregethu, yr hyn a dynodd luaws yn nghyd, ac yn eu plith wŷr ieuainc perthynol i eglwys Llandegai, y rhai a ddaethant i fynw mewn cyngrair a'u gilydd i'w atal, trwy ei luchio â cheryg pan ddechreuai bregethu.

Dechreuodd y pregethwr trwy ddarllen pennod yn groyw ac eglur, a gwe-ddio yn wresog a gafaelgar, ac yna rhoddodd benill allan i'w ganu, gan feddwl yr ymunai y bobl gyd ag ef, ond cafodd ei siomi, costiodd iddo ganu y cwbl ei hunan, yr hyn a wnaeth mor swynol nes eu boddhau yn fawr dros ben.

Yr oedd son mawr tua'r pryd hwn am weithio ac enill arian yn Nghloddfa y Cae, a'i genadwri atynt oedd "Pa leshad i ddyn os enill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?" Dechreuodd yn ddioed egluro iddynt feddwl yr adnod, a gwasgu at eu cydwybodau y perygl a'r posibilrwydd iddynt fyned trwy y byd, gan fyw a marw yn annuwiol, a gwnai hyny yn y fath fodd nes rhwymo eu sylw i wrando.

Yr oedd y terfysgwyr erbyn hyn yn dechreu synu at y bregeth a'r pregethwr, gan dafu ambell olwg ar eu gilydd, fel arwydd i ddechre debygid, ond yn eu byw yn methu cael digon o wroldeb i ddechre ar eu gwaith. Dechre di, medd un; na, gwna di, medd y llall; ac felly ni wna neb, tra y cai y pregethwr lonydd i fyned yn mlaen. O'r diwedd fel yr oedd yn gwresogi yn ei leferydd wrth ddarlunio erchylltra colli enaid, a golygfeydd y farn ddiweddaf, fe syrthiodd y ceryg i lawr o un i un o ddwyllaw y terfysgwyr; ac yn lle rhwystro y pregethwr i fyned yn mlaen, rhwystrodd y pregethwr hwy i fyned yn mlaen gyda yr amcan o'i luchio â cheryg; ac fel hyn, cafodd orphen, a hon meddir oedd y bregeth gyntaf i'r Annibynwyr yn mhlwyf Llandegai.

Yr oedd rhagfarn wedi cam liwio y gwr dieithr, a hyny cyn ei weled, a chafodd y bobl eu siomi yr ochr oreu. Disgwylient ddyn haerllug, anwybodus, a ffyrnig, a chawsant wr ieuanc gwylaidd, dysgedig, a gostyngedig.

Disgwylient genad Satan, a chawsant ynddo was y nef, a gweinidog ffyddlon i Iesu Grist; a thystiolaethai eu cydwybodau ei fod yn dyweyd y gwir, ac felly ni allent wneud niwaid iddo. Eto rhag bod mor annewr a myned yn ol heb wneud dim iddo, buont ddigon eon i'w llysenwi yn "Lewis pen y gareg." Yr wyf yn ysgrifenu yr hanesyn hwn o enau hen eglwyswr gonest oedd yn digwydd bod yno ar y pryd, sef y diweddar Richard Williams, Cilgeraint, yr hwn a fu farw ychydig flwyddi yn ol yn 96 mlwydd oed.

Llafuriai y Doctor yn ddiorphwys, ac yr oedd ei waith yn cynyddu o hyd, a galw fwy-fwy am ei wasanaeth, ac yntau yn methu cyfarfod a'r oll, ond yn parhau i fyw yn Nghaerynarfon. Yn wyneb y pethau hyn, dymunodd ar wr ieuanc o Lanystumwy, yr hwn a lafuriai ar y pryd yn Mhwlheli, ddyfod i'w gynorthwyo, yr hwn a adwaenid y ffordd hon wrth yr enw William Hughes, Dinas. Gwrandawodd yntau, a chyflewyrdd ef gan y Dr. yn ardal Bangor, lle bu yn weinidog, ac ordeiniwyd ef yn 1789 yn Nghae Gwigyn yn yr hen gapel, ger y lle y saif capel Bethlehem arno yn awr.

Yr oedd yn y cyfarfod hwnw amryw o weinidogion heblaw y Dr. Lewis, megis Abraham Tibbot, Lloyd o Ddinbych, Benjamin Jones, &c., a daeth yno hefyd foneddiges, o Nanhoron, yn ei cherbyd a chyda ei gweision, a dywedid ddarfod cael yno gyfarfod pur lewyrchus a siriol.

Ond i ddychwelyd, ar ol i'r Doctor fel y coffawyd fod yn pregethu oddiar ben y garreg yn Nhrefgarth, yn nhy un John Edwards (a gyfenwid "Sion y Bregeth,") yr arfrai yr Annibynwyr bregethu, ac yno yn 1788 y cadwyd y cwrdd eglwysig cyntaf ganddynt, a byddai y brodyr a'r chwiorydd wedi hyny yn dod iddo o Gaegwigyn a manau eraill. Yn mhen ugain mlynedd yn ddiweddarach, dechreuwd cadw cwrdd cyffelyb yn y Perthi Corniog, bob yn ail ac yn nhy Rebeca Jones. Tyddyn Iolyn bach, o herwydd fod y lle yn nes i gartref y gweinidog, yr hwn oedd yn byw yn Mangor. Yr oeddynt yn pregethu oddeutu 1806 yn y Perthi, ac yn Nghororion, ac yn y lle olaf codasant gapel yn 1813, tra parheid i gadw cwrdd y frawdoliaeth yn nhy J. E. fel y coffawyd.

Yn 1794 symudasant mewn rhan o Dre'garth, a buont yn Ngwern Afr, a Phonc y Ty; ond a ymsefydlasant yn Nhros y ffordd, yn nghorph yr un flwyddyn, lle y buont am 26 o flynyddoedd, ac yr oedd y fan wedi ei gofrestru yn ol y gyfraith, yr hyn oedd beth pwysig yn y dyddiau hyny, a byddai W. H. gweinidog Bangor a Chaegwigyn, yn arfer a gweini iddynt. O'r diwedd yn 1820, codasant gapel o'r tu dwyrain i Ogwen mewn lle a elwid y Wern uchaf, yr hwn ar ddydd ei agoriad a alwyd yn Bethesda, ac a roddod ei enw ar y pentref presenol, pan nad oedd yno cyn hyny ond dau dŷ, sef y *Star* a thŷ J. Williams, gynt o Cochwillan.

Nid oedd cyfanswm casgliad misol yr eglwys yn Nhros y ffordd ond 11s., a Mr. Gutyn Peris mewn rhan oedd ei hysgrifenydd. Ffrwyth llafur y gynulleidfa yn Methesda, yw Carmel, Caellwyngrydd, Amanah, yn mynydd Llandegai, y capel yn Nant Ffracon, a'r un a agorwyd yn y Gerlan, Ebrill 2, 1866; a'r tir i adeiladu arno a roddwyd gan Mr. David Roberts, (Alawydd), Tai duon.

Os taffwn drem yn ol, cawn i'r enwad parchus hwn tan fendith Duw wneud cryn les yma. Dywed Mr. Hugh Roberts, Ty'n y clawdd, er mai aelod gyd ag enwad arall ydyw ef, "Ddarfod i'r Annibynwyr wneud llawer tuag at oleuo a diwygio preswylwyr yr ardal hon; gan fod yn ofn i weithredoedd drwg;" ac y mae yr hynafgwr hwn bellach dros ei 80 mlwydd oed. Bu ganddynt yn y Perthi foddion rheolaidd a llewyrchus am lawer o flynyddoedd, tra cytunent i wahariaethu mewn pethau bychain, ac i oddef eu gilydd mewn cariad.

Ni wneid nemor sylw yno o farnau dyn, os ceid lle i gredu ei fod yn wir addolwr y Tad, ac yn caru yr Arglwydd Iesu mewn purdeb. Caffai dderbyniad caredig yma i dy, yn gystal ag i serchiadau y frawdoliaeth.

Yr oedd y gwr a'r wraig, Daniel a Margaret Thomas yn hynod am eu crefydd a'u duwioldeb, a gair da iddynt gan eu cymydogion a chan y gwirionedd ei hun. Yr oedd y gwr yn hoff iawn o Lysieuath Fydd-ygol, fel llawer o'r hen Gymry, a chanddo dair o erddi, un o ba rai ni ddygai ddim ond llysiau o'r fath, a byddai cyrchu mawr ato am iachad. Mab iddo ef yw yr hyglod Mr. Joseph Thomas (*Josephus Eryri*), yr hwn sydd yn byw yn Lle'rpwll, ac yn enwog yn mllith y Cymry, y Saeson, a chenhedloedd eraill fel "*Professor of the Remedial Power of the Electric Fluid*," &c., a gallwn ychwanegu nid yn unig fod y ddawn feddygol yn dilyn ei wyrion, ond fod crefydd Crist hefyd yn cael ei phroffesu ganddynt.

oll bron, yr hyn sydd yn adgoffio i'r ysgrifenydd yr hyn a glywodd ryw bryd gan bregethwr o'r De :—" *Ddyn (meddai yr Hwntw) os daw Iesu Grist i dy dŷ di, nid eiff e allan heb i ti ei gico fe!*"

Cynhelid yma hefyd ganddynt yr Ysgol Sabbothol oreu yn y wlad, oblegid cydgyfarfyddai yma y cyfryw â John William Thomas (*Arfonwyson*), Hugh Hughes (*Tegai*), yn nghartref Joseph Thomas, y tri y pryd hwnw yn ieuanc, gydag eraill bron cystal, er nad mor gyhoeddus. Y mae nifer o hen bobl yn fyw eto, ac y bydd eu llygaid yn siriol, a'u calon yn twymno wrth son a'n yr Ysgol Sul, a'r pregethau gwresog a gafaelgar a glywsant yn y Perthi. Pwy bynag a garo ddarllen ychwaneg am y lle hwn, darlled *Gofiant Mrs. M. Thomas, Perthicorniog, &c.*, yn y Dysgedydd am 1856, gan y Parch. H. H. oblegid yr oedd ef yn enedigol o'r ardal, ac wedi clywed llawer o'i hanes gan ei dad ffyddlawn.

Gan fod gweinidogion yr Anuibynwyr yn lled sefydlog, dodir yma eu henwau, yn nghyd a'r amserau y buont yn llafurio :—

1. *Dr. George Lewis*, a ddaeth i Gaernarfon 1784, ac a ymwelai a Bangor, Caegwigin, Tregarth, &c., ac efe a ymadawodd yn 1794.

2. *Parch. W. Hughes* yn 1788 a ddaeth yn weinidog Bangor, Cae gwigyn, Tros y ffordd, &c., ac a ymadawodd i fyned i Ddinas Mawddwy yn 1796. Efe a ddechreuodd yr Ysgol Sul gyntaf, yn Nhae gwigyn.

3. *Parch. D. Evans* a'i holynodd ef yn y flwyddyn ragenwol, ac wedi bod yn y cylehoedd hyn am oddeutu 11 o flynyddoedd, ymadawodd yn 1807 i'r Mynydd Bach. Dyma awdwr "*Y Cawg Aur*," dyn cryf o gorph a meddwl.

4. Olynwyd ef gan y *Parch. Arthur Jones* yn y flwyddyn 1809, ac yr oedd yntau fel ei ragflaenoriaid yn byw yn Mangor. Ei wraig gyntaf oedd ferch Thomas Edwards, Bardd y Nant, ger Dinbych. Ordeiniwyd ef Ionawr 3, 1810. Cyhoeddai o'r pulput olygiadau Dr. Edward Williams, Rotherham, am natur pechod, gallu a chyfrifoideb dyn, helaethrwydd yr Iawn, &c., pethau newyddion, amheus, os nad brawychus gan rai yn y dyddiau hyny. Yr oedd Esponiad Dr. Lewis yn dyfod allan o'r wasg yr amser hwnw, a chwblhaodd ei ymddangosiad yn y flwyddyn 1802. Gresynai Arthur Jones wrth weled leied o fanteision oedd gan ei genedl i adwaen meddwl Duw yn well yn ei Air, a gwnai ei oreu i'w gymhell ar bawb, ac yn mhlith eraill taer anogai Robert Williams, Felin fawr, a Richard Jones, Tai duon, &c., i'w godi, ac o dipyn i beth cytunasant hwythau wneuthur, "yn unig ar yr ammod iddo yntau (A. J.) ddyfod i fynw unwaith yn yr wythnos neu ychwaneg i gadw ysgol nos i'w dysgu i'w ddarllen," ac addawodd yntau ddyfod, a dechreuwyd cadw ysgol y nos yn y Tai duon, lle deuai amryw yn nghyd, sydd erbyn heddlw yn mhridd y ddaear, ac yn eu plith deuai Gutyn Peris yno ambell waith; un tro, dranoeth ar ol bod yn yr ysgol nos, gofynodd un iddo, "A fuoch chwi yn ysgol y nos, G. W.?" "Do," meddai yntau—

"Bum yn ysgol wyrthiol Arthur
Yn dysgu darllen yr Ysrytair;
Ni che's yno neb yn gwybod
Am saith ystyr Rhagwahannod!"

Peth rhyfedd i'r bardd ganu fel yna, oblegid nid amser i hidlo blewyn oedd hwn; ond nid yw gwyr doethion yn ddoethion bob amser; ac os oedd y

lluaws yn ofni Gruffydd, ac ambell bregethwr gwylaidd yn gweddnewid ar ei ddyfodiad i'r bregeth, nid dyn felly oedd Arthur. O nage, yr oedd efe yn cyfateb mor dda i'w enw, ac ni phrisiai wyneb bardd mwy na rhyw ddyn marwol arall, yn enwedig pan byddai gydag achos ei Arglwydd. Yr oedd A. J. yn hoff iawn o'i braidd, a pharchent hwythau yn fawr eu bu-gail; a pharhaodd gwedd siriol iawn ar yr achos am y 7 mlynedd cyntaf o'i weinidogaeth; ond yn y flwyddyn 1815 bu dadl led chwerw rhyngddo a'r Dr. Lewis o herwydd yr hyn a goffawyd, ac a elwid y pryd hwnw yn "system newydd," ac yr oedd gan bob un eu cyfeillion, ac felly eu plaid; a bu agos i lamp y deml fechan ddiffoddi, gan y dymestl a achlysurwyd gan y ddau weinidog! Dyma y tro olaf y bu y Dr. Lewis trwy y wlad hon; ac ymadawodd A. J. a bu yn Llundain am flynyddoedd. Aeth i bregethu i'r Cymry yn Deptford ac Woolwich; a dyma y pryd y syrthiodd i gyfeillach y Doctoriaid Colyer, Waugh, a Rees, &c. Fodd bynnag yn y flwyddyn 1823 dychwelodd i Fangor, a chafodd dderbyniad caredig gan ei hen gyfeillion yno a Chaegwigyn, ac wedi blynyddoedd o lafurus gariad yn ngwinllan ei Arglwydd, ac o garu a chael ei garu gan y brodyr, bu farw yn Nghaer, Chwef. 20, 1860, ac a gladdwyd yn ol ei ddymuniaid yn Nghae Gwigyn. Ei wraig hefyd a fu farw Gorph. 15, 1863, yn 88 ml. oed, ac a gladdwyd gydag ef. Gwel *Y Beirniad* am 1865, t. d. 69.

5. Ar ol ymadawiad A. J. yn y flwyddyn 1815, dilynwyd ef yn Man-gor, yn y flwyddyn ddilynol gan y *Parch. Dafydd Roberts*, lle bu am oddeutu 7 mlynedd. Deuai yntau am Cae Gwigyn, a Thros y ffordd, &c., ac yn y bedwaredd flwyddyn o'i weinidogaeth ef y codwyd Bethesda, lle pregethai yn awr ac eilwaith hyd y flwyddyn 1823, pryd yr ymadawodd am Ddinbych; ac yn awr, yr ydys yn canu yn iach i weinidogion Bangor, gan fod cynulleidfia Bethesda yn myned i gynnal gweinidog ei hun.

6. Dilynwyd ef yn Methesda gan y *Parch. Llewelyn Samuel* yn y flwyddyn ragenwol, ac yn Ion. 1, 1824, ordeiniwyd ef, a bu yn gweini-dogaethu yn Methesda am 32 o flynyddoedd, a hyny gydag ymrodd a ffyddlondeb mawr. Gwr hynod am dangnefedd oedd efe, costied braidd a gostiai; ac ofnai ambell un ei fod yn ei brynu yn rhy ddrud. Yr oedd cadw eglwys fawr fel yr ciddo ef am gynifer o flynyddoedd yn "undeb yr yspryd ac yn nghwlwm tangnefedd" mewn amseroedd blinion, yn beth nad ydyw pob dyn da, yn alluog i'w wneyd; ac achosai syndod i lawer. O'r diwedd daeth ei amser i fyny, ac anfonodd y nefoedd i'w ryddhau oddiwrth y ddaear, y gwas hwnw a elwir "Y Parlys," yr hwn a roddodd derfyn ar ei fywyd defnyddiol, ac a'i gollyngodd i dderbyn ei wobwr. Yr oedd y dyn tirion hwn yn llawn o gyfrwysdra y sarph, ac o ddiniweidrwydd y golomen. Cymerodd hyn le Ebiill 1855, a chladdwyd ef yn Rhos y meirch, a chanodd Mr. Robert Hughes (Robyn Wyn) farwnad ragorol ar ei ol.

7. Dilynwyd yntau yn y flwyddyn 1856 gan y *Parch. Dafydd Jones*, B. A., gwr ieuanc o'r De, ac wedi bod yn llafurio yn ffyddlawn am dymor byr, dychwelodd yn y flwyddyn 1858 yn ol i'w hen wlad. Am enwau y gweinidogion sydd heddyw, gwel y Daflen Eglwysig.

Dalm o flwyddi yn ol, darfu i wyr ieuainc na fynant i'w henwau fod yn gyhoedd anrhegu yr eglwys hon a llestri cymundeb.

Dichon nad annerbyniol a fyddai coffa yn y fan yma am bregethwr arall, ond cynorthwyol, a fu yn pregethu yma gyda yr Annibynwyr, sef y *Parch. David Griffith*, yr hwn a fu yn weinidog gyda yr Annibynwyr yn Nhal y sarn am 19 o flynyddoedd, ond o herwydd ei amgylchiadau bydol a ddaeth i fyw i Bethesda, fel masnachwr yn y flwyddyn 1830, ac a bregethai gyda yr un bobl, ac yn achlysurol gyda rhai eraill. Yr oedd ef yn un o'r rhai cyntaf i goffaidio Dirwest, a'i chymell ar eraill, yn yr ardaloedd hyn, a pharhaodd felly hyd angau. Yn y flwyddyn 1840 derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys gynulleidfaol yn Rhiw Fabon (Ruabon) i gymeryd ei gofal, â'r hyn y cydsyniodd, a bu yno yn llafurio yn ddiwyd a ffyddlon hyd 1843, pryd y goddefodd yntau ddyrnod oddiwrth y parlys, ar ol diwrnod llafurus, i fyned i mewn i lawenydd ei Arglwydd. Arferai y *Parch. Morris Hughes*, *St. Ann's*, ddyweyd am Mr. Griffith, ei fod yn un o'r rhai mwyaf didderbyn wynneb a welodd erioed. Mab iddo ef oedd y gwr ieuanc gobeithiol hwnw

Walter Griffith, neu fel y gelwid ef yn mhlith y beirdd *Gwallter Bach*, a chan ei fod o Bethesda, ac yn aelod ffyddlon gyda yr Annibynwyr hyd y diwedd, bydd yn ddifyr genym goffau am dano yma. Ganwyd W. G. Awst 1819, ac yr oedd yn meddu talent neillduol i ddysgu pob peth a osodid o'i flaen. Dysgodd ddarlenn yn dda cyn bod yn 3 blwydd oed, ac yr oedd yn hoif iawn o farddoniaeth, a thrysorodd lawer o'r caneuon goreu yn ei gof puu nad oedd ond oddeutu 5 neu 6 mlwydd oed, ac un o'r rhai goreu o'r rhai hyny ganddo oedd "Y Cristion 'yn' marw," gan y *Parch. S. R.*, gynt o Lanbrynmair. Dechreuodd gyfansoddi barddoniaeth ei hun cyn bod yn 7 mlwydd oed. Gwnaeth gywydd ar "Ddinystr Sodom a Gomorah," (un o destynau Eisteddfod Llancrchymedd,) pan nad oedd ond par ieuanc, am yr hwn yr anrhegwyd ef a thlws arian gan bwyllgor yr Eisteddfod hono. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Pont y Twr, gŵn yr athraw rhagorol hwnw, y diweddar Mr. Thomas Williams, a gwnaeth gonydd buan yn mhob cangen o ddysgeidiaeth a arferid mewn ysgol o'r fath. Rhwymwyd ef yn egwyddorwas o *Draper and Groser* yn Methesda, ac ar ol gwasanaethu ei amser yno, aeth yn was i Fasnachely Hetiau yn Manchester. Wedi bod yno am ysbaid o amser, ymunodd a'r "*Anti Corn Law League*" fel darlithiwr Cymreig, a bu ei lafar o les mawr i'r gymdeithas dda hono yn Nghymru. Yr oedd ei gyfaill mynweol Mr. Salesbury, y diweddar Aelod Seneddol dros Ddiwas Caer, yn cydgychwyn ag ef allan o Fanchester gyda yr un achos, ond fod y boneddwr hwnw yn wynebu am Ysgotland; a pharhaodd y ddau yn gyfeillion mawrion hyd y diwedd. Yr oedd Mr. Griffith yn meddu gallu a dheurwydd mawr fel Darlithiwr, ac yn ystadogwr rhagorol. Priododd Miss Gruffydd, merch y diweddar Owen Gruffydd, Barcer, Caernarfon, ond ni bu ganddyn blant. O'r diwedd y gelyd hwnw i'r ieuencetd, y darfolledigaeth, a alwodd heibio i llyd yntau, a bu farw yn 1846, pan nad oedd ond 27 mlwydd oed, yn Abergele, tra yr oedd ei briod wedi marw ychydig o'i flaen. Yr oedd ei oes yn aelod ei hynodi ag ofn Daw a chilio oddiwrth ddrygioni. "Ei hoes a fashidall tra yr ydoedd yn ddydd!" Gallen nodi enryw ddiarhaeraid eraill a fuon gyda yr Annibynwyr yma, ond rhaid ymdd. Welh ysgidiau yr uchod, derbyniwyd llythyrr oddiwrth y *Parch. E. Stephen*, Tanymanian, ac er

mwyn gwneud chware teg a'r gwirionedd, dyfynir o hono y frawddeg ganlynol:—"Yr oedd capel yn yr hen Gae Gwigyn cyn bod yr un yn naphlwyf Bangor, Llandegai, na Llanllechid, yn perthyn i'r un enwad ond yr Eglwys sefydledig yn unig. Dyma ffynon yr holl ffrydiau yn y plwyf-ydd yma."

Y Bedyddwyr.—Mae yn debyg i'r enwad dan sylw ddechre ei yrfa yn y wlad hon tua 1771, ac yn Nghilfoden meddir y dechreuodd. Mae traddodiad i fam Morris Ellis o'r lle hwnw gael ei bedyddio yn y Ffrydlas,—gweithred a gynyrchai syndod mawr y pryd hwnw. Gwyddys i un o'r enw Sian Llwyd, gwraig Richard Morris, Mwnwr, gael ei bedyddio hefyd yn 1793, yn nghwr Dol Careg Ann, goris llyn y Deintur yn Ogwen, yr hyn a dynodd luaws yn nghyd, ac i gyffroi sylw yn fwy, fe syrthiodd dyn oedd wedi dringo i ben coeden i'r afon! Hefyd gwyddys i'r ffyddlawn a'r Parchedig Christmas Evans fedyddio rhai yn y Galedffrwd yn Nghoed y Parc. Gan fod yr ysgrifenydd yn anwybodus am eu hanes, ac yn methu cael nemor gan neb yn Methesda, efe a anfonodd at Humphrey Ellis Ysw. o'r Cefnfaes, ac y mae yn falch o gael atebiad oddiwrth un cedd wedi ei fagu gyda hwy; a dyma fel y dywed efe:—

"Garedig gyfaill,—Dechreuwyd achos gan y Bedyddwyr yn y gymydogaeith yma,* os wyf yn cofio yn iawn, tua'r flwyddyn 1810, mewn lle o'r enw Bryngwylan, lle yr oedd fy nhad a fy mam-yn-nghyfraith yn bywar y pryd, sef William a Charlotte Owens. Yr wyf yn cofio pan yn fachgen ieuanc fy mod yno droion yn gwrando yr enwog Christmas Evans. Cafodd amryw eu bedyddio yno. Yn mhen yspaid o amser synu, dododd William Owens oddiyno i'r Cefnfaes newydd, a buwyd yn pregethu yno hyd nes adeiladwyd Capel y Gilfach yn y flwyddyn 1814. Ail-adeiladwyd y capel yn y flwyddyn 1860. Rhif y cymunwyr yw 32; rhif yr Ysgol Sabbothol yw o 50 i 55.

Nid wyf yn cofio ond yn amherffaith iawn, pa bryd, na phwy a fu yn foddion i sefydlu achos y Bedyddwyr yn Methesda, gan hyny cynghorwn chwi i ymofyn a hen aelodau perthynol i'r Bedyddwyr yno, megys John Evans y *Carrier* ac eraill."

"Yr wyf yn cofio i mi glywed gan fy nhad fod y Bedyddwyr wedi bod yn pregethu yn Cilhafoden, sef yn y lle y ganwyd ac y magwyd fy nhaid, Harry Ellis, ac yn mblith eraill bedyddiwyd chwaer iddo yno o'r enw Elizabeth Ellis, ac yr wyf yn meddwl mai yno hefyd y bedyddiwyd un o'r enw Morris Ellis. Wedi i fy nhaid gael ar ddeall fod ei chwaer i gael ei throchi, gwnaeth ymdrech egniol i'w rhwystro i ufuddhau, trwy ddyweyd wrthi na chaffai ei chladdu yn yr un lle a phobl eraill, ond y cleddid hi mewn croes-ffordd, neu mewn rhyw le digon cyhoeddus a dirmygus yn esiampl i bawb a elai heilbio; ond yr ateb gafodd oedd—"ni waeth genyf yn y byd Harry pa le y cleddir fy nghorph, os bydd fy enaid tlawd mewn lle diogel, oblegid byddaf sicr o gael fy nghorph, pa le bynag y cleddir ef, a'i gael yn anllygredig hefyd yn moreu yr adgyfodiad." Yr oedd rhywbeth nodedig yn y wraig hon. Dywedir y byddai yn myned (cyn ymuno a'r Bedyddwyr) gyda gwraig arall oedd yn byw yn Cochwillan, ac mewn trallod meddwl yn nghylch ei chyflwr tragywyddol fel hithau, yn fynych ar ol

* Yn y Gilfach.

godro fore Suliau, gan gario eu rhai bach, tros y mynyddoedd uchel i Lanberis, i wrando ar weinidog duwiol a doniol perthynol i'r eglwys sefydledig; ac yn ol drachefn erbyn godro'r hwyr. Symudodd y teulu hwn o Gilhafoden i'r America er's 80 mlynedd o leiaf, ac ar y gwasgariad hyny darfu yr achos yn Nghilhafoden, ond buont yn offerynu i sefydlu achos Cymreig i'r Bedyddwyr mewn amryw fanau yn nghyfandir America, ag sydd yn para yn flodeuog hyd y dydd hwn.

Carwn yn fawr gael ychwaneg, os gellwch, o hanes hen Fedyddwyr Cilhafoden yn yr Hynafiaethau; yr wyf yn gwybod fod llawer o anhawswer trwy fod cymaint o amser wedi myned heibio, a'r hen bobl oedd yn gwybod am danynt wedi eu claddu. Ymddengys fod eraill wedi eu bedyddio yno heblaw y rhai a enwais, ac yr oedd ganddynt yn weinidog hen wr o'r enw Richard Michael.

Yn awr terfynaf gan ddysgwyl y bydd i'r hyn a ysgrifennai yn anmherffaith roddi i chwi radd o foddlonrwydd.

Yr eiddoch yn serchus,

HUMPHREY ELLIS."

Methodistiaid Calfniaidd.—Gyda throedigaeth Mr. John Williams, o'r Felin Isaf, gôf wrth ei alwedigaeth, y dechreuodd Methodistiaeth yn mhlwyf Lladegai, tua 1783. Cynhelid cyfarfodydd mawrion y pryd hwnw wrth briodi a bedyddio, a byddai mewn ambell briodas, lawer o ganoedd wedi ymgynull, a byddai hefyd nifer helaeth weithiau wrth fedyddio. Gelwid y cyntaf yn "*Briodas Fawr*," â'r ail yn "*Wledl Bedydd*." Un tro pan oedd J. W. yn gwisgo am dano i fyned i gyfarfod o'r dosparth olaf, tarawodd ar ei Fibl, a darllenodd ynddo y ddegfed Salm a deugain hyd yr unfed adnod ar hugain, yr hon a'i dwys-bigodd yn y fath fodd, fel na fu byth wed'yn yn ddyn yr un fath. Dywedir fod pregethu yr Efengyl yn beth prin iawn y pryd hwnw, ac yr oedd cerdded mawr i wrando pregethwr efengylaidd pa le bynag y ceid ef; a byddai pobl bryderus am eu hiachawdwriaeth yn cymeryd cryn drafferth. Byddai rhai o drigolion Nant Francon, ar y pryd yn myned tros Fwlch Brecan i Lanberis i wrando ar Offeiriad duwiol a elwid Mr. Morgan; a gwyldys y byddai dyn o'r enw Richard Roberts Talgae, yn myned fore Sabboth i Lanrwst,—ond mae yn hysbys mai i Sir Fon yr aeth J. W. i chwilio am falm i'w glwyf, lle clywodd yr efengylaidd Mr. Jones, o Langan. Yr hwn yn ol y Parch W. Williams, Pant y Celyn, a

Doddai'r cerig â'i fwyneidd-dra,

ac yn y bregeth hon y cafodd esmwythder i'w enaid, a dywedodd am y Methodistiaid, "*dyma fy mhobl i byth mwy*." Dywedir y byddai J. W. yn myned weithiau i Lanberis y bore, i Lanrug am ddau, ac i Gaernarfon drachefn i wrando pregethau, ac y deuai adref yn yr hwyr wedi teithio mewn un Sabboth 40 milltir! Llwyddodd tua 1787 i gael pregeth yn ei dy, a hon oedd y bregeth gyntaf i'r Methodistiaid yn mhlwyf Lladegai, lle bu pregethu o hyny allan am 8 mlynedd. Wedi iddo brofi o flas gwleddoedd yr efengyl ei hun, aeth awydd mawr arno o'r diwedd am i eraill hefyd eu mwynhau, efe a ddechreuodd ei hunan ar y gwaith o'i phregethu, a pharhaodd yn ffyddlawn trwy bob rhwystrau gyda'r gwaith hyd ei ddiwedd.

Dechreuwyd pregethu gan y Methodistaid yn mhlwyf Llanllechid trwy i fedydd-wraig dduwiol o'r enw Elizabeth Ellis, Tyddyn Isaf, fyned i Fochdre, oddeutu 15 milltir o ffordd, i geisio gan bregethwr Methodistaid o'r enw Thomas Hughes, yr hwn oedd grydd wrth ei alwedigaeth, ddyfod i'w thy i bregethu, i'r hyn beth yr ufuddhaodd, a hon oedd y bregeth gyntaf ganddynt yn mhlwyf Llanllechid. Yr oedd hyn tua'r flwyddyn 1777. Nid oedd hwn yn bregethwr mawr, meddir, ond yr oedd rhyw eneniad hyfryd yn dilyn ei sylwadau. Dywedir y cai Methodistiaid a Bedyddwyr dderbyniad i dy y Lydia Cristionogol hon, a byddai gwr grymus o'r enw Edward Williams vn byw yn Nhal y Sarn yn dyfod yno i'w cyfarfod i gadw clwre teg i'r pregethwr.

Ceir hanes drachefu i Mary Ellis, Tyddyn isaf, ac Ellen Williams, Cochwillan, fyned eu dwy i Fochdre a Llansantffraid Glan Conwy, a chael gan Thomas Hughes ddyfod i bregethu yma drachefu, ac hefyd un Rowland Prys; a chaed pregethu y tro hwn ar "gareg iarch," wrth glawdd mynwent Llanllechid, ond costiodd i T. H. dalu hauer cini am gael gwneud. A dywedir mai tad Daniel Jones, Llandegai, a'i rhoddodd i'r dyben hwnw. Dywedir i T. H. ddyfod un tro yr holl ffordd o Fochdre ar ei draed, i bregethu i Lwyn Penddu, ac iddo orfod dychwelyd adref cyn cael un tamaid o fwyd, er fod arno ei lwyr eisiau. Ni wyddis yn iawn pa sut y bu hyn, ond mae yn cael ei sicrhau. Mewn tynestl mae gwybod nerth llong, ac wrth gael gwrthwyncbiad mae hawddaf adwaen Cristion, ac felly goddefwyd i ddau bregethwr fyned trwy fath ar brawf. Cyn hyn yr oedd pregethu lled gyson wedi bod ar gylch y Sabbath, yn nhy Thomas W. Hughes, Tain y coed, a Than y Braich, ty William Parry, yn ystyls Cloddfa'r Cae, ac yn nhy John Williams, Felin Isaf. Y tri thy hyn oedd taith y Sabbath.

Un tro daeth Mr. Thomas, brawd y bardd Dafydd Ddu, at Lanllechid i bregethu, a safodd yn ochr ffordd, a Bibl yn ei law, ac wedi dechre pregethu daeth tri o ddynion erlidgar yno i'w aflorwyddu, gan flocddio rhyw beth gwael, a dynwared neidio; a chymerodd un o honynt ddyrnaid o laid y ffordd, ac a darawodd y pregethwr ar ei wyneb, yr hwn a syrthiodd oddiar ei wyneb ar y Bibl oedd yn ei law; y tarawiad hwn a ddallodd ac a ddyrysodd y pregethwr; ar hyn gwraig yr erlidiwr a waeddodd ar ei gwr,—*"Na unewch ddim iddo, oblegid y mae Bibl Duw yn ei law,"* ar hyn ataliwyd y cynhwrf, ac wedi i Mr. Thomas dynu allan ei gadach llogell, efe a sychodd ei wyneb yn hwylllog, ac a ddywedodd, *"Yr Arglwydd a ragflaeno aflwydd pobl Llanllechid!"* ac apeliai un o'r erlidwyr at yr un Bod Dwyfol, gan ddeisyf arno *"waredu Llanllechid oddiwrth y fath ddynion melltigedig!"* Yr oedd ôl y llaid ar y Bibl, ac yr oedd ar gael hyd yn ddiweddar, os nad yw eto.

Hefyd, darfu i Sais o oruchwyliwr i Mr Worthington droi yr hen bregethwr ffyddlon Mr. John Williams, Felin Isaf, allan o'i dy, heb un esgus ond ei fod yn coledd pregethu ynddo, ac er fod gan J. W. deulu lluosog, bu raid iddo fyned i fyw i dy pobdy yn Llandegai, lle'r oedd ei efail, ond dywedir i J. W. ddwyn ei groes yn dawel, a dyoddef y cwbl yn ddystaw er mwyn Crist. O'r diwedd cafodd pobl Llandegai a Llanllechid le i dybio fod yr Arglwydd wedi edrych yn ei anfoddlonrwydd ar y gweithredoedd hyn.

Yn fuan ar ol hyny aeth y goruchwyliwr yn ddall, a cholodd ei fasnach, a gorfu iddo droi yn ol am Liverpool yn siomedig a digalon. Goddiweddyd hefyd y dyn a luchiodd y pregethwr a llaid a marwolaeth ddychrynlyd; a chafwyd gwybod fod UN uwch na'r uwchaf yn gwylio symudiadau a gweithredoedd dynion. Ond cynyddu yr oedd crefyddwyr a chrefydd, ac aeth Tai'n y Coed yn rhy fychan, ac yn 1793 codwyd Capel yr Achub, a daeth Thomas Hughes i fyw i dy'r Capel. Mae yn weddus coffa y byddai y fath ddynion enwog ag Ismael Jones, John Elias, Jones Llangan, a Charles o'r Bala, &c., yn y dyddiau hyny yn pregethu yn y lleoedd hyn. Mae un nad oedd ond llanc y pryd hwnw, ond tros ei 80 mlwydd yn awr, yn cofio yr olaf yn pregethu ar y cae yn y Gatehouse. Gelwid y lle hwn felly am mai yma yr oedd gynt hen dy a elwid "Gatehouse Plas Ofa." Wedi hyny darfu i bregethwr Methodistaidd, a saer wrth ei grefft, o'r enw Robert Thomas, goai yno dy a gweithdy, ac yn yr olaf arferai bregethu, a hyn roddodd ddechreuad i'r pentref a'r capel hardd sydd yno yn awr. Ar ol amryw flynyddau o bregethu yn Nhan y Braich, fe ddechreuwyd pregethu yn nhy Owen Jones, Machine, a Thomas Rogers, yn Nghloddfa y Cae, ac yn mhen talm wedi'n yn y Felin Hen. Un tro daeth Mr. Jones, Llangan heibio, ac yr oedd yn awyddus am rodidi gair o gyngor i bechaduriaid, ac aed at Mr. Greenfield i ofyn cenad, ond ni roddai hwnw genad iddo i bregethu, ond fe'i derbynai fel boneddw'r i'w dy i gael gwydraid o win os mynai. Ond dywedodd Mr. Jones "Os na dderbyniwch chwi fi fel cenad tros Grist, yr wyf yn gwrthod eich cynygiad," ond dywedir iddo bregethu yma yn rhywle er hyny. O'r diwedd codwyd Capel y Carneddi oddeutu 1816, a Phen y groes tua 1837, ac felly o dipyn i beth darfu pregethu gan y Methodistaidd yn y Gloddfa, ac ar ol hyny codwyd capeli Mynydd Llandegai a Thy'n y maes, &c. Yn awr nid anmhriodol coffa am rai o'r offerynau a ddefnyddiodd Duw i ddefro dynion.

1. *John Williams, Llandegai*, fel y coffawyd oedd un o'r rhai a ddefnyddiodd Duw i droi aml un i'r iawn. Nid oedd yn bregethwr mawr, ond bywyd duwiol a diargyhoedd y gwr hwn a barai i bawb edrych arno fel gwr Duw, ac yr oedd pob un a'i clywodd unwaith mewn awydd am ei glywed drachefn, ac yr oedd yn barchus iawn yn mysge ei gymydogion. Bu farw yn 1816 yn 60 mlwydd oed. Yr oedd mab iddo yn ddiweddar mewn un o'r tai dymunolaf sydd yn Llandegai, a chanddo un o'r gefeiliau goreu yn y sir. Dywedir ei fod yn awr yn byw gyda ei ferched yn Llanfairfechan, ac mewn amgylchiadau cysurus. Fel hyn cofiodd Duw am y cyfawn, "*a'i had a fendithir.*"

2. *Parch. Daniel Jones* hefyd a fu o fendith i filoedd. Arferai gydgysffurfod a'r brodyr a addolent yn y Felin Isaf. Dechreuodd bregethu pan oddeutu 20 mlwydd oed, a hyny yn nhy Mr. Richard Jones, Tai duon, yn 1800, ac yn mhresenoldeb Mr. John Williams, ei hen Hyfforddw'r a'i gyduabod. Yn ei fywyd glan o rodio gyda Duw, ei sel a'i ddisfrifoldeb mawr, a'i bregethau syml ac eglur i ddeall y bobl, yr oedd cuddiad cryfder Daniel Jones. Yr oedd llawer yn ddysgedicach, ac yn honi pethau mwy, a llawer yn alluocach ar ryw ystyr, ond ni byddent un amser mor lwyddianus ag ef. Pan byddai ar fyned allan i'w daith, sylwodd un "mor daer y byddai yn crefu ar yr eglwys ei gosio yn ei gweddiau," a gweddiai

yntau ei hunan lawer yn daer yn y dirgel am i Dduw ei gynorthwyo, a chyda y byddai yn y pulput, telid iddo yn yr amlwg, trwy fod Duw ei hun wedi dod yno i ddwyn tystiolaeth i'w afoeniad; ac ni esgynai y pulput un amser heb ladd, clwyfo, neu feddyginiaethu rhyw un, ac weithiau lawer ar yr un oedfa. Yr oedd ei weinidogaeth ar y cyfan o natur gyffrous, i.e., yn gyfryw a'i gwnehai yn "*fab y daran*," a hoeliai bob clus wrth ddor ei athrawiaeth, duwiol ac annuwiol, dysgedig ac annysgedig, iwrando am eu bywyd. Dechreuodd bregethu pan yn ieuange, a pharhaodd am 50. Bu farw yn 1852 pan oddeutu 72 mlwydd oed, a newydd ddyweyd "*Nad oedd dim yn sicr yn y byd hwn ond Trefn y Cadw*." Gwel ei *Gofiant*.

3. Y *Parch Morris Jones* hefyd a fu yn ymdrechgar dros Grist, ac yn gynghorwr da bob amser. Nid oedd yntau ychwaith yn ddysgedig, ond yr oedd yn dalentog rhaid addef, a byddai ganddo weithiau ambell ruthr o hyawdled a synai bawb. Yr oedd hefyd yn dduwinydd galluog, ond iddo gael gosod allan ei feddyliau yn ei iaith ei hun. Ond piif gamp y tad hwn hefyd oedd ei ffyddlondeb. Byddai yn croes mynyddoedd mawrion ei gymydogiaeth haf a gauaf bregethu, a bras-gamwr braf hefyd oedd efe. Llauer bore Sabboth y cychwynodd i Gwm Eigia, ac wedi myned i'r mynydd tynai oddiam ei draed, a chroesai yr Aryg, ac ai lawr i Gwm Eigia. a Chedryn i bregethu, ac yn ol drachefn yr un dydd. Bu am ffynyddoedd hefyd yn myned trosodd yr ochr gyferbyniol i Lanberis. Ai y bore i Ddrws y Coed, am 2 i Lanberis, a'r hwyr i'r Tai duon. Pan oedd yr achos yn isel yn nechreuad ei weinidogaeth, bu yn myned i bell ffordd, a chael am ei lafur ddim ond 1s. 6c. am Sabboth, a gwyddys na chafodd un troddim ond 6c.! Ond parhai i weithio yn siriol, gau fyned i geselliau y mynyddoedd, lle nad ai neb braidd un amser. Cymerai weithiau daith i Fodesi a Thal y Braich, &c., ac adref yn ol, a hyny er mwyn dyrnoid o gymydogion oeddynt rhy bell i gael nemor foldion. Un tro pan oedd yn Modesi daeth bugeiliaid y fro i'r bregeth, a phob un a'i gi gyd ag ef, onid oedd y cyfarfod haner yn haner rhwng cwn a phobl; y pregethwr yn y canol a'r gynulleidfa amrywioz o'i gwmpas. Yn ymyl y pregethwr safai hen wr a phastwn mawr ganddo cyfuwch a'i ben, i giddw trefn ar "*gynulleidfa y cwn*." Awgrymodd y pregethwr y "*buasai yn dda ganddo pe troisid y cwn allan, rhag iddynt fyned i ymladd ar ganol y bregeth*," ond atebodd yr hen wr, "*Dywed di dy wers fy machgen i, mi edrychaf fi ar ol y cwn*." Aeth y pregethwr yn mlaen, a phan ddechreuai y cwn chwyrnu a noethi eu danedd, codai yr hen wr y pastwn i fyny, a thawent yn y fan. Ond pan oedd y bregeth bron darfod, dechreuodd y cwn ymladd yn ofnadwy, a thawodd y llafarwr. Wedi gwneud heddwch, aeth yr hen wr at Morris Jones a dyweddodd, "*Wel yn wir, mi ddeudist wers dda amhosib, doro i mi damaid o dobaco, am i minau gadw'r cwn mor dda hyd y diwedd!*" Byddai yr hen wr hwnw yn cau i fyny y cwn pan fyddai yn myned i ffair Llanrwst, a chlywodd M. J. hyny, a phan y gwelodd ef dro wed'y dywedodd wrtho, "*Wel, mi glywais y byddi yn cau y cwn i fewn wrth i ti fyned i'r ffair, paham na fuasit yn gwneud felly hefyd wrth ddod i'r oedfa?*" Digiodd yr hen wr, ac ni welodd M. J. ei wyneb ef mwyach yn y bregeth. Oddeutu 15 mlynedd yn ol yr oedd ymddadlleu mawr yn mhlwyf Llanllechid yn nghylch yr "*Olyniaeth Apostolaidd*," ac er nad oedd y pre-

gethwr hwn yn gofalu nemor am hyny, eto clywyd ef un tro yn sylwi yn fanwl ar y ddwy adnod olaf yn Epistol Iago, yn enwedig ar y geiriau "Fy mrodyr, od aeth neb o honoch ar gyfeiliorn, *a throi o ryw un ef*," gan bwysleisio yn drwm ar "*ryw un*"; "ie," meddai, "pe bawn i bach yn offeryn yn llaw fy Nuw i droi *ryw un* o gyfeiliorni ei ffordd, myfi a deimlwn yn hoffach o'r weithred na phe buasai dwylaw holl esgobion y deyrnas wedi bod ar fy mhen!" Wedi bod yn pregethu am oddeutu 50 o flynyddoedd, bu farw Mai 20, 1862, yn 80 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Glan Ogwen, a rhoddodd eglwys Jerusalem wlyddfa ardderchog ar ei fedd. Fel hyn terfynodd y dyn diodres hwn oes faith a defnyddiol.

Yr Ysgol Sabbothol.—Mae yn debyg mai yn Nghae Gwigyn y cadwyd yr Ysgol Sabbothol gyntaf yn sir Gaernarfon, a hyny gan y Parch. Wm. Hughes. Y nesaf at mae yn debyg oedd Ysgol Sul Bryn yr Odyn tua 1791, a'r nesaf drachefn fe allai oedd Ysgol Sul hen gapel yr Achub tua 1798. Ond yr oedd rhyw beth tebyg iddi cyn hyny yn Mraich Ty Du. Tua 1794 daeth gwr ieuanc o'r enw John Humphreys i weithio at Thomas Hughes i'r Achub, a chafodd y gwr hwn ar ei feddwl i fyned i'r Braich Ty Du i ddarllen y Bibl bob nawn Sul, lle yr ymgynullai lluaws i wrando arno; a dywedid iddo hefyd ddechre cadw Ysgol yno, ond ynguddiedig, oblegid yr oedd gelynyon ffyrnig hyd y nod o blith crefyddwyr i'r Ysgol Sul y pryd hwnw; a dywedir am un Bedyddiwr o blwyf Llanllechid, ei fod wedi myned mor dduwiol(?) fel na ddeuai gymaint ag i'w golwg! Ystyrid cadw Ysgol y Sul yn *waith*, ac yr oedd gweithio ar y Sul yn *bechod*; ac edrychid ar John Humphreys yn gymaint pechadur fel yr aeth rhywrai a'i achos i'w drin i'r cyfarfod misol! Yr oedd J. Humphreys erbyn hyn wedi priodi merch i Thomas Hughes, ac aeth ei dad-yn-nghyfraith er yn lled ddigalon i'r cyfarfod, er mwyn cael gwybod pa fodd y troai tynged ei fab-yn-nghyfraith. Daeth y Parch. T. Charles, y Bala, i'r cyfarfod hwnw, yr hwn y dywedai rhai ei fod yn erbyn yr ysgolion Sul cyn hyny. Fodd bynnag, wedi siarad ac ymdrin â'r mater, fe drodd y rhod yn y cyfarfod hwnw i J. Humphreys fyned yn mlaen gyda chadw Ysgol Sul, ac i gael ei oddef i fod yn y *Society* hefyd! Ar hyn dychwelodd ei dad-yn-nghyfraith adref yn llawen gyda'r newydd, ac a ddywedodd, "Wel John, y mae croesaw i ti gael cadw Ysgol y Sul, a chael bod yn y *Society* hefyd!" Mae yn debyg mai ar ol y cyfarfod hwn y dechreuodd Ysgol Sul yr Achub, yr hon a gedwid gan David Wilson, yr hwn a gadwai Ysgol ddyddiol; a Thomas W. Hughes, saer wrth ei alwedigaeth, yn byw yn Nhain y coed, gwr da a defosiynol; ac William Hughes, gwëydd, ac ysgolhaig go dda o Lanllechid. Dywedir mai o 10 i 12 oedd nifer dechreuol yr ysgol. Cyn hir daeth atynt ddau eraill, sef William Jones, Abercaseg, a Richard Jones ei frawd, a bu y ddau yn bur ffyddlawn gyda yr Ysgol Sul, ac yn enwedig y cyntaf; bu ef felly yn ei dilyn am oddeutu 40 mlynedd. Efe, mewn undeb ag Edward Thomas, Tal y Bont, a ddechreuasant Ysgol Sul tua 1800 yn y *Gatehouse*. Bu W. J. yn cadw ysgol y nos hefyd yn Nhregarth, lle bu wed'yn Ysgol Sul, yr hon a symudwyd i'r Felin Hen, &c. Yn y flwyddyn 1842, yn mhen oddeutu 50 o flynyddau ar ol ei chychwyniad, dywedir fod oddeutu 17 eraill wedi heidio o honi, ac yn lle bod yn 12, fod eu nifer yn 3000! Hawdd erbyn hyn y gallasai

waeddi "Fy nant a aeth yn afon, a'm hafon yn for." Cedwid hefyd Ysgol Sul yn eglwys Llanllefai tua 1810. Ychydig iawn oedd yma o Fiblau yn nechre y canrif hwn, a fli na hyny drachefu oedd y rhai a fedrent ddarllen, ond rhoddodd yr Ysgol Sul trwy gymorth dynion da wedd newydd ar bechau. Rhodd i ni b. Bach ddyweyd ychydig am

William Jones, Abercseg. Yr oedd ef yn wr cyfiawn yn ei oes, yn danlyd yn erbyn pechod, ac yn ofni yr Arglwydd yn fawr, ac yn ofn i weithredodd drwg. Gyla'r Ysgol Sul, yn ei dechren, yn casglu ieu-
onctydiddai, ac yn ei wrth yn atoli yn ei diwedd, yr hynododd ef ei hua fwyaf. Yr oedd ganddi burch mawr i dilyn yr Arglwydd; yn llawn o foddwl, a'r meddwl hwnw ar dda dios ei sancteiddiad. Bu adeg ar y plwyf hyn p'u ymrodol Satan, trwy ryw offeren neu gilydd, ar ddi-
lynwyr Crist fel yr ymrodd ei ar dda fell o ddaell, ond yr oedd W. J. yn ddiagon o lew i ymrodd ar lonaidd eio o b. Bach yr Satan oni byddent yn ffoi o'i flaen fel rhag gwr a chloddef; pan fe fli pentwr o ieuonctyd wedi tyru i stol y gwatwar, neu i gicio pel droi i y Sal, &c., byddai ymddangos-
iad W. J. yn chwella a nynt am y diwedd hwa. Un tro yr oedd llanc gyda genwair ar fore fli wrth Gollha y Cae yn mymped i ymenweirio, ac a plwy y cyfarfa ond a W. J. Ar hyn rhedodd y llanc i syny tua'r Ffionlwydd a W. J. ar ei chae o'i fli p. Bach o'i ddaell, chloddef ac ni or-
phwysodd y llanc nes cyfarfa dda y cyfarfa. Cafodd y llanc hwa cyn hir wrth ddydd i fo fli gwr, dro fli gwr, ac a fli yn golofn hardd yn nhy Ddau; ac nid oedd fli heb fli môr dda dda fli hwa, y diweddard Mr. Thomas Jones. Ffionlwydd! fli W. J. holl bant yr ardal i'r Ysgol, fli pe buasai ganddi ddyddiad (fli) i fli. Dygwylodd unwaith fod dda fli gwr neu yma; o b. Bach fli fli yma fli i Ysgol Sul yr Aelub. Gwddodd un o'r fli gwr y cyfarfa ar y cyfarfa, a seren wen yn ei dalcen. Ar hyn ddiwedd y bachgen dda fli hwa a'i gymdeithion y tarawai efe y ceffyl ya nghenol y seren wen, ac a fli ymddodd gwr ac a darawodd yr enifail yn union ar y fli y dywdd fli, onid oedd yr anifail truan mewn dygn loesion. Ebya iddynt gwr fli yr ysgol, yr oedd W. J. wedi clywed yr hanes gan rywun, a gwaeddodd ar y bachgen dda fli, "Aros di, D. J., tyred di yma at y pren dywdd," ond pa un ai ei osod i sefyll ar faine yn newydd yr ysgol, ai arfer y wialen fedw ato, oedd yr hyn a fwiadai W. J. ni fli yr ysgol fli. Ar hyn fli y bachgen allan rywsut o'i afelion, ac yr oedd yn gred "Os rhedai dyn i'r môr can beiled ac y cyfarthai ei," y byddai yn ddiagon; wel, fe fli y bach-
gen allan, "Aed tri o'r rhai cyflyma ar ei ol," meddai W. J., ac feily fu; rhedodd y bachgen drwg i waered at ben isaf plwyf Llanllechiad, heb edrych ar ei ol, tra yr oedd y bechgyn yn ei ddi'yn am ryw hyd, ac ni orphwysodd nes cyriaedd Traeth Lafan! Mae y bachgen hwnw yn hen wr heddyw, a gall ddyweyd yr hanes. Dro arall, pan oedd W. J. gyda chyfaill yn dychwelyd o gadw ysgol y nos o Dregarth, clywai mewn ty yn Mhen y Groes floeddio hwre! a thybiai mai canu a dawusio oedd yno, ac aeth ar ei union at y drws, pryd y deallasant pwy oedd yno, ac y difoddasant y canwyllau, ond aeth W. J. i'r ty, ac ar ei liniau yn y tywyllwch, i weddio a'i holl egui tua'r nefoedd yn eu hachos, a gweddi ryfedd, daer a difrifol oedd, meddai un oedd yno; fel hyn fli fli y chware (oblegid chware cardiau yr oeddynt) fel

na theimlodd neb awydd yno i fyned at y gwaith drachefn. Dengys hyn yn fyr, y fath ddyn o naws ac yspryd oedd W. J. Fel hyn, yn ei amser ef, a thrwyddo ef yn benaf, yn nghydag eraill, rhoddwyd terfyn ar lygrodigaethau y Briodas Fawr, Gwledd Belydd, &c., yn nghyd a'r halogi a fyddai ar Ddydd yr Arglwydd trwy chware cardiau, y bêl droed, y bêl bared, a'r bandi, &c. Bu ei gateceisio, ei gynghorion tadol, a'i weddïau taerion, yn foddion i droi ugeiniau o gyfeiliorni eu ffyrdd. A phan oedd ar ei wely, ar ymadael i fyned i dderbyn ei wob, yn anfon ei gynghor olaf i ysgol y Carneddi gyda ei hen gyfaill y Parch. Daniel Jones, aeth yr holl ysgol, yn hen ac ieuanc, i wylo fel plant. Gwel *Cofiant y Parch. D. Jones*; *Y Drysorfa* llyfr xii.; a *Meth. Cym* t. d. 247—253.

Y Wesleyaid—Yn y flwyddyn 1802, a 99 o flynyddoedd ar ol geni y Parch. John Wesley, y daeth yr enwog Mr. Jones, Bathafarn, ac a safodd ar gareg farch i bregethu o flaen tafarndy a gedwid gan Mr. J. Walker yn Nhal y Bont, lle cafodd gynulleidfa dda a gwrandawriad astud; a hon oedd y bregeth gyntaf gan y Wesleyaid yn y parth hwn.

Wedi hyny, rhyw gyda'r nos tua'r 16eg o Fai yn y flwyddyn ddylynol, daeth dau wr ieuanc ar feirch i fyny oddiwrth Fangor, ac a safasant o flaen yr hen Durnpike, gan ymholi am offeiriid Llandegai a Llanllechid; ac am naws eu hysprydoedd, eu llafur, a'u defnyddioldeb; ac wedi darfod, gofynent am y dafarn nesaf a gaent cyn cyrhaedd Capel Curig, pryd yr enwid iddynt yr *Hall*, yn ngodre y Gloddfa; yna marchogasant tua'r Benglog, ac yr oedd erbyn hyny yn lled hwyr; a sylwyd fod lediaith Saesneg yn drwm iawn ar un o honynt.

Yna aeth yn gryn bryder ar feddyliau y cymydogion am eu cerdded, a pha'm yr ymholent am yr offeiriad; rhai a ddysalent y peth yma, ac eraill beth arall, ac ofnid fod ganddynt ryw amcan heblaw yr hyn oedd dda.

Fodd bynag, digwyddodd fod rhai o honynt wedi myned i eglwys Llandegai fore y Sabboth canlynol, a phwy a welent yno, ac a glywent yn canu fel angelion, ond y gwyr dieithr a welent wrth yr Hen Durnpike ryw noson yn yr wythnos o'r blaen; ac erbyn hyn dyma hwy mewn mwy o niwl yn eu cylch nag o'r blaen. Ond wedi dod allan o'r eglwys dyna un o honynt yn cyhoeddi y byddent y prydawn hwnw yn pregethu yn ngheg Lôn Pobdy yn Mangor, a hyn oedd y goleu cyntaf ar eu hachos i'r gwyr hyn; a gellir ychwanegu i'r gwyr dieithr bregethu unwaith neu ddwy yn yr Hen Durnpike cyn diwedd yr haf hwnw.

Y gwyr hyn a adwaenid yn dda wedi hyny wrth yr enwau Meistri Bryan, a Jones Bathafarn, a dywedid mai dyfod yn genhadon dros Wesleyaid Lloegr a wnaethant. Wedi iddynt bregethu mewn amryw fanau, ac i'w daliadau ddyfod yn hysbys i'r bobl a ffurfient y gwahanol enwadau a'u rhagflaeniant, dechreuent eu gwrthwynebu, ac er eu bod yn methu cydweled yn mhob peth a'u gilydd, fel y mae plant Adda gyda phob peth bron, eto hwy a gytunent i wrthwynebu y gwyr dieithr, a chynghor goreu y gwr duwiol hwnw, Mr. William Jones, Abercaseg, oedd, "Ciliwch o diwrth y dynion hyn," yr hyn a ddengys nad yw dynion da yn cadw eu lle bob amser. Maen trangwydd mawr eu gweinidogaeth oedd, eu bod yn dal allan bryndigaeth gyffredinol; golygiad lled ddiethr y ffordd hon cyn hyny.

Dilynydd hwy yn fuan gan Meistri W. Jones, Llanellidan, yr hwn a

bregethodd yn Nhan y Braich. (lle erbyn hyn sydd wedi ei orchuddio gan domen y Gloddfa); a chan J. Morris, Isallt, swydd Ffint; ac fe fu y Wesleyaid yn pregethu o dy i dy am 27 o flynyddoedd.

Ar ol bod yn Nhal y Bont, buont yn cael derbynriad i dy Mr. Gruffydd Humphreys, Lon isaf, ger y Dollglwyd; ac wedi hyny yn Mryn Cul (*cultion—gwybed*); symudasant oddiyno i Gae-erfin (*neu hîrfryn*), lle buont am flynyddoedd yn ymluosogi ac yn casglu nerth. Pregethent hefyd yn achlysurol yn nhy Wm. Owen, Pencraig, ger Pont y Tŵr, ac yn nhy Richard Williams, Pen y Groes, tad Meistri R. Williams a W. Williams, goruchwylwyr yn Rhiw Bryfdir. Ffestiniog. O Gae-erfin symudasant i weithdy gwëydd yn Nhy'n y Clawdd, lle gweddol, os byddai y tywydd yn sych, ond nid felly os yn wlybyrog, ac o'r herwydd pregethent yn aml yn nhy Mr. Richard Hughes, tad Mr. John Hughes, Hirdir, (gwr sydd a'i glod yn uchel fel meddyg anifeiliaid), yr hwn cyn hir a ganiataodd iddynt fyned i'r ysgubor, yr hon yn fuan a aeth yn rhy fechan, pryd yr ymgwymerodd y brodyr a'i ehangu, ac hefyd ddodi pulpud ac eisteddleoeedd ynddi, a chaed yma lawer gwledd mewn moddion gras.

Oddeutu 1826 yr oedd yma yn y Gylchdaith y fath ddynion a'r Parchedigion Lot Hughes a William Davies, yr olaf wedi hyny a fu yn genadwr yn Africa, ac a ysgrifennodd deithlyfr difyrus o'i hanes. Yr oedd y weinidogaeth yn rymus, y canu yn swynol, a'r gynulleidfa yn gystal a'r eglwys yn cynyddu. Erbyn heddiw y mae y cyntaf wedi myned yn henafgwr, ac yn byw yn Abergele; a'r olaf yn cysgu yn llwch y ddaear er's blynyddoedd.

Aeth y capel, neu yn hytrach, yr ysgubor, hon eto yn rhy fychan, a buont yn ceisio am oddeutu tair blynedd cael lle i adeiladu capel mwy, ond yn methu ei gael. O'r diwedd rhoddwyd R. M. Prees ar ben y ffordd i lwyddo, sef trwy gael gan yr ardalwyr lawnodi Deiseb, a'i hanfon trwy law Mr. Wyatt y Goruchwyliwr i'r anrhydeddus George Hay Dawkins Pennant (nid Col. Pennant fel y dywed *Yr Emgïawn*), Castell y Penrhyn, ac fe gafwyd tir yn Mhen yr Ala, lle y codwyd arno gapel, yr hwn ar ddydd ei agoriad, Medi 6, 1829, a alwyd Shiloh; a hwn oedd y lle cyntaf y caed cenad i adeiladu capel arno yn nhlwyf Llandegai.

Bellach cymerodd yr achos wraidd, ac a daffodd allan gangenau, megys Rehoboth yn Mharc y Mocr, Peniel yn mynydd Llandegai, Soar yn Mhont y Wern, y Rhiwlas, Siloam hefyd yn mhentref Bethesda, a Salem yn Nghae-llwyngrydd. Am yr anghydfod a ddigwyddodd yn ddigon naturiol rhwng y brodyr a'u gilydd oddeutu y blynyddoedd crybwylledig, neu pa blaid oedd yn ei lle, neu heb fod yn ei lle, nid yw yr ysgrifenydd yn cymeryd arno ddyweyd, pe gallai, "y dydd a'i dengys." Y mae Pen yr Eglwys hyd yn hyn yn goddef i lawer o bethau gydweithio i brofi dynion.

Bu yn llafurio yn y gylchdaith hon o bryd i bryd amryw ddynion enwog, megys S. Davies, T. Anwyl, T. Aubrey, D. Williams, a Rowland Hughes, yr hwn a gyfieithodd i'r Gymraeg Esponiad J. Wesley ar y Testament Newydd; yn nghyd a llauws o lafurwyr eraill rhy luosog i'w henwi.

Ni chododd yn Shiloh, Tregarth, er y flwyddyn yr adeiladwyd, hyd eleni (1866), ddim llai na 30 o bregethwyr, amryw o ba rai a fuont neu ydynt yn ddynion lled gyhoeddus, megys J. Owen, Ffynon Bach; Hugh

Hughes, (*Tegai*); ac oddiyma meddir yr aeth John Jones, (*Vulcan*), 'r gwaith yn rheolaidd. Y Parch. Evan Davies yw gweinidog presenol y Gylchdaith; ystyrir ef yn bregethwr da, a chymydog caredig, a phawb yn ei hoffi ef a'i briod. Ysgriflenniwyd amryw o'r pethau hyn o enau pregethwr cynorthwyol a'i wraig o'r gymydogiaeth, sef y ffyddlawn Mr. John Ellis, Talgae, y rhai ydynt eu dau mewn gwth o oedran. Gwel *Yr Eurgrawn*, Ebrill, 1865; *Enwogion Cymru*; *Hanes Cymru*, t. d. 323.

Wrth ddiweddu hyn o hanes, ni tyddai allan o le crffa yma am y ddau englyn dyddan, y bu y Parch. Richard Boner, â'r Parch. Dafydd Gravel yn eu bwrw at eu gilydd, pan nad oeddynt y pryd hwnw ond lled ieuaingc. Un tro darfu i'r blaenaf oddiar naws bywiog a siriol ei yspryd, a'i nodwedddai bob amser, wrth sylwi ar hynodrwydd cyfenw yr olaf, olyn iuddo,—

AI *Grafel* yw sail dy grefydd,—neu dywod

Dywed imi Dafydd!

Neu dawel fwi o dywydd

Yn Nghrist lon yw ffon dy ffydd?

Pryd yr atebodd yr olaf,—

Mewn hyder, Boner rwy'n bwrw,—yn Nghrist

Fy nghraig rhag y distryw,—

Fy daall, efe ydyw,

Ty a ddeil i'r tywydd yw.

Saint y Dyddiau Diweddaf.—Oddeutu 1847 pan oeddid yn tori y ddyffrffos tanddaearol o Danysgraffell i'r Gloddfa, daeth amryw o'r enwad uchod i'n gwlad fel *miners* o ardal y Merthyr, a phregethent yn yr awyr agored, a gwnaethant ymdrech i enill rhai atynt, a dywedid fod rhai o honynt yn ymfrostio mewn gwneuthur gwyrthiau; (Deillia y gair *gwyrrth* o *gôwyr*, meddylieim, am fod natur ar y pryd yn *gôwro* o'i ffordd gyffredin), ond ni welwyd yma ddim felly. Codai rhai o honynt o leiaf, "*Llyfr Mormon*" yn ogyfuwch ei awdardod â'r BIBL, a dadleuent dros *amlwreicrheith* &c.,—Gweithwyr cyffredin oeddynt, ie, hyd yn nod y rhai a elwid ganddynt yn Apostolion. Wrth ymresymu ymddangosent yn fwy *twylledig* na *goluedig*; ac heb adwaen y *Gwirionedd*, neu ynte *heb ei dderbyn yn y cariad o hono*. Yr oeddynt yn fwy o wrthrychau tosturi, nag i ddigio wrthlynt; ac yn eu pregethau yn gyffredin, bradychent fwy o'r ffŵl, nag o'r cnaf. Ar ol bod yma yn ymddadlu am o 8 i 10 flynyddau, ac i fechgyn y Gloddfa eu pwyso, â'u cael yn brin yn nghlorian y cyssegr, ymadawsant am gymydogiaeth y Llyn Halen yn America.

Yn awr, trown yn ol at y pum enwad Cristionogol a goffawyd, cwerylon y rhai a'u gilydd yn y 60 mlynedd diweddaf, a adawn heibio, yn unig gyda choffa fod amynedd Duw tuag atom wedi bod yn fawr dros ben, pan yn ein harwain oddi amgylch i beri i ni ddeall, fel erbyn y dyddiau nyn o heddwch a thangnefedd, pan mae y llyfr hwn yn myned i'r wasg, mae pob llwyth o Gristionogion wedi rhoddi heibio eu dadleuon, gan ymroddi i lafur, gan gofio y gosodir ni ôll ger bron Gorseddfaen Crist. Yn awr mae genym y pleser o ddwyn ger bron y profion hyn o lafur gariad, gweinidogion y Gair, ac athrawon yr Ysgol Sul, yr hyn ni all lai na sirioli dyn dâ, o ba blaid bynag y bô. Derbyniwyd cynwysiad y daflen ganlynol oddiwrth *Ysgrifenyddion, Diaconiaid*, neu *Weinidogion* pob plaid, o'r bron, iei y gellir ymddiried yn ei chywirdeb.—

TAFLEN EGLWYSIG,

Yn cynwys enwan lleoedd addoliad, enwan gweinidogion, nifer y cymunwyr, ac aelodau yr Ysgol Sul; ac yn nodi yr amser y dechreuwyd pregethu, a pha bryd y codwyd y lleoedd addoli gyntaf, ac eilwaith, felly safai pethau yn mhwyfi Llandegai a Llanllechid Rhag. 1864. Saif **A** am Annibynwyr, **B** am Bedyddwyr, **C** am Galfinaid, **E** am Eglwyswyr, ac **W** am Wesleyaid.

LLEOEDD ADDOLIAD.		Y GWEINIDOGION.		EU PRESWYLEFA.		Rhif y Cymunwyr.	Rhif yr Ysgol Sul.	Y pryd y cyntaf y cyntaf.	Y pryd y cyntaf y cyntaf.	Y pryd y cyntaf y cyntaf.	Y pryd y cyntaf y cyntaf.
A	Bethesda	Y Paroch. R. Williams	E. Stephen	Dolawen	Tan y marian	593	450	1820	1841	1784	"
B	Cae Gwigrn (Bethlehem)	"	"	Tan y marian	"	130	120	1825	1860	"	"
	Carmel yn Nghaellwngrydd	"	"	Ty'n Lôn	"	200	210	1839	1860	"	"
	Ananah, yn mynydd Llandegai	"	"	Tal y Waen	"	60	100	1846	1853	"	"
	Saron, yn Nant Ffrancoon	"	"	Bethesda	"	30	50	1860	"	"	"
	Nant y Benglog	"	"	Carneddi	"	18	20	1853	"	"	"
C	Capel y Bedyddwyr yn Methesda	"	"	Carneddi	"	70	71	1834	1856	1771	"
	Capel y Bedyddwyr yn y Gilfach	"	"	Carneddi	"	32	50	1814	1860	"	"
	Capel Llanllechid	"	"	Carneddi	"	407	407	1827	1838	1777	"
	Capel y Gatehouse	"	"	Carneddi	"	32	407	1827	1838	"	"
	Capel Pen y Groes a'r ddwy ysgol	"	"	Carneddi	"	160	200	1799	1863	"	"
E	Capel Jerusaleu	"	"	Carneddi	"	124	155	1837	"	"	"
	Salem, Capel Curig, a'r tair ysgol	"	"	Carneddi	"	523	500	1842	"	"	"
	Ysgoldy Ty'n y Maes	"	"	Carneddi	"	110	180	1826	"	"	"
	Heronon, yn mynydd Llandegai	"	"	Carneddi	"	67	81	1843	"	"	"
	Capel Bryn teg, yn M'hantreiniog	"	"	Carneddi	"	137	160	1846	1856	"	"
W	Eglwys Llandegai a'r Gelli	"	"	Carneddi	"	150	301	1864	"	"	"
	Eglwys Llanllechid a'r pedair ysgol	"	"	Carneddi	"	180	210	510	"	"	"
	Eglwys Capel Curig	"	"	Carneddi	"	204	350	515	"	"	"
	Eglwys Sant Ann a'r tair ysgol	"	"	Carneddi	"	160	210	1813	1865	"	"
	Eglwys Glan Ogwen	"	"	Carneddi	"	180	140	1856	"	"	"
W	Shiloh, Tregarth	"	"	Carneddi	"	206	236	1829	1858	1803	"
	Siloan, yn Methesda	"	"	Carneddi	"	93	90	"	"	"	"
	Salem, yn Nghaellwngrydd	"	"	Carneddi	"	26	48	"	"	"	"
	Peniel, yn mynydd Llanegai	"	"	Carneddi	"	26	40	1845	"	"	"
	Peniel, yn mynydd Llanegai	"	"	Carneddi	"	26	40	1845	"	"	"

Oddiwrth y dafenn gwelir fod genym 4163 o gymunwyr, a 4894 yn perthyn i Ysgol Sul, gyda 26 o addoldai; a phe dywedem fod tri addoldai ar Y Sul, a dau yn yr wythnos yn mhob addoldy, yr hyn a wna'i y cwbl yn 5 i bob un, fe wna'i yr oll 130 mewn wythnos, yr hyn a ddengysa fod traddodion gras yn lleoseg erbyn hyn yn ein mysg.

Ysgolion Dyddiol.—Cedwid y rhai hyn yn yr Eglwysi, neu mewn ad-eiladau perthynol i dai anedd, neu Gapeli os byddent. Er nad oedd yr Ysgolfeistri yn drwyddedig, na dysgedig fel y deallir y geiriau heddyw, eto hwy a'r offeiriad oedd unig oraclau yr hen amser o'r bron.

Dodwn yma enwau rhai oedd yma tua diwedd y ddeunawfed canrif, a dechre y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a dechreuwn gyda

LLANDEGAI.

1. *Thomas Thomas*, Clochydd a gadwai ysgol yn yr Eglwys oddeutu 1765.
2. *Thomas Jones*, mab Nant Gwreidiog, oedd glochydd ac a gadwai ysgol yn Eglwys Llandegai tua 1791.
3. *Richard Williams*, Clochydd Llandegai, a fu yn cadw ysgol am beth amser yn yr Eglwys, ac hefyd yn y Ty Gwyn, oddeutu 1799.
4. *Ellin Matthew*, Pendinas a gadwai ysgol yn ei thŷ oddeutu 1792 hyd 1825. Hen Gristianes synhwyrol a chynieradwy gan bawb oedd Ellin, ac yn aelod gyda yr Annibynwyr.
5. *Ellin Thomas*, Coed y Parc a gadwai ysgol mewn tŷ, ac yr oedd yn aelod gyda yr Annibynwyr.
6. *Ellis Gruffydd Williams*, Braichtalog, (mab i'r diweddar Gutyn Peris), a dderhyniodd ei ysgol, ac a raddiwyd yn Glasgow (*Glasgoed*) yn Ysgotland, ac a fu yn cadw ysgol yn Shiloh, Tregarth, oddeutu 1844, ac a symudodd i Aberystwyth, ac yr oedd yn bregethwr gyda y Wesleyaid.
7. *John Williams*, Ty'n y Clawdd, a fu yn cadw ysgol yn hen gapel y Wesleyaid, oddeutu 1825. Ystyri'd ef yn ysgolor dâ.
8. *Edward Williams* a gadwai ysgol yn Mraichtalog, tua 1795, dywedir ei fod yn ysgolaig medrus, athraw da, a phregethwr doniol.
9. *Robert Parry*, (*Robin Dâu*) a fu yn cadw ysgol yn Nhy'n y Clawdd, mae efe yn fyw eto, a'i enw fel ysgollaig, bardd a darlithiwr yn ddigon hyspys. Os ydys yn cofio yn iawn, fe ddwyed Robert Parry, yn bur ddyddan, mewn llyfr o Farddoniaeth rhagorol a gyhoeddodd yn ddiweddar, mai yn grydd y dygwyd ef i llynu, ond na bu erioed yn cuog o wneyddwy esgyd yn gymeiriad! Nid oedd neb yn fwy ei barch nag ef yn nhy Gutyn Peris.

LLANLLECHID.

1. *Richard Gruffydd* a gadwai ysgol yn yr eglwys oddeutu 1789, a byddai yn arferol o dori llythyrenau ar feddfeini.
2. *Dafydd Wilson*, ysgolfeistr, a bardd da, a gadwai ysgol oddeutu 1794. Efe a osododd ddeial yn Llanllechid, ac yn y Penrhyn. Wedi hyny bu yn *exciseman* yn Llangollen, ac yn ddiweddas yn Nefyn, a Phwllheli. Canodd farwnad hodegog i'r diweddar Barch. T. Charles, Bala, a barnai Gutyn Peris hi yn uwch mewn teilyngdod, na'r un a argarphwyd gyda Chofiant y gwr hwnw. Clywais ardrol y llinellau carlynol o honi ;—

Rhyw Elias dderbynio ei fantell

A rhagddo'n fil gwall-well a'r gwaith.

3. *Owen Jones*, oddeutu 1799; wedi hyny aeth oddeutu 1800 i gymeryd gofal *machine* yn Nghloddfa'r Cae, a berthynai i'r ffordd haiarn, a hon oedd y gyntaf o'r fath. Bu ynddi tros 40 mlynedd, a gadawodd ar ei ol dir, at gael ysgol Frytanadd yn Llanllechid. Rhoddodd hefyd at y cyfryw £144.
4. *Mr. Morris*, a gadwai ysgol yn yr eglwys oddeutu 1802.
5. *Thomas Williams*, a gadwai ysgol yn Ty'n Twr, oddeutu 1832.

6. *Thomas Jones*, Bethesda, oddeutu 1825, ac a symudodd i Benmynydd Môn;—yr oedd i efe yn bregethwr gyda yr Annibynwyr.

7. *Hugh I-lwyd*, Carneddi, oddeutu 1831, ysgolhaig campus;—efe a symudodd i'r Gatehouse.

8. *Evan Richards* a fu yn Mhen y Groes, oddeutu 1842, ac a symudodd i Gouwy. Bu ef yn dra bendithiol i'r ardal.

Dyna yn fyr gyfifi o'r hen ysgolfeistriai oedd yn y plwyfi hyn o fewn oes gwr, a pha fodd bynag yr edrychir arnynt heddyw, yr oedd yn dda en cael y pryd hwnw. Goleuasant ganwyll, ac nis ddiffoddir hi.

Ar ol y cynwrf a fu yn y Ffuedd 1846 yn achos addysg yn Nghymru, ac anfoniad tri phrwyadur Seisnig i wneyd ymchwiliad, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1848. yn cynwys adroddiad unochrog, cynhyrfodd a chododd y genedl fel un gwr, a chaed diwygiad mawr mewn addysg, ac yn mhllith manau eraill caed yma gryn ddiwygiad. Yr oedd yma ddwy Ysgol Wladwriaethol y pryd hwnw, un yn Llandegai, a'r llall yn yr Achub; ac yr oeddynt yn ysgolion go dda debygid, cymaint felly fel na wnaeth yr Yswain Johnson un sylw o honynt, ond mae wedi cyfeirio ei fys ddwywaith at waeleddau ysgol fechan Capel Curig. Gwel *Adroddiad y dirprwywyr t. d. 13. a 29.*

Erbyn hyn y mae genym nifer dda o ysgolion *Gwladwriaethol a Brytan-aidd*, ac athrawon trwyddedig yn mhob un o honynt.

YR YSGOLION DYDDIOL YN MILWYFI LLANDEGAI A LLANLLECHID,
AM RHAGFYR, 1864.

ENWAU Y LLEOEDD.	ENWAU YR ATHRAWON.	Nifer y Taleithen	ENWAU YR ATHRAWESAU	Nifer y Ganedol	ENWAU Y TIR-RODDWYR
Ysgol Wladwriaethol yr Achub	* Mr. E. Owen	95	Mrs. Davies	108	1828 Parch. Hughes, Llanddeiniolen.
Ysgol Frytanaidl yr Achub.	* " E. Jones	75	E. Williams	75	1853 Mrs. M. Jones.
(1) Ysgol 1y'n Tŵr	* " W. Jones	148	Ann Morgan	144	1830 E. G. D. Pennant
Ysgol Blwyf Capel Curig	* " D. Griffith	42			
(2) Ysgol Llandegai	* " E. Jackson	129	* Miss C. Wynne	161	1844 Mrs. Pennant.
Ysgol Bodfeirio	* " J. Davies	110	Mrs. Williams	101	1854 F. G. D. Pennant
Ysgol Frytanaidl y Carneddi	* " H. & Jones	127		125	1851 Mr. H. Ellis.
Ysgol Glan Ogwen	* " S. H. Owen	132	Mrs. Owen	129	1851 E. G. D. Pennant

* Y serenig a arwydda fod yr Athraw neu yr Athrawes yn drwyddedig gan y llywodraeth. † Cynwysa y rhif uchel y ddwy ystlen

(1) Ysgol rydd yw hon, a chynauodd Arglwydd Willoughby a gweithwyr Cloddfa y Cae ati yn eheleueth.

(2) A orphenwyd gan yr Aurhyddedd E. G. D. Pennant er cof am ei wraig gyntaf.

D. S.—Lengys Arolygwyr Ysgolion er Mawrlydd, fod ysgolion plwyfi Llandegai a Llanllechid, er eu holl anafateision, yn sefyll yn mhllith y rhai oreu yn y ceyrnas.—O'r *Report*.

PENNOD VIII.

AMAETHYDDIAETH DIWEDDAP.

GWYBODS oddiwrth gyfreithiau Hywel Dda a ysgrifenyd yn y 10fed ganrif, fod ein tadau yn gydnabyddus, ac yn hoff o "goledd y dddear;"—ac y mae *Giraldus Cambrensis* a fu yn teithio trwy Gymru, yn y 12fed ganrif, ac a

fu gyda godreu y plwyfi hyn, er nad yw yn eu dynodi, yn dweyd fel hyn am y Cymry, "Y maent yn aredig eu tir yn Mawrth ac Ebrill am geirch, ac yn yr haf y drydedd waith, ac yn y gauaf am wenith; y maent agos bob un yn byw ar gynyrch eu deadelloedd, gyda cheirch, llaeth, caws, ac ynenyn; — bwyntant fwy o gig nag o f.ra."

Dywed Leland a fu drwy ein gwlad yn amser Harri 8fed, rai pethau na faddeuid i ni am eu gadael allan, gan hyny rhoddwn ei sylw yn gyflawn. "Y coed goreu yn Swydd Gaernarfon sydd wrth Glyn Cledr yn mhlwyf Dolydd Elen, ac wrth Llyn Lligwy, ac wrth Capel Curig, ac yn Llauberis, holl greigiau Eryri ydynt *fforest*. Y mae coed da oddeutu Monachlog Conwy a Phenmachno, ac o gylch Coetmor a Choed y Farc, wrth Fangor a lleoedd eraill; y mae ychydig yn Lleyn ac Eifionydd. Y mae yn Swydd Gaernarfon gyda y glanau, yd pur dda, ac oddeutu milltir i fyny oddiwrth lan y môr ger Caernarfon;—Yna yn uwch i fyny y mae mynyddoedd Eryri, ac ynddynt hwy y mae ychydig o yd;—ceirch mewn ambell lle, ac ychydig haidd, ond rhyg tenau; a phe buasai, y ceirw a fuasai yn ei ddifa; ond yn Lleyn ac Eifionydd y mae fyd da, yn y ddau wrth yr arfordir, a braidd trwy yr ucheldir. Y mae gan Syr Gul. Gruffydd dŷ gweddol yn y Penrhyn, dwy filltir yr ochr yma i Fangor.—William fab William sydd yn byw mewn lle a elwir Cochwillan, milldir ar yr ochr yma i'r Penrhyn; William Coetmor sydd yn byw yn Nghoetmor ger Tal Llyn Ogwen."

Yn nyddiau Oliver Cromwel yr oedd Gras ych Huw yn byw yn Nghilgeraint, ac yr oedd ei ffriddoedd yn cynyichu cŵd tew o haidd, rhyg, a chywarch;—ac yr oedd yn ffriddoedd Tanysgrafell amryw lanerchau o honynt yn dwyn helaethrwydd o ryg du a gwyn, ac yn cyhaedd i fyny can uchedd a Bryn yr Hen Eglwys. Gwaith caled oedd pob bara rhyg, ac ni fuasai waeth i wraig dylino cŵr crydd na'i dylino yntau. Yr oedd yn hau rhyg mor ddiweddar yn mhlwyf Llandegai a'r flwyddyn 1830.

Cedwid yma gynt, fel eto, nifer helaeth o gyffylau, gwartheg, defaid, geifr, a moch; ac yr oedd o fewn cof ddeadelloedd barfog o eifr yn pori rhwng Coetmor a'r Ogwen, y rhai o herwydd eu dinystr ar goed, a ddilewyd ar gais Arglwydd Penrhyn; fel erbyn ein hamser ni, yr oedd aml ddyn wedi tyfu i'w gyflawn faint heb weled gafr na'i bwch erioed, hyd oni welwyd hwy yn ddiweddar yn canlyn byddin y Gwirfoddolion.

Dywedir fod ein tadau yn hoff o gig mochyn, yr hwn yn yr hen amser a elwid hôb; ac hôb y gelwir ystlys mochyn eto. Yr oedd eig yr hôb a besgid ar fës yn y llwyn derw neu y deri, yn dra dewisiol ganddynt, a chael *hob y deri* (mochyn y derw) wrth ben y ty erbyn y gauaf, a fyddai yn gyru meddir y dyn tlawd i ganu a dawnsio; yr hyn goelir a roddodd fodolaeth i'r hen ddu adnabyddus "*Hob y deri dan dô*." Ond pa gan belled y perthynai hyn i'r ardal hon ni wyddis. Fodd bynag yr oedd yn Nghoetmor oddeutu 80 mlynedd yn ol, ac ar ol hyny, foch duon bychain yn cael eu cadw ganddynt mewn lle a elwid Parc y Moch, ac o'r moch hyn y cyflawnid angen y gegin, lle y croesawid beirdd, cantorion, a chantoresau am ddyddiau olynol, lle byddai pob math o ganu a dawnsio, &c.

Ag ychain yr erddid oddeutu 80 mlynedd yn ol a llai na hyny, ar ysgwyddau y rhai yr oedd cwplws a elwid *iau*, a thresi wrthi, ac ambell waith byddent yn bil pabwyr hyd fôndid, yr hon a gyrhaeddai yr arad.—

Llysidau (*tîd o lysiau*) oedd gynt yn lle tresi, y rhai a wneid o bîl pab-wyr, ac o'r hêsg a'r trostfrwyn cawraidl a dyfent yn Llyn Cororion a manau eraill, y gwneid colerau am yddtau y meirch a'r ychain, a phanelau hefyd o dan y Pilyn pwn, ac ystyrid rhoddi llawer o ledr a haiarn yn nghêr cyffylau yn arwydd bach o falchder. Gyrid y wedd gan fachgenyn, gan yr hwn y byddai swmbwl i'w cymell trwy eu pigo, a'u hanog "*Hai pytrw ho! Hai how hely!*" a thu ol iddynt yr hen araf Gynreig, rhwng dau gorn yr hon yr oedd gan yr arddwr, offeryn tebyg i rawffon Tyrchwr a elwid carthbren, tuag at lanhau yr astyllen bridd, a'r hwn meddir os byddai yn ddyn blin y byddai yn cyrhaedd aml gelpen i'r gyrwr truan; ac at yr arferiad yma cyfeiria y penill canlynol debygid,—

" Mae Dafydd Lewis lawen
Medd pawb yn burion bachgen,
Am yru'r ychain hyd y a'wys
Rhag ofon pŵys y Carthbren."

Codai yr arddwr yn fore, ac arddai hyd y canolddydd, pryd y cai yr ychain ac yntau orphwys am ddwy awr;—yna dalient ati hyd haul y gaerau, neu hyd oni roddai yr ōylfloodd (wilfloodd) rybydd iddynt noswyllo. Nid oedd clock yn yr holl wlad, dim ond ambell ddeial, ac yn y fyuwent yr oedd hono.

Hafr (*hâf-âr-a*) y galwai ac y geilw gwyr y plwyfi hyn *fraenar haf*, neu yn hytrach y weithred o *fraenaru yn yr haf*, ac yr oedd tyddyn yn Mhenau bronydd a elwid *Cae hafâr*. Ni feddid yn yr hen amser offerynnau priodol i drin y ddaear. Ymfoddllonid ar yr hen ddull o arad, yr hon a alwent yn "wŷdd" (pren) a dywed rhai mai pren eithin oedd defnydd yr hen swch cyntefig, ac nid yw yr enw *gwŷdd* a goffawyd, yn anffafriol i'r dywediad; ond rhaid fod hyn mewn amser pur fore, pan oedd delidau yn brinion. Os yw hyn yn gywir yr oedd y swch Cynreig yn ddarganfyddiad gwerthfawr, er nad oedd yn y dechre nemor well nag amgarn am flaen yr eithinbren.

Yr oedd y cewyll teilo, y câu llûsg a'r rhaw bâlar yn bethau nad ellid "dywedyd yn eu herbyn" y pryd hwnw; a gwneid yma rawiau o bren at garthu y beudai, curiau moch, &c.; eto yr oedd rhawiau haiarn yn cael eu harfer, a elwid yn "rhawiau Lloegr;" ac yr oedd y marchdai a'r beudai a'r pethau hyn yn cyfateb yn burion i'w gilydd. Dywed yr hen bobl y codid tri gwelltyn 60 mlynedd yn ol am bob un godir yn awr, o herwydd fod ysguthanod, ieir y coed, a helflod, y *game*, a blawyd yn ein hynys i ddechre yn amser William y Goresgynydd, yn eu difa, am hyny gadewir yn awr y maesydd i fod yn borfa, lle y megir ac y pessir anifeiliaid.

Yn yr hen amser, o herwydd fod y tir yn fynyich heb ei gwateru, a'i agosrwydd i'r mynyddoedd, y rhai a sugnant gawodydd i lawr yn aml, yr oedd ein cynhanaf yn ddiweddar, yr ŷd yn ddrwg ei liw, a'r bara yn ddô ac yn blymaidd; eto yr oedd y wlad yn byw ar ei chynnyrch naturiol er gwell ac er gwaeth, hyd oni ddarfu i Arglwydd Penrhyn trwy agor Cloddfa y Cae, greu ysgogiad newydd, pryd y daeth blawd Lle'rppwll yma gyntaf: ac ar ol ei ddydd ef bu ei Arglwyddes, yn hytrach na chodi y cyflogau, yn cyfnewid llongeidiau o lechi am haidd Rwsia, gan ei werthu yn rhatach, ac yr oedd y ddau yn caru ac yn ceisio lles y chwarelwyr, y rhai a'u carent ac a'u parchent hwythau, fel yr aurhydedda plant eu rhieni.

Ar ol cael y cynghauaf i'r ysgubor, a dyrnu, cadwent yr yd mewn do-drefnyn a elwid "Cist cyffyllog" (cassaelog?), yr hon a fyddai o dderw, a chaudiad cwmanog arni, ac a ddaliai ddau begaid; y mae amryw o'r des-grifiad yn yr ardal eto, a cheir un yn Aberogwen, a'r enw a'r ffugyrau canlynol arni;—R. J. 666. I'r Penrhyn y daeth y drol gyntaf, ac yno y daeth y *waggon* gyntaf, ac y mae o 80 i 100 mlynedd er hyny.

Wedi silio y ceirch a chael y brawd adref, cadwent yntau mewn cistau, gan ei sathru, oni byddai can galeted a'r ffordd fawr, ac weithiau dodent ynddo gig gwartheg, ystlysau a chluniau moch, a dywedir y cadwai yn rhagorol. Yn awr, os dygwyddai iddi "*wneud gauaf caled*," can y ffyrdd ag eira, a rhewi y melinau, yr oedd cisteidiau o flawd, a digon o gig sych yn y ty, yn *gaffaelog* gwerthfawr erbyn yr iaeth. Hongient gig defaid wrth y gronglwyd, ac eiddo y geifr o fewn i fantell y sifnai, yr hwn a alwent yn "*goch yr wden*," yr hwn a fwytaent gyda bara haid, ceirch, neu wenith weithiau, ac a olchid i lawr gyda diod grabas a chriafol, yr hon oedd yn lled beraidd os byddai wedi cyrrhaedd blwydd oel.

Arferai y tyddynwyr ddarllaw ychydig ar amserau, ond glâdwr ac enwyn oedd eu diod gyffredin, ac ystyrient laeth newydd oddiar y borfa, yn iachus a meddyginiaethol.

Ychydig a wneid yma o gaws; a buddai gnoch fyddai yn mhob ty; ond y maent yn gwneud yn awr beirianau dwfr yn eu lle. Yr oedd ar ddiwrnod brwd a thesog yn haf 1865 yn myned ar daith o Bendinas i'r Llwyn penddu, a phan oeddym wrth dyddyn a elwid Y Coed, gwelem eu bod yno wedi dal y ffrwd ddwfr, a gwneud iddi gorddi yn lle y forwyn, a darfu y gwelliant hwn ein lloni yn fawr, a pheri i ni chwerthin tipyn. Aed yn mlaen drachefu ar draws y caeau at Dal y Sarn, ac yr oedd yr afon yn gweithio yn lle y merched yno; aethom wed'yn at Bryn eithin, ac er ein hytrydwech eto, cawsom y dwfr yn corddi heb rwgnach na blinder, ond yn hyrach yn canu ei gerddi priodol ei hun. Parodd y diwygiadau bychain hyn, a ddygwyd yn mlaen yn ddystaw, o leiaf heb yn wybod i ni, i ni obeithio am amser gwell i ddyn, yr hwn nad yw eto ond dechre gwawrio.

Clywsom hefyd fod y ffustiau mewn rhai ffermydd yn yr hendref wedi ffoi o'r ysgubor i wneud lle i'r peiriant dyrnu, yr hwn a weithir ag ager. Er pob peth a grybwyllwyd, prin y gellir dyweyd i Amaethyddiaeth roddi ei throed i lawr hyd yn ddiweddar iawn yn

"Ynyal Arfon yn Eryri."

Ni fu, nid yw, ac ni bydd byth, rhanau uchaf y plwyfi hyn yn enwog am ydau, am nad yw y tir na'r tywydd yn ffafriol i hyny, eto diameu y gellir gwella llawer ar y tir, yr hwn a rydd borfa dda. Ond am y rhanau hendrefol, cyrhaeddasant radd dda, a daliant eu cydmaru ag unrhyw fan yn y deyrnas yn ol eu manteision.

Aeth llawer o dyddynod bychain, y rhai oeddynt o 10 i 20 erw, i ffurfio rhai mwy, ac yn mhlwyf Llandegai y dechreuwyd. Tua'r flwyddyn 1765 y darfu i'r cadfridog Hugh Warburton osod tiroedd y Penrhyn tan brydlesau i barhau am 21 o flynyddoedd, ac felly daethant i ben yn y flwyddyn 1786 agos bob un, yn nyddiau Arglwydd Penrhyn, ond ei olynydd ef, sef George Hay Dawkins Pennant, a ddygodd y prif amcan oddiamgylch.

Y ffordd o Fangor i Landegai gynt a elwid *Lôn Domas*, ac yr oedd yn myned trwy ganol y lle a elwir heddyw Parc y Penrhyn. O'r tu isaf i'r ffordd hon rhyngoch a'r Menai, yr oedd amryw dyddynod, sef Aber Cegin, Tyddyn Canol, y Tafarnau, a'r Tyddyn Isaf; ac o'r tu uchaf iddi, yr oedd y Tyddyn Newydd, a Than y Fynwent. Trodd yr Yswain G. H. D. Pennant, y Tyddynwyr i ffordd mewn trefn i wneuthur y Parc presenol, gwal yr hwn meddir sydd o 6 i 7 milldir o amgylchedd. Wedi hyny oddeutu 10 neu 15 mlynedd yn ol, darfu i'r Anrhydeddus E. G. D. Pennant, y boneddwr presenol, wrth weled cymaint o'r drefnadaeth o dan gloddiau, wneyd llawer o gaeau bychain yn un mewn manau, a chloddiodd a sychodd Gors y Rhôs, ac a'i gwnaeth yn un maes nemor lai na 30 erw, &c. Dilewyd y Lonisa, y Rhôs, a'r Siambrau Gwynion, a'r Tyddyn Iolyn, &c., am yr hwn y canodd un wrth fyned heibio, wrth weled ei gloddiau yn chwaledig, a'i fŵg yn dyrchafu.—

Mae Tyddyn Iolyn yn ulw,—genyf

Mae'n gynes ei enw;

Cartref Gruffydd ddywydd dŵ,—anghoir

A'i ffordd ddilleuir a phridd a lludw.

Cyn hir hir y cawn yr arad,—â'r ôg

Yn rhwygo'r llawr gwa-tad;

Y llawr mwyth ou llawer mad,—bererin

Ar ei ddeulin yn rhoi add-liad.*

Enwn hefyd y mân dyddynod a frithent gynt hendref Llanllechid, a chan eu bod yn engraifft o dyddynod yr hen Gymry, ac yn cyd-daro yn lled lythrenol a chytreithiau Hywel Dda, a ysgrifenydd o.c., 940, dodwn hwy yma, y rhai oeddynt gartref i an-ryw deuluoedd, o dad i fab ers oddeutu tri i bedwar can mlynedd, ac o herwydd hyny a phethau eraill, yr oedd ganddynt afael mawr ynddynt; a bu colli eu cartrefi yn ddigalondid i rai, ac yn farwolaeth i eraill, fel y mae yn ddwng genym goffu. Dyna eu henwau Y Winllan, Tan y Marian, Ty'n yr Hendre, Tyddyn Sagred, Tyddyn Deseitos, Tyddyn Ceiliog, Cefulaes, Pwll Budr, Gwern Porchel, Ty Gwyn, a Dologwen; a pherthynent oll i'r Penrhyn, ond Ty'n yr Hendref, i Goetmor y perthynai hwnw; nid oes fwy na 10 i 12 mlynedd er pan chwalwyd y rhai olaf.

Erbyn heddyw y mae y nân dyddynod hyn, y tai a'r perllenydd wedi eu chwalu, y grechwen a'r bywiogrwydd oead yma gynt wedi darfod, lleisiau plant, a'r gân yn mrig yr hwyr wedi diffannu, y cymbreswylwyr wedi eu chwalu, ac eraill wedi meirw; a maesydd mawrion y rhai a greant fath o unig-eidd prudd wedi cymeryd eu lle, oni thorir arno weithiau gan gryglais y fran, neu frefiad yr ych, neu yn hytrach pŵff, hŵff, y ceffyl tan; yr hwn a ddechreuodd redeg rhwng y Penmaen a Bangor yn 1847.

Ni fyddai raid i hen wr a anwyd ac a fagwyd yn hendref Llanllechid, ac a aeth i fyw am dymor i Loegr, ac a ddychwelodd yma, byth wrth bregeth i'w berswadio i goelio fod "*dull y byd hwn yn myned heibio!*" dim ond edrych ar ei hen *Siclag* hon! Y mae aml hen wr eto a fedr ddwyn tystiolaeth i'r hanes hwn, a dyweyd ychwaneg eto, a'r dwfr yn ei lygaid; ond sych dyddagrau fy nghyfaill, ac na fydd ray urist, oblegid y mae y daioni personol wedi myned yn gyffredinol;—dygodd aml un hefyd i feddwl am y waith

* Bu yma Ysgol Sul gan y Methodistiaid am flynyddoedd.

gyntaf, nad oes iddo yma ddinas barhaus, a pheri iddo ddechreu ymofyn am
“dy nid o waith llaw.”

Sych dy lygaid fy nghyfaill, a chwyd dy ben, ac edrych ar waelodion y
ddau blwy, ie oddiar ben Moelwynion os myni,—ac yn lle yr hen deio
gwaelion, wele dai fel palasau, ac yn lle mân erwi a chaeau, y rhai a der-
fynid gan wrychoedd igam ogam fel nadrodd, dacw feasydd mawrion a
theg, yn ysgwar hefyd; y rhai yn Ngorphenaf ac Awst, a chwyfiant o dan
geirch, haidd, a gwenith melynwyn; ac ni ellir dyweyd mwyach am y Pen-
rhyn ei fod yn “dy gweddol,” ond y mae yn un o'r castelli gwychaf yn
Ynys Prydain;—Y mae yr holl fro a'i gwedd mor Baradwysaidd fel nad
oes yn Nghymru le mwy swynol.

Erbyn y dyddiau presenol, y mae yr hen bethau, coffa da am danynt,
wedi myned heibio, a gwedd newydd ar dai a thiroedd, o fynydd i fôr.
Bellach byddai yn burion coffa y modd a gymerodd y Milwriad Pennant i
ddwyn y diwygiadau dan sylw oddiamgylch; trwy roddi gwobrwyon i'r
ffarmwyr goreu yn hendrefol, a mynyddig; yn gystal ag i'r bwthynod glanaf,
a'r ffrwyth-erddi trefnusaf a glanaf. Parhaodd i gynnal Cyfarfodydd Cys-
tadleuol o gynyrch y ddau blwyf yn niwedd pob cynhaaf, am oddeutu 8
neu 9 mlynedd. Y mae yn digwydd bod wrth law hanes ychydig o'r
gwobrwyon mynyddig, y rhai a wabaniaethid oddiwrth y gwobrwyon hen-
drefol. Cafodd

		£	s.	c.
Meistr	Elias Williams, Y Bronydd	8	0	0
„	Owen Hughes, Cochwillan	8	0	0
„	Robert Evans, Bryn Owen, a gafodd gwpan arian			
„	R. Williams, Ty'n y Clwt, a gafodd gwpan arian a	5	0	0
„	Gruffydd Evans, Bryn Eithin a gafodd	8	0	0

a chwpan arian ar yr hon mae yn gertiedig

“PENRHYN MOUNTAIN FARM.

PRIZE 1845.”

A dealler fod y cerfiad hwn ar bob un o'r cwpanau. Nid oes wrth law
hanes ond un o'r ffermydd hendrefol, a hono yw Aberogwen; y mae enill-
ion Mr. Hugh Hughes, am ragori, am un flwyddyn fel hyn;—

	£	s.	c.
Am drin y ffarm	8	0	0
Am y cae rhwdis, sef maip Sweden	5	0	0
Am y Tarw	3	0	0
Am anerau, neu aneirfuchod	4	0	0
Am gae haidd	3	0	0
Am aredig	1	10	0
	£24	10	0

Hefyd am y ffarm drefnusaf a glanaf o'r ail ddosparth, cafodd brif wobwr
Môn ac Arfon, am un flwyddyn. Bu yr Anrhydeddus Mr. Pennant ei hun
yn enill y prif wobrwiau yn Lloegr, mewn cyfarfodydd cyffelyb, am deirw
ac ychain, &c., fwy nag unwaith.

Yn gyffredin teilir yn dda, ac arferir cynorthwyo y gwrtaith a llwch es-

gyrn, adar-dom, &c., ond nid ydys yn gwybod eu bod yn gwneyd cymaint defnydd o galch ag a wneir mewn manau yn swyddi Meirion a Diubych.

Tai a gerddi.—Cafodd Mrs. Elizabeth Rowlands, yn y Grisïau Cochion, y prif wobwr sef £1 10s. fwy nag unwaith am y Ty Glanaf; ac yn Nrhe'r Garth, cafodd Mrs. Elin Jones, Bryn Cocyn, y prif wobwr sef £1 10s., am y Ty Glanaf; a chafodd Mr. Hugh Roberts, Pant yr Ardd, y prif wobwr sef £2 am yr Ardd drefnusaf, fwy nag unwaith; ac yn fynych am ei ffrwythau. Nid ydys yn gallu cofio am ychwaneg, gan fod hyn wedi myned heibio ers talm o flwyddi. Mae yr oll o dai y Chwarelwyr yn lân, a threfnus.

TAIR BLYNEDD O BRINDER.

Mynych y sonia yr hen bobl am 1798, 1799, a 1800, fel blynyddoedd o brinder a difrifwch. Yr oedd yr Eryr Ffrengig, Napoleon I., yn awr yn ei rwysg, ac yn lledu ei esgyll am India y dwyrain; a dyma y pryd yr anfonodd Sior III. Nelson a Wellesley (Wellington wedi hyny), allan gyda yr amcan o gwtogi ei allu, y cyntaf ar for, a'r olaf ar dir.

Yn y flwyddyn gyntaf o'r tair, yr ymladdwyd Brwydr y Nile, neu Aboukir, pryd y llwyddodd Nelson i ddinystrio llynges Ffrainge yn yr Aipht; a thua yr un amser yr oedd Wellesley yn yr India yn ymladd a Tippoo Mogul Fawr, a'r hwn yr oedd Napoleon mewn cyngrair, pryd y llwyddwyd i'w ddymchwelyd yntau; yr oedd hyn yn y bumed flwyddyn o ryfel rhyngom a Ffrainge, ac wedi gadael argraph atgas ar y fasnach lechi o herwydd lladd yspryd adeiladu, ac wrth gwrs yr oedd hyuy yn effeithio yn ddrwg ar y plwyfi hyn.

Yn 1798 bu sychder mawr yma yn gystal a thrwy yr holl deyrnas, fel nad oedd nemor o wair na phorfa, a llosgai y ddaear yn lloerenau cochion, a phe tatesid dernyn can lleied a chwe' cheiniog neu rôd i gae gwair, buasai yn hawdd ei gael. Dyoddefai yr anifeiliaid eisïau dwfr mewn manau, ac er eu gyru amryw fittiroedd i'w ymosyn, dywedir y byddent agos mor sychedig eilwaith erbyn y dychwelent. ac effeithiodd hyn brinder ar ymborth yr anifeiliaid*; yna trodd yn wlyb iawn am y ddau fis olaf o'r flwyddyn.

Yn y flwyddyn 1799, yn union ar ol y Calan, dechreuodd fwrw eira, yr hwn a barhaodd yn hir ar y ddaear, nes y bu llawer o ddefaid feirw. Yn y cyfamser yr oedd tyddynwr o'r enw William Roberts yn byw yn ngodre Carnedd Ddafydd, mewn lle a elwid Tai'n y Cae, ac yn fedliauol ar 80 o ddefaid, y rhai a fuant feirw oll ond un!

Yr oedd colledion cyffelyb mewn amryw fanau, er nad mor drymion. Collwyd llawys mawr dan luchfaau; parhaodd y rhai hyn, yn nghyda phlymenau o rew ar y ddaear trwy Mawrth, Ebrill, a Mai; yn y ddau fis olaf, fe rynai yr hadyd yn y ddaear, ac yr oedd yr egin yn cochi, ac yn crino yn nechreu Mehefin. Yr oedd bachgen y pryd hwnw, ond sydd a gwallt gwyn ar ei ben heddyw, yn codi mawn, lie saif y Felin Fawr arno yn bresenol, ac mae yn couo fod barug ar y borfa, a rhew ar y pwll mawn, ar fore y 25 o Fehefin.

* Goddefwyd prinder cyffeilyb yn 1816, ac hefyd yn 1864, dywedir fod eistiau bwyd a dwfr ar y minteoedd gwartheg, yn Môn, a Dyffryn Clwyd, ac mewn llawer o fanau yn Lloegr; ond ni bu can waethed yna.

Yr oedd amryw o'r gwartheg hefyd yn trengu erbyn hyn, a thorid y grug a'r brwyn yn mynyddoedd Llandegai a Llanllechid i gadw y gweddill yn fyw, yr hyn a fwytaent yn chwauuog. Erbyn Gwyl Ifan yn yr haf, nid oedd fwy na'r bumed ran o ddefaid yn fyw, ac yr oedd un ran o chwech o'r gwartheg wedi meirw; yr oedd y defaid yn rhy weiniaid i ddyfod ag ŵyn, ac weithiau, tynai y gigfran lygaid yr oen, tra y byddai ei fam o wir wendid yn trengu!

Yn Mis Gorphenaf, gwnaeth lif mawr yn Ogwen, tra yr oedd peth gwair wedi ei dori, a'r llall ar ei draed. Cipiodd y llif y cyntaf ymaith, a llanwodd yr olaf a llaid a graean; yr oedd y ddaear wedi ei hamwydo mor fawr gan y gwlawogydd blaenorol, onid oedd w'di myned yn llymrig; a dyma y pryd y llithrodd y Cwm Coch i Nant Firancon, ac y ffordd Pirs Pywel ganol nos o'r Braich Ty Du, o ffordd daeardor, gan ddwyn gydag ef rai o'r plant ar ei gefn, un o ba rai sydd fyw heddyw, ac yn hea wr, sef John Pirs, Tyddyn isaf. Daeth y ty i lawr y nos hono, ac y mae ei furddyn i'w weled eto, ond yn nes i Lyn Ogwen na'r un presenol, yr hwn sydd yn llechu yn nghysgod bryn bychan.

Hefyd, dyma y pryd y digroeniwyd yr Elen, ac yr holtodd afon Gaseg iddi wely newydd, nes ymfurfio yn ddwy ffordd, a llunio Delta cyn cyrrhaedd yr Ogwen. Dyma yr unig lif y gwyddis am dano a guddiodd y Maen Mawr yn Ogwen, odditan yr Hen Darnpike.

Bore dranoeth canfyddid gwair, cribiniau, pladuriau, a choediach, ar frigau y gwrychoedd gyda glan yr afon, a rhai defaid wedi eu cipio i waered o Gwm Penllafar, i lawr i Ddol fawr Ty'n y Clwt.* Ysgubodd y cefnllif hwn y Bont uchaf, Pont Ogwen, Pont y Gaseg, a Phont Coed y Parc; ac ni wyddis am ei gyffelyb, na chynt na chwedl. Cynnrychoedd y gwlybanaeth gyrs mawrion a brig ysgafn i'r yd, a chaed cynhauf gwlyb a diweddar, yr hwn y dechreuwyd ei gasglu i fewn Hydref 23, sef diwrnod Ffair Fangor, yr hwn yn yr ysgubor a ildiodd bentwr mawr o wellt ac ychydig iawn o rawn.

Daeth 1800 i mewn fel ei chwaer flaenorol gyda rhew ac eira, ac ar y 1af o Ionawr bwriodd wlaw iâ, fel nad allai na dyn nac anifail sefyll ar eu traed. Yn y mis hwn hefyd y dechreuodd drudaniaeth, nes yr oedd ystored o haidd yn costio gini, yr hyn yw 5s. 3c. y cibyn; ac yn y dyddiau hyny âi dynion i waered i hendref Llanllechid i chwilio am ŷd.

Tua yr amser hwn aeth gwraig ieuanc allan o Dy'r Pobwr, yr hwn a safai lle y mae asgell orllewinol Cloddfa y Cae arno yn awr, ac yn ei llogell gini pen rhaw, i lawr i hendref Llanllechid, gan ymholi am yd yn y gwahanol dyddynod a frithent y lle y pryd hwnw, gan awgrymu wrth bob ty, ei bod heb weled bwyd y diwrnod hwnw, ond nid oedd neb yn cymeryd arnynt ei chlywed hyd oni ddaeth i Dair Meibion, lle cafodd gilybaird o yd, ac ychydig datws oerion yn ei llaw, am y rhai y diolchai yn ostyngedig.

* Yr oedd y Ddol tan sylw gynt yn mhlwyf Llanllechid, ac er i Ogwen wneud anrheg o honi i blwyf Llandegai, y mae pobl plwyf Llanllechid yn dyfod drosodd i ymofyn y degwm eto. Bu yr Ogwen meddir yn rheieg am amser maith gwadwy ystlys y ddol, ac ar lif yn lladratta y gwair. O'r diwedd darfu i Tomos Wmffre Prys, o Danystraffell, ei throï i'w gwely presenol er's rhwng 153 o flynydd i oedd yn ol; a byth er pan agorwyd y twnel i ben uchaf y ddol, tua 1847,—8, ni allodd y llif fyned drosti dracaeta.

Enw gwr y ty oedd Dafydd Dafis, a Chathrin Parry oedd enw y wraig wedi hyn dychwelodd y wraig ieuanc yn llawen i Felin Cochwillan i'w falu^e ac yr oedd adref erbyn ei bod yn lled hwyr.

Bore dranoeth aeth i Gae Maes y Gollen i gasglu ychydig friwydd, a chyda hyn, tarawodd i bobî a chrasu pryd y bu agos i'r ty fyned ar dan, lle yr oedd dau o blant; fodd hynag, hyn sydd ryfedd, bu gan y wraig blentyn bob blwyddyn am y ddwy flynedd ar bymtheg dilynol, ac felly bu ganddi o gwbl 19 o blant, ac er iddi feddwl ac ofi i y byddai farw bob tro yn yr amgylchiad, y mae hi yn fyw ac iach heddyw, Medi 27ain, 1866, ac yn 97 mlwydd oed; a hon yw Jane Jones yr Hen Durnpike, a gallwn ychwanegu ei bod yn bur hoff o fygyn, ac adrodd rhai o'r hen gofion gynt.

Yn y dyddiau hyn, y daeth gwr o Leyn yn meddu gwraig a phlant, y rhai oeddynt adref, a'r olwg arno mor wael a phe buasai wedi bod yn gorwedd tan glefyd, ac a gynygiodd weithio yn unig am ei fwyd i Wmffre William Prys, Tanysgrafell; brawd oedd hwn i Edmond y Cariwr; ond yr oedd ar y gwr hwnw ormod o ofn Duw i gymeryd ganddo ei wasanaethu yn rhad; ac efe a'i derbyniodd i'w dy, rhoddodd fwyd a gwaith iddo, ac wyth geiniog yn y dydd yn gyflog. Ond yr oedd yn galed ar lawer o deuluoedd, a'r diniwaidd yn goddef yn ddystaw; ac er hyny yr oedd y gwynt wedi dechreu troi dipyn, oblegid yr oedd cyflawnder ar y mor yn nesau, ond heb gyrhaedd, o herwydd yr oedd Nelson wedi dryllio llynges Ffraince, fel y soniwyd yn y dechre, a geneuau afonydd mawrion y byd wedi eu hagoryd, a digon yn dyfod ar y ffordd, a disgwyl mawr am dano.

Y pryd hwn yr oedd gweddw i Oruchwyliwr oedd yn byw yn agos i Amlwch, wedi cadw dwy das haidd, gyda y bwriad o gael rhyw grog-bris am dano; ond pan y clywodd fod digon o yd yn dyfod ar y mor, dyma hi ar unwaith yn galw yn groch am ddau ddyn i ddyrnu, y rhai, wedi iddynt ddyfod, ac esgyn i ben y deisi yd, a gawsant eu hunain yn ymollwng i lawr iddynt fel i dyllau cwningod; oblegid yr oedd y llygod mawr wedi dinystrio y cwbl o'r bron, a chredai y tlodion fod yno ambell i neidr hefyd i ac ni chafodd y wraig annhrugarog, yr hon a edrychai ar geiniog dros goryn y tlawd, ond tori enau coegion siomedigaeth!

Cododd yr haidd yn Chwefror i £1 6s. yr ystored; ac yn Mawrth i £1 10s.; ac yn Ebrill, tua diwedd y tymor hau, i £1 14s.; yr hyn a'i gwnai yn 8s. 6c. y cibyn! Yn awr aeth yn ddiirifol iawn yn yr ystyriaeth pa fodd i gael hadyd, ac ymagnal hefyd, hyd oni cheid yd o'r ddaear. Ai y mamau tlodion oddiamgylch i gardota, a gwyddis am un bachgenyn wedi i'w fam fyned ymaith felly, a aeth i geisio gwneud teisen o ruddion, ond ni lynai hwnw ynghyd, ac nid oedd nemor ddim i'w gael am arian. Berwid danadl poethion gan rai, a chnocid wy am eu penau, os byddai, a bwyteid hwy yn awchus; wylai y plant yn wyneb eu rhieni am fwyd, a hwythau heb nemor ddim i'w roddi iddynt; ac yr oedd amryw erbyn hyn yn dechreu gweled daioni Duw yn mhysgod yr Ogwen, ac yn nghocos Traeth y Lafan. Yr oedd dychrynfeydd y rhyfel, ac ofn i'r Ffrancod ddyfod i'r wlad, y rhai y dywedid eu bod wedi glanio yn Sir Aberteifi, wedi myned erbyn hyn agos i bwynt annyddesol. O'r diwedd, ein Joseph yn y llys uchaf, ni allodd ymattal yn hwy, na gwadu ei hun, ond efe a agorodd ystordai ei dosturiaethau, a chyrrhaeddodd llongau llwythog o yd ein glantau, a daeth

yr haidd i lawr i 7s. yr ystored, yr hyn yw 1s. 9c. y cibyn; a dechreuodd y ddaear bicio tyfu, a daeth cyflawnder o fwyd i ddyn ac anifail, ac ymadferai y naill fel y llall. Ac os oedd pob peth megys yn ein herbyn o'r blaen, gwelid pob peth erbyn hyn wedi troi o'n plai i, am iddo Efdosturio! Daeth dafad William Roberts, o Dai'r Cae, yr hon oedd weddill o bedwar ugain, ag oen, a pharhaodd i luosogi, n's yr oedd hi a'i heppil yn mhên ychydig flwyddi wedi myned yn amlach na'r ddeudell a gollwyd. Anfonodd Arglwydd Penrhyn hefyd lwythi o bytaws a phenwaig i'r llech-gloiddwyr, ac fel hyn y'n gwaredwyd megis oddiar riniog newyn, ac ni chafodd y gelyn roddi ei draed ar ein cyffiniau. "O! na foliauem yr Arglwydd am ei ddaioni a'i ryfeddodau i feibion dynion." Rhaid i ni hefyd gael ychwanegu un o ddiarhebion ein tadau, sef mai

"Cyfyngder dyn yw cyfleustra Duw."

Fel hyn y tair blynedd o briader, y rhai a ddechreuasant yn mhreseb yr anifail, a adawsant eu hol o'r diwedd ar gwprdd y dyn; ond efe a waredwyd megis yn wyrthiol allan o'i gyfyngder.

Yr oedd y gwaethaf wedi myned drosodd yn y plwyfi hyn am dipyn eto, a'r wlaï yn dechreu ymunioni, fel erbyn i 1801 ddyfod i mewn y teimlid yn weddol galonog. Yr oedd y blynyddoedd crybwiledig wedi gadael eu hol yn lled drwm ar y dosparth gweithiol yn Lloegr; ac fe ddywed y *Faner* am Ebrill 15, 1863, t. d. 231, dlarfod i Bwyllgor o Dy y Cyffredin y flwyddyn hon ddod i benderfyniad "Fod tair torth o hen fara yn gyntaf i bump o fara newydd."

Y LLECHI.

Yr oedd y ty coed a'r to gwellt yn ateb yn dda i amgylchiadau yr hen oesoedd, ond wedi i ddynion ddod yn wareiddiach, ac i'r wlaï orphwys oddiwrth ryfel, daethpwyd i weled y bu idioldeb o dai mwy palhaus. Pa bryd y dechreuwyd toi a llechi, sydd anhawdd ei ateb. Y mae yr olion cloddio am danynt gyda glanau yr Ogwen a'r Galedffrwd, yn ngayd a'r Chwarel Goch a Chwarel y Bryn, yn nghyda'r hen dlerw sydd wedi tyfu yn mhllith eu hyspwrïal, yn profi fod yma ddefnyddio llechi er cyn cof. Os ymbolir a'r hen bobl, ie, y pedwar ugeiniad, am y chloiddfeyld hyn, eu hateb yw, "Na wyddant hwy, ac na wyddai eu talau na'u teiliau pwy a fu yn gweithio ynddynt. Oddentu tri chan' mlynedd yn ol cawn yr hen fardd Sion Tudur wedi gwneud "*Cywydd i ofyn llwyth o Ystlys o Chwarel y Cae Hir gan Rolant Thomas, LL.D., De'n Bangor, oddeutu y flwyddyn 1570,*" y rhai a lwythid i long yn Aber Ogwen. Mewn hen gyfansoddiad barddonol arall a gafwyd yn Ngwydir, cawn ryw ffug-Ferddia yn propwydo am bethau y gwyddis iddynt ddiwydd oddeutu y flwyddyn 1282—3, megis gwaith y Saeson yn tori coed ar etifeddiaeth y Tywysog Dafydd ab Gruffydd, a gwaith y cymunwyr coed oedd o flaen byddin Edward I. yn tori i lawr fforestydd Eryri i wneud lle i'w filwyr; ac fel hyn y dywed:—

"Pan dorer y deri vn agos i'r Yri
A'i nofai yn efridd o Gonwy i fro Gwerydd, (Gwerddon?)
A throir ceryg yn fara yn agos i'r Wyddfa."

Oddiwrth droi y ceryg yn fara ymddengys y byddai rhyw rai y pryd hwnw

yn enill eu bara wrth godi a gwneud *ceryg toi*, a hyny o bosibl yn y plwyff hyn. Yr cedd nuriau a tho ty yn yr len amser yn dra thewglud. Gwneid y muriau yn diwchus, y rhai a lenwid a chlai neu gymrwd, a gorchuddid y muriau oddifewn a'r un defnydd, ac oddiallan mwsoglid hwy; ar hyn gosodid y coedwaith wedi ei gynnilethu a gwail, ac ar hyn tô o dyweirch gleision gwynien o'r nynydd, ac yn uchaf to o lechi. Oddifewn uwch ben crogid math o gar neu glwyd, o wial eto, yr hon a elwid *crog-glwyd*, ac arni y cedwid bara ceirch, cig aych, &c., ac ystyrient eu hunain yn dra chlod o dan y gronglwyd hon; a dyma y math hynaf o dai a ddaethant i lawr i'n hamser ni, oddieithr palasau. Yn awr gadawn y pethau hyn, a deuwn at y testyn trwy ddechre gyda

Cloddfa Cae Braich y Cafn. O'r tu gogledd i'r Fronllwyd yr oedd ffridd, ond a elwid Y Cae, ac weithiau Cae Hir, ac oddifewn iddo gefnen a elwid y Braich, yn ystlys ddwyreiniol yr hwn yr oedd pantle a elwid y Cafn, yn yr lwn y byddai dwfr bob amser; a gelwid y lle o'r herwydd ar yr enw uchod. Ar y gefnen dan sylw yr oedd amryw dyllau wedi eu hagor gan amryw bersonau i fyned at y lechfaen; yr uchaf a elwid yn Gloddfa Siors. a'r isaf yn Gloddfa Rolant Huw, a chodai dyn geryg o rywle y teimlai ar ei galon, heb neb i'w luddias. Wedi llwyddo trwy offerynoldeb ceibiau a throsolion i gael ychydig glytiau, cariai dyn hwy ar ei gefn o un i un i'r clwt agored, ac os byddai eisiau pileru clwt, dodai gareg dan ei ben, yn union dan y lle yr amcanai iddo dori, a chyda clamp o ddulbren, efe a gurai ar y fan hono nes pilerau, ond weithiau byddai y dulbren ynmyned yn ddellt cyn gwneud ei waith! Y gorchwyl nesaf gyda y clytiau oedd eu trwsio a'u holli; ac yn oedd gan y naddwr gareg deirongl a elwid *Maen nadd*, ac wrth ei thalcen swp o geryg, ar yr hwn yr oedd torch wellt, lle yr eisteddai i naddu; nid at yr un hyd na lled penodol, ond at *ryw* faint, cymaint ac a oddefai y gareg, ac ar y towr druan y disgynai y gwaith o orphen eu cymwysu. Yr oedd amryw o'r llechi hyn yn dri chwarter modfedd, ac weithiau yn fodfedd o dew, ac y mae engreiffiau dyddan i'w cael o bonynt weithiau mewn hen furdynod. Nid oedd yr hen gyllell naddu nemor fwy na thriwal; rhywbeth fel saith modfedd a haner o hyd wrth bedair a haner o led, fel y dengys yr engraffit o un sydd yn llaw y ddelfw fynor o lechnaddwr sydd yn eglwys Llandegai, ac y mae un arall lled debyg yn Ogwen Bank. O'r diwedd, fel yr oedd y gelfyddyd o naddu a thoi yn gwella, daeth yn amcan, ac yn drefn gan y naddwr i'w lled gyfateb i haner ei hyd, ac wrth ysgil y diwyg hwnw dyfeisiwyd trasaefai haiarn, yr hon ar y dechre nid oedd fwy nag 16 modfedd o hyd, yr hon a osodid mewn mainc; a dyna ddechreuad y Fainc drafael. Dyfeisiwyd hefyd i garn y gyllell naddu dafu ychydig allan mewn trefn i ddiogelu bawd y naddwr, pan nad oedd ar y dechre ond sêth fel c.eifar. Toc deuwyd i ddeall y gwerth o ddurio y gyllell, â'r drafael, ac yr oedd y lechnaddwr yn ystyried ei hun yn lled gywrair erbyn hyn. Y mae yn debyg mai cystnewid y ceryg y byddai yr hen lechgloddwyr a'u cymydogion yn y parthau hyn, am rywbeth y teimlent angen am dano, a choelir mai yn y wedd uchod i ryw fesur y parhaodd pethau hyd yr unfed gaurif ar bymtheg, pryd y dechreuwyd eu prynu i Loegr a gwledydd eraill, ond ar raddeg fechan, Galleisid prysuro a helaethu eu masnach mae yn wir, ond yr oedd hen

gyfreithiau ac arferion yn atal, ac er mai llechi gwaelion brig y graig oeddynt, ac mai trefu wael oedd ar eu codi a'u naddu, yr oedd hyny oll yn cyd-daro yn weddol a chwaeth yr amseroedd, pan yr oedd pob diwygiad yn beth amheus, os uad peryglus gan rai, megis ag y bydd hen wraig o dan y cryd-cymalau, yn ofni rhag pob yspenc wrth gerdded.

Ceryg toi, llechi, a chloddfa, a chloddwr, oedd yr hen enwau arferid, ac y mae yn debygol fod y Saeson wedi dod i ddechreu tynu gwynt arnynt tua yr amseriad a nodwyd olaf, ac mai oddiwrthynt hwy y cafodd Sion Tudur ei "yslatys" (*slates*), ac y daeth chwarel (*quarry*) a chwarelwr i ymarferiad, y rhai sydd mor gyffredin erbyn heddiw.

Cario â chewyll.—Cludid y llechi y pryd hwn gydag ystlys ddwyreiniol Ogwen, tros y Rhiw Goch. Elid a hwy i lawr mewn cewyll ar gefnau ceffylau, merlod, a mulod, trwy Bantdreiniog, heibio Coetmor, Tal y sarn, a Maes y Groes, i Aber Ogwen; ac mor gul oedd y ffordd yr amser hwnw, nes byddai y cewyll yn curo y cloddiau o bobtu.

Yr oedd amryw ar y pryd yn gwella yn eu hamgylechiadau, ac yn gallu troi ceiniog heibio, neu yn ol y ddihareb,

Byw yn dda, a chadw mochyn!

Ar ol hyn daeth etifeddion treftadaeth y Penrhyn i hawlio yr wythfed ran o werth y llechi a gloddid yu y Fronllwyd, yn ol y gwerth a geid am danynt wedi eu cludo i lan y mor, ac mewn trefu i sicrhau yr wythfed ran o'u gwerth, cadwent ddyn i olygu y gwaith, ac i wneud cyfrif a'r gweithwyr unwaith bob blwyddyn ar ddydd talu yr ardreth; ond gan fod colledion i'w cael yn y dull hwn, trwy fod masnachwyr weithiau yn ffaelu, ac yn methu talu i'r gweithwyr, a hwythau yn methu talu yr hyn oedd golygwyr y drestadaeth yn hawlio, penderfynodd Mr. Hughes, goruchwyliwr y Penrhyn ar y pryd, tua'r flwyddyn 1765, osod y mân dyllau i'r gweithwyr am y swm benodol o bunt yn y flwyddyn ar bob cymerwr, a'u nifer ar y pryd oedd tua 80, ac felly yr oeddynt yn £80 o ardreth flynyddol, ac yr oedd hyn o fewn can' mlynedd i eleni, 1865. Perchenog y Penrhyn ar y pryd oedd y Caufridog Hugh Warburton.—*Golud yr Oes*, cyf. i. Gosododd Mr. Hughes, ei Oruchwyliwr brydlesau ar y pryd, y rhai oeddynt i barhau am 21 o flynyddoedd, ac felly i fyned allan yn 1786. Yr oedd amryw o'r cymerwyr yn deidiau neu yn hen deidiau i rai hen bobl sydd yn fyw eto, tra y maent hwy wedi myned oll i ffordd yr holl ddaear; ond rhag i'w henwau oll fyned i dir angof, dodwn rai o honynt yma:—

Enwau cymerwyr prydlesau ar lech-gloddfeirdd y Fronllwyd, y rhai oeddynt i barhau o'r flwyddyn 1765 hyd 1786.

John Edmwnd, Cil Geraint, (yr anturiwr cyntaf).

William Williams, Dol parc.

William Parry, Bryn llys.

Richard Parry, Lon isaf, (prif dŵr yr ystâd).

Rowland Davies, Cil Geraint.

William Thomas Sion Ffowc, Chwarel goch.

William Prichard, Bod Feirig.

Hugh Jones, Ty'n Tŵr.

Gruffydd Jones, Ty hen.

Byddai y gwr sydd a'i enw yn olaf ar y rhestr, yn ystyried ei hun wedi gwneud diwrnod da iawn, os byddai wedi gwerthu deg pwn o rug *Gwaen Gynfi* yn Mangor, yn ol 3c. yr un, a gwerth 2s. 6c. o geryg toi yn *Aber Cegin*. Yr oedd nifer o feibion a merched bochgoch o 15 i 20 oed ar y maes y pryd hwn, yn myned a dyfod dan ganu neu chwibanu i'r llongborth dan sylw gyda merloda chwyll; cludid ceryg hefyd ar fachau, y rhai a osodid o bobtu i'r ystrodur. Y mae yn ddywediad gan yr hen bobl "*Mai Ellin Gruffydd*, yr hon wedi hyny a fu wraig i John Puw, Ty hen, yr hon a anwyd yn 1700, a aeth a'r pwn cyntaf mewn cewyll i *Aber Cegin*." Yr oedd hon yn hen nain i Judith Williams, Nant y Graian, yr hon hithau a fu yn cario gyda chwyll, ac yr oedd yr olaf yn fam y Parch. John Owen, Hermon, yr hwn sydd eto yn fyw. Cludid â chwyll yn y wedd uchod i *Aber Cegin*, gan R. Williams Cil Geraint, a Jane Jones, yr hen Durnpike, &c., a'r olaf yw yr unig un sydd yn fyw o'r carwyr gyda chwyll, bu ei thad a'i mam, a'i thaid a'i nain yn y swydd o'i blaen. Cludid hwy yn y cyfnod hwn gydag ystlys orllewinol yr Ogwen, heibio Bryn Meirig, a than Fryn Derwen, a Thanysgrafell, tros Ben y Groes a Phenau y Bronydd, a heibio Penlan am *Aber Cegin*.

Yn awr, er mwyn difyrwch i'r darlennydd, dodwn i lawr ddull yr hen bobl o gadw cytrif, o enau Jane Jones ei hunan,

1af, *Fwrw* neu *murw* y galwent 3 *careg*.

2il, *Cant Bach* y galwent 10 *murw* a 2 *gareg*.

3ydd, *Cant Mawr* oedd yn cynwys 4 *Cant Bach*: a

4ydd, *Dau Gant Bach* oedd bwn ceffyl.

Y mae 42 *mwrw* a 2 *gareg* yn y cant yn ein hamser ni, mewn trefn i gyfarfod a'r colledion sydd yn nglyn a'u trosglwyddiad, er na chaff y prynwr ond 40. Dechreuwyd lledu y ffyrdd y pryd hwn, yu lle fod y cewyll yma eto yn curo y cloddiau; ac o'r diwedd yr oedd rhai yn dechreu arfer troliau bychain, y rhai a gludent tua phum pwn o geryg bob un. Yn y cyfnod hwn, os edrychwn i'r mân gloddfeydd, eibillion bychain a arferid; a Sion Dafydd y saethwr oedd yr unig un i lenwi y tyllau a'u rhoddi allan; yr hyn a gacwai hyd y gallai yn ddirlgelwch, a chredai ambell un ei fod mewn cyngrair a'r yspryd drwg. Dau fath o geryg a wneid yma yn amser y pryalesau, sef *Y Ceryg Sengl* a'r *Ceryg Du*. Y cyntaf a wneid o ryw hyd a lled, a'r rhai olaf yn 12 modfedd o hyd, wrth 6 o led; ond tua eu diwedd, yr oedd math arall mwy a elwid "*Ceryg Pwysau*," am y pwysid hwy mewn clorianau, ac a gludid fel y soniwyd ar fachau; ac o'r diwedd daeth terfyn ar y dull hwn ar bethau.

Arghwydd Penrhyn.—Wele ni yn awr yn dechreu ar gyfnod newydd yn ei berthynas a'r cloddfeydd llechi, y ffyrdd, a'r cario. Tua'r flwyddyn 1765 priododd Richard Pennant, Ysw., Anne Susannah Warburton, etifeddes y cadfridog Warburton, a thrwy hyn efe a'i holynodd yn yr etifeddiaeth; a gwr deallus, llygadog ac anturiaethus oedd efe, a bu o sawr ferdith i'r wlad hon. Wrth ganfod ychydig weithwyr tlodion yn cloddio yma ac acw yn y Fronllwyd, ar frig y gwely llechfaen, ac heb foddion i'w agor yn briodol, darfu iddo gymeryd y gwaith allan o law, i'w ddwyllaw

ei hun, trwy dalu allan y prydleswyr yn ol £2 yr un : ac yn lle fod y prydiesau yn myned allan yn y flwyddyn 1786, hwy a ddirwywyd i fyn y 1782, ac felly yn gynt o bedair blynedd na'u hamser. Yn yr un mlynedd ar ddeg a ddilynodd, efe a wnaeth lawer o welliadau trwy osod nifer o weithwyr i agor y gloddfa, ac anelu at ei chalon, a gwneud ffordd o Aber Cegin i fyny heibio Peulan a thrwy Goed y Dinas i'r Gloddfa, yr hon a elwir gan yr hen bobl eto yn "Ffordd y Lord," ac er fod darn o honi yn annhramwyedig o dan Tyddyn Diewm. o herwydd ffordd a wnaed yn ddiweddarach gan y llywodraeth, y mae tramwy mawr arni eto trwy Goed y Dinas i'r Gloddfa. Yn niwedd yr un mlynedd ar ddeg da a goffawyd, pan dorodd rhyfel allan rhyngom a Ffrainc yn y flwyddyn 1793, yr oedd ganddo 150 o ddynion yn y gloddfa yn unig, rhai yn arloesi, ac eraill yn gwneud llechi, heblaw y rhai oedd ganddo mewn manau eraill. Yn anffodus i'r anturiaethwr anrhydeddus ac i'r gweithwyr diwyd, darfu i rhyfel â Ffrainc ladd yspryd adeiladu yn y byd, ac achosi i'n llywodraeth osod treth o £20 y cant ar y llechi a afonid i wledydd tramor, a thrwy hyny lleihawyd y fasnach a'r galw am lechi, yn gystal a nifer y gweithwyr. Parhaodd y gynddaredd ryfelgar hon ar ddynion am ddwy flynedd ar ugain, nes y rhedodd ei hun allan o wynt yn ngwallgofrwydd brwydr Waterloo. Rhaid i ni yn awr dafu golwg ar y pum mlynedd cyntaf o'r rhyfel; tarawyd y gwaith llechi megys a'r parlys, ond efe a adfywiodd drachefu er gwaethaf y rhyfel, fel erbyn 1802 yr oedd nifer y gweithwyr yn 300, ac yn 1808 yr oedd eu nifer yn 600; a dyma y flwyddyn hir gofiadwy gan yr hen bobl, y bu farw y gwir anrhydeddus Arglwydd Penrhyn, er galar calon i'r gweithwyr, a chanodd Gutyn Peris awdl gwyntanus ar ei ol. Erbyn 1815, ar derfyniad y rhyfel, yr oedd eu nifer yn 800, a'r flwyddyn nesaf yn 1000. Dylem goffa yn awr mai i'w wraig, Arglwyddes y Penrhyn, y disgynodd yr etifeddiaeth, ac mai hi oedd yr olaf o hen âch Gymreig y Penrhyn. O hyn yn mlaen eto, fel arferol, yr oedd gobailth y gweithwyr yn goleuo ac yn tywyllu yn ol amgylchiadau; oblegid yn ol Mr Pace, un o oruchwylwyr y Gloddfa, cawu hwy wedi dod i lawr i 800 yn 1825.

Yr oedd Mr. Greenfield, a ddaethai yn oruchwyliwr i'r gloddfa yn y flwyddyn 1799, yn ddyfeisiwr math ar ysgriw, yr hon, ond ei rhoddi tu ol i blyg, a'i gwthiai i lawr, bydded o'r maint a fo. Efe hefyd a ddechreuodd dori y graig yn bonciau neu orielau o 17 i 18 llath o ddyfn, trwy iddo gael ei gymhell i hyny wrth weled y plygion a fwrdd o uchder mawr yn cael eu dryllio. Ond prif oruchwyliwr Arglwydd Penrhyn, a'i gynghorwr hoff, oedd yr enwog William Williams, Llandegai, gwr o synwyr cryf; a bu ganddo rywbeth a wna i'r ystâd am 52 o flynyddoedd.

Ag ysgolion y dringid y clogwyni ar y cyntaf, ond weithiau wrth guro ar blyg, byddai y clogwyn oll yn cydymollwng tan draed y creigiwr druan, ac yntau yn colli ei fywyd ! O'r diwedd daeth rhaff i ymarferiad, yr hon a fyddai wedi ei sicrhau yn gyntaf ar y top, ac a osodai y creigiwr yn bleth am ei ganol, ac os dygwyddai i'r clogwyn ymollwng fel y coffawyd, byddai yntau yn hongian ynddi fel tafod cloch, neu bryf copyn wrth ei wê, ac yn lle cynhyrfu a dychrynu, byddai yn mwynhau ei hunan mor dda, fel y tuedd ef yn hytrach i chwerthin uwch ben ei lwyddiant.

Cyflog y gweithiwr oedd 1s. yn y dydd, a thelid i'r marciwr, yr hwn

oedd yn edrych am naddu y ceryg yn eu lle, a chadw eu cyfrif, 1s. 6c.; a'r unig faelfa (*shop*) oedd yn Llandegai gan W. W., a cheid y pryd hwnnw brys o ymenyn a chanwyll wer am 6c. Dau gini hefyd oedd ardreth tŷ a gardd. Yn y flwyddyn ragenwol y daeth y ddwy *fuchine* cyntaf yma i bwysu ceryg, un yn y Llongborth a'r llall yn y Gloddfa. Pwysid yn y gyntaf gan y diweddar Robert Thomas, Abercegin, ac yn yr olaf gan Owen Jones.

Y gwahanol fathau o lechi.—Tua yr amser hwn, fel yr oedd masnachwr mewn llechi o'r enw Mr. Docer yn myned gydag Arglwydd Penrhyn trwy y Gloddfa, efe a anogodd ei Arglwyddiaeth i wneud yr holl geryg yn y maint a'r maint, a gwnaed felly am dymor. a dyma ddechreuad y *Docers*. Erbyn hyn yr oedd cywreinrwydd y llechnaddwr, a'r towr, yn esgor ar ryw gynllun newydd yn barhaus; un eisiau gwneud fel hyn a'r llall fel arall; ac yntau ei Arglwyddiaeth yn methu boddhau pawb; fodd bynag, ei Arglwyddes wrth ei weled mewn penbleth fel hyn, ac mewn poen parhaus, a'i hanogodd i'w galw yn ol graddau y bendefigaeth; yntau a dderbyniodd yr awgrym, a gelwid y ceryg 24 modfedd o hyd, wrth 12, o led yn *Duchess*; a'r rhai 20 wrth 10, yn *Countess*; a'r rhai 16 wrth 8 yn *Ladies*; a gwneid y rhai *Dwbl* yn 12 wrth 7; a'r *Sengl* yn 11 wrth $5\frac{1}{2}$; a pharhasant am dymor yn bum math.

Y Cario eto.—Sonwyd o'r blaen am y ffordd a wnaed o'r Llongborth i'r Gloddfa; ac ar ol ei gwneud hi, taflwyd heilio y cewyll a'r bachau, yr hen ddull o gario; a gwelid yn fuan droliau a gwageni, oddeutu 100 mewn nifer, yn myned ac yn dylod yn eu lle; a pharhaodd y dull newydd hwn am oddeutu 19 o flynyddoedd; ac o 15 cant i 20 oedd y llwyth neu y dunell i bob trol, ond yr oedd gwageni yn eithriad.

Ffordd Haiarn.—O'r diwedd daeth terfyn eto ar y dull yma o gario, a gwnaeth Arglwydd Penrhyn ffordd haiarn o'r Llongborth i'r Gloddfa. Dechreuwyd arni tua 1800, ac yr oedd wedi ei gorphen yn 1801; a hon oedd y ffordd haiarn gyntaf yn y deyrnas. oddieithr ffordd *Newcastle-upon-Tyne*. Dyma y pryd hefyd y gwnaed y Dderbynfa yn Aber Cegin gan Thomas Knowles yr Allt uchaf, Pentir; a chostiodd y ffordd a'r Dderbynfa £170.000 (cant a deg a thri ugain o filoedd o bunnau) i'w Arglwyddiaeth. Agorwyd y ffordd Mehefin 25ain, a gwedd John Gruffydd, Ty'n y Clwt, oedd y gyntaf i fyned ar hyd-ddi, gyda phedwar llwyth gwagen ar ol dau geffyl, ac ychwanegwyd dwy wagen eraill atynt, ac o dipyn i beth aethant yn 15 mewn nifer, ac hyd 20 o'r diwedd; a pharhasant i ychwanegu fel nad yw y tyniad lai na 55 o wageni erbyn ein hamser ni. Erbyn hyn yr oeddid yn canmol y ffordd haiarn, ac yn mawrygu doethineb dyn; ond yr oedd un dosparth wedi eu taflu bron i derynau anobaith, sef y ffermwr. Ofnent a chredent y daifyddai am danynt, gan fod y gwaith cario wedi ei ddwyn ymaith, a'r *boa constructor* hon wedi llyncu gobaith eu helw! "Ond croen am groen," "a'r hyn oll sydd gan wr a ddyi yfe am ei einioes," felly hwythau, cyn marw yn lân, a benderfynasant wneud un cynyg am "fyw tipyn eto," sef trwy ymroddi i drin eu tiroedd, agor ffosydd, a theilio; a "chan wired a'r pader," cyn pen dwy flynedd yr oeddynt yn cael eu hunain yn well allan nag erioed; o herwydd hefyd fod gwaith y Gloddfa yn myned rhagddo, a galw mwy am weithwyr, a boliau y rhai hyny, eu

gwragedd a'u plant, yn galw am ymborth, yn yd, ymenyn, caws, llaeth, a chig, am yr hyn y caent hwythau y ffarmwyr bris rhagorol. Yr wyf yn adrodd y gyffes hon o enau y diweddar R. Williams, Cil Geraint, yr hwn a fu yn cario a chewyll, ac wedi'n a throliau, ac a ymroddodd i drin ei dir, ac a fu gyfranog o lwydd neu aflwydd helwnt y llechi, am y 80 mlynedd diweddaſ o'i oes, ac a welodd "lawer tro ar fyd," chwedl yr hen bobl. Er gwaethaf effeithiau niweidiol y rhyfel a Ffrainc, ni throai Arglwydd Penrhyn ei weithwyr ymaith, ond efe a'u cadwai i ledi y ffyrdd, yn gystal a gwneud rhai newyddion; ac yn y flwyddyn 1796 rhoddodd hwy ar waith i arloesi 100 erw o fynydd Llandegai, ac a elwid wedi ei gau "Cae'r Mynydd," a phlanu tatws yuddo i'r llechgloddwyr, ac i gytartod a'r rhai hyn, anfonai yntau lwythi o benwaig i fyny yn rhad, ac yn rhodd o Gored R. Thomas; ac am y weithred rasol hon o haelioni a dyngarwch, llysenwyd ef gan un o feibion y fall yn "Arglwydd y Pytatws," ac fel hyn y bu:—Yr oedd ei arglwyddiaeth wedi bod yn arferol o gynrychioli amryw fanau o bryd i bryd yn y Senedd, ond yn y flwyddyn a enwyd bu yn dynu torch rhyngddo a Syr Robert Williams, Friars, Beaumaris, swyddog o'r fyddin, am yr anrhydedd o gynrychioli swydd Gaerynarlfon; ond colodd ei arglwyddiaeth yr ymafaelyd; ac yr oedd y fath ffyrnigrwydd rhwng y pleidiau a'u gilydd, fel y beiddiodd un o'i withwynebwy'r ei gyfarfod yn Nghonwy a dwy gigwain dridaint ganddo, ar y rhai yr oedd tatws a phenwaig, gan waeddi a llef uchel yn ei wyneb, "Arglwydd y Pytatws!" &c., ac ar ei ol amryw weithiau; yr hyn a gythraddodd ei yspryd tyner mor fawr, fel y dywedodd yn ol rhai, "y gwnai efe i'r gwellt dyfu ar farchnad, ac heolydd Conwy." Yn fuan ar ol hyn estynodd y ffordd a wnaethai fel y soniwyd o Aber Cegin i Gloddfa y Cae, yn mlaen trwy Nant Ffrancon i Capel Curig, i ymuno a ffordd yr Amwythig, ac felly i unioni ffordd cerbyd yr Amwythig, yn lle ei bod yn myned trwy Gonwy fel cynt; yr hyn a ddygai gryn elw i'r dref, am fod yr ymwelwyr a phen y Wyddfa, yn dyfod yno gyda y cerbyd; ac felly fu, llwyddodd trwy y naill beth a'r llall i beri cryn golled i Gonwy, gan fod yr ymwelwyr bellach yn myned rhag eu blaen o Fangor i Westy Capel Curig, yr hwn a ddechreuwyd ganddo o'r blaen tua'r flwyddyn 1791, a dywed rhai hen bobl i wellt dyfu yn Nghonwy fel y dywedasai! Y mae y ffordd hon i'w gweled eto, ac y mae yn myned gydag ystlys orllewinol Nant Ffrancon am y Benglog, heibio Gwern y go, Gallt y Gogo, a Bwlch o Oleuni, ac am y Gwesty; a chyflog y gweithiwr, yr hwn a gerddai o'r hendref i fyny, oedd pedair ceiniog ar ddeg yn y dydd, a'i fywyd ei hun, a da eael hyny. Yr oedd ffafr Arglwydd Penrhyn yn fawr at y llechgloddwyr, a rhanodd Gae'r Mynydd yn fan dyddynod rhyngddynt, gan adeiladu cyfres o dai iddynt yn y flwyddyn 1798, y rhai hyd eto a elwir yn Dai'r mynydd; at y rhai, tua 1843, yr ychwanegwyd rhes arall gan y gweithwyr eu hunain yn uwch i fyny; a thua 1862, gyfres yn uwch drachefn, gan y gweithwyr. Oddeutu y blynyddoedd hyny, am fod y Gloddfa yn myned mor dda, a galw am ychwaneg i mewn, taffai amryw o'r man grefftwyr heibio eu gwaith, am y caent well tal am eu llafur yn y Gloddfa; ac fel engraffit nyny a nodwn Sion William Ellis, o'r Braich Talog, a daflodd heibio ei nodwydd ac a ddaeth iddi, ac yr oedd ganddo 12 o blant, a chafodd naw o honynt hwythau waith ynddi gyda eu tad,

yr hyn oedd yn llawenydd mawr i'w rhieni tlodion ond diwyd, dau neu dri o ba rai a fuont yn golofnau heirdd yn eglwys Dduw, sef y diweddar Thomas Jones, Brynllŷs; a'r diweddar Barch. Morris Jones, Jerusalem; a William Jones, Glan y gors, yr hwn sydd eto yn fyw, ac oddeutu 87 mlwydd oed. Cafodd Thomas bwr o esgidiau newyddion; ac enillodd Morris het a chadach; a chafodd William rywbeth cyffelyb yn y mis cyntaf; yr hyn a sirolai y plant a'u rhieni. Fel yr oedd y teulu ymdrechgar hwn un bore, bawb wedi myned at eu gwaith ond y bachgen lleiaf, daeth Gutyn Peris y bardd i'r ty, a gofynodd i'r bachgen am ei dad, ac atebodd yntau "ei fod wedi myned i'r chwarel"; "Wel, pa le y mae dy fam?" meddai y bardd, "Hi a aeth i'r mynydd i nol baich o rug," meddai y bachgen; ar hyn aeth Gutyn i fyfyrddod, a chyda gwen dywedodd,—

Y gwyr yn gweithio trwy y dydd
A gryga bydd y gwagedd;
Ni chant hwy druan unrhyw dro
Ddim ond a dyno'u daunedd.

Y mae y teulu a'r penill crybwylledig yn fras ddarlun o'r bywyd oedd yn ysgogi cymdeithas yn y plwyfi hyn ryw 70 o flynyddau yn ol, trwy offer-ynoldeb Arglwydd Penrhyn a dylanwad ei Gloddia; a dywedir na bu ei enill mwyaf oddiwrthi lawn ngain mil o bunau yn y flwyddyn. Yr oedd yn foneddwr haefrydig, a phawb yn ei garu, ac yr oedd bendith y rhai ar ddarvoud am danynt yn disgyn ar ei ben, a bydd llygaid yr hen hobl yn pefrio wrth son am dano. Yr oedd yn dal o gorpholaeth, ac yn debyg medd un a'i gwelodd i John Evans o'r Bala. Y mae portread cymaint a'r bywyd o hono yn y Penrhyn eto. Gwel ei hanes mewn cwr arall oddiar y cof-fynor sydd am dano yn eglwys Llandegai, t. d. 79.

Dilynwyd ef yn yr etifeddiaeth gan George Hay Dawkins Pennant, ac olynwyd yntau gan yr anrhydeddus Edward Gordon Douglas Pennant, y boneddwr presenol. Rhaid terfynu hanes y chwarel yn y man yma, oblegid y mae wedi myned trwy gymaint o ddiwygiadau, fel y gellid ysgrifenu cyfrol drwchus ar y mater hwn yn unig.

Y Gwahanol Oruchwylwyr o'r flwyddyn 1765 hyd 1866.

GORUCHWYLWYR YR YSTAD.

1. Mr. Hughes 1765.
2. William Williams, Llandegai, hyd 1803.
3. Benj. Wyatt, Esq. Lime Grove, hyd 1818.
4. James Wyatt, Esq. Lime Grove.
5. Capt. Iremonger. Lime Grove

GORUCHWYLWYR Y GLODDFA.

- Mr. John Beyer, 1782.
El Fawr, (Mr. Halle), 1784.
Richard Williams, Dolawen, am 33 o flwyddi.
Mr. Evan Thomas, Ty'n y Clwt, 1795.—1825.
Mr. Greenfield o 1799 hyd 1825.
Mr. Pace o 1822 hyd 1855.
William Francis Ysw; o 1826 hyd eleni 1866.

Ac felly y mae efe yma ers 41 o flynyddoedd, a thrwy ei ofal a'i fedrusrwydd ef a'i fab Mr. John Francis, y daeth y Gloddia, y llechi, a'r gweithwyr, ac yn wir eu tai, a'u gerddi, i'r wedd drefnus sydd arnynt y dydd hwn. Gynt yr oedd yma feddwod gwarthas ac afreolaeth, ac ni byddai odid ganol

dydd yn dod, na byddai dau neu dri o gwmnion yn ymladd, wrth yr Hall; ond gosododd Mr. Francis ei wyneb yn erbyn y fath afreolaeth, ac felly diflanodd ymaith; ac y mae ymddygiadau y chwarelwyr erbyn hyn yn y gwaith, ac at eu gilydd, agos a bod yn bob peth a ellid ddymuno.

Y Felin Fawr.—Dechreuodd droi tua'r flwyddyn 1813, ac un o'r enw Mr. Worthington, a fu yn ei dal i ddechreu; a dywed rhai mai efe a'i cynlluniodd, ond dywed eraill mai un W. Hughes o Gaernarfon; ond gwyddys mai y diweddar Mr. Robert Williams, a'i cwblhaodd. Perthynai i'r hen Felin 16 o fframiau, yn cael eu llusgo yn ol ac yn mlaen gan granciau, y rhai oeddynt mewn cysylltiad a'u gilydd, ac yn derbyn eu hysgogiad oddiwrth yr olwyn ddwfr; ac oddi tan y fframiau hyn, ac yn nghlyn a hwynt, yr oedd math o gylllyll, ond a elwid yn llifiau; y rhai a dynid fel y dywedwyd yn ol ac yn mlaen, gan y cranciau, nes gwneyd brâth yn y ceryg fyddai tanynt; a chan y byddai dyn yn ei waith yn rhoddi tywod y môr yn y brâthiadau, i'r rhai dyferai dwfr o gafnau, a llifient eu gafael trwodd yn fuan. Gwneid yma geryg toi, llorio, aelwydydd, a cheryg beddau, a phob math ar bileri yn nghyda llechi ysgrifenu; ac yr oeddynt o bob ansawdd, tew, a maintioli. Pob ceryg o dan 6 throedfedd o hyd, a than 3 o led, elwid y *Dosparth 1af*; a phob rhai a gyrhaeddent hyny, ac uwchlaw, a elwid y *Dosparth 2ail*. Deuwyd o'r diwedd i wneyd amryw fathau eraill, megis yr *Amryw, a'r Eithafol*. Aeth rhai oddi yma i Arddangosfa Llundain yn 1852. Yn y flwyddyn 1846 gwnaeth Mr. Francis Felin newydd yn yr hon yr arferid y Llif gron, yr hon a fu agos a llwyr ddisodlu yr hen; ac ynddi hefyd y llyfnheid ceryg a adwaenir gan y llechgioddwyr wrth yr enw "*Crych dû*" yr hwn cyn hyn nid oedd dda i ddim ond i'w fwrw dros y domen, ond yr oedd y peiriau hyn yn ei lyfnhau, fel yr ymddangosai fel mynor gwyn, a daeth galw mawr am dano. Yn y flwyddyn 1855, gwnaeth Mr. Francis a'i fab, adeilad rhagorach a harddach eto, yr hon sydd hefyd yn rhagori mewn hwylusod; a thra yr ydys yn ysgrifenu yn 1865, mae adeilad arall ardderchocach a hwylusach yn cael ei wneud i'r un amcan.

Y Gymdeithas (Club), a'r Meddygdy.—Ar ol i un Thomas Wells friwio yn y Gloddfa yn y flwyddyn 1787, a marw o eisiau ymgeledd briodol, penderfynodd Arglwydd Penrhyn ffurfio Clwb i'r chwarelwyr, y rhai a gyfrant ato 2s. yn y chwarter, a rhoddi allan o hono i un a fyddai wedi briwio 7s. yn yr wythnos, ac felly fu am dalm o amser. Ond wrth weled ambell nn yn cymeryd mantais ar y Gymdeithas o herwydd dolur bychan, gan aros adref, tynwyd y tâl i lawr i 3s. 6c. yn yr wythnos, a pharhad o hwn yw yr un sydd yma heddyw. Meddyg cyntaf y sefydliad hwn oedd y Dr. Jones, aer Pentir, a'i gyflog oedd £100 yn y flwyddyn; ac efe a symudodd i Fangor. Pan friwai dyn, cymerid llety iddo yn ymyl ei feddyg. Olynwyd ef gan y Dr. Roberts tua 1805, ac yn y flwyddyn 1820 adeiladwyd meddygdy yno yn nghwr gogleddol v ddinas. Ond yr oedd llawer o annghyfleusderau yn dilyn hyn, megis pan fyddai dyn wedi briwio yn drwm, ac ambell waith, yn gwaedu i farwolaeth cyn cyrhaedd Bangor! Wrth weled y pethau hyn, darfu i'r anrhydeddus E. G. D. Pennant yn y flwyddyn 1842, a hyny ar ei draul ei hun, adeiladu Meddygdy Brynallwyd, yn cynnwys amryw ystafelloedd cysurus, ac ynddynt 13 o welyau. Meddyg y lle yw Hamilton Alfred Roberts Ysw., ac y mae yn fab i'r Dr. Roberts

a goffawyd. Yma dygir y claf, a chaiff bob ŷmgeledd, a 3s. 6c. i fyned adref i'w wraig. Pan fo gwr m. r. r., caiff ei wraig £5 at ei gladdu, ac os y wraig a fydd farw, caiff y gwr £1 at ei chladdu. Os lleddir gwr yn y Gloddfa, caiff ei wraig £5 o'r Penrhyn bob blwyddyn, hyd ddiwedd ei hoed os pery yn weddw. Nid anweddlus coffa yma fod oddeutu 244 o ddynion wedi en lladd yn y Gloddfa, o'r flwyddyn 1782 hyd Ionawr 1865, a bod llawer o'r marwolaethau yn gynnyrch diofalwch. Arferid yn yr hen amser roddi ergyd allan rywbyrd pan fyddai barod, ond rhybuddio yn gyntaf, ond yr oedd mynych o ffiliau yn dilyn hyn, fel o'r diwedd yn y flwyddyn 1855, rhoddodd Mr. Francis orchymyn i danio bob awr, a phawb i wneud ar unwaith, ac y mae y marwolaethau wedi lleihau.

Yn awr dyma ni yn canu yn iach a Chloddfa y Cae, yn Mhlwyf Llan-degai, ac yn troi ein wynebau at lech-gloddfeydd Llaallechid. Gallwsid meddwl, am fod teulu aurhydeddus y Penrhyn gymaint eu dylanwad yn yr ardal, a chanddynt hefyd gloddfa lwy dianus ynddi, na buasai neb yn meiddio agor un arall yn wrthwynebol iddi; ond nid felly y meddyliai "Bechgyn Eryri." O na; yr oedd rhai o honynt o leiaf yn meddwl y gallasant hwythau fwynhau mwy o aur ac arian, meirch a cherbydau, a thipyn ychwaneg o bomp a rhodrs y byd hwn, ond cael hyd i'r wydd sydd yn dodwy ŷyau aur! Yr oedd gweled eraill yn llwyddo, a'r alwad gynyddol am geryg, yn nghyd a gwaith y llywodraeth ar ol hyn, tua 1816, yn gwneud y ffordd fawr Wyddeig trwy y Benglog ac yn taffu pont tros Fenai, er hyrwyddo negeswriaeth rhingom a'r Ynys Werdd, yn gwneud i aml un godi ei het o'i lygaid, ac edrych a oedd dim a allai yntau wneud. Rhoddodd y naill beth neu y llall a enwyd, awydd mewn rhai i agor neu ail agor o'r hyn lleiaf, y Cloddfeydd canlynol, y rhai a genfydd y darllenydd ar ei law chwith wrth ddod o Fangor at Bethesda:—Cloddfa y Ddol Goch, Cloddfa y Coed, a Chloddfa Pant-dreiniog; ac y mae dwy eraill yn nes i'r dwyrain, sef Cloddfa Tan y Bwlch, a Chloddfa Hafod y Wern; ac er fod trestadaeth Coetmor wedi sythio meddir i'r *Chancery*, er dyddiau Madam Pw, eto caniateid i'r acrod bob un yn ei dro, megis Meistri Pugh, Wynu, Percival, &c., ddodi prydlesau arnynt i'r neb y mynent, er yn gyfriol i'r Llys uchod, a chawn hwy yn gwneud felly gyda y tair cloddfa nesaf at y ffordd fawr; bellach nynt a dafwn olwg byr drostynt.

Cloddfa y Ddol Goch.—Dechreuwyd gweithio hon gan Robert Dafydd Parry o'r Pant, a John Jones, Wern Afr, tua'r flwyddyn 1836, trwy gael prydles arni; a gyasant hi yn mlaen am ddwy flynedd, pryd y rhoddasant hi i fyny, a chymerwyd hi gan Sais o'r enw Mr. North; ond gan na feddai yntau allu i'w dwyn yn mlaen gyda nemor fudd; rhoddodd hi i fyny, a chymerwyd hi gan un Simon Cox, Sais eto; yr hwn a gododd gannoedd o dunelli o geryg rhagoroi o honi; ond wedi iddo fod yn llwyddianus gyda hi am wyth mlynedd bu farw, a chymerwyd hi gan gyndeithas o Lerpwill, y rhai, wedi ei dal am ddwy flynedd gyda mantais weddol, a ymrasaeliasant a'u gilydd, ac a'i rhoddasant i fyny, ac y mae tan ddwfr byth.

Cloddfa y Coed.—A elwid felly am fod "Derw Coetmor" yn cyrhaedd yma, a chyfenwid hi gynt yn Gloddfa Lletty yr Adar. Yn y flwyddyn 1797 cymerwyd prydles arni gan Thomas Owen, Daiiwr, o'r Braich Talog, ac un William Edward Evan, a gweithient ynddi ar ol noswyl yn Nghloddfa

y Cae; ond o herwydd rhyw resymau na'u gilydd rhoddasant hi i fywy, a chymerwyd hi gan adeiladydd Seisnig a gyfenwid Overen tua'r flwyddyn 1820; yr hwn, wedi ei dal am ddwy flynedd neu dair, a cholli yddi £300, a'i rhoddodd hi i fywy, a chymerwyd hi yn nesaf gan Mr. Turner, tad Ll. Turner Ysw, maer presenol Caernarfon. Un tro, pan oedd gwerth oddeutu £500 o geryg yn sefyll ar y clwt, prynwyd hwy oll gan Mr. Hughes, Trefriw, tad i'r Dr. Hughes Ysw, Bethesda. Mr. Turner, wedi ei dal ychydig flynyddoedd, a chodi o honi lawer o lechi da, er nad oedd eto ond yn ei brig mewn rhan, a'i gadawodd i gymdeithas o Saeson, i'r rhai yr oedd boneddwr o'r enw Mr. Dodson yn gyfarwyddwr, a gwr ieuanc o'r enw Charles White yn ysgrifenydd; parhaodd y gwyr hyn i'w gweithio hyd 1857, can bell ag yr ydys yn cofio,* ond rhoddasant hwythau hi i fywy, ac y mae tan ddwfr.

Cloddfa Pant dreiniog.—Agorwyd hon i ddechreu gan Evan Moses o'r Gatehouse tua 1805. Ar ei ol ef bu yn ngafael un Mr. Hughes o Fangor tua 1830; ac ar ei ol yntau cymerwyd hi gan Mr. Overen, yr hwn a grybwyllwyd eisoes yn ei gysylltiad a Chloddfa y Coed. Y mae y gloddfa hon dan drwch mawr o ysbwrial; ond aeth Mr. Overen i'r draul o'i symud, fel erbyn iddo gyrhaedd y llechi, yr oedd y fil gyntaf o honant yn costio mil o bunnan; punt y lechen! Fodd bynag, cafodd werth miloedd o bunnau o geryg o honi, a throai allan yn enill o wyth gant i fil o bunnau yn flynyddol; o'r diwedd gwerthodd hi i gymdeithas a elwid *Pike, Pollock, & Hay* am chwe' mil o bunnau. Gwystlwyd hi wedi hyn i un Mr. Swaby, swyddog yn yr *Admiralty* yn Llundain, ond a ddaeth yn fêthdalwr, er nad yn ei gysylltiad a'r gloddfa, a bu i'r llywodraeth afael yn ei feddianau, ac yn mhlith pethau eraill aeth hithau i'w dwylaw, a chariodd y gwaith yn mlaen am flwyddyn, pryd y gwerthwyd hi i'r boneddwr sydd yn ei dal yn awr. Gweithir hi yn bresenol gan gymdeithas o Lundain, ond delir hi dan brydles oddiwrth Mr. W. Owen, ac a feddieuir gan Humphrey Ellis Ysw., Tai'r Meibion, ac enw y goruchwyliwr presenol yw Mr. Richard Owen.

Cloddfa Tan y Bwlch—Agorwyd hi ar y cyntaf tua 1805 gan Gymro a gyfenwid Roberts, yr hwn oedd yn byw yn Llechpwell, ac yn cynnyrch-ioli cymdeithas o'r dref hono. Codasant filoedd o geryg o honi, a chludent hwy i Aberogwen i fyned i'r mor; ond bu yn sefyll o'r pryd hwnw hyd 1862, pryd y cymerwyd hi gan gymdeithas o Lundain, i'r hon y mae Michael Williams Ysw., gwr o Gernyw, yn gyfarwyddwr, a John Griffith, gynt o'r Gerlan yn oruchwyliwr. (1865).

Cloddfa Bryn Hafod y Wern—Dywed traddodiad mai "o Fryn Hafod y Wern yr aeth y ceryg cyntaf i fôr." Sefyll yr oedd erbyn cof, a gwellt wedi ei gorchuddio, hyd y flwyddyn 1825, pryd y darfu i George Hay Dawkins Pennant Ysw. ei chymeryd mewn llaw. Anton ei weinwyr y byddai ef yma o Gloddfa y Cae yn y tymor haf, a'u galw yn ol y gauaf. Ychydig a wraeth ef o honi cyn ei rhoddi oddiar ei law, pryd y cymerwyd hi gan bersonau a elwid *Trimmers*, a buant yn ei gyru yn mlaen am ryw gymaint, yna taflasant hi i fywy, pan y cymerwyd hi gan un Mr. Porter, yr hwn a lwyddodd i gael boneddwr o Lundain, sef Dr. Green, yn gyfranog ag ef; a hwy a ffurfiasant y gymdeithas sydd yn ei dal yn awr. Yr oedd

hyn yn y flwyddyn 1845. Cyfarwyddwr y gymdeithas hon oedd hen swyddog milwraidd, yr hwn a arddelai ei hun yn Gymro; gwr o'r deheu-dir, a'i enw ydoedd William Crosser; a'i gorchwylwr ar y pryd oedd Morris William, Crown, Bethesda. Y pryd hwn dechreuwyd chwilio o ddithir am liechi, a gwariwyd degau o filoedd o bunnau heb gael ond ychydig iawn o ad-daliad. Y maent yn dal gafael ynddi eto, a chlodant eu llechi i safle rheilffordd Bangor, tra y mae y gloddfa wedi ei gosod ganddynt dan byddles i Mr. Coliver. Y gymdeithas hon hefyd yn y flwyddyn tagelwch a wnaethant y flos sydd yn dwyn dwfr i'r gloddfa o Gwm Afon Gaseg. Trefynwn yn awr hanes y llech-gloddfeydd yn y ddeublwyf gyda chosffia mai 2s. 6c. yw cyflog gweithiwr wrth y dydd, ac mai oddeutu 40s. yw canolbris gwerth y liechi am y flwyddyn yn trefynu Ionawr 1865. Y mae y cyfanswm fel hyn:—Nifer y gweithiwr, 3285; Cyflogau a delir, £129,147; Y tubelli, 132,061; Gwerth y liechi, £264,122.

Nid diwedd cofia yma mai Cloddfa y Cae yw y fwyaf yn y byd; fod ei llechi yn creu ac yn harddaf yn y farchiad; i'u lod yn cael eu cludo gan oddeutu 300 o lynges i bob parth o'r byd gwaredigedig; fod rhai o fechgyn y pŵys hyn yn olygwr a gorchwylwr ar lech-gloddfeydd yn Manaw, Yngotland, y Cyfandir, ac yn America; ac mai hwy a agorasant y rhai hwyaf o gloddfeydd y gwledydd Llynny. Ceir fwy hefyd yn Australiat; y mae dau frawd heddyw, un yn Nghloddfa y Cae yn tyllu i'r lechfaen tra y mae y brawd arall yn New Zealand yr ochr arall yn tyllu i'w gylafed. Ystyrir llechnoddwyr Cloddfa y Cae yn nhlith, os nad y rhai cywreiniat yn y byd, am adwaen ansawdd craig, a'i dattod, hollti clytiau, a'u laddu; yn gymaint a'u bod hwy yn cael eu harwain gan brofiad. Yn y goluni llyn y cawn lencyn o lech-gloddwyr cyffiedin yn rhagori ar foneddwr uwch newn dysg, ond na chafodd ei fanteision.

CLODDFA CERYG HOGI. Saif hon i'r de-orllewin o Lyn Ogwen, yn min y ffordd lawr. Agorwyd hi oddeutu y flwyddyn 1796, ac Arglwydd Penrhyn oedd yr anturiaethwr cyntaf o deim pwys. Yn y flwyddyn uchod yr aeth y llwyth cyntaf o honi i Abercegin, ac oddiyno heb na'u llifio na'u llyfnhau, aeth Thomas Williams, mab i'r hynafiaethydd W. W., Llandegai, a'r llongaid gyntaf o honynt i America. Gwerthid hwy yn amser Mr. Penant, y Teithiwr, yn Llundain a nara'u eraill. Yn fuan ar ol agor y Gloddfa, gwnaed y Felin Isaf i'w llifio a'u llyfnhau, yr hyn a ddygid y mlaen am flynyddau lawer dan ofal Mr. John Williams; ond y mae melin yn awr eris rhai blynyddoedd yn y Benglog, yn ymyl y Gloddfa, yr hon, yn nghyd a'r gwaith, a ddeler gan Thomas Thomas Ysw., Penlôn Hiracl, Bangor. Oddeutu 60 neu 80 mlynedd yn ol, ni cheid cared o nemor werth heb ddeuaw neu ddeuswlit; ond ceir heddyw gareg dda wedi ei llifio a'i llyfnhau am 6c. Cedwir yma o 4 i 7 o weithwyr o gylch y flwyddyn. Codwyd y ty cyntaf a berthynai i'r Gloddfa hon tua 1800 gan Arglwydd Penrhyn; a John Prichard, yr hwn oedd orwyr i'r Parch. Rondol Jones, Penlan, Offeiriad Llandegai, a roddwyd i fyw ynddo. Y mae gwythien yr hôgfemi hyn yn rhedeg oddiwrth y ffordd i'r de, trwy fryn, ac y mae yr agoriad hwn oddeutu 4 i 6 llath o led, ac oddeutu 18 o ddyfn, ac yn myned i'r de am oddeutu 90 i 100 llath o hyd. Gelwid gynt, fel y gwneir eto o ran hynny, y ceryg hyn yn Geryg Llyn Idwal, a

phryd arall yn Geryg Llyn Ogwen, am fod safle y gloddfa rhwng y ddau llyn. Y mae gwythien arall o'r ceryg hyn yn gorwedd rhwng llyn Ogwen a llyn Bochlwyd, ond heb ei hagar eto. Defnyddid y ceryg hyn ugeiniau o flynyddoedd cyn dyddiau Arglwydd Penrhyn, ond yn benaf y rhai hynny a geid yn y mawngyddl, ac ydynt wedi troi yn felynon, ac yn dynnerach na'r lleill o herwydd yr olew sydd yn y mawndir. Arferid y ceryg hyn gynt, ac eto hefyd, i ffinio ellynod, a defnyddir hwy bob amser at arfau saer. Ni bydd i'r gareg dynu yn dda heb yn gyntaf ei chadw am deuddydd neu dri mewn olew, er mwyn ei rhewiogi. a phob amser yr arferir, glanhaer hi, onide erys yr olew arni fel *varnish*, fel nas gall yr erfyn ddyfod i ymrwbiad a'r gareg.

GWAITH YELLOW OCHRE. (Saes. *yellow*, Groeg *ochre*). Y mae hwn yn ystlys y Galedffrwd, oldiar y Felin Fawr, ac a elwir gan y cyffredin yn "Waith Aliocar" a'r fan "Yr Ocar." Y gwaith hwn a ddechreuwyd gan William Hughes o Gaernarfon tua 1733, yn nechreu rhyfel â Ffrainc, o herwydd attaliad rhyw nwyld cyffelyb a arferir i gymysgu paent. Defnyddid maen i'w falu, yr hwn a droid gan geffyl, fel Chwyrni Gwgan, a gollyngid dwfr i mewn i gynorthwyo y mluriad, wedi hyn gollyngid ef i lynau i'w sychu, o'r lle y torid ef yn demigion i fyned ar odyd, oni fyddai ar agwedd priddfeini; yna anfonid ef i Aber Cegin yn llwythi, ac o'r lle hwn drachefn anfonid i ddinasoedd Lloegr. Ar ol y gwr uchod, cymerwyd y gwaith gan Joseph Wilson, yr hwn a ddiwygiodd y felin, yr hon a droid gan y Galedffrwd. Yr oedd hwn yn frawd i'r ysgolfeistr D. Wilson, gynt o Llanllechid. Ar ei ol yntan daeth un Roberts, o'r Siambre Gwynion i ddal y gwaith tua 1801. hen filwr, yr hwn a fu gyda y llynges yn Mor y Canoldir. Dilynwyd yntan gan Mr. Worthington, Penlan, i'r hwn yr oedd y diweddar Elias Parry yn oruchwyliwr; a phan wnaed heddwch a Ffrainc yn 1815, darfu y gwaith fel tori coes cetyd am na ddaeth mwyach alw am y lliw melyn.

GWAITH GWENWYN, (ysolfân, neu *arsenic*). Tua'r flwyddyn 1837, fe godwyd cryn dipyn o hwn ar lan Ogwen, yn Nghwyn Dolawen, gan gymdeithas o Saeson; yr un bobl hefyd oedd y gweithwyr. Rhedai y dwfr afiach oddiwrtho i'r Ogwen, a lladdai ei physg; a chroen-grachenai y gweithwyr.

GWAITH CRISANT, (Quartz). Tua'r flwyddyn 1802 bawyd yn cario y ceryg gwynion hyn oddiar y Braich Melyn, a Chefn yr Orsedd, a Chwm Pen Llafar, ac yn eu cludo trwy dir Gwaen y Gwail i'r Chwarel Fawr, o'r lle yr anfonid hwy gyda y gwaeni bychain i Aber Cegin. Cludid hwy gan Edmund Jones, Tan y Garth. Amcenid hwy at wneud llestri; ond wrth welad nad atebai, taffodd Arglwydd Penrhyn, sef yr anturiwr, y gwaith i fyny.

GWAITH Y MAIN CELLT, (Flint Stone). Tua'r flwyddyn 1795 codwyd Melin Penlan i falu y ceryg uchod, y rhai a gludid yma o'r mor, at wneud y llestri a elwid "Y Chieuaidd," a Sais o'r enw John Cope, yr hwn oedd ar y pryd yn byw mewn rhan o Goetmor, oedd olygwr y gwaith o tan Mr. Worthington. Yr oedd yno feini mawrion at eu malu, yr hyn a wneid meddir yn rhagorol; ac wedi hynny anfonid y sylwedd gwyn, yr hwn oedd fel llaeth, mewn barilau i Le'rpwll i wneud llestri. Parhaodd hyn hyd 1830, pryd yr oedd G. H. D. Pennant yn meddianu ystâd y Penrhyn, ac y

darfu i'r meddianwr a'r cymerwr gweryla a'i gilydd, yr hyn a fu yn achlysur safiad y gwaith. Clywid trwst y meini trwmion hyn am fildiroedd ambell dro, a byddai y ddaear yn crynu hyd yn mhall. Ar ol y cweryl uchod ymadawodd Mr. Worthington o Benlan, ac a'i weithiau yma, ac a ddychwelodd i Le'rpwll. Dywedid mai gwr da a gonest oedd efe, ac yr oedd y wlad yn teimlo oddiwrth ei go li; er nad oedd ar y dechreu meddir ond bachgen tlawd, ond trwy ei uniondeb a'i lafur, fe ddaliodd ei ffordd, ac a ddaeth i gryn gyfoeth ac anrhydedd.

GWAITH COPR. Oddeutu 1760, ac yn ddiweddarach, gwnaed cynygion yn Nghoed y Dinas am gopr gan fwnwyr o Gernyw, lle ni ddiffoddid canwyllau ddydd na nos am saith mlynedd. Gwnaed lefelydd o'r Ogwen i fyned tan dir Coetmor, a phydewau dyfoion o honynt hwythau, y rhai erbyn hyn ydynt lawn o ddwfr. Yr oedd y copr o ansawdd da, er nad mor doreithiog; ond o herwydd anghydwediad y cymerwyr a rhai o aerod Coetmor, safodd y gwaith. Bu Aiglwydd Penrhyn hefyd tua 1802 yn gwneud cynygion o wely yr Ogwen ar yr un wythien, ac yn myned tan Bendinas, ond gydag ychydig lwyddiant. Mae rhyw fwnneion cyffelyb debygir yn ystlys ogleddol yr Elen, Craig Braich Ty Du, a Blaen y Nant; ac am yr olaf y dywed W. W. yn ei *Observation*, "Fod yno swm mawr o ryw sylwedd niwnol, heb fod yn annhebyg i'r hyn a eilw mwnwyr wrth yr enw "*tolubena*," pa un wedi ei ddadansoddi a gynwys $\frac{100}{100}$ o *acid* a $\frac{55}{100}$ o *sulphur*." Gwnedh y Cadben Twigge hefyd gynyg arall tua 1845 ychydig yn is, yn agos i'r Tai Newyduon, ac yn mhen ychydig flynyddau safodd y gwaith hwn hefyd.


P E N N O D I X .

Y PENRHYN.

O HERWYDD ei safle dymunol rhwng afon Cegin ac afon Ogwen, yn gystal ag ar lan y Menai, gellir tybio i'r lle gael ei ddiwyllio a'i breswyllo yn fore. Hwyrach fod gan Cunedda Wledig, yr hwn a deyrnasodd o. c. 328—389, yn hawl ei fam. Gwawl ferch Coel Gôdhehog, berchenogaeth yn y lle; o blegyd cawn Rhodri Molwynog, un o'i ddisgynyddion, yr hwn a esgynodd crsedd Cymru o. c. 720, yn preswyllo yn y lle, ac yr oedd efe yn fab Idwal Iwrch (Iorc), mab Cadwaladr, brenin olaf y Prydeiniaid, yr hwn, yn ol rhai haneswyr, a aeth i Rufain, lle bu farw Mai 12, o. c. 688. Fodd bynnag dywedir fod Dunodig yn Arfon wedi cael ei rhoddi i Dunawd fab Cunedda, am fwrw y Gwyddelod ymaith; a digon tebyg i'r Penrhyn gael ei adfer, neu gael ei roddi yn wobr i un o'i wyrion ar ol "Brwydr Gwaen Gynfi," lle y trochwyd y Gwyddelod ac eu gyrwyd i Fon.—Gwel *Eminent Welshmen*. p. 87; *Myv. Arch.*, ii. 61; a *Ilan. Cym.* 322; &c


Y tywysog Cadwallon hwyrach oedd y nesaf a geir ei hanes yn y Penrhyn, a dyma fel y dywed *Y brython* am dano:—

"Wedi marw Hywel yn ddiblant, ei frawd Cadwallon, ail fab Ieuan, a gymerth arno benaduriaeth Gwynedd, tra perthynai o hawl cyfiawnder yn hytrach i feibion Meirig eu hewythr hynaf; ac er cadarnhau ei hun ar yr





J. H. & W. H. 1870

Details Cochurullam



SOLAR, COCHWILLAN.





PLAN OF SOLAR, COCHWILLAN.



CORNICE OF ROOF.



DOORWAY OF SCREEN.

HALL OF COCHWILLAN.—DETAILS.

orsedd, efe a ymroddes i geisio dystyrio ei gefnderyd. Wedi cael yr hynaf, Ionofal i'w ddiwyllaw, efe a barodd ei lofruddio yn ddirgel; ond yr ail fab Idwal, a lwyddodd i ddianc, ac a gafodd fyw i weled cospedigaeth gyflawn yn disgyn ar leiddiad ei deulu. Caeys prin y cafodd Cadwallon fod flwyddyn yn y llywodraeth, a phrin y cafodd gwaed ei garenydd fferu ar ei ddiwyllaw, cyn i Meredydd ab Owen, tywysog y Deheubarth, oresgyn ei diriogaethau, a'i ladd ef a'i frawd Meirig. Chwalodd y Penrhyn hefyd hyd at ei sylfeini. Dygwyddodd hyn o. c. 987."

Ar ol i'r Penrhyn o bryd i bryd fod yn breswylfa Tywysogion Gwynedd, ymddengys iddo o'r diwedd, yn nghyd a Chochwillan, gael eu rhoddi i Iarddur, gan y Tywysog Llewelyn ap Iorwerth, yr hwn a'i anrhyddeddodd ef a'r swydd o Brif Fforestwr y Wyddfa, ac ar yr un pryd trwy ei haelfrydded tywysogol, a'i cynysgae iddod a holl gantref Llechwedd Uchaf, am yr hyn y cyfenwid ef yn Arglwydd y lle; ac oddiwrth yr Iarddur hwn, trwy etifeddiion benywaidd, y disgynnodd y Penrhyn i hiliogaeth Ednyfed Fychan. Yr oedd Iarddur yn faeslywydd i'r Tywysog Llewelyn ap Iorwerth, ac yr oedd Ednyfed Fychan yn Brif Faeslywydd a Phen Cyngor y Tywysog.

Pais Arfau.—Arf-bais y cyntaf oedd *Maes Coch*, ac arno dri *Phen Carw rhwng Cwpl*, a dygai yr olaf *Faes Coch*, a dau *Lew rhwng tri Phen Sais*. Ymblethodd y ddau deulu hyn drwy briodasau a'u gilydd.

Dywed Brown Willis yn ei *Survey of Bangor*, 1721, fod yn yr Eglwys Gadeiriol ffenestr ogleddol, ac arni bais arfau y Gruffyddiaid, sef Cwpl rhwng tri Phen Sais, a'r geiriau hyn yn Lladin, "*Gweddwiuch dros William . . . Ffenestr*," a bod yno ffenestr arall yn cynwys hyn, "*Dros ddedydd gyflur Griffith, Marchog yr hun . . . Ffenestr hon*." Dywed hefyd fod y tri Phen Carw wedi eu chwarteru efo'r tri Phen Sais, yn arwyddo cyfuniad y ddau deulu trwy briodi; a gallwn innau ddywedyd fod *crest* Pen Sais rhwng dau Lew, sydd i'w weled heddyw yn Neuadd Cochwillan yn cadarnhau yr un peth.

COCHWILLAN.

Nid oes ond un asgell o'r hen balas hwn yn aros heddyw, sef *Y Neuadd*, yr hon, fel y barna yr Yswain Kennedy oddiwrth y ffenestri, a'r arddull fewnol, a adeiladwyd o fewn 300 i 400 o flynyddoedd yn ol. Tynwyd darluniau cywrair o'r lle gan Mr. E. Owen, y rhai a ymddangosasant gyda hanes y fan, gan yr Archddiacon Evans a'r Parch. E. L. Barnwell, yn yr *Archaiologia Cambrensis* am eleui, 1866. Dodir yn awr ger bron sylwadau Mr. Evans, cyfieithedig ganddo ef ei hun:—

"*Cochwillan.*—Ymddengys fod y gair yn tarddu o *coch*—*gwyll*—*llan*, neu gwyllan; yn arwyddo coedwig neu geunant gysgodol gerllaw gwely dwfn afon Ugwen, mewn tir wedi ei lliwio gan siâl porphoraidd y lechfaen, yr hwn sydd yn lliwio'r ffyrdd yn y fan yma. Uwchlaw'r ty mae y ffordd yn dringo'r Rhiw goch, ar ben yr hon mae hen gadarnle, ac nid neppell oddiyma mae esgyniad arall a elwir Grisiau Cochion, Mae'r lechgraig goch yn tori allau yn y fan yma. Mae enw tyddyn mewn man arall o'r plwyf, sef Cil—tywyll—llan, yn cadarnhau y tarddiad uchod.

Mae'r annedd-dy ei hun wedi adfeilio fel llawer eraill. Yn fwyaf cyffredin, ceir fod amgylchiadau'r teulu wedi gwaethygu i ganlyn yr adeilad

a'u llochesodl; ond yn hanes v teulu hwn, os dygwyddai i'r ystâd fyned allan o'r etifeddiaeth uniongyrchol, cyn pen hir gwelid hi yn dychwelyd i'r hen linach. A phe dygwyddais i iddi fyned yn eiddo estroniaid, ni fuasai bri y teulu wedi myned i ddifancoll; canys nollwyr y beirdd oeddynt o oes i oes:—Guto'r Glyn, Sion Brwynog, Lewis Mon, Lewis Daron, ac eraill; a ofalasant am drosglwyddo eu clo i'r oesoedd dyfodol.

Gruffydd ap Gwilym o Benrhyn, oddeutu B. A. 1360, a roddodd Cochwillan i'w ait fab Robert, a adnabyddid wrth yr enw Robin o Gochwillan. Ar ol hyn mae yr etifeddiaeth yn rhedeg ochr yn ochr yn y ddau deulu, dan yr enwau Griffith o Benrhyn, a Williams o Gochwillan. Bu hefyd aml gydbriodi rhyngddynt. Yn mherson Pyrs Griffith, a nodwyd o'r blaen, yr hwn a werthodd ystâl y Penrhyn, y darfu am yr enw Griffith.* Yr oedd yr un dynged wedi disgyn ar Gochwillan; canys fe werthwyd hefyd yr ystâl hon gan Henry Williams, i'r Iarll Pentro yn y flwyddyn 1620. Ond fe idaeth yr Archesgob Williams yn mlaen yn gyfathrachwr, i brynu etifeddiaeth y Penrhyn a Chochwillan. Mab oedd hwn i Edmund Williams, pumed mab William Williams o Gochwillan, o Dorothy, merch Syr William Griffith o'r Penrhyn. Yr Archesgob a adawodd y tiroedd hyn i'w nai Griffith, yr hwn a wnaed yn farwnig dan yr enw Syr Griffith Williams o'r Penrhyn yn 1661. Yr oedd ganddo chwech o feibion a chwech o ferched. Syr Griffith Williams, wr y Syr Griffith uchod, a fu farw heb briodi, ac fe aeth y titl i'w ewythr Syr Hugh Williams o'r Marl; ond fe aeth yr ystâl rhwng ei ddirchwaer, Frances, Ann, a Gwen. Frances a briododd yn gyntaf a Robert Lloyd Ysw. o Ecclesham, gerllaw Wrexham, ac wedi hyn y Edward, Arglwydd Russell, trydydd mab Duc Bedford. Ann a briododd Thomas Warburton Ysw. o Wunnington. Gwen a briododd Syr Walter Young o Escott, swydd Defon. Frances a fu farw yn ddiblant, a'i chyfran hi yn yr etifeddiaeth a ddaeth rhwng ei dwy chwaer Anne a Gwen. Syr George Young, wr y Syr Walter, a werthodd ei ran i John Pennant Ysw. o'r Downing, swydd Flint, sef yr un teulu a'r llenydd enwog Thomas Pennant† Richard mab John Pennant a briododd yn 1765, Susannah Ann, merch ac aeres y Cadfridog Hugh Warburton, a thrwy hyn daeth yr ystâd oedd wedi ei darnio yn un gefan eto. Richard Pennant a gafodd wedi hyn y titl o Arglwydd Penrhyn; bu farw yn ddiblant yn 1808, a gadawodd y Penrhyn i George Hay Dawkins Ysw., yr hwn a gymerodd yr enw Pennant, ac a fu farw yn 1840. Ei ferch Juliana a etifeddodd ei feddianau, ac a briododd yr anrhydeddus E. G. Douglas, mab Iarll Moreton, yr hwn a chwaegodd yr enw Pennant at ei enw blaenorol. Bu farw ei wraig yn 1842. Ei ail wraig ydyw y Lady Louisa, merch Duc Grafton.

Yr unig ran o'r hen balas eto yn aros ydyw'r Neuadd, neu ystafell giniaw. Ymddengys megis pe buasai unwaith yn llenwi yr ochr ogleddawl i heol bedrongl; y ceginau a'r ystafelloedd trigianol ar y dwyrain, ac, fe allai,

* Dywedir gan rai mai cangen o'r un teulu yw Gruffyddiaid Careglwyd yn Môn.

† Fe all teulu'r Penrhyn gymeryd yr enw hwn o ran eu hawl eu hunain, gan fod Colonel Pennant wedi prynu Pennant y Yspetty Ifan. Dychymygir nad yw Douglas ddim amgen na du—glas; os felly, dyvina sail hefyd i'w enw Ysgotaidd, yn gynaint ai fod wedi prynu Dulas (yn llosgog, Dulasau) yn Mlenmachno. Anrhydeddwyd ef eleni, 1866, a'r titl o Arglwydd Penrhyn.

ystablau a chyffleusderau eraill ar y gorllewin, yn ol cynlluriau yr hen aneddu mawrion. Dichon fod porth, a pharlwr bach uwchben, ar yr ochr ddeheuol, a'r ardd lysiau yn ddiwahan. Mae y neuadd yn 67 troedfedd wrth 26 o'r tu allan; mae y muriau yn llathen o drwch; mae darn o fur cadarn o'r tu gorllewinol, yn dangos yr adeilad yn cyrhaedd yn mhellach ar yr ochr hono. Mae defnyddiau yr hen balas wedi eu cymwysat at adeiladu dau o ffermdai, ond gadawyd i'r Neuadd setyll, gan ei bod yn ddigon o faint i wneuthur ysgubor eang, ystabl, a beudy, yn nghyd a llofft dros y ddau olaf. Yr ystabl yn awr oedd gynt y parlwr, ac uwch ben yr oedd ystafell i'r boneddigesau, ac iddi ddwy ffenestr o dywodfaen naddedig. Yr oedd ymylwaith y ffenestri a'r drysau oll o dywodfaen mor barhaus, fel y mae ol y cûn eto megis yn newydd. Mae bwa pigfain dros y drysau ae un ffenestr, ond i'r ffenestri eraill mae penau ysgwar a goleuadau tair-dalenog. Gwahenid y parlwr oddiwrth y Neuadd gan banelau derw, ac yn y canol, drws, ac uwchben, gerfiadwaith o ben Sais yn cael ei gynnal gan ddau lew, sef *crest* y teulu. Mae'r nen yn bresenol yn dair parth, y cyplau o dderw trwm bwaog, ac o saerniaeth rhagorol. Mae rhai o'r boglynau yn aros, ond mae'r cerfiadau oeddwrth fôn y cyplau wedi eu symud. Mae talwrn gwydh o dderw cerfiedig ar un ochr i'r ystafell. Mae pilerau y ffenestri wedi eu symud, a'r gwagle wedi ei lenwi a cheryg rhyddion. Anhawdd cael yn un lle engraffit fwy tarawiadol o hen wledd-ystafell,—

“Llawr gywain mawr gwin a medd,”

ddywedwyd am dani gynt. Llawer gwaith bu y nen yn diaspedain gan swm y gân a'r ymgomio, a'r llawr yn crynu dan y ddawns: ond y mae cenedlaethau wedi myned heilio, er pan glywyd swm telyn gerllaw yr aelwyd oer yno, a phrin y mae darn o lech yn mynwent y plwyf yn dangos pa le y mae esgyrn y mawrion gwydh fu yn ymborthi yma, rhagor y distadlaf o'u cydblwyfolion!

Yr oedd William Williams o Gochwillan yn Sirydd dros sir Gaernarfon yn 1543, 1548, a 1554. Yr oedd tri o'r perchenogion yn dwyn yr enw hwnw yn olynol. Un o bor-ynt oedd Sirydd yn 1592.

Heblaw ei gysylltiad o hir barhad gyda'r Penhryn, a'i berthynas trwy ymbriodi a'r teuluoedd mwyaf yn y wlad, fe fwriodd y teulu hwn allan lawer o gangenau, y rhai a aethant yn benau teuluoedd. Yr oedd William ap Griffith yn wr o nôd; coëddoddi finta i o farchogion, ac a'u harweiniodd i frwydr Maes Bosworth. Ei wŷr, Thomas Williams o'r Faenol, oedd hynafdad Syr William Williams, Barwnig, o'r lle hwnw. Wyr arall iddo oedd benteulu ty Maes y castell, yn Llechwedd Isaf. Arthur Williams oedd gyndad teulu y Williamsiaid o Meillionydd ac Ystum Colwyn. O ddifffyg meibion i etifeddu yn nghanen y Pearhyn, aeth y titl o Farwnig, fel y nodwyd o'r blaen, i Williams o'r Marl; a thrwy yr un diffyg yn y teulu hwnw, aeth i Syr Hugh Williams o Arianws, a thrwyddo ef i'r diweddar Syr Robert Williams o'r Friars. Ei fab, Syr Richard Williams Bulkeley, ydyw perchenog presenol yr ystâd a'r titl. Mae efe hefyd wedi etifeddu ystâd ei ewythr, y diweddar Arglwydd Bulkeley o Baron Hill, enw yr hwn a gymerodd at ei enw ei hun.”

ACHAU Y PENRHYN, COCHWILLAN, Y MARL, A CHOETMOR.

Nyni a ddechreuwn gydag Ednyfed Fychan, yr hwn oedd yn 33 o Brydain ab Aedd Mawr. Gwel yr *Observation*.

(1). *Ednyfed Fychan* oedd yn Farwn Brvnffanigl yn swydd Dinbych, ac Arglwydd Cricieth yn Eifionydd; prif faeslywydd a phen cyngorwr Llewelyn ab Iorwerth, yn nechren y drydedd ganrif ar ddeg. Ar un achlysur efe a anfonid yn llywydd y byddinoedd Cymreig i amddiffyn y cyffindiroedd, yn adeg y rhyfel rhwng Llewelyn a'r brenin John, ac efe a orchfygodd y tyddin Seisonig dan Ranwlff, Iarll Caer, gan ladd tri o'r prif swyddogion, a lluaws o'r milwyr cyffedin; ac efe a ddug benau y tri phrif swyddog Seisnig, ac a'u dododd with draed ei dywysog, yr hwn a foddheid mor fawr gan ei wrhydri, fel heblaw ei anhegu âg amryw roddion gwerthfawr, yr archodd efe iddo ychwanegu at ei arfieb dri phen Sais, (*gules, between three Englishmen's heads coupled, a chevron ermine*), a'r arfieb hon a wisgir gan ei hiliogaeth hyd heddiw. Wedi marw Llewelyn, bu hiliogaeth Ednyfed Fychan y gwyr mwyaf urddasol yn y Dywysogaeth; ac o hono ef yn uniongyrchol yr hanodd Iari y Seithfed, a phob penadur a esgynodd i orsedd Prydain er y pryd hwnw.

Bu Ednyfed yn briod ddwywaith. Ei wraig gyntaf oedd Tangwystl, ferch Llewarch ab Bran (pen un o bymtheg llwyth Gwynedd), ab Dinawal, ab Ednyed, ab Alawc. ab Alaw, ab Alser, ab Tudwal, ab Rhodri Mawr, tywysog holl Gymru, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn 846, ac a laddwyd newn brwydr yn 876, o'r hon y cafodd efe chwech o feibion a dwy ferch; sef 1, Syr Tudur; 2, Llewelyn, yr hwn a etifeddodd un ran o'r Creuddein; 3, Cynric, yr hwn a gafodd ran arall o'r Creuddin; 4, Howel, esgob Llanelwy, yr hwn a gysegrwyd yn 1235; 5, Rhys, perchenog Garth Garmon, o'r hwn yr hanodd John Palkus, Cwnstabl Castell Harlech, y Llwyd a d o'r Gydios, &c.; 6, Iorwerth, y gwahanglwyfus, yr hwn a gafodd Abermarlais; 7, Gwentllian; 8, Angharad.

Ail wraig Ednyfed oedd Gwentllian, ferch yr Arglwydd Rhys, tywysog y Deheubarth, yr hwn oedd yn fab i Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr, y Mawr, ab Finion ab Owen ab Howel Dda, deddfau yr hwn ydynt eto ar gael, ab Cadell, tywysog y Deheubarth, ail fab Rhodri Fawr, Tywysog Cymru oll. O'r wraig hon ganwyd i Ednyfed bedwar o blant, sef 1, Grono, arglwydd Trecastell yn Mon, tad Tudur o Benmynydd, yr hwn a adeiladodd y *Friary* yn Mangor, ac a gladdwyd yno yn y flwyddyn 1311, a'i fab Grono, yr hwn a gladdwyd yn *Friary* Langor yn y flwyddyn 1331, oedd dad i Syr Tudur o Benmynydd, Marchog, yr hwn a fu farw yn 1367, o'i ail wraig, ferch ac aeres Thomas ab Llewelyn, ab Owen, arglwydd Iscoed yn Ngheredigion, ab Meredydd ab Gruffydd, arglwydd Ceredigion, ab yr arglwydd Rhys, tywysog y Deheubarth, a bu iddo blant, sef Meredydd, tad Owen Meredydd ab Tudur, a elwir yn gyffredin Owen Tudur, hynafiaid teyrnllwyth y Tuduriaid; 2, Gruffydd, yr hwn a gafodd yr Henglawdd a'r etifeddiaethau cysylltiedig ag ef, o'r hwn yr hanai Dr. George Llwyd, esgob Caerlleon ar Ddyfrdwy, &c.; Syr Gruffydd Llwyd, marchog o Dref Garnedd yn Mon, a Dinorwig yn Arfon, yr hwn a wnaed yn farchog gan y brenin Edward, amddwyn y newydd iddo yn gyntaf fod ei wraig wedi esgor ar fab yn Nghaer-y-narfon; i Thomas Davies, LL. D., esgob Llanelwy, Davies o Gaerhun &c.;

3, Gwladys, yr hon a briododd Tegwared ab Cynric, ab Robert Faer, ab Asser; 4, Gwenllïan, yr hon a briododd â Thegwared y Bais Wen, mab ordderch i Llewelyn Fawr.

(2). *Syr Tudur*, mab hynaf Ednyfed Fychan, a gafodd y Nant a Llan-gynhafal yn etifeddiaeth; ac efe a briododd Adelia, ferch Riccert, fab Cadwaladr, ail fab Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd.

(3). *Heilyn ab Syr Tudur*, a briododd Agnes, ferch Bleddyn, ab Owain Brogyntyn, ab Madog, ab Meredydd, ab Bleddyn, ab Cynfyn, tywysog Powys, o'r hon y bu iddo blant, sef 1, Gruffydd; 2, Grono; 3, Llewelyn; 4, Angharad, yr hon a briododd Grono Llwyd o Melai, ac wedi ei farw ef, a briododd Dafydd Goch o Benmachno, ab Dafydd arglwydd Dinbach a Frodsham, a brawd i Llewelyn ab Gruffydd, tywysog olaf Cymru o'r llinach Gynreig.

(4). *Gruffydd ab Heilyn* a briododd Efa, ferch ac aeres Gruffydd ab Tudur, ab Madoc, ab Iarddur, arglwydd y Cwmwd Uchaf; a chyda hi efe a gafodd Gochwillan, a llawer o feddianau craill, os nad y Penrhyn ei hunan. Yr oedd Iarddur yn fab Trahaearn, ab Cynddelw, ab Bod, ab Cysgen, ab Helyg, ab Glanawg ab Gwgan Gledlyfrudd, ab Caradog Freichfras, ab Llyr Merini, ab Einion Urdd, ab Cunedda Wledig, ab Edern (yr hwn a briododd Gwawl, ferch Coel Godhegog, a chwaer Helen, mam Cystenynt Fawr), ab Padarn Beisrudd, ab Tegid, ab Iago, ab Genedawc, ab Cain, ab Gwrgain, ab Doli, ab Gwrddoli, ab Dafn, ab Gorddyfn, ab Amwerydd, ab Omwedd, ab Diwg Brychwain, ab Afallach, ab Afflech, ab Beli Mawr, Brenin y Brython.

(5). *Gwilym ab Gruffydd* a briododd Gwenhwyfar, ferch Ieuan ab Gruffydd, ab Madoc Ddu, ab Ririd, ab Llewelyn, ab Owen (yr hwn drwy rym arfau a gadwodd holl Degeingl am ddwy flynedd er gwaethaf holl allu brenin Lloegr, a'r drydedd flwyddyn, efe a'i rhoddes i fyny) ab Aelldryd, ab Owain, ab Edwin, ab Grono, ab Owen, ab Howell Dda, tywysog y Deheubarth, ab Cadell, ab Rhodri Fawr. Bu i'r gwr hwn ddau fab, sef Bleddyn, o'r hwn yr hana Morganiaid Golden Grove, a Gruffydd.

(6). *Gruffydd ab Gwilym*, ab Gruffydd a briododd Generus Fechan, ferch ac aeres Madoc o'r Penrhyn, fel y barna rhai, fab Grono Fychan, ail fab Grono, fab Ednyfed Fychan; hi a fu byw ar ei ol ef, ac a briododd drachefn âg Ieuf, ab Adda, ab Awr, o Drefor. Bu i Gruffydd dri mab a dwy ferch, sef 1, Gwilym; 2, Robin o Gochwillan; 3, Rhys o'r Nant, tad William, tad John Llwyd o'r Nant yn swydd Fflint, yr hwn a adawodd ddwy ferch yn gydaeresau, sef 1, Sioned, yr hon a briododd Harri Wynne Conwy o'r Nant; 2, Catherine, a briododd Cadwaladr ab Morus Gethin o'r Foelas, Ysw., Uchel Siryf swydd Dinbach, yn y flwyddyn 1548. Y merched oeddynt, 1, Sioned, a briododd Rhys ab Ieuan Llwyd o Lanfair Fechan, hynafiad y Robertiad o Fryn y Neuadd, a'r Wynniad o Gorddinog, ac o du eu mam i'r Dafisiaid o Gaerhun; 2, Elen, a briododd Ithel ab Grono, ab Owen, ab Trahaiarn, yr hwn a adeiladodd ran o eglwys Gresford, ac a gladdwyd yno, ab Ithel o Gresford, ab Heilyn, yr hwn a feddai saith trefgordd yn Nyffryn Clwyd, ab Efnudd ab Gwerigwy, un o bymtheg llwyth Gwynedd; o'r hwn yr banai yr Almorïad o Almor, Pantlocyn, &c.

(7). *Gwilym ab Gruffydd*, ab *Gwilym*, a etifeddai y Penrhyn, ac efe a briododd Fforydd ferch ac etifeddus Grono Fychan o Benmynydd, mab hynaf Syr Tudur o Benmynydd, o'i briodas gyntaf. Y Syr Tudur uchod ydoedd daif i Owen Tudur, ac efe a fu farw yn y flwyddyn 1367; ab Grono, yr hwn a fu farw yn 1331, ab Tudur o Benmynydd, yr hwn a gladdwyd yn monachlog Bangor yn 1311, ab Grono, ab Ednyfed Fychan: ac o hon i efe a gafodd Tudur Fychan o Benmynydd, Ysw., o fab yr hwn, Owen Tudur Fychan, y mae Oweniaid Penmynydd yn disgyn. Cafodd Tudur Fychan holl etifeddiaeth ei fam, ond ni chafodd ran o etifeddiaeth ei daif. Ei chwaer Angharad a briododd Dafydd ab Ieuan, ab Howel, o Lwydiarth yn Mon. Ail wraig Gwilym ab Gruffydd oedd Sioned, ferch Syr William Stanley o Hooton, Marchog, yr hwn oedd yn byw yn y bedwaredd flwyddyn i Harri VI., o. c. 1426. Yr oedd hon yn weddw i'r Barnwr Paris, Ystafellydd Caerlleon a gogledd Cymru. Bu i Gwilym ab Gruffydd amryw blant o'r briodas hon, s f 1, William Gruffydd; 2, Elin, yr hon a briododd William Bulkeley, Cwnstabl Castell Beaumaris yn nheyrnasiad Harri y Chweched, a hynafiad y teuluoedd presenol o'r cyfenw hwnw; 3, Elizabeth, yr hon a briododd — Grey Ysw., brawd yr arglwydd Grey o Ruthin, a thad Robert Grey Ysw., Cwnstabl Castell Rhuthin

(8). *William Gruffydd Ysw.*,* a ddilynodd ei dad Gwilym ab Gruffydd yn etifeddiaeth y Penrhyn, ac yn hawl ei fam i'r eiddo y Barnwr Paris. Efe a benodwyd yn Ystafellydd gogledd Cymru, yr hon oedd yn swydd o ymddiried ac elw mawr yn y dyddiau hyn; ac yn y ddeunawfed flwyddyn o deyrnasiad Harri y Chweched, efe a wnaed yn ddinesydd ar yr amod na byddai iddo briodi Cymraes, ar yr hyn y priododd efe Als, ferch ac aeres Syr Richard Dalton o Apethorn yn swydd Northampton, marchog, o ferch Arglwydd Clifford, o'r hon y bu iddo ddau o blant, sef 1, Syr William

* Cytuna y bardd a'r hanesydd fod W. G., neu fel y gelwir ef weithiau, William Gruffydd Fychan, yn wr mawr yn ei ddydd; ac y mae gan Mr. W. Jones, awdwr *Ilynafeuthau Beddgelert*, Gywyddau a gylfansoddwyd iddo gan feirdd yr oes hono, megis *Ilywel Davy*, a *Guto'r Glyn*; a chan i Mr. Jones anton i mi ddarn o gywydd yr olaf, dodir ef ger bron:—

Y gwr a'i dŷ ar gareg,
A mur y tŷ yn y môr teg;
Et yw Cadben a Phennaeth
Arfor dref ar Fenni draeth.
Uchel yw, Gwynedd âch lân,
O achos Gwilym Fychan;
Uchel Faer, caer cnewerwyr,

A chant i'w amgylch o wŷr.
Iawn yr aeth yn mhen yr iau
Gaterwen i gadw tyrau:
Da yw, arglwydd ar deigwlad,
Da dylai Stannai (1) o 'stad.
Mawr yw cael yma rhag cam,
Meistriol eth Meistr William.

(1) *Stanley*.

Gwelir ei fod yn Uchel Faer Caernarfon, heblaw ei fod yn Ystafellydd Gogledd Cymru i'w frenin, ac o bosibl yn cael ei amgylchu gan *life guards*! Gwrandewch eto fel sonia bardd Glyn Egwrestl, un o gasgliwyr achau Harri y Seithfed, am ei achau:—

Gweithred Ednyfed a wnel
I gadw âch a gwaed uchel;
Y mae'r stîl Meistr William
Yr un fodd o ran ei iau:—
Ystanli, Awdli, (2) waedlaif, (2) *Audley*.
Ystâd Pryseiffa (3) a saif; (3) *Prys*.
Syr William tad mad i'm Ion.
Fur diwaethaf o'r doethion;

Edlin Syr Adam Awdle
Yw y mab llwyd yn mhob lle;
Ac ŵyr doeth yw y gwr da
Syr Siamas (*James*) yn rhoi siars yma;
Ednyfed, aed i nefoedd
A raid dy gyff, arddedig oedd.
Ystyn lwyth Ystanley wych,
Oes Deinol a estynych.

Guto'r Glyn,

Gwel eto t. d. 65, a t. d. 78.

Gruffydd; 2, Sioned, yr hon a briododd Syr Thomas Salisbury, Marchog o Leweni. Ac o'i ail wraig, Gwenllïan, ferch Iorwerth ab Dafydd, Ednyfed Chwith, ab Howel, ab Gruffydd, ab Sandde, ab Cadrod Hardd, Dal y Bolion yn Mon, y bu iddo saith o blant, sef 1, Robert Gruffydd o Plas Newydd yn Mon; 2, William Gruffydd; 3, Edmund Gruffydd Borth yr Aur; 4, Marsli; 5, Als; 6, Elun, gwraig Gruffydd ab John Meredydd, o Ystum Cegid; 7, Agnes, gwraig ——— o'r Downing, a wedi hyn i Syr Rowland Brittain, Cwnstabl Castell Caer yn Arfon. Bu ymrâfael boeth rhwng y William Gruffydd hwn o'r Penrhyn, Ystafellydd gogledd Cymru â John ab Meredydd o Ystum Cegid, ysw, y penaf o epil Owen Gwynedd; y blaenaf ar gyfrif ei swydd a'i awdurdod a ddysgwylliai i bawb ei barchu ac ymostwng iddo; a'r llall ar gyfrif ei drâs a chyfrifai neb uwchlaw iddo ei hun heblaw ei dywysog:—"*Nec Cæsar fer priorem, Pompeiusoe parem.*" Parhaodd yr ymryson yna yn hir, a chan safai carenydd a chyfeillion John ab Meredydd yn bybur o'i blaidd, sed i a'i epil Owen Gwynedd yn dylwyth "Sion ab Meredydd." Achlysurodd hys oerfelgarwch yn mysg eu hiliogaeth am amser maith, hyd oni ddarfu i aser a chyfathrach briodasol ei dreulio allan o'r diwedd.

(9). *William Gruffydd Ysw*, "Y Marchog Hael," a olynodd ei dad yn yr etifeddiaeth, a'r swydd o Ystafellydd Gogledd Cymru, ac a briododd ferch i Syr William Troubeck, Marchog, o'i wraig Margaret, chwaer Thomas Stanley Ysw., o Derby, a merch i Syr Thomas Stanley, yr hwn a fu farw y 37 flwyddyn i Harri y chweched. Bu i'r gwr hwn un mab a thair merch, sef 1, Syr William Gruffydd, Marchog; 2, Margaret, gwraig Syr ——— Dutton, yr hon a fu farw yn ddiblant; 3, Jane, gwraig ——— Winnington Ysw., a bu hithau farw yn ddiblant; 4, ———, a briododd Syr William Herbert o Colebrook, Marchog.

(10). *Syr William Gruffydd*, Farchog, a olynodd ei dad yn yr etifeddiaeth a'i swydd o Ystafellydd, ac efe a briododd Jane, ferch Syr Thomas Stradling, Castell St Dunawd, yn swydd Forganwg, Marchog, o'r hon y bu iddo bump o feibion ac wyth o ferched, sef 1, William yr hwn a fu farw yn ieuanc; 2, Edward; 3, Syr Rhys Gruffydd, Farchog; 4, John Gruffydd o'r Cichleu, Mon; 5, Rowland Gruffydd; 6, Gras, gwraig William Stanley o Hooton, Ysw.; 7, Catherine, a briododd Syr Richard Bulkeley o'r Beaumaris, Marchog; 8, Anne, gwraig Huw Lewis o Bresaddfed yr Mon, Ysw.; 9, Dorothy, gwraig William Williams o Gochwillan, Ysw hynafiaid Williamsiaid y Penrhyn, y Marl, yr Arianws, Ystum Colwyn, &c. ac wedi ei farw ef, hi a briododd Robert Wynne o Gonwy, Ysw.; 10, Elizabeth, a briodwyd â John Philip Ysw., o Picton Castle; 11, Jane, a briododd Thomas Mostyn o Fostyn, yr hwn a gymerodd y cytenw *Mostyn* gyntaf; 12, Elinor, a briododd Huw Conwy o Fryneuryn, Ysw.; 13, Margaret, gwraig Peter Mytton, a thrachefn Thomas Gruffydd, ac yn olaf Simon Thelwall Ysw.

Cymerodd Syr William Gruffydd yn ail wraig, Jane, ferch John Pulestone Ysw, Ystafellydd Gwynedd, yr hwn a fuasai yn briod o'r blaen â Robert ab Meredydd, ab Hwleyn Llwyd, o'r Glyn Ifon; a bu iddo chwech o blant o hon, sef 1, William Gruffydd o Gaerynarfon a Threfarthen, Ysw.; 2, Rowland Gruffydd o Worcestershire; 3, George Griffith, Archddiacon

Mon, i'r hon swydd ei hyspwyntiwyd Mehefin 15, 1554, ac efe a fu farw yn 1558; 4, John Gruffydd; 5, Mari, gwraig Randle-Brereton o Malpas, Ysw.; 6, Isabella, gwraig Owain, ab Huw, ab Owain, o Fodeon, Ysw., o'r hwn yr hanodd Barwniaid Orielton.

Ymddengys oddiwrth Bryddest Lewis Men ar gadgyrchiad Harri yr Wythf-f-i i Ffrainc, fod William Gruffydd yn un o'r rhai a'i dylinent ar yr achlysur hwnw. Ac ymddengys hefyd fod etifeddiaeth y Penrhyn wedi cyrhaedd ei man uchaf y pryd hyny, yn werth tua phymtheng mil o bun-nau yn y flwyddyn. Efe a werthodd ran helaeth o honi er gwaddoli ei ferched; ac a roddodd ranau helaeth o'i etifeddiaeth i'w feibion ieuengaf o'r ddwy briodas. Mae awdwr y *Mona Antiqua Restaurata* yn ei gannol yn fawr am ei ofal yn cadw ac yn adysgrifenu y cofion Cymreig yn syllyt y tywysog yn Nghaernarfon, yn enwedig yr *Extent of North Wales*.*

(11). *Edward Gruffydd* o'r Penrhyn, Ysw., yr hwn a briododd ferch William Williams o Gochwillan, Ysw., yr hon a fu farw yn ddiblant. Efe a briododd eilwaith, Jane, ferch Syr John Pulestone, Marchog, Ystafell-ydd Gogledd Cymru, o'r hon y gadawodd dair o ferched yn gyd-etifeddesau, sef 1, Jane, gwraig William Herbert o St. Julian, Ysw.; 2, Catherine, yr hon a briododd Syr William Herbert o Swansea, Marchog, Uchel Siryf swydd Gaernarfon yn y flwyddyn 1566; 3, Elin, gwraig Syr Nicolas Bagnal o Newry yn yr Iwerddon, Marchog. Bu hon farw yn Newry yn y flwyddyn 1574, gan adael hiliogaeth, sef 1, Henry Bagnal; 2, Dudley, 3, Ralph; 4, Edward; a saith o ferched, fel yr ymddengys oddiwrth Bryddest o'r eiddo Lewis Menai.

Bu Edward Gruffydd farw yn Nulyn Mawrth 11, 1540, a rhanwyd yr etifeddiaeth rhwng ei dair merch, oddieithr ty y Penrhyn, yr hwn a ddaeth i'w frawd nesaf, gan ei fod yn rhwym i'r etifeddiou gwrywaidd.

(12). *Syr Rhys Gruffydd* o'r Penrhyn, Marchog, Uchel Siryf swydd Gaernarfon yn 1567, a briododd Margaret, ferch Morus ab Elise, o'r Clemenau, Ysw., ac ar farwolaeth hon y ddiblant, efe a briododd eilwaith, Catherine, ferch Pierce Mostyn o Dalacre, Ysw., yr hon, wedi ei farw ef, a briododd Syr Thomas Mostyn o Fostyn, Marchog. Bu i Rhys Gruffydd blant o'i ail wraig, sef 1, William Gruffydd, yr hwn a fu farw yn ieuanc; 2, Pierce Gruffydd; 3, William, eto, yr hwn oedd yn fyw yn 1644, ond heb blant; 4, Als, gwraig William Williams o Fodlew. Efe a adgyweiriodd ac a addurnodd dy y Penrhyn yn y flwyddyn 1575.

(13). *Pierce Gruffydd* Ysw., oedd fonedawr o alluoedd cryfion mewn corph a meddwl. Pan fygythiai y llynges Yspaenaidd ddystrywio ei frenines a'i wlad, efe a brynodd long, ac wedi arlwy pob math o gad-ddarpariadau ynddi, efe a hwyiodd allan o'r Beaumaris† ar yr 20fed o Ebrill, 1588, ac a gyrhaeddodd Plymouth ar y 4ydd o'r Mai canlynol, a phan y cyrhaeddodd efe yno, anfonodd Syr Henry Cavendish wahoddiad iddo i giniawa ar fwrdd llestr Syr Francis Drake, lle yr anrhydeddid ef, ac ei canmolid yn fawr am ei deyrngarwch a'i yspryd cyhoeddus. Efe a ganlynodd y llywyddion crybwylledig hyd oni lwyr ddyfethwyd y llynges Yspaenaidd, ac wedi hyny efe a aeth gyda Drake a Raleigh i wib-hwylio

* *Mona Ant. Rest.*, p. 120. † Ei hen enw yw Porth-wy-gyr.

ar yr arfordir Yspaenaidd. Efe a ymadawodd a Syr Francis Drake ar enau Culfor Magellan, gan fod Syr Francis wedi ei roddi ar waith i wneyd darganfyddiadau. Yn amser y brenin James gosodai Count Gondamor, y llys-genadydd Yspaenaidd, achwynion trymion yn ei erbyn, ei fod wedi parhau yn ei herwriaeth for-ladronaidd ar ol cyhoeddi heddwch; a chan fod y cenadydd yn meddu dylanwad mawr gyda gweinyddiaeth y deyrnas hon ar y pryd, blinid a pheryglid cymaint ar Pierce Gruffydd, fel y bu raid iddo werthu yr etifeddiaeth, er prynu llonyddwch oddiwrth yr erlyniadau. Efe a briododd Margaret, ferch Syr Thomas Mostyn o Fostyn, Marchog, o'r hon y bu iddo dri mab, a phedair merch, sef 1, William; 2, Robert; 3, Rees; y tri hyn a fuont feirw yn ieuainc: enwau y merched oeddynt Catherine, Jane, Dorothy, ac Ursula. Efe a gladdwyd yn y Fonachlog Orllewinol, Llundain. Felly y bu pen ar deulu y Gruffyddiaid o'r Penrhyn, a phrynwyd yr etifeddiaeth gan y Dr. John Williams, Arglwydd Geidwad y Sêl Fawr, yr hwn oedd o dylwyth Cochwillan.*

Af rhagof yn awr i roddi hanes

TEULU COCHWILLAN.—*Robin* o Gochwillan, ail fab Gwilym ab Gruffydd o'r Penrhyn, a briododd Angharad, ferch ac etifeddes Rhys ab Gruffydd, ab Grono, ab Howel, ab Cyaric, ab Iorwerth, ab Iarddur, arglwydd y Cantref Uchaf, ac o honi bu iddo ddau fab, sef 1, Gruffydd, 2, Howel. O'i ail wraig, Lowri, ferch Grono, ab Ifan, ab Einion, ab Eifionydd, bu iddo un mab, Thomas, yr hwn y torwyd ei ben yn Nghonwy, am ddilyn Edmwnd, Iarll Rismond i Ffrainc, trwy orchymyn Iarll Penfro, yn y flwyddyn 1466.

Gruffydd ab Robin o Gochwillan, a briododd yn y 7fed flwyddyn i Harri y Clwched, Malt, neu Matilda, ferch Gruffydd Derwas, ab Meurig Llwyd, o Nanney, yr hwn a hanai o Cadwgan ab Bleddyn, tywysog Powys; a'i hiliogaeth o honi oedd Angharad, yr hon a briododd Madog, ab Llewelyn Fychan, o Bodnithoedd yn Lley; ac un mab.

William, ab Gruffydd, ab Robin, o Gochwillan, Ysw., Siryf swydd Gaernarfon, trwy fraint-lythyr, am ei oes. Efe a ddug fintai o feirch-filwyr, fel ei osgordd ei hunan, i frwydr Maes Bosworth, Awst 22, 1485. Ei wraig oedd Angharad, ferch Dafydd ab Ifan, ab Einion, Cwnstabl Castell Harlech, dros Harri VI; o'r hon y ganwyd iddo bump o feibion, a phump o ferched, sef 1, William Williams; 2, Thomas Gethin, LL.D.; 3, Dafydd; 4, Robert Williams o Gonwy, o'r hwn y tarddodd Edward Williams y Wig, Siryf swydd Gaernarfon yn 1655, a chwaer yr hwn, Grâs, a briododd Owen Wynn o Wydir, Barwniad; 5, Morgan; 6, Malt, a briododd Reginald Conwy o'r Bryneuryn, Ysw.; 7, Mari, a briododd yn gyntaf âg Winffre Cynaston o Hordley, Ysw., ac yn ail â Meredydd ab Ifan o Gwm Bwy; 8, Agnes, a briododd yn gyntaf a Foulk Salisbury o Lanrwst, Ysw., ac yn ail ag Edmwnd Llwyd o Llynllifon, Ysw.; 9, Jane, a briododd

* O herwydd i P. G. barhau i gymeryd llongau Ysbaen ar ol cyhoeddi heddwch, gelwid ef i gyfrif, a gorsu arno roddi ei dir tan ddyled er talu traul y gyfraith, ac o'r diwedd ei werthu i Evan Llwyd Ysw., o Ial, a Syr Richard Trevor, yn 1616. Dywedir iddo hefyd wneuthur neu gyweirio llongau yn Aber Cegin, lle yr oedd yn ddiweddar ar dalcen tŷ y llythyrenau "P. G. 1598." Gellid adrodd llawer o'i hanes pe byddai lle.

Rhydderch, ab Dafydd, ab Iwan, o'r Myfyrian, Ysw.; 10, Gwenllian, gwraig Dafydd, ab Meredydd, ab Tudur.

William Williams o'r Cochwillan, Ysw., a briododd Lowri, ferch *Henry Salusbury* Ysw., o'r hon y bu iddo chwech o feibion, a pheddir o ferched, sef 1, William, ei etifedd; 2, Robert Williams, yr hwn a fu farw y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Edward VI.; 3, Thomas Williams, o'r Faenol ger Bangor, Ysw., o'r hwn yr hwn Syr William Williams o'r Faenol, Barwniad, yr hwn gan iddo farw yn ddiblant, a adawodd ei etifeddiaeth, wedi oes Syr Bouchair a Mr. Chichester Wrv, i'r brenin William, yr hwn a'i dyroddodd i — Smith, Llafariyd Ty y Cyffredin; 4, Edward Williams o Faes y castell, Ysw.; 5, Henri Williams, a elwid hefyd Henri Wyn o Benmon; 6, John o Folley; 7, Gras, a briododd John, ab Rhys, ab Lleweyn, ab Hwleyn, o Bodelchain, Ysw., Siryf Mon yn y flwyddyn 1556; 8, Elin, a briododd Robert Pulestone o'r Bersham, Ysw.; 9, Margaret, gwraig John Broughton o'r Marchwiall, Ysw.; 10, Anne, gwraig William Eytton o Ruabon, Ysw.

William Williams Ysw., a briododd Dorothy, ferch Syr William Gruffydd o'r Penrhyn, Marchog, o'r hon y bu iddo blant, sef 1, William Williams ei etifedd; 2, Rowland, yr hwn a fu farw yn ddiblant yn o. c. 1583; 3, John; 4, Rhys; 5, Edmund; 6, Richard Williams; 7, Arthur Williams A. C., o Feillionydd, o'r hwn yr hynodd Williamsiaid Meillionydd a Ystum Colwyn; 8, Thomas Williams, A.E.; 9, Jane, a briododd William Coetmor o Goetmor, Ysw.; 10, Catherine, gwraig John ab Wmffre Meredydd o'r Gesail gyfarch; 11, Margaret, a briododd John Llwyd, fab Richard Llwyd o R. sidale

William Williams, y trydydd o'r enw, a ddelynodd ei dad yn yr etifeddiaeth; Siryf swydd Gaernarfon yn 1592. Efe a briododd Aegnes, ferch John Wynne ab Meredydd o Wydir, Ysw., o'r hon y bu iddo un mab, Owen Williams, ac un ferch, Elin, yr hon a ymbriododd a William Williams o'r Faenol, Ysw., a wnaed wedi hyn yn Farwniad, Meh. 15, 1622.

Owen Williams, mab henaf William Williams, a ddifeddiwyd; efe a briododd ferch i un Leigh o Ridge, o'r hon y bu iddo un ferch, Dorothy, yr hon a briododd un o'r enw Needham;* ond aeth etifeddiaeth y Cochwillan i huiogaeth William Williams o'i ail wraig, Barbara, chwaer i Arglwydd Lunley, o'r hon y ganed iddo, 1, Henri Williams; 2, Blanche, gwraig Richard Prys o Eglwyseg; 3, Mari, a briododd William Bulkeley o Coedan, Ysw.; 4, Barbara, a briododd Richard Herbert o'r Parc, Ysw.

Henri Williams, o Gochwillan, Ysw., mab i William Williams, o'i ail briodas, a briododd Jane, ferch ac etifeddes i Thomas Salusbury, trydydd mab Syr John Salusbury, Marchog, o'r hon y bu iddo fab, Lumley Williams, yr hwn a briododd Dorothy, ferch, ac etifeddes Rhys Thomas, o Ystumcolwyn, Ysw. Yr Henri Williams hwn a werthodd etifeddiaeth y Cochwillan i Iaril Penfro, yr hwn a'i gwerthodd drachefu i'r Dr. John Williams, Arglwydd Geidwad y Sel Fawr, yn y flwyddyn 1620; yn mhe. tua dau fis wedi ei wneuthur yn Arglwydd Geidwad, am ddeng mil o bunau; fel y daeth efe yn berchenog ar y Penrhyn a Chochwillan. Yr oedd efe yn fab i Edmund Williams o Gonwy, Ysw., yr hwn oedd yn bumed mab i'r

* Mae lle o'r enw "Gweirglawdd Nidam," yr hon sydd oddentu 21 erw, yn agos i Blas Ofa.

ail William Williams o Gochwillan. Yr Edmwnd Williams hwn, a briododd Mari, ferch Owen Wynne, o'r Eilwys Fach; ab John Owen, o'r hwn y bu iddo ddau fab, a dwy ferch, sef 1. Robert Williams, Ysw. 2, John Williams, yr hwn a anwyd Mawrth 25. 1582. Efe a ddychafwyd i fod yn Ddeon Sarum, a thrachefn i fod yn Ddeon Westminster. Yn y flwyddyn 1620, efe a wnaed yn Arglwydd Geidwad Sel Fawr y deyrnas. Yna efe a wnaed yn esgob Lincoln. a thrachefn yn archesgob Caer Efrog. Wedi treulio oes ddigyffelyb o lafurus, a'r rhan olaf o honi yn drallodus dros ben, efe a fu farw yn Ngloddaith, o ddolur y gwddf, Mawrth 25, 1650, sef ar ei flwyddwyl yn 68 mlwydd, ac efe a gladdwyd yn y fedd gell deuluaid yn Llandegai, lle y mae Gwyddfa hardd ac arysgrifen Lladin wedi ei chyfodi er cof am dano, gan ei nai a'i etifed, Syr Gruffydd Williams. Gwel t. d. 80.

Chwïorydd yr Archesgob oeddynt, 1, Dorothy, gwraig y Cadben Huw Williams, o'r Wig; yr hwn a laddwyd yn Flanders; a hi a fu yn briod eilwaith, ag un Syr — Powel, Marchog. 2, Elin, a briododd Ifan Gruffydd o Bengwern, yn swydd tflint; a thrachefn, a Syr Peter Mytton, Barnwr Gogledd Cymru. Ei frawd ef, Robert Williams, a briododd Elizabeth, ferch Gruffydd ab John, o Gefn Amwlch Ysw., Siryf swydd Gaernarfon yn y flwyddyn 1590. o'r hon y bu iddo ddwy ferch ac un mab; sef, 1, Catherine, gwraig Dr. Hugh Gruffydd, Canghelydd Bangor; 2, Elen, yr hon a briododd Thomas Gruffydd, o Lwyn y glyn, Ysw; 3, Gruffydd, yn hwn a wnaed yn etifedd o diroedd yr Archesgob. Yn mhen y flwyddyn ar ol marwolaeth yr Archesgob, cawn fod ei etifedd Gruffydd Williams, Ysw., o'r Penrhyn, yn Siryf swydd Gaernarfon, sef yn y flwyddyn 1651, a thrachefn, yn y flwyddyn 1662. Efe a wnaed yn Farwniad, Mehefin 17, 1661, ac o hyny allan Syr Gruffydd Williams, y Penrhyn, ei gelwir. Ei wraig oedd Gwen, ferch John Bodwrda, o Fodwrda, Ysw., yr hwn a fu yn Siryf swydd Gaernarfon am y flwyddyn 1680.—Bu i Syr Gruffydd Williams, 19 o blant o'i wraig, deuddeg o ba rai a fuont byw i fyned i oedran gwyr a gwragedd. Efe a adawodd etifeddiaethau lled dda i'w chwe mab, fel y canlyn, I Robert, efe a adawodd y Penrhyn, a Chochwillan; 2, I Huw, efe a adawodd y Marl, Porthfa Conwy, Gwaun Llywarch, Y Weirglodd Ddu, Plas Uchaf, Penlasog, &c., ac os byddai efe farw yn ddiepil, yr oedd y tiroedd hyn i ddigyn i Edmwnd, John, a Roger; 3, I Edmwnd Williams y gadewid Arianws; 4, I John Williams y gadewid Brynmor, a chynifer o'i diroedd ar a orweddant yn mhlwyfhi Dwygyfylchi, Llanfair fechan, Aber, Llanfair-is-gaer, Llanddeiniolen, a Llanbeblig; ac oni byddai hepil ganddo, yr oedd y tiroedd i fyned i Huw, Edmwnd, a Roger; 5, I Roger Williams y rhoddid Pen yr allt, Tal y cafn, Gwern fenaidd uchaf, Tyddyn y meibion, Cyll gwynion, Tan yr allt, Ffrith Dwyffrwd, Y Ffrith bach, a'r rhelyw o'r etifeddiaeth yn Arianws, ac os byddai yn ddiepiledd, i Huw, Edmwnd, a John; 6, Gruffydd Williams, mab Syr Gruffydd, a fu farw yn anmhrïod, a chyn marw ei dad. Am y merched, 1, Elin, a briododd Robert Coetmor o Goetmor, Ysw., hendaidd i'r ddieddar Mrs. Puw o Goetmor; 2, Gras, a briododd Cadwaladr Wynne o'r Foelas, Ysw. Bu hon yn treulio gweddill ei hoed yn weddw yn y Ty Mawr, Dwygyfylchi, a dywedir iddi hi dreulio ei meddianau yn gwneud 'Gored pysgod, a ffyrdd i fyned ato, yn Nwygyfylchi. Gallwn feddwl fod Mr.

Williams yn gyfeiliernus pan y dywed mai Cadwaladr Wynne oedd Siryf swydd Ddiubych yn 1755; Watryn y gelwid y siryf am y flwyddyn hono. Fe allai ei fod yn fab i Cadwaladr Wynne; 3 Dorothy, a briododd John Jeffreys o Acton, Ysw.; 4, Catherine, a briododd John Bodwrda Ysw.; 5, Elizabeth, a briododd Henry Rowlands o Lwyn bedw; 6, Gaynor, a fu farw heb briodi. Y mae ewyllys Syr Gruffydd wedi ei dyddio Medi 13, 1663, ac y mae ol-ewyllys yn cynwys cymunroddion i amryw o'i wyrion a'i wasanaethyddion, wedi ei ychwanegu ato, dan yr un amseriad.

Syr Robert Williams o'r Penrhyn, a olynodd ei dad yn y titl, ac etifedd-iaeth y Penrhyn, ac a briododd Frances, ferch Syr John Glynne, Marchog, Prif Farnwr Llys Dadleuon Cyffredin, o'r hwn y mae Syr Stephen Glynne, Barwniad, yn bresenol o Ben-ar-halawg, yn hwn; a bu iddo ddau fab, John a Gruffydd, a thair merch, Frances, Ann, a Gwen, o'r briodas hon. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1678, wedi gweinyddu y swydd o Uchel Siryf dros swydd Gaernarfon am y flwyddyn 1670. Efe a briododd yr ail waith — Jennings, o swydd Gaerefrog, gweddw y Milwriad White, ond ni bu iddo blant o honi.

Syr John Williams, y mab henaf, a olynodd ei dad, Syr Robert, ac a fu farw yn ddibriad cyn ei fod yn un miwydd ar ugain oed.

Syr Gruffydd Williams o'r Penrhyn, a olynodd ei frawd, Syr John, a chan iddo yntau farw yn ddibriad ac o dan oed, efe a olynwyd yn y teitl gan ei ewythr Syr Hugh Williams, am yr hwn y cawn sylwi yn ol llaw. Ond yr etifeddiaeth a aeth i'w chwaer Frances,* yr hon a briododd Arglwydd Edward Russell, ail fab y Dug o Bedford, yr hwn, gan ei farw heb blant o honi hi, a adawodd yr etifeddiaeth trwy weithred gyfreithiol i'w chwiorydd gorfucheddol, Anne, yr hon a briododd Thomas Warburton o Wington yn swydd Gaer, Ysw., mab Syr John Warburton o Arley yn swydd Gaer, Barwniad; a Gwen, yr hon a briododd Syr Walter Yonge o Escott yn swydd Dyfnaint, Barwniad, hiliogaeth yr hwn a fuant dros hir amser yn gyd-berchenogion o etifeddiaeth y Penrhyn.

Y mae teulu *Warburton* yn disgyn o Odord, Udard, Hodard, neu Hurdard, yr hwn a ddaeth i Loegr gyda William y Goresgynydd, ac a gawsant Dutton yn rhodd gan Huw Fleiddyn o Gaer, lle yn y canlyniad y bu y teulu yn cartrefu dros hir amser, gan gymeryd y cyfenw Dutton, yn ol arfer y dyddiau hyny.

Huw, fab Ordord, oedd dad i Huw arall, i'r hwn hefyd y bu mab o'r enw Huw, yr hwn a barhaodd y brif linell yn Dutton, yr hon a derfynodd mewn merch, yr hon a briododd — Needham, Arglwydd Is-Iarll Kilmurrey, ac Adam, ei ail fab, o'r hwn yr hanodd Warburtoniaid Arley.

Daeu yr Adam de Dutton uchod i feddiant o holl Warburton yn nheyrnasiad Richard y Cyntaf. Y naill ran trwy briodi Agnes, ferch ac aeres Robert Fitzalured; a'r haner arall, gan ei bod o amobr Halton, a ddyroddwyd iddo gan John, Cwnstabl Caer, &c.; ac yn y canlyniad efe a fu yn dal y rhan yma dan bennaeth Urdd St. Ioan o Jerusalem. Yr oedd efe hefyd yn meddu Budworth Fawr, Aston, Tabley Isaf, Sutton gyferbyn,

* Gwr cyntaf Frances oedd Robert Lloyd o Ecclesham, Ysw., o'r hwn y bu iddi fab, Richard Lloyd, yr hwn a fu farw yn ei febyd.

Frodsham, Appleton, Hull, Newton ger Daresburgh, Hatton, Stretton, haner Lym, a haner Walton Isaf.

Geoffrey, fab Huw, yn amser Harri III., a gyfaneddai yn Budworth, ac a elwid Syr Geoffrey de Budworth. fel y gelwid ei fab Geoffrey hefyd, ond Pedr, mab hwnw, a symudodd i Warburton yn amser Edward y Cyntaf, ac yn y canlyniad a ymgyfenwai *de Warburton*; yr hwn enw a gadwyd byth gan ei hiliogaeth, y rhai a symudasint i Arley yn amser Harri VII., lle y darfu i Peter Warburton, yr hwn a fu farw yn 1495, adeiladu palas.

Syr John Warburton o Arley, oedd yn farchog corph i'r brenin Harri VII., a Siryf swydd Gaer dros ei einioes. Efe a fu farw yn y 15fed flwyddyn i Harri VIII., o'r hwn, wedi amryw genhedlaethau o hynafiad enwog (o'r rhai bu Syr John Warburton yn Siryf y wlad y 4ed i Elizabeth; a Peter Warburton o Arley, y 15fed o'r un teyrnasiad), yr hanodd George Warburton o Arley, yr hwn a ddyrechfwyd i urddas Barwniad gan y brenin Siarl yr Ail, Mehefin 27, 1660. Efe a briododd yn gyntaf ferch i Syr Thomas Myddleton o Gastell y Waen, swydd Dlinbych, o'r hon y bu iddo fab, sef Peter, yr hwn a'i hilynodd yn ei deitl a'i etifeddiaeth; 2, George, yr hwn a adawodd ddau fab ac un ferch, sef George, Thomas, ac Elizabeth. O ferched Syr George, Eleanor a briododd Syr Francis Edwards o'r Amwythig, Barwniad; 2, Mari, a fu yn wraig i William Parry o'r Maerdy, swydd Lincoln, Ysw.; 3, ———, a briododd ——— Dumville o Lym yn swydd Gaer, Ysw.

Syr George Warburton a gymherth yn ail wraig, Frances, ferch Syr Edward Bishop o Parham yn Sussex, Barwniad, o Margaret, ferch Nicholas, Iarll Thanet, o'r hon y bu iddo epil, sef 1, Thomas Warburton o Winnington, Ysw.; 2, Robert; 3, John; 4, Cecil; 5, ———, a briododd Syr John Mordaunt, Barwniad; 6, ———, a briododd Wmffre Trafford, Ysw.

Thomas Warburton o Winnington, Ysw., a briododd Anne, ferch Syr Robert Williams o'r Penrhyn, Barwniad, yr hon a feddai haner etifeddiaeth y Penrhyn wedi marwolaeth ei chwaer Frances yn ddiblant; ac o honi bu iddo amryw o feibion a merched, ac yn mysg eraill, Duges Argyll a'r Is-gadfridog

Huw Warburton o Winnington, Ysw., milwriad yn y 27 gatrawd o draed-filwyr, yr hwn a briododd Susannah, ferch Dr. Norris o ———, a gweddw Huw Williams o Gaer, Ysw., o'r hon y bu iddo un ferch, Susannah Anne, yr hon a briododd Richard Pennant Ysw.,* Rhagfyr 6, 1765.

Y rhan arall o etifeddiaeth y Penrhyn† a berthynai i Syr George Yonge o Escott, yn swydd Dyfnaint, yr hwn a hanai o Thomas Yonge Ysw.,

* Yr hwn, wedi hyny, a wnaed yn Arglwydd Penrhyn. Ei dad oedd y diweddar John Pennant Ysw., yr hwn a hanai o "Pennant" Bagillt, a Downing yn swydd Ffaint, ac yn rhyw garenydd lled bell i'r Hanesydd a'r Hynafiaethydd enwog, Thomas Pennant o'r Downing, Ysw. Mae y teulu yma yn olrhain eu hachau i Tudur Trevor, Iarll Hereford, &c., yr hwn oedd yn cyfuesi a Howel Dda, 923, ac a briododd ferch i'r tywysog hwnw o'r Angharad. Efe oedd fab Ynyr, ab Cedfurch, ab Gwrgenau, ab Gwarthaw, ab Bewyn, ab Gwriawn Briodaerch, ab Gwynnau, ab Gwenfiw Frych, ab Cadei Deyrallen, ab Pasgen, ab Rhydwf, ab Rhydd Fedei Frych, ab Cyndeyrn, ab Gwrtheyrn, Brenin Prydain yn o.c. 448.

† Y rhan hon o etifeddiaeth y Penrhyn a brynwyd gan y diweddar John Pennant Ysw., tad Richard, Arglwydd Penrhyn; a'r rhan arall a berthynai trwy hen hawl etifeddog i'r arglwyddes, fel y dangoswyd uchod; ac felly unwyd etifeddiaethau y Penrhyn a Chloch-willan yn y diweddar Arglwydd ac Arglwyddes Penrhyn.

cyfreithiwr dysgedig, ac un o farnwyr y *King's Bench* yn nheyrnasiad Edward iv.

Walter Yonge, un o feibion ieuengaf Yongiaid Bassingbarn, yn swydd Berk, a ddaeth i Ddyfnaint yn nheyrnasiad Harri VII., ac a bwrcasodd yn Myncombe, Battishorne, Bobton, Statecombe, a Brockland Hill, yn y wlad hono, a rhai tiroedd yn swydd Dorset. Efe a fu farw yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Elizabeth, wedi bod yn briod âg Agnes ferch—— Gapps, o'r hon y bu iddo bump o ferched; sef Jane, a briododd John Westlare; 2, Florence, a briododd —— Pit; 3, Julian, â John Burt; 4, Joan, â —— Hammon, Ysw., ac un arall, yr hon a fu farw yn ddi-briod.—Hefyd, un mab.

John Yonge, o Aminster, yn Nyfnaint, yr hwn a briododd Joan, ferch John Carriton, Ysw., o'r hon y bu iddo dri o feibion; sef Walter, a fu farw yn ddiépil; Robert, a briododd Anne ferch —— Hassard; a John. A thair o ferched; sef Margaret, a briododd Hercules Pyne, o'r Hay, swydd Dyfnaint, Ysw., ac Anne, a Helen.

John Yonge, y mab ieuengaf, oedd o Culiton, ac a briododd Als, ferch —— Starre, Ysw., o'r hon y bu iddo John, a fu farw yn ddiépil; a Walter; a phum merch; Joan, a briododd Richard Mallock, o Amouth, yn Nyfnaint, Ysw.; Als, âg Wmiphrey Cokeran; Anne, a Robert Hill, o Hollylane, swydd Somerset; a Mary, a William Fry, o Yarty, Dyfnaint. Ysw.

Walter Yonge, Ysw. o Upton, yn Nevon, yr hwn oedd yn fyw yn 1620, Efe a briododd Jane, ferch, a chydaeres Syr John Perryam, a bu iddo ddau fab, John a Walter, a merch o'r enw Jane.

Syr John Yonge, y mab henaf, a wnaed yn faichog gan Charles yr ail Medi 26, 1661, ar gyfrif ei deyrngarwch, a'i ddyoddefiadau dros Charles y cyntaf. Efe a briododd Elizabeth, ferch Syr William Strode, o Newenham, Dyfnaint, Mar, o'r hon y bu iddo bump o feibion, John a fu farw yn faban; Walter, a olynodd ei dad yn y titl a'r etifeddiaeth; Robert; William, a briododd Jane ferch Syr John Drake, o Ash, yn Nevon, Bar; George, a fu farw yn ieuanc; a phedair o ferched; sef Jane, a briododd Syr John Drabe, o Trill, ac Ash, Bar; Elizabeth, â Thomas Hodges o Shipton Moigre swydd Gaerloyw, Ysw., Mary, a Sarah, a fuont feirw yn eu mebyd.

Syr Walter Yonge, Bar, a briododd Isabel, ferch Syr John Davie, Creedy, yn Nevon, Bar, o'r hon y bu iddo bump o feibion, ac wyth o ferched; 1, John, a fu farw yn ieuanc; 2, Walter, a olynodd ei dad yn v Fawrniaeth; 3, Francis, a fu farw heb briodi; 4, Charles a fu farw yn Montpelier heb briodi; 5, William, a fu farw yn ieuanc. O'r merched Isabella, a briododd Richard, Dug Otterdon yn Nyfnaint; Jane a fu farw yn ddibriod; Mary, a briododd John Walrond, Ysw.; Elizabeth, a Bartholmew Bease, o Hath House, yn swydd Mwythig, Ysw.; Dorothy, a fu farw yn ieuanc; Margaret eto yn flwydd oed; Sarah, a briododd Robert Yate, o Bristol.

Syr Walter Yonge, Bar, a wasanaethodd yn y Senedd, o'r flwyddyn 1678 hyd y flwyddyn gyntaf i Sior y cyntaf, fel cynrychiolydd Honiton, yn Nyfnaint; ac yna efe a wnaed yn un o Brwywyr y Cyllid i'w Fawrhydi. Efe a briododd yn gyntaf, Gertrude, ferch Syr William Morrice o Warrington, Bar, o'r hon y bu iddo unig ferch, Gertrude, a fu farw yn faban. Ei ail wraig ydoedd Gwen merch ieuengaf, a chydaeres Syr Robert Williams,

o'r Penrhyn, yn swydd Gaernarfon, Bar, o'r hon y bu iddo un mab, William, a phedair merch; sef Gwen a briododd Arthur Arscot, o Telcote, yn Nevon, Ysw.; 2, Isabella, a fu farw yn faban; 3, Jane; 4, Frances, gwraig Edward Sainthill, o Bradninch, yn Nyfaint, Ysw.

Syr William Yonge, K. B., Bar, oedd yn un o Arglwylli Prwyiaduron y Trysorlys; ac a gynrychiolai Honiton mewn amryw Seneddau. Efe a briododd Anne, ferch Arglwydd Effingham Howard; o'r hon y bu iddo bump o ferched, ac un mab, ei olynnydd; sef

Syr George Yonge o Escot, Bar. Cynrychiolydd Honiton yn y flwyddyn 1764.

Y MARLE.—Gan i Syr Gruffydd Williams o'r Penrhyn, Bar, (mab ieuengaf Syr Robert) farw yn ddiépil, disgynodd y titl o Farwniad i'w ewyrth, Syr Hugh Williams, o'r Marle, ail fab Syr Gruffydd Williams o'r Penrhyn, Bar, yr hwn a briodasai Jane ferch Henri Fychan, o'r Pant glas, yr hwn a laddasid yn ngwarchaead Castell Hopton yn amser Siurl y cyntaf, ac a hanai o Marchweithian, arglwydd Isaled, &c. Gan i frodyr Jane, Thomas a Henry Fychan o'r Pant glas, farw yn ddi blant, a'i chwaer Catharine, yr un ffund, daeth hi yn aeres o holl etifeddiaeth ei thad.

Syr Gruffydd Williams o'r Marle, unig fab Syr Hugh Williams, o'i wraig Jane Fychan, oedd y Barwniad nesaf. Efe oedd Siryswydd Gaernarfon am y flwyddyn 1708. Efe a briododd Catharine, ferch henaf Owen Anwyl o'r Penrhyn, Deudaeth, yn swydd Feirionydd, Ysw., (ail fab Robert Anwyl, o'r Parc, Ysw.) o'r hon y bu iddo amryw blant a fuont feirw yn ieuanc; ac ni chyrhaeddodd ond un mab o honant i oedran gwr, sef Robert; ac efe, dan yr enw Syr Robert Williams o'r Marle, y Pant glas, y Parc, a'r Llwyn, a fu y barwniad olaf o'r gangen hon; canys bu farw yn ddiépil, a'i etifeddiaethau a ddisgynasant i'w chwaer Jane, yr hon a briododd Syr Thomas Prendergast, Barwniad o freniniaeth y Werddlon. Penllythyrwr cyffredinol y deyrnas hono.—Hwn a werthodd y Llwyn i Lewis Nannau, Ysw., a'r Parc i William Wynne o'r Wern, Ysw. Hi a'i gorfucheddodd ef, ac a gymerth yn ail wr, Cadben Tearance Prendergast Ysw., ac yr oeddynt yn cyfanedu yn y Marle, yn y flwyddyn 1764.

Ond, wedi marwolaeth Syr Robert Williams, disgynodd y titl o Farwniad ar Syr Hugh Williams, fab Gruffydd Williams, fab Edmund Williams, o'r Arianws, trydydd mab Syr Gruffydd Williams, y Barwniad cyntaf o'r Penrhyn, o Mari ferch William Woods o Dal y llyn, yn Swydd Fôn.—Yr Hugh Williams uchod a briododd Emma, ferch ac unig aeres Thomas Rowlands o'r Caerau yn Môn, Siryswydd Gaernarfon am 1723, a Môa, am 1726, ac am mai gweddwy ydoedd hi i'r Is-Iarll James Arglwydd Bulkeley, yr hwn a fuasai farw Mai 23, 1752, yr oedd hi yn Is-Iarllws waddlog Bulkeley, pan y priododd a Syr Hugh Williams, a bu iddynt blant, Anne Jane, a anwyd Ebrill 27, 1762, ac a fu farw heb briodi Ionawr 4, 1801.

Robert Williams, a anwyd Gorphenaf 20, 1794, ac a ddylynodd ei dad yn y farwniaeth.

Hugh Rowlands, swyddog yn y fyddin, yr hwn a laddwyd yn Grenada, yn y flwyddyn 1795.

Frances Emma, a anwyd Medi 14, 1765; ac a fu farw heb briodi, Medi, 1829. Bu farw Syr Hugh, Awst 19, 1796, ac a ddylynwyd gan yr

unig fab a adawsid, sef Syr Robert Williams, yr hwn a briododd Anne; ferch y diweddar Barch. Edward Hughes o Cinnel,* Mehefin, 11, 1799, o'r hon y cafodd amryw blant; ac yn mysg eraill, Richard, a anwyd Medi 23, 1801. Efe a gymerodd y cyfenw Bulkeley wedi dyfod i feddiant o eiddo yr Is-Iarll Bulkeley: ac ar farwolaeth ei dad, Rhagfyr 1, 1830, daeth yn 10fed o Farwnigiaid y Penrhyn, o Syr Gruffydd Williams.

† COETMOR (*Coed mawr*). Hen enw ydyw hwn ar amryw drigfanau Cymreig. Sonia Asser Menevensis yr hwn oedd yn byw yn Llys Alffred o gylch o. c., 893, am le o'r enw "*Coit maur*" yn ei amser ef yn Ngwlad yr Haf. Dywed hynafiaethwyr fod deilliad teulu Coetmor o Iarddur, Arglwydd Llechwedd uchaf; yn mhellach dywed traddodiad yr ardal, mai Ednyfed Fychan, Pencynor y Tywysog crybwyiledig a adeiladodd Goetmor y waith gyntaf. Dywed hefyd i'r lle gael ei adeiladu dair gwaith; yr oedd tŵr crwn yn perthyn i'r hen balas, a gardd ar ei ben, medd un sydd yn ei gofio. Y palas presennol, yr hwn sydd yn aros eto, a adeiladwyd yn ol yr arddull a arferid yn amser y Frenhines Elizabeth. Ymddengys i deulu y ddau wron crybwyiledig ymgylfathachu a'u gilydd, yr hyn a gadarnheir debygir oddiwrth hen Gywydd, ysgrif o'r hwn sydd yn aros eto, o waith Guto'r Glyn, yr hwn a flodeuodd rhwng 1430, a 1460. "Cywydd yw hwn i ofyn cŵn dwr, i Sieffre Cyffin, i Robert ap Ieuan Fychan, Coetmor," ac fel hyn dechreuau,—

Robert uwch rhiwiau Aber
Rhoi lân (1) ac aur glan i gler, (1) *Erethyn*
Ap Ifan Fychan, dda'i fedd,
A'i dda win i ddy Wyneudd;
Llin Ieuan Llwyd llawn win lla
Llwyth Iarddur o'r llath (2) *hirddu*;

Geman oedd dy deidiau (3) di
A chreiriau uwch Eryri;
Gwraidd a brig pendefigion
Gwir wydd mawr Gwynedd a Môn;
Esfionydd a ofynir—
Nant Conwy (4) Ardudwy dir, &c.

Madog Coetmor, meddir, oedd yr unig un o'r Penaethiaid Cymreig a bleidiodd Richard III yn Mrwydr Eosworth, yr hon a ymladdwyd Awst 22, 1485. Pan oedd y brenin ar gychwyn i'r frwydr y lladdwyd ef ynddi, dywedodd "*Dyma at dy iechyd Madog, yr unig Gymro cywir a ellais gael.*" Ac ar ol yfed, a thafu y gwan tros ei ysgwydd, carlamodd i faes y frwydr yn yr hon y lladdwyd ef.

Yn anser Hari VIII, yr hwn a deyrnasodd rhwng 1509, a 1547, fe fu yr hynafiaethydd John Leland trwy y wlad hon, a dywed ef mai William Coetmor, oedd yn byw yn Nghoetmor y pryd hwnw; ac y mae yn cyfrif derw Coetmor gyda y rhai mwyaf oedd yn y parthau hyn.

* Cyn-mael.

(2) "*Llath hirddu*" oedd drawt neu asdell uderw ddu, ar ba un y torai y Penteulu enwau ei hynafiaid, ac y cadwai ei achau.

(3) Tebygir, fod yma gyfeiriad yn sicr at rai o'r dewrien a roddasant ar ddeall i Edward y cyntaf nad ymstyngent i unrhyw Dywysog estronol, ac na oddetent i'w Tywysog wneyd hyny ychwaith.

Dyma *Gedryn Eryri*, a seliasant eu geiriau a'u gwaed, llawer a ba rai a syrtiasant o Lys Aber i Lys Dinorwig, wrth ymladdu eu breintiau. Ac yn lle gwriogaethu i Edward, gwnaethant hwy iddo ef dalu math o wricgaeth iddynt hwy, pan sfonodd efe am ei frenhines yn nyfnder y gauaf, i lawr o Lundain i Gastell Caernarfon i roddi genedigaeth i Dywysog Cymru; dewrder y rhai a wnaeth iddo adeiladu Cestyll Caernarfon, Beaumaris, a Chonwy, er fod eu gwlad agos o'i Fôn i Fynwy yn waed a lludw; fel y csegir oddi wrth waith Gruffydd ap yr Ynad Coch. Gwel Han. Cym. gan T. P. t. d. 698, a 718, 719.

(4) Y mae yma gyfeiriad debygir at dadau neu deidiau Hoel (Hywel) Coetmor, llun yr hwn mewn mynor sydd yn nghape Gwydir, ac yn perthyn i'r Coedmorïaid.

Yn amser y Frenhines Ann 1702, cawn ar restr Siryddion Sir Gaerynarfon, enw George Coetmor o Goetmor. Gwel *Cam. Reg.* 1796 *Vol. II.* Hefyd ar ddalen bres yn Eglwys Gadeiriol Bangor, cawn hanes i *Gweni de Coetmor* fod yn wraig i un o deulu y Penrhyn. Paisarfau teulu Coetmor oedd, *Bon Gules and Cheveron under three Stag's head, trunked or Composed.**

Ymbriododd Ann, aeres Coetmor ag Edward Philip Puw o Fodysgallen yn y Creuddyn, a bu ganddynt dri o blant; sef Briget, Ann, a James.

Ymunodd Briget yr hynaf mewn glan briodas â'r Isfilwriad Glynnt† o Glynllifon, yr hwn oedd Swyddog yn y Fyddin, ac A. S. tros Sir Gaerynarfon, a bu ganddynt blant; 1, John Glynn a anwyd 1766; 2, William Glynn a anwyd 1767 a fu mewn urddau eglwysig D. D. Darfu iddo ef trwy gydsyniad ag ewyllys ei nain, gymeryd y cyfenw Coetmor. Hefyd priododd wyres ac etifeddes i Thomas Tenison, prifynad y dadleuon cyffredin yn Iwerddon, a gweddw i Bellingham o Gastell Bellingham yn Sir Louth. *Gol. yr Oes, t. d.* 221.

Ymunodd yr ail ferch, sef Ann trwy briodas a Chornelius Hughes, yr hwn a fu amaethon yn y Penrhyn, ac yn byw ynddo, tan ardreth i Huw Warburton. Ymddengys i'w Chieawdwr gynysgaeddu Ann a llawer o lendid a phrydferthwch, oblegid dyma fel y canodd un o'i chydoeswyr iddi;

Mae Nansi Puw Coetmor yn eneth lân lân,
Ei gwallt yn blethe lig, â'i danedd yn fân;
A'i llygaid byw gleision tel dystyll y don,
Oe'd (1) blodau Llanllechid y gelwch chwi hon? (1) *Onid*

A gallwn ninau ychwanegu;—

Oer heddyw a diryddid—yw y ferch
Swynai fab a'i glendid;
Mae'n nghau y gruddiau â'r gwrid
Yn y llwch yn Llanllechid.

Dywedir iddynt syrthio allan â'u Meistr tir, ac ar ol i gyfraith faith a chwerw fod rhyngddynt, ymadawsant i fyw i Beaumaris.

James Puw eu brawd, a arhosodd yn hen lanc, ac a drigodd yn Nghoetmor; a dywedir mai dyn tal, esgyrniog, a thrcediog oedd efe: ac y mae ei enw yntau ar restr Siryddion Sir Gaerynarfon yn amser Sior iii, 1776.

Tafllwn ail olwg ar Edward Philip Puw, ei wraig, a dull ei deulu. Yr oedd Plas Coetmor yn awr yn uchder ei ogoniant, ac arno nifer mawr o ffenestri; ac ar un o honynt yn yr wyneb, baisarfau y teulu, mewn gwydr amryliw, ac hefyd oddi fewn ar ei nenfwd.

Ychydig tros 80 mlynedd yn ol bu y teithiwr enwog Mr. Pennant o'r Downing yn ymweled â'r lle, ac y mae yn ei ddarlunio mewn coed, trwy y rhai yr oedd agoriadau i gael golwg ar y mynyddoedd cylchynol. O'r tu cefn iddo yr oedd rhodfeydd trwy y coed, yn gystal a thai haf, ac yn ymyl, ardd ddymunol, magwrydd yr hon sydd yn aros eto yn lled dda.

Yn amser Mr. Pennant yr oedd yn y tŷ arlun dyflliw gan Syr Peter Lely, o'r arluniwr bychan R. Gibson a'i wraig yn llaw-law, y rhai nid oedd un o honynt tros dair troedfedd, a deng modfedd o uchder. Cawsant eu priodi yn ngwydd y brenin Charles y cyntaf a'i frenhines. Yr oedd yma ar y

* Gwel bais arfau Hywel Coetmor t. d. 78. † Gelwir ef weithiau yr ydys yn meddwl yn Gol. Wynn am ei fod o un ochr yn deilliaw o Wynniaid y Felai.

pryd fel y gwyddys nifer o ystafelloedd wedi eu dodrefnu yn wych odiaeth o'r derw goren, ac wedi ei cŵyro mor ofalus, fel y gwelai dyn ei gysgod arnynt, fel mewn drych, ac yn enwedig ar y grisiau. Yr oedd mentyll y sisneiau o fynor, gwyn, a du, â'r eilch tân yn dra disgleiriol.

Yr oedd Edward Philip Puw, yn tori flugyr uchel yn ei oes, ac ystyrid ef ar amryw gyfrifon "Y gwr mwyaf yn Ngogledd Cymru." t Meddai hefyd bump etifeddiaeth; un yn y Creuddyn; un yn Dwy (Adwy?) y Gyfylchi; un yn Lleyn; un yn Sir Trefaldwyn; gyda Choetmor. Ei geffylau ef a lusgasant meddir y cwch cyntaf ar draws Carnedd Ddafydd i Ffynon y Lloer. I Goetmor hefyd y daeth y *Goach* (enw Hungaraidd ar gerbyd) gyntaf i'r wlad hon, ac y mae cae a elwir "*Cae Coach house*" wrth y tŷ eto: cadwai chwech o geffylau duon fel pŷg i'w llusgo, ac yr oedd ei baisarfau arni, a rhedeg mawr i'w gweled pan yn myned heibio.

Oddi wrth ysgriflyr sydd yn meddiant boneddiges yn ymyl, fe welir i'r merched gael addysg uchel.

Paladres o wraig gydnorth ganolig o faint, yn meddu ar wallt du, wyneb gwastadlyfn, gwyn a gwridog, ac o lendid rhagorol, oedd Madam Puw. Gwisgai glyst-dlysau, ac yr oedd gem yn un o honynt yn costio £60 ei hunan. Gwisgai hi a'i merched ddillad costus, y rhai a serenent gan feini gwerthfawr; a disgleiriaid cadwyni aur am eu gyddfau, a byddai y gemyddien yn hoff iawn meddir oalw heibio iddi a dywedir fod gwraig barchus heddw yn un o'n trefydd cyfagos, yn gwisgo gemau Madam Puw.

Cadwent feirdd, telynorion, a chrythwyr, yn eu tŷ am ddyddian ol-ynol, ac ymollyngent i bob ffurf o chware damwain, nes yr aethant o'r diwedd i fethu talu eu ffordd, a suddodd eu trefdadaeth dan ddyled, ac yn ddiweddar i'r Chancery, a dyma y wedd meddir oedd ar bethau pan fu Edward Philip Puw, a'i wraig feirw; ond bu hi fyw flynyddoedd ar ei ol ef. Llawer y sonid gynt am foneddigion, gweision, a morwynion, ceffylau, a chŵn, a geifr Coetmor; a phortai y geifr ddeaddellodd barlog gydaglan yr Ogwen, o'r rhai nid oes gymaint ag un yn aros heddw.

Y mae chwedl neu ddwy a ellid goffa eto am Madam Puw. Un tro digwyddodd i Afon Ogwen

"Fyned yn hyfach na'i chroesaw,"

a dwyn clamp o bren derw oddiar dir Cilgerant, a'i gyfleu ar dir Coetmor. Ar ol treio o'r llif, aeth yn ddadl wyllt rhwng gweision Coetmor a gweision Cilgeraint pwy erbyn hyn oedd pia y pren, do fe aeth yn gymaint cweryl, fel bu raid cael Madam Puw, yno i derfynu yr ymrfael; ond erbyn dyfod i'w olwg, ni fynai wneyd dim ag ef, nes galw Gras ych Huw, yr hon oedd oedranus iawn, i lawr o Gilgeraint i gydroddi barn ar y mater; yr hon hefyd a ddaeth i waered ati ar geffyl. Ac ar ol i'r ddwy hen Gymraes synhwyrol roddi barn arno, penderfynwyd i Gras ych Huw, ar dir yr hon y tyfodd, gael ei fon; ac i M. P. ar dir yr hon y gadawsai yr Afon ef, gael y brig; ac felly y terfynwyd, ac aeth pawb adref i'w dy ei hun mewn heddwch. Byddai yn dda iawn i lawer o ddynion bychain sydd yn hoff iawn o redeg at Dwinau ar bob achos dibwys er dinstyr i'w hamgylchiadau, gymeryd gwers, a goddef hyd yn nod i ddwy hen fam fel hyn derfynu eu hymrfael, rhag digwydd peth a fo gwaeth.

Yr oedd Madam Puw yn hoff o ymweled ag aneddau trueiniaid, a rhoddai fwyd a gwisgoedd i wragedd tlodion; bwydodd a gwisgodd hefyd lawer o blant tlodion yr Achub. Un tro aeth i Dan y garth, a phan welodd y plant hi yn dod, rhedasant allan oll, ac yr oeddynt meddir yn 9 neu 10 o rifedi; ar ol dyfod i'r ty, ac eistedd ychydig, gofynodd Madam reswm am waith y plant yn rhedeg ar ei dyfodiad, pryd yr atebodd eu mam, mai eu gwisgoedd carpiog, a'u gwylder a achosodd hyny. Gelwch hwynt yn ol, meddai hithau, gael i mi eu gwled; a phan canfu hi hwynt, mynodd deiliwr i'w mesur, a gwnaed dillad newydd iddynt oll. Aeth y wraig wedi hyny i wneyd cwpanaid o dê iddi, a golchodd y llestri yn ei gwydd; gan gwyno fod y bara yn lled dlu, a phlymaidd. O na ofalwch, meddai Madam "mi fyddaf fi yn bwyta crystyn coch yn aml." Ar ol gwneyd pob peth yn barod, aeth y wraig dlawd i wneyd tê, a thywalltodd y gwpanaid gyntaf i'r wraig foneddig, mewn trefn tebygasai hi i'w pharchu, a'r olaf iddi ei hun.

Sylwodd Madam Puw ar hyn, a dywedodd i'r ystyr canlynol;—"pan wnei di dê fel hyn eto i rywun dieithr, tywallt y gwpanaid gyntaf i ti dy hun, â'r olaf i'r un a fyddo dieithr." Yr oedd hi bob amser yn dosturiol wrth y tlawd; a dywedir fod ganddi fwy o barch i grefydd na neb arall yn y teulu, ac y byddai yn mynychu yr eglwys. Pan fu farw, cwynai y tlodion ar ei hol, a dywedir y cyrhaeddai ei chynhebrwng o Goetmor i Llanllechid.

Dilynodd ei mab hi yn yr etifeddiaeth, ac yn mywyd afradlon y teulu; ac aeth yn bellach i ddyled wrth ddilyn oferwyr, fel nad â'i allan o'i dy, heb ddyn yn dwyn llafnes o gleiffon gydag ef, fel noddwr, ac yr oedd y dyn hwn meddir, yn gryn feistr, ar ei feistr ei hun. Dywedir nad oedd ynddo ef nemor o'r parch oedd yn ei fam at addoliad Duw; ac hefyd y rhoddai gini yn y flwyddyn i felinydd o'r gymydogaeath, am iddo adael ei farf dyfu fel cynffon ceffyl, yr hynoedd beth hynod y dyddiau hyny, a myned i mewn, ar y Sabboth i eglwys Llanllechid, pan byddai y person yn cymeryd ei destyn, a hyny mewn trefn i godi chwerthin, a'i ddrysu yn ei bregeth!

O'r diwedd daeth terfyn ar yr amser iddo fyw yn Nghoetmor, oblegid yn Ionawroddeutu 1797, gwnaeth ystorm fawr yr hon a ddidodd balas Coetmor, y beudai, a'r marchdai; ac ar hyn ffôdd Mr. Puw at ei chwaer i Beaumaris, a dyna lle bu mewn rhan tan gudd a chêl, hyd ddydd ei farwolaeth; yr hyn a gymerodd le yn 1800; pan ddygwyd ei gorph mewn cwch tros Fennai i Lan yr ysgraff, ac oddiyno ar olwynion yn cael ei lusgo gan geffyl John Edwards, Tyn yr hendre, ar frys gwyllt, a chyn 7 o'r gloch fore Sabboth, rhag y buasai rhywun o herwydd ei ddyled yn atal bedd iddo;—claddwyd ef medd rhai hen bobl, yn mheu dwyreiniol hen eglwys Llanllechid, a rhoddwyd careg o galchfaen du arno, ond heb un llythyren arni i goffa ei enw, ac felly y mae hyd heddyw,, ni wyr neb am fedd ei dad, na'i fam, na dim ym mbellach am dano yntau, ie, er i hynafiaethydd cyfarwydd a meddylgar fod yn chwilio yn fanwl.

Y mae hen balas Coetmor yn awr yn adfeiliedig, heb do, na ffenestri, ac y mae peth o hono wedi syrthio; ond dylid coffa fod yno deulu bychan, yn llechu dan ei asgell ddeheuol. Yn lle odlau beirdd, a llais telynorion, a chrythwyr; nid oes yno heddyw, ond aderyn y to, y cawci a'r ddallhuan, yn meddianu y lle. Y fath resyn meddwl fod gwastraff a gormod rhysedd wedi bod yn achos o ddiflaniad, a bron ddilead y fath orhenfalch fonedd;

fel erbyn ein hamser ni, mai cryn orchest a gafodd yr ysgrifenydd i loffa cymaint a hyn o'u hanes. Sonir fod ychydig ddisgynyddion o honynt yn Siopwyr, a chrefftwyr tua Chaerynarfon.

Am ystad Coetmor, gellir dywedyd ei bod yn rhywle tua chorn gwddf ystad y Penrhyn, os nad wedi ei llyncu. Dywedwn eto, y fath resyn, na buasai rhai o'u disgynyddion yn byw yma eto, ac ar y blaen gyda phob cynllun daionus mewn byd, ac eglwys; ac yn gefnogwyr gwresog i bob achos da. Ar ol ysgrifennu yr uchod, caed drachefn yr hyn a ganlyn;—

"GWEHELYTH WILLIAM COETMOR.—William Coetmor mab ac aer Pirs Coetmor Fychan ap Rhys, ap Robert, ap Ieuan, ap Madog, ap Hywel, ap Gruffydd, ap Dafydd, ap Tudur, ap Madog, ap Iarddur, ap Cynddelw, ap Trahaearn, ab Bdd, ap Pasgen, ap Helyg, ap Glanog, ap Gwgan, ap Cleddyfrudd, ap Cardog Freichfras, Iarll Henffordd," *Lewis Dwn*, Cyf. ii t. d. 165.

Ymddengys fod y William Coetmor uchod yn fyw oddeutu 1588, ac i Lewis gael yrachau hyn ganddo, a 7 swllt o arian i'w gyunoorthwyoiddwy'n eilyfr allan.

AMRYW ENWOGION.

Gruffydd William D. D. Plas Ofa a anwyd yn Nrhefeilian, Llanrug, sir Gaerynarfon yn y flwyddyn 1587. Yr oedd ei da d yn byw ar ei dreftadaeth ei hun, yr hon a etifeddasai ar ol ei hynafiaid, a'i fam oedd hanedig o deulu pendefigaidd Penmynydd. Derbyniodd elfenau cyntaf ei addysg mewn ysgol fechan, yn nrhef Caerynarfon; a derbyniwyd ef yn ysgolor i Goleg Eglwys Crist yn Rhydychain yn y flwyddyn 1603. Gadawodd y brifysgol hono cyn cymeryd o hono ei raddio ynddi, a symudodd i Gaergrawnt, a'r wahoddiad ei gyfali John Williams, a fu wedi hynny yn Archelegob Iork.

Ac wedi iddo gymeryd ei raddio yn A. C., llwyddodd i gael ei benodi yn Gaplan i Philip, Iarll Trefaldwyn yn y flwyddyn 1614, a thu a'r un pryd, efe a benodwyd yn Beriglor St. Bennet Sherlock. yn ol Syr James Wares, Foscat a Buks hefyd. Wedi hynny bu yn Ddarlithiwr, yn Iaf yn St. Peter, Cheapside, Llundain, ac wedi'n am bum mlynedd yn St. Paul.

Yn y cyfamser wedi deisebu o hono at Archelegob Caergaint, cafodd berigloriaeth Llanllechid, lle y'i perchid yn fawr fel pregethwr galluog, a christion dilynnaidd. Cyfrifid ef yn dra hyddysg mewn Duwinyddiaeth, a Hanesyddiaeth Eglwysig, ac ar y cyfrif hwnw efe a etholwyd i fod yn un o Gapelwyr Siarl y cyntaf; ac erbyn hyn yr oedd efe wedi cymeryd ei raddio yn D. D. yn y flwyddyn 1628, a gwnaed ef yn Brepndur Westminster; ac yn y flwyddyn 1633, gwnaed ef yn Ddeon Bangor, ac Archddeon Mon.

Ar yr 20 o Fedi 1841 efe a gweyd yn Esgob Ossory yn Iwerddon. Wedi hynny pan y paswyd yr 17 a'r 18 o weithred Seneddol Siarl yr ail, Pen. 10 (1665) yn hon oedd yn gorchymyn na allai unrhyw wr llên, ddal bywoliaethau Eglwysig yn Lloegr, neu Gymru, ac yn Iwerddon ar yr un pryd, rhoddwyd i mewn erthygl i'w alluogi ef i ddal Deoniaeth, ac Archddeoniaeth Mon, yn nghyd a'i Esgobaeth, sef Ossory, cyhyd ac y bu efe byw.

Yn fuan ar ol ei benodiad i esgobaeth Ossory, torodd y gwrthryfel allan, sef yn 1641, a bu orfod iddo ffoi o'r Iwerddon i Loegr, am ei fod yn pleidio achos y breuin; a'r llyfr cyntaf a ysgrifennodd o'i blaid oedd *Vindiciae Regum* am yr hwn y daliwyd ef yn ei dy, yn Apethrope swydd Northampton, gan fintai o filwyr, y rhai a'i cludasant yn garcharor i Northampton, lle yr

eisteddai Pwyllgor, a benodasid gan y Senedd, mewn barn ar ei achos, a'r llyfr crybwylledig yn eu dwylaw.

Efe a enciliodd wedi hyn y Rydychain, ac a argraphodd Draethawd o'i waith a enwid *Discovery of Mysteries*, a'r diwrnod yr oedd efe yn pregethu yn Eglwys Fair, o flaen aelodau Ty y cyffredin, elai y milwyr o Northampton, ac yspeiliasant ei dy yn Apethorpe, lle yr oedd ei wraig a'i blant yn cyfaneddu ar y pryd, gan gymeryd eu holl ddodrefn ymaith, ac atafaelu ei diroedd at wasanaeth y Senedd. Y gauaf canlynol efe a ysgrifennodd ei *Jura Majestatis*. Fel yr oedd achos y brenin yn gwanhau, darostyngwyd yntau i gyfyngder mawr; ac er iddo gael cynygion o ddyrchafiadau gwerthfawr, os ymostyngai i'r Senedd, efe a'u gwrthododd yn benderfynol. Crybwylla yn un o'i bregethau ddarfod i'r Duc Ormonde, anfon iddo swm mawr o arian, megis ag y gwnaeth Lofftus, Archegob Dilyn hefyd.

Cynygiodd Henry Cromwell, Llywodraethwr yr Iwerddon, iddo £100 yn flynyddol, os ymostyngai i'r Llywodraeth, ond efe a'u gwrthododd. Yn fuan wedi hyn efe a enciliodd i Gymru, sef i Llanllechid, lle bu mewn cyfyngder mawr dros 12 mlynedd, ac heb faddu dros £20 yn y flwyddyn, at ei gynul ei hun a'i weinidogion; ac y'i gorfodwyd i fyw ar dyddyn bychan o £2 10s., yn y flwyddyn, a gwerth pedair punt yn y flwyddyn o dir o'i eiddo ei hun, sef Trefeiliau, yn mhlwyf Llanrug, fel yr oedd yn is arno na Churad, ac ymborthai ar fara ceirch a llaeth enwyn. Gwisgai hefyd yn y dull mwyaf gwledig, a chyflawnai y goruchwylion mwyaf gwasaid, ac yn yr agwedd yma y gwelwyd ef gan *Genad* a ddaeth ar ei ol o'r Iwerddon. Yr oedd ganddo y pryd hwn gryman drain yn ei law, neu ar ei fraich, fel pe newydd fod ar y gorchwyl o gau un o adwyon Tyddyn du, neu'r Plas Ofa. Siomwyd y *Genad* yn aruthr wrth ei atebiad, sef "Fod yr esgob yn y ty pan oedd efe yno," ond ni ddaeth i feddwl y *Genad* y fath beth mai yr esgob oedd efe.

Yn y cyflwr truenus hwn y bu, nes aeth Siarl yr ail i Gaerwrangon. Ar y cyfleusdra cyntaf hwn marchogodd ar geffyl i Lundain, sef yn y flwyddyn 1659, i edrych am foddion i gyhoeddi ei *Great Antichrist*; ond methodd yn ei amcan, fel y bu gorfod arno ddychwelyd yn ol, ac ar y daith aeth ei geffyl yn gloff, fel y bu rhaid iddo gerdded o Daintsy, tua thrigain a deg o filltiroedd ar ei draed, a thywys ei farch.* Ond efe a orchfygodd ei holl brofedigaethau, ac wedi adferiad y brenin adferwyd ei holl ddyrchafiadau Eglwysig iddo yntau. Ac yn fuan wedi hyn, efe a ddychwelodd i'r Iwerddon. Glaniodd yno ar fore Sabboth, a phregethodd yn Eglwys St. Bride, ac efe oedd y cyntaf yn yr Iwerddon meddir, a arferodd weddio dros ei frenin.

Weithian efe a adfeddianodd ei Esgobaeth, ac a fu mewn cryn helynt gyda rhyw ddynion, oedd wedi meddianu pob peth a berthynai i'r Esgobaeth; a chan gynted ag y gwelodd arwyddion digonol o heddwch, cyfranodd tuagat adgyweirio Eglwys Gadeiriol St. Candice Kilkenny, bedwar cant ar ddeg o bunau. Rhoddodd gant a phedair a deugain o bunocdd am gloch iddi, a deugain punt er adgyweirio y clochdy; a rhoddodd £300 er adgyweirio y gangell yn nghyda'i ffenestri amryliw.

* James Wares Vol. i.

Yr oedd hefyd yn elusengar. Adeiladodd wyth o Elusendai i wyth o wragedd gweddwon tlodion, ac a'u gwaddolodd a'i dir *Fermogle*, yr hwn oedd yn werth £40 yn y flwyddyn. Mae y tai eto ar eu sylfeini, ond y waddoliaeth wedi myned i ddwylaw anwir. Rhoddodd £50 i tlodion St. Candice; a rhoddodd ei diroedd yn mhlwyf Bangor, Llanllechid, a'r Cyffin, a'i dir yn Nghonwy, i Ann, merch John Prys, am ei hoes, ac wedyn i tlodion y gwahanol blwyfydd, dan gyfarwyddyd eu gweinidogion dros byth.

Ei gymunrodd yn mhlwyf Llanllechid yn ol ei Ewyllys yr hon a ddyddiwyd Hydref 16, 1671, ydyw Plas Ofa yn ngyda'r Tyddyn du, a phedwar o aneddau arno, (oddieithr y ty wrth y lôn) a naw o gaeau bychain yn mesur tua deg cyfar a haner, ond wyth yw eu nifer heddyw. Y mae y cymunrodd hwn yn cael ei ranu bob dydd gwyl Domas dan gyfarwyddyd y gweinidogion a'r wardeniaid.

Dywedir ei fod yn wr addfwyn, caruaid, ac yn feddianol ar dymer rhagorol, ac yn wir wrth ystyried cynifer o beiriau y bu ynddynt, gallwn gredu ei fod erbyn diwedd ei oes yn weddol lan oddiwrth ei sorod. Yr oedd yn awdwr i tua 12 o lyfrau, a dywedir fod amryw o'r rhai hyny yn rhagorol.

Dywedir fod ei holl weithiau, i'w cael yn awr mewn un cyflyfr. Mae y prenau ffrwythog, ar ol eu hysgwyd gan wyntoedd y gauaf, yn rhoi cnwd rhagorol, felly yntau, y mae cynyrch ei feddwl yn werth i'r byd fel llawer eraill o'i gydoeswyr. Dywedir ei fod yn hannu o hen deulu Coetmor, Cochwillan, a'r Penrhyn. Er ei holl flinderau dwys, a'i drallodion, bu iddo wydnu byw am dair a phedwar ugain o flwyddi, a bu farw Mawrth 29, yn y flwyddyn 1672, a chladdwyd ef yn ochr ddeheuol Cancell Eglwys Gadeiriol St. Candice Kiikeny yn Iwerddon.*

William Williams, Llandegai, a anwyd yn mhlwyf Trefdraeth yn Mon, yn y flwyddyn 1788 yn mis Chwefror yr 17, yn ol yr hen gyfrif, yr hwn yn ol y cyfrif presenol sydd yn cyfateb i'r llo Fawrth. Saer maen oedd ei dad.

Rhoddwyd W. Williams yn yr ysgol gyda hen wraig o'r gymydgŵeth, a chyda hi y dysgodd lythyrenu ac ychydig ddarlennu, a dyma yr holl ysgol a gafodd o gwbl. Ysgritenodd ef ar ol hyny hanes yr hen feistres a'i gwr, ac yr oedd yn ddiweddar yn meddiant ei fab Edmund Williams, gan nad ymheffodd yn ngrefft ei dad, rhoddwyd ef yn brentis o Weydd, ond ni charai hyny ychwaith, ac aefonwyd ef at Gyfrwywr i Lanerchymedd, gyda yr hwn y bu yn egwyddorwas am 7 mlynedd. Dechreuai bryd hyn fyned yn mlaen o ddiwedd gyda ei efrydiaeth, a chadwai bob dimai i brynu llyfrau a chanuwillan. Aeth yn fuan yma i gyfeillach a H. Hughes (Bardd Coch), a Robert Hughes, Caint bach, a thwydddynt hwy y rhoddwyd ef ar ben y ffordd, ac yr aeth yn aelod o Gymdeithas Wyneddawg Llundain.

Tua y pryd hwn yr aeth yn gyfaill a Lewis Morys, o Fon, a'i frodyr. Wedi ymadael o Lanerchymedd, bu swm o amser heb wybod i ba le y troai ei wyneb, ac ni chai nemawr o waith tuagat ymgynnal yn y dyddiau marwaid hyny, meddylodd y pryd hwnw ganu yn iach i wlad ei dadau, a myned i'r America, ond cyn ei gychwybiad, ei dad a aeth at Williams Hughes, Goruchwyliwr yn y Penrhyn, i ymgynghori ag ef yn ei gylch.

* Gwel "Drych yr Amseroedd," a "Thaliesin," t. d, 27, Mai 1860, lle dangosir ei hanes yn helaeth.

Pan ddeallodd Hughes y medrai y gwr ieuanc ysgrifenu, archodd ei anfon ato ef, gan addaw ei gyflogi fel ysgrifenydd iddo ei hun, ac yn y modd hwn o dipyn i beth, y daeth i fod yn brif Oruchwyliwr Arglwydd Penrhyn, am ddegau o flynyddoedd, sef hyd ddiwedd ei oes. Priododd pan yn 27 mlwydd oed. Gan na feddai Mr Hughes, orchwyl gwastadol iddo, yr oedd yn angenrheidiol iddo tuagat gynaf ei deulu ymafiel mewn rhywbeth arall hefyd, ac felly cafwodd Faelfa Cyfrwywr yn mhentre Llandegai, a chadwai ei wraig a'i enethod werthfa melusion.

Yn yr amser hwn yr arferai fyned oddiamgylch i fesur tiroedd gwyr mawrion y wlad, ac aeth yn barchus yn fuan yn ngolwg y goreuon o hon- ynt, fel y cynygiwyd iddo Oruchwyliath Gwydir, wrth Llaurwst, ond yr oedd wedi gafael yn rhy dŷn yn y gwaith llechi, a'i berthynas a Chloddfa y Cae oedd yr adeg hynotaf ar ei oes, ac anrhyddedusaf Bu yn cymeryd y gwaith hwn gan Arglwydd y Penrhyn iddo ei hun am ryw hyd, pryd y rhoddodd gyngor i'w Arglwyddiaeth ei gweithio ei hun yn gwbl oll, ac o ddifrif, yr hyn a wnaeth yntau yn 1782; ac ar hyn rhoddodd Pennant nifer mawr o bobl i agor y Chwarel o hyn allan, ac yr oedd y gwaith yn cynyddu yn gyflym, fel pan yr aeth yn rhyfel rhyngom a Ffraince yn y flwyddyn 1793, y taflwyd agos i 600 o ddynion allan o waith.*

Pryd hyn y troes Arglwydd y Penrhyn y bobl i agor ffordd drwy Nant Ffrancon, ar yr ochr Orllewinol i'r Afon, ond am nad oedd ei gynllun yn gwbl wrth fodd y Llywodraeth, agorwyd hi yr ochr arall. Ar gefn W. W. y disgynodd yn gwbl y gofal am werthu y llechau, a thalu pob costau am eu gwneuthur, eu llwytho, a'u cludo yn y blynyddoedd cyntaf hyn, ac yn lle £80, byddai £50,000 yn myned trwy ei ddiwylaw yn flynyddol. Bu gan W. W. rywbeth i'w wneyd ag ystad y Penrhyn am 50 neu 52 o flwyddi, a 38 o rai prysur.

Yn ei holl Oruchwyliath, dywedir na chaed ynddo amryfusedd na bai. Parhaodd yn ffyddlaw fel hyn hyd 1803, pryd mewn rhan y rhoddodd ei le i syny, o herwydd ei afiechyd, a phenododd yr Arglwydd anrhyddedus dalwobr iddo am ei oes, ond ar ol marw ei Arglwyddiaeth ataliodd ei weddw yr haner o ldiwrtho.

Yn awr wedi ymneillduo o drafferthion ei swydd, ysgrifonodd fwy nag erioed o'r blaen. Cyfansoddodd ddau lyfr mawr yn Saesoneg yn rhoddi hanes am Fon ac Arfon. Cynygiodd hefyd gynorthwyo Mr. Malkin, pan ydoedd yn bwriadu argraphu "Hanes ei daith yn Ngwynedd," tebyg i'r hwn a ysgrifonodd ar y De. Benthyciodd Syr Richard Hoar ei Gyfran Hanesyddol ar Fon ac Arfon, ac a wnaeth ddefnyddio o honynt. Echwynwyd hwy yr un modd i Mr. Fenton, ond ni wyddys a argraphwyd eto† lafurwaith y gwr dysgedig hwnw. Hefyd yn yr amser hwn o seibiant yr ysgrifonodd "Prydnawngwaith y Cymry." Cyhoeddai ei "Observations on the Snowdon mountains" yn y flwyddyn 1802.

Amser W. W. erbyn hyn a nesaodd iddo i farw. Eglwyswr tangnefeddus a chydwybodol oedd efe, a chanddo barch mawr i unrhyw ddyn a gai efe yn ofui yr Arglwydd. Yr oedd yn Fardd da, yn Ddiwinydd gall-

* Argraphwyd yr hanes hwn gan ei fab E. Williams, yn 1838 yn y *Gwylieddydd*; yr hwn a gyfeirid mewn rhan at Gutyn Peris. † h.y. i wneud rhywbeth ar ystad y Penrhyn fedyddig

uog, a Hynafiaethydd rhagorol. Cyngorai lawer bob amser ar ei deulu, gweddiad drostynt, a rhoddai esiampl o fywyd duwiol iddynt. Mab tang-nefedd oedd efe, a chanddo hyder am drugaredd Duw yn Nghrist, wed y rhoddai heibio frathau marwoldeb, yr hyn a wnaeth ar yr 17, o fis Gorphenaf 1817, yn 80 mlwydd oed; a chanodd Gutyn Peris, farwnad teimladol iawn ar ei ol. Ymddengys i Pennant o'r Downig fod mewn cryn gyfeillach ag ef, ac y mae peth o waith yr hen feirdd Cymreig yn y "Twr," wedi ei droi i'r Saesoneg gan W. W. Oni bai ei fod yn un o brif oraclau y plwyfi hyn ryw 90 o flwyddi yn ol, ni buasai yn weddus ysgrifenu cymaint am dano. Yr oedd ef a'i deulu yn hynod o barchus, ac felly ymaent eto, amryw o ba rai ydynt fyth yn troi mewn cylchoedd anrhydeddus yn y byd. Dyma fel y can Gutyn iddo,

Diachlud Olyw'r aichlyr:—hyglod

O dan Arglwydd Penrhyn;

Fu ef—a phau fal clyd

Parai dda i bob rhyw ddyn.

Gruffydd Williams, (Gutyn Peris), er yn enedigol o Lanberis, a fu yma yn gweithio yn Ngloddfa y cae; ac ar ol hyny, bu yn ysgrifenydd (marciwr) am oddeutu 40 mlynedd; sef o'r 1796 hyd 1836. Ystyrid Gutyn gan bawb yn fardd darluniadol, ac yn meddu iaith dda, a chwaeth goeth. Argraphodd lyfr o'i waith a alwai yn "Ffrwyth Awen," yn Nrhefriw yn y flwyddyn 1816, yr hwn a gostiai 2s., mewn papur; a byddai yn hawdd ychwanegu ato gymaint arall o'i ganeuon y rhai ydynt ar wasgar.

Gwnaeth Gutyn *Ramadeg Cymraeg*, yr hwn sydd yn gorwedd yn ei ysgrif eto; a darfu i W. Hughes, o Fangor, (Gwilym Môn), wneyd cytundeb, a Hugh Gruffydd, mab yr hen Fardd am dano, ond er iddo ei gael i law, a bwriadu ei agraphu. efe a aeth i Awstralia i chwilio am aur, ac felly yr esgeuluswyd cyhoeddiad y *Ramadeg* hyd yn hyn.

Pan ddaeth Rheithoreg Gwilym Salesbury allan o'r wasg, cymerodd Gutyn oddeutu 60 copi o honnynt ei hunan, a phan ddaeth Jonathan Hughes o Bengwern, ger Llangollen heibio, a'i lyfr yntau gydag ef, mewn sách ledr ar gefn geffyl, cymerodd Gruffydd werth £7 o honnynt i law ei hun, ac fel hyn yr oedd yn gennogydd flyddlawn i lenyddiaeth yn mhob rhan. Llettyodd Bardd Pengwern am neson gydag ef, a'r bore wrth fyned ymaith aeth Gruffydd i'w anfor tua'r Benglog, ac wrth weled Gruffydd yn ei ganlyn ar ei draed, disgynodd o'r wr gan ddymuno ar Gruffydd tyned i "ffogeth" (Fiorchogaeth) tipyn beib yn ail, ac am y gair hwn, y chwarddodd Gruffydd ar hyd ei oes wrth ardd yr hanes.

Rywbydd cyn y flwyddyn 1805, yr oedd Robert Edward (Robin Ddu o Feinion), yn gweithio yn Nhref y garth, gyda Robert Hughes, Gweydd, oblegid gweydd oedd Fardd Du hefyd, a byddai bob amser y gallai yn dyfod i gymdeithasu a chynydd, oblegid yr oeddynt yn gyfeillion calon i'w gilydd. Ciywais bus Williams yn dywedyd na welodd hi erioed mo Gruffydd yn aros ar i'w gilydd, os gyda neb, ond Robin Ddu, a phan fu y bardd ieuange hwn a'w, oedd y Brawd y Braich Englynion teimladwy iawn ar ei ol. Byddai y bardd yn hwn hefyd yn pregethu, am yr hyn y dywedai Gruffydd,

Ar ei ol ef yr elai,

Llu o bobl i'r lle y bai.*

* Gwel *Ffrwyth Awen*, t. d. 93.

A bu y "Du," yn dadleu yn gyhoeddus ar esgynlawr yn Llundain, ag Atheist, ac ymddangosodd sylwedd ei resymau yn y ddadl, yn y "Dysgedydd" wedi hyny, ond nid ydys yn cofio pa flwyddyn.

Yr oedd Gruffydd Williams yn fardd ariandlysog, cafodd gwpan arian am yr Awdl oreu ar y "Jubili," Hydref 25, 1809; sef y 50 flwyddyn o Deyrasiad Sior III. Yr oedd yn ail helyd ar yr Awdl oreu i "Rothsay Castle," yn Beaumaris, lle yr oedd Brenhines bresenol Prydain Fawr, a'i mham, sef Duces Caint yn wyddfoddol, y rhai a ddyblasant wobr yr Eisteddfod, a chafodd Gutyn hefyd yr anrhydedd gydag eraill o dderbyn tlws am ei wddf o'r dwylaw Brenhinol. Gwel t. d. 80.

John William Thomas (Arfonwyson), a anwyd yn Allt Isaf, Pentir, plwyf Bangor, yn 1805. Pan yn saith oed, anfonwyd ef i ysgol Pentir, lle bu am oddeutu tair blynedd. Bu hefyd yn ysgol Llandegai. Un hynod ydoedd am ei amynedd a'i ddyfalbarad i ddysgu, a pheth bychan iawn yn ei olwg medd ei frawd, oedd colli noson neu ddwy o gysgu yn yr wythnos, pan fyddai am feistrolï rhyw *dâs*g. Rhoddai amynedd a phenderfyniad iddo fuddugoliaeth ar ba beth bynag yr ymgymerei ag ef. Yn 1822 ymgymerodd a'r gorchwyl o gario llyfrau, yr hyn a roddai iddo fwy o hamdden i fyfyrïo; ac yn y flwyddyn ganlynol rhoddodd ei hun am dri mis, tan ofal y diweddar R. R. Caergybi. Wedi hyny dychwelodd i'w fro yn ol, a bu yn cadw ysgol yn Nhy'n y clawdd, yn mhilwyf Llandegai. Yma ar anogaeth ei gydwladyr, dechreuodd ysgrifenu "Elfenau Rhifyddiaeth," ac "Athraw i'r Cymro Ieuanc," o'r rhai ni chyhoeddwyd ond ychydig rifynau, a hyny tua 1831-2. Yn 1834, cyhoeddodd "Eiriadur Cymreig a Seisoneg," ac oddeutu yr un pryd efe a olygai gylchgrawn o'r enw "Tywysog Cymru." Ymbriododd a Chathrine, merch John Williams, Tai tailwriad, yn y plwyf uchod, a bu ganddynt blant. Tua diwedd 1834, symudodd i Lundain, lle bu am rai misoedd yn ngwasanaeth yn enwog W. Cobbett, A. S. Yn fuan wedyn cafodd ddrws agored i'r Arsyllfa Freninol yn Greenwich, lle yr oedd yr enwog Ddr. Herschel, ac yn fuan cafodd fyned yn Arolygwr y lle. Yma hyd ydys yn gofio y cyhoeddodd "Drysorfa yr Athrawon." Pan oedd yma ar yr ysgol yn prysur ddringo ffyn derchafiad, bu farw yn ebrwydd o dor-calon o herwydd y biliau yr aethai iddynt, wrth gyhoeddi ei lyfrau ar gais ei gydwladyr, ac yntau heb allu i dalu. Cymerodd hyn le y 10 o Fawrth 1840, a chladdwyd ef yn Mynwent blwyfol Greenwich. Mae dau frawd iddo, Meistri Morris a Gruffydd yn fyw eto.

LIST OF SUBSCRIBERS.

- The Right Reverend James Colquhoun, Lord**
Bishop of Bangor, 4 copies
- The Right Reverend Connop Thirlwall, Lord**
Bishop of St. David, 2 copies.
- The Very Reverend H. Vincent, Dean of**
Bangor.
- The Right Honourable Lord Penrhyn, 24**
copies.
- Ambrose, Rev. W. (Emrys), Portmadoc.**
Atkinson, Esq., John, Wieg, 2 copies.
- Barnwell, Rev. E. L. 39, Great Queen St.**
Lincoln's Inn Field, London, 2
- Brees, Mr. Robert Registrar, Bethesda 2 copies**
- Charles, M. A., Rev. D. Abercarn.**
- Davies, Rev. Evan, Shiloh, Tregarth.**
- Davies, Mr. Morris 7, Brynteg Terrace, Upper**
Bangor.
- Davies, " John, Schoolmaster, Bodfeirig.**
- Davies, " Richard, Braich gwar.**
- Davies, " John, Pen y benglog.**
- Davies, " David, Llwyn Onn.**
- Davies, " T. E. Printer, Bethesda.**
- Davies, " W. 12, Mount Joy St. Liverpool.**
- Davies, " John Prvs. Deiniolen. B.S.**
- Davies, " Morris, Quarry.**
- Davies, Mrs. Janet, Vronhetlog, Llandjerfel.**
2 copies
- Davies, Mr. John, (Gwynedd Inn), Bangor**
- Davies, " John Manager Gaewern S. Quarry**
Corris.
- Davies, " David, Princess, Terrace, Cae-**
llwyngrydd.
- Davies, " Richard, Brynteg, Bethesda.**
- Davies, " Richard, Penrh-w Villa, 2 copies.**
- Davies, " David, Frondeg Quarry.**
- Davies, " William, 29, Hauleck St. Texteth**
Park, Liverpool
- Edwards, Rev. Lewis, D. D. Bala**
- Edwards, Mr. Robert, Ty I-a, Llandderfel**
- Edwards " J. Upper Bangor.**
- Edwards, " Richard, Gatehouse.**
- Edwards, " Thomas, Fron der St., Bangor**
- Edwards, " Griffith, Bethesda**
- Edwards, " John, Barber Bethesda, 2 copies.**
- Ellis, Mr. David, Butcher Bethesda**
- Ellis, Humphrey Esq. Cefnfaes,**
- Ellis, Mr. Owen, George & Dragon, Talybont**
- Ellis, Rev. Robert, (Cynddelw), Carnarvon**
- Evans, Rev. John, M. A. Llanllechid, 2 copies**
- Evans, Mr. Daniel, Tal y bont, 2 copies**
- Evans, " William, Giffach, Llanllechid.**
- Evans, Rev. John, Ffrwdgaled, Tregarth**
- Evans, Mr. Owen, Machine**
- Evans, " John Pen y bryn, Bethesda.**
- Evans, Mrs. Sara, Shop Gerlan**
- Evans, Miss J. Pennant Hall, Llanbrynmair.**
- Evans, Mr. Henry, Talgao.**
- Francis, John, Esq. Brynderwen.**
- Foulkes, Mr. Isaac, Peter's Lane, Liverpool.**
- Griffiths, Mr. M. N. School, Llanrhos Conway**
- Griffiths, Rev. William,**
- Griffiths, Mr. William, Henfaes, Aber**
- Griffiths, R. M. Esq. Bank of England, Ban-**
gor, 6 copies.
- Griffiths, Mr. David, Garneddwen, 12 copies**
- Griffiths, " W. Bron y Clydwr, Bethesda.**
- Griffiths, " O. Caellwyngrydd 4 copies**
- Griffiths, " John, Bryncoed**
- Griffiths, " William, Cefnfaes, Aber**
- Griffiths, " William, Clerk, Bryn Hafod y**
Wern Quarry.
- Glyn, " William Brewery, Pethesda.**
- Herbert Rev. William, Tan y maes**
- Hughes, " D. B. A. Fredegar,**
- Hughes, Mr. William B. tcher, Bethesda**
- Hughes, " Robert (Robin Wyn), Bangor.**
2 copies
- Hughes, Dr Hugh, Bethesda.**
- Hughes, Mr. Hugh, Coed y park**
- Hughes, " Michael, Pen y groes Llandegai.**
- Hughes, " H. J. Douglas Arms, Bethesda.**
- Hughes, " I. Pen dref, Llanfyllin. 6 copies**
- Hughes, " John, Farrier, Hirdir**
- Hughes, " Henry, (late of Pendinas) Middle**
Granville, U. S. 24 copies.
- Hughes, " Richard, Aberogwen**
- Hughes, " William, Ty'n Twr**
- Hughes, Miss Grace, Aberogwen**
- Hughes, Mr. Richard, Carpenter, Bryn llwyd**
- Hughes, " T. Relieving Officer Bethesda.**
- Hughes, " John, Glan y Gors**
- Hughes, " Hugh, Bontuchaf, Bethesda**
- Hughes, " William, Hendurupike.**
- Hughes, " John, Carez y Gath, Rhiwlas.**
- Hughes, " New Cloth Hall, Bethesda.**
- Hughes, " R. Bookseller, Llandinorwic 6**
copies.
- Horn, Mr. B. Flour Merchant, Bethesda.**
- Horn, " R. Flour Merchant, Rachub**
- Hewells, Mr. W. Schoolmaster, Glangogwen.**
- Humphreys, Rev. R. B. A. P. C. Capel Curig.**
- Humphreys, Mr. Pirs, Tal y bont Llanllechid**
- Humphreys, " David W. Bontuchaf.**
- Humphreys, " John, Mynydd Llandegai.**
- James, Rev. G. Baptist Minister Bethesda.**
- Jones, " William Tal y sarn.**
- Jones, " H. Longeville, Editor of the**
Archaeologia Cambrensis.
- Jones, " O. Bodowen, Llandudno, 5 copies**
- Jones, " David, Treborth.**
- Jones, " John, (Vulcan)**
- Jones, " Owen, Talywaen.**
- Jones, " John, Penmachno 2 copies.**
- Jones, " Griffith, Tregarth.**
- Jones, " David, (Dewi Arfon), Clynog.**

- Jones, Rev. David Lloyd Tal y sarn.
 Jones, " O. Wynne, F. S. H. S. (Glasynys).
 Jones, " Rees, Felinheli.
 Jones, " William, Brynsiencyn
 Jones, " John, Hen gapel
 Jones, " Owen, Maescaradog.
 Jones, Mr. Edward, Printer, Bethesda
 Jones, " R. Pen y bryn, Bethesda, 8 copies.
 Jones, Rev. Robert, Llystyn Bryniau Alm
 Jones, Mr. William, Pen y grisiau, Bont uchaf
 Jones, " Robert, Agent Ty mawr Llanillyfni.
 Jones, " Robert, R. Tyddyn elen.
 Jones, " Owen, Gallt y foel, Llandinorwig.
 Jones, " Benjamin, Taiduon.
 Jones, " John, Supt of Police, Bangor.
 Jones, " William, Agent, Quarry
 Jones, " Owen, Tan ysgrafell.
 Jones, " Moses, Coed y park
 Jones, " David Thomas, Bryn llys.
 Jones, " John, Hen durnpike.
 Jones, Mrs. Ann, Brynbela.
 Jones, Mr. William, Sling.
 Jones, " H. B. (Garmonydd). Carneddi.
 Jones, " John, Ty mŵn, Llanllechid.
 Jones, " Griffiths, Pen y groes.
 Jones, " John, Watchmaker, Bethesda.
 Jones, " John, Policeman, Bangor.
 Jones, " Richard, Tyddynisaf, 2 copies
 Jones, " John, Talybont.
 Jones, " Joseph Blaksmith, Quarry
 Jones, " William Caellwynrydd.
 Jones, " Ellis, Cefn cwlyn, Braich melyn.
 Jones, " John Aber caseg.
 Jones, " Edward, B. S. Rachub.
 Jones, " Edward Tan y fron Caellwynrydd.
 Jones, " Joseph Dol helyg, 6 copies.
 Jones, " Morris, Dol goch.
 Jones, " Robert Glan r'afon, Bont uchaf.
 Jones, " Rowland, Hen durnpipe
 Jones, " Griffith Upper Bangor.
 Jones, " Richard, Bryn llys.
 Jones, " William, Menai Bridge.
 Jones, " William Pen y bryn.
 Jones, " John Rowland, Lletty'r bwgan.
 Jones, " Evan Lloyd Bethesda.
 Jones, " John Owen Gatehouse,
 Jones, " H. S. Manufacturer, Llangollen.
 Jones, " J. Gwern pandy Aber, 6 copies.
 Jones, " Hugh, Chwarel goch.
 Jones, " Griffith Corris slate Quarry.
 Jones, " William N. S. Ty'n twr.
 Jones, " John, Bookseller Bethesda
 Jones, " William, Caellwynrydd.
 Jones, " Benjamin Coed y park.
 Jones, " Richard Abercaseg.
 Jones, " Hugh Bryn castell, 7 copies.
 Jones, " W. Maesmor House, Llangollen 3 copies.
 Jones, " John Ty mawr, Pen y groes.
 Jones, " William, Hen durnpike.
 Jones, " Hugh Clochydd, Llandegai.
 Jones, " Thomas Organist, Llandegai.
 Jones, " John Ffrwd galed.
 Jones, " R. New Cloth Hall Bethesda
 Jones, " John, Rhyd-ddu, 3 copies.
- Jones, Mr. Ellis Pentre, Nant Ffrancon.
 Jones, " Thomas Cottage, Port Penrhyn.
 Jones, " P. National School, Penmachno.
 Jones, " Humphrey Glan meirig.
 Jones, " Moses, Ty'n lldiart
 Jones, " Robert Shop, Cilgeraint.
 Jones, " William Bryn twrw.
 Jones, " William, Victoria House, Bangor
 Jones, " John Yard, Malldraeth.
 Jones, " W. Glan r'afon, Gallt y foel.
 Jones, " David, Shop Llanllechid.
- Kirkham Mr. J. (Iago Wyn Tegai) Liverpool
 3 copies.
 Knowles, Mr. Thomas Pen y bryn, Bethesda
- Lewis, Mr. Owen Quarry, 6 copies.
 Lloyd, " David, Bryn llys, 2 copies
 Lloyd, " R. Shop Douglas Hill,
 Lloyd, " Robert Cilgeraint.
 Lloyd, " Evan Bethesda.
- Morgan, Rev. W. M. A. Llandegai 2 copies.
 Morgan, " John, Glanogwen, Bethesda
 Morris, " David, Bontnewydd.
- Owen, Rev. John, Hermon, Ffynon bach
 Owen, Mr. H. (Eos Tegai), Secretary Queen
 Building Society.
- Owen, " Hugh Post master, Bethesda.
 Owens, " O. Pentre uchaf, Llanfairfechan
 Owens, " Henry Pena'r brorydd.
 Owens, " Elias, N. S. Rachub. 2 copies.
 Owens, " F. H., N. S. Glanogwen 2 copies
 Owens, " David Talybont.
 Owens, " David Bethesda.
 Owens, " Owen, Nant y graen.
 Owens, " Robert Carneddi.
 Owens, " John B. S. Blaenau Ffestinog.
 Owens, " John Clynog School.
 Owens, " Robert, Sling
 Owens, " E. National School, Glanogwen
 Owens, " John Doctor, Pant y Frydyas.
- Parry, Mr. William Cilfoden.
 Parry, Mrs. Ann Bodwrog, (late of Pendinas)
 Wisconsin, U. S. 12 copies.
 Parry, Mr. Robert Port Penrhyn.
 Parry, " Thomas, Bod difyr, Bangor.
 Parry, " Henry, Cae'r chwarel, 57 Cae-
 llwynrydd.
 Parry, " Robert, Ffrwd galed Tregarth.
 Parry, " William, Yard Quarry.
 Parry, " John, Tregarth.
 Parry, " Bookseller, Bangor.
 Price, " John, Normal College, Bangor
 Prichard, Mr. Richard, Tan y brynau.
 Prichard, " Richard D. Maes Caradog.
 Prichard, " H. Iynydd Lldiart Gwenyn,
 Prichard, " William, Bethesda.
 Prichard, " William, Hendurnpike.
 Prichard, " David, Bryn hyfryd, Tregarth
 Prichard, " Edward, Mynydd Llandegai.
 Prichard, " T. Tai newyddion, Llandegai.
 Pierce, " Owen, Talybont.

- Philips, Rev. J. Principal N. College, Bangor
- Roberts, Rev. William, Abergele, 2 copies.
- Roberts, " Robert, Carneddi.
- Roberts, " Samuel, Bangor.
- Roberts, " John, (Ieuan Gwyllt), Llanberis
- Roberts, " Hugh, Corris, 6 copies.
- Roberts, Mr. W. Plasterer, Llanfairfechan
- Roberts, " David, Taiduon, 6 copies
- Roberts, " G. New Cottage, Pen y groes.
- Roberts, " William, Ceryg llwydion.
- Roberts, " Robert, Talgae.
- Roberts, " Griffith 37 Pen y bryn, Bethesda.
- Roberts, " W. North Parade, Llanfairfechan.
- Roberts, " Henry, Mynydd Llandegai.
- Roberts, " Hugh, Pant-y-radd Tregarth.
- Roberts, " Robert, Tregarth.
- Roberts, " Ellis, Schoolmaster Aberystwyth
- Roberts, " William, Gwaen y gwail.
- Roberts, " Hugh, Hirdir
- Roberts, " M. Chemist & Druggist, Bangor
- Roberts, " Joseph, Wrexham, 12 copies
- Roberts, " Richard, Mynydd Llandegai
- Roberts, " Robert, Blacksmith, Quarry
- Roberts, " William, Corbri, Llanllechid
- Roberts, " Robert, Caelliwyngrydd
- Roberts, " John, Bradford House Bangor
- Roberts, " Thomas, Fron deg, Llandegai
- Roberts, " Thomas, Park
- Roberts, " John, Coed hywel, Glasinfryn
- Roberts, " Evan, Shop, Carneddi
- Roberts, " Robert, Bont uchaf, Bethesda
- Roberts, Hamilton Alfred Esq Bryn Meirig
- Roberts, " John, 47 Hill St. Upper Bangor
- Roberts, " Richard, Taior, Glasinfryn.
- Roberts, " William, Ty'nlon
- Roberts, " William, Bryn Trec, Capel Curig
- Rowlands, " Griffith, Grisiau Cochion
- Rowlands, " R. Grisiau Cochion, 6 copies
- Stephen Rev. E. Tan y marian
- Senner, " John, Beth-sala.
- Summers, Mr. Elias, Engine Driver, Quarry
- Thomas, Rev. David, M. A. St. Ann's
- Thomas, " Josiah, M. A. Bangor
- Thomas, " Mes s. Llaneg
- Thomas, Mr. John, Shop Llandderfel
- Thomas, " John, Machiner, 6 copies
- Thomas, " Evan W. Organist, St. Ann's
- Thomas, " Morris, Wilm.
- Thomas, " David, (Pardd), Glasinfryn
- Thomas, Thomas, Esq. Pen-lon Israel
- Thomas, Mr. John, Quarrymen
- Thomas, Mrs. A. Couch & Sons, Bethesda
- Thomas, Mr. E. Pant y gwair, Llanllechid
- Thomas, " Huzo, Llandart y dŵr
- Thomas, " Joseph, Junior, Tregarth
- Thomas, " William E. Ceryg llwydion
- Thomas, " David John, Junior, Bethesda
- Thomas, " Robert, Cefn Cwlyn
- Thomas, " Rhys, Draper, Llanllechid
- Thomas, " E. Clerk Quarry, Deuon deg
- Thomas, " H. Cetmen, Mynydd Llandegai
- Thomas, Mr. Owen, Cefn Plas pistyll
- Thomas, " David, Shop, Pont y tŵr
- Thomas, " John, Pant
- Thomas, " Owen, Blaksmith, Brynllwyd
- Thomas, " O. Glan 'rafon, M. Llandegai
- Williams, Rev. R. (Hwfa Môn), Dolawen
- Williams, " William, Capel Curig
- Williams, " R. Rectory Llanfaelog, Mōh
- Williams, " John, Gatehouse
- Williams, " W. Fron hyfryd, Corwen
- Williams, " William, Shop, Llanbabo
- Williams, Mr. William, Coed y park
- Williams, " Benjamin, Ffynon bach
- Williams, " Eleazer, Bryn col
- Williams, " G. (Jutyn Eryri), Craig pandy
- Williams, " Richard, Llwybr main
- Williams, " Robert, Tan y sgrafell
- Williams, " H Penrhiw Villa, Braich melyn
- Williams, " William, Slate Mill Cottage
- Williams, " William, Bodferig
- Williams, " Richard, Draper Bethesda
- Williams, " John, Butcher Ogwen Terrace
- Williams, " Owen, Baker Bethesda
- Williams, " J. Talybont, 6 copies
- Williams, " Thomas, (Eos Geraint)
- Williams, " E. P. Queen's Head, Bethesda
- Williams, " Hugh, Pen y graig, Bethesda
- Williams, " T. Castle View Terrace Bangor
- Williams, " H. Glan 'rafon, M. Llandegai
- Williams, " Eleazer, Penrhyn Mills
- Williams, " Hugh, Pen ar bronydd
- Williams, " Griffith, Machiner, Ffestiniog
- Williams, " Richard, 13 Garta Road Bangor
- Williams, " John, Ffwrda galed, Tregarth
- Williams, " Richard, Llanau Ffestiniog
- Williams, " James, Grocer, Bethesda
- Williams, " David, Ty Slatas
- Williams, " John, Glan Meirig
- Williams, " R. Agent Rhywbryddir, Ffestiniog, 6 copies
- Williams, " Humphrey, Pont y wern
- Williams, " O. Cae certh, Llandinorwig
- Williams, " O. Pen dyfryn, Llandinorwig.
- Williams, Miss Mary, Pen dmas, 6 copies
- Williams, Mr. John, Llwybr main
- Williams, " Robert, Coed y park
- Williams, " David, Grocer, Rachub
- Williams, " John, Hirdir
- Williams, " M. Junior Ogwen Terrace
- Williams, " H. (Alaw Llechid) Glanogwen
- Williams, " William O. Bodferig
- Williams, " John Owes, Hendurmpike
- Williams, " John, Capel Cwta
- Williams, " Elias Bronydd Llanllechid
- Williams, " John Tan yr Hirdir
- Williams, " Robert, Waterloo, Fethesda
- Williams, " E. H. Esq. N. P. Bank of England, Newcastle Emlyn
- Williams, " Robert, Coed y park
- Williams, " Richard, Caelliwyngrydd
- Williams, " John, Rhos uchaf Llandegai
- West, Mr. Ty mawr, Llanllyfai
- Wynne, Miss C. National School, Llandegai.





This book should be returned to
the Library on or before the last date
stamped below.

A fine of five cents a day is incurred
by retaining it beyond the specified
time.

Please return promptly.

